Cardiff University
Prifysgol Caerdydd



# 2023
## Prifysgol Caerdydd Prosbectws i **Israddedigion**

caerdydd.ac.uk

# Croeso

## gan brifysgol flaenllaw . . .

# Croeso



Rydym yn falch o fod yr unig brifysgol yng Nghymru sydd yng **Ngrŵp Russell**

Prifysgol ryngwladol gyda myfyrwyr o dros **120** o wledydd

**"Mae gan Gaerdydd enw da. Rwy'n cofio cael fy syfrdanu gan y cyfleusterau yma a chael fy nghyffroi gan faint o ddewis a roddir ichi o ran dewis modiwlau. I mi, mae Caerdydd yn gymysgedd perffaith o le mawr a chyffrous ond lle sy'n teimlo'n ddiogel ac yn gartrefol hefyd."**

Phoebe, Gwyddorau Biofeddygol, 2020



Drwy roi pwyslais ar greadigrwydd a chwilfrydedd, ein nod yw cyflawni ein rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru a'r byd.



Ymhlith y **5 prifysgol orau** yn y DU am ansawdd ei hymchwil

**Ffynhonnell: Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gweler tudalen 18**



**96%**
canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu’n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs*

Ffynhonnell: Arolwg diweddaraf Hynt Graddedigion 2018/19 gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn 2021
* Gweler tudalen 40

**"Dewisais Gaerdydd am ei bod yn teimlo'n iawn. Hwn oedd y diwrnod agored cyntaf imi fynd iddo, a hyd yn oed ar yr ymweliad cyntaf hwnnw, roeddwn i'n hoff iawn o awyrgylch y ddinas, ac eisoes yn teimlo’n gartrefol."**

Ellie, Newyddiaduraeth



# Helo!

**Mae'n bleser gennyf eich cyflwyno i Brifysgol Caerdydd. Mae dewis y brifysgol iawn yn benderfyniad mawr ac mae'n bwysig eich bod chi'n dewis yr un sy'n addas i chi.**

Mae ein prosbectws yn disgrifio sut brofiad yw bod yn fyfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd yng ngeiriau'r bobl sy'n ei hadnabod orau - ein myfyrwyr, cyfredol a chynt, a staff. Fodd bynnag, hyn a hyn yn unig y gall prosbectws ei ddweud. Y ffordd orau i weld sut beth yw bywyd ym Mhrifysgol Caerdydd yw dod draw a gweld dros eich hun. Beth bynnag y dewiswch, dymunwn bob llwyddiant ichi gyda'ch astudiaethau.

**Yr Athro Colin Riordan**
Llywydd ac Is-Ganghellor

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhesymau dros garu Caerdydd | 4 |
| Prifddinas | 8 |
| Prifysgol flaenllaw | 12 |
| Adeiladu prifysgol lwyddiannus | 16 |
| Ymhlith meddyliau gwych | 18 |
| Addysgu a arweinir gan ymchwil | 19 |
| Llwyddiant graddedigion | 20 |
| Gyrfaoedd a chyflogadwyedd | 22 |
| Barod i gychwyn, barod i grwydro | 24 |
| Byw yng Nghaerdydd | 26 |
| Dewch i gwrdd â’n myfyrwyr... | 29 |
| Gwasanaethau i fyfyrwyr | 30 |
| Undeb y Myfyrwyr | 32 |
| Chwaraeon | 34 |
| Myfyrwyr o bedwar ban byd | 36 |
| Lleoliad – mapiau’r campws | 38 |
| **Rhaglenni gradd** yn ôl ysgol academaidd | **40** |
| **Rhagor o wybodaeth** (gan gynnwys gwybodaeth am wneud cais a ffioedd) | **144** |
| **Mynegai cyffredinol** | **154** |
| **Mynegai pynciau gradd** | **154** |


O achos pandemig parhaus COVID-19, gallai fod angen i rai o’n trefniadau addysgu, dysgu ac ymchwil a’n gwasanaethau newid ar fyr rybudd i ofalu ein bod yn cadw at ganllawiau gwladol perthnasol.

Mae rhagor ar ein gwefan ynghylch sut y gall unrhyw newidiadau effeithio ar eich astudiaethau ym mlwyddyn academaidd 2023-24.

# ... mewn prifddinas ddeniadol a chyfeillgar.

Caerdydd
**oedd y 4edd**
ddinas fwyaf fforddiadwy o ran costau rhent misol ymhlith dinasoedd prifysgolion y DU.

**Ffynhonnell: Mynegai NatWest ar gyfer Costau Byw Myfyrwyr 2021**

“Mae Caerdydd yn brifddinas ffyniannus a deniadol, sy'n cael ei chydnabod yn eang fel lle neilltuol o dda i fyw.”

**Ffynhonnell: Complete University Guide 2019**



**"Mae Caerdydd wedi'i hamgylchynu gan olygfeydd cwbl syfrdanol. Mae yng nghanol popeth ac mae ei chysylltiadau trafnidiaeth mor dda fel y gallwch chi fynd i bobman ac unrhyw le rydych chi ei eisiau."**

Zoe, Biowyddorau

Stonewall
HYRWYDDWYR AMRYWIAETH BYD-EANG
GLOBAL DIVERSITY CHAMPION

Mae Prifysgol Caerdydd wedi **ymrwymo** i greu a chynnal amgylched croesawgar, cynhwysol, hygyrch a chyfeillgar.

Dewiswch o blith **dros 260 o** glybiau chwaraeon a chymdeithasau myfyrwyr.



**Diogel** a **chlos:** eich anghenion astudio, byw a hamdden ar gael o fewn pellter cerdded.

## Dewch i ymweld â ni ar Ddiwrnod Agored

Mae dewis y brifysgol gywir yn benderfyniad pwysig. Cyn gwneud eich dewisiadau ar gyfer eich cais terfynol, fe'ch cynghorir i fynd i Ddiwrnod Agored - lle gallwch weld dros eich hun sut beth yw astudio a byw yng Nghaerdydd.

Cewch gwrdd â'n staff a'n myfyrwyr, cael rhagor o wybodaeth am ein hystod eang o gyrsiau, crwydro o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau, a gweld dros eich hun bopeth sydd gan Gaerdydd i'w gynnig.

Cewch ragor o wybodaeth yma:
**www.caerdydd.ac.uk/cy/openday**
Ffôn: **029 2087 4455**
Ebost: **enquiry@caerdydd.ac.uk**





Pan ymwelais â Chaerdydd am y tro cyntaf ar gyfer diwrnod agored, syrthiais mewn cariad â'r ddinas yn syth. Roeddwn i'n gwybod ei fod yn rhywle y gallwn ddychmygu fy hun yn byw ac yn astudio yno. Roedd pawb y gwnes i gwrdd â nhw ar y diwrnod agored mor gyfeillgar a chroesawgar, ac fe wnaeth yr awyrgylch ar draws y campws argraff fawr arna i.

**Kate,** Saesneg Iaith ac Ieithyddiaeth (BA)

## Siaradwch â rhai o'n myfyrwyr presennol

Oes gennych chi gwestiwn am fywyd myfyrwyr, cwrs penodol neu sut brofiad yw byw ac astudio yng Nghaerdydd? Mae ein tîm o lysgenhadon myfyrwyr UniBuddy wrth law trwy gydol y dydd i'ch rhoi chi ar ben ffordd!

Cysylltwch â nhw ar-lein i gael yr atebion i bopeth rydych chi angen ei wybod.

**Ewch i https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/chat-to-our-students**

# Rhesymau dros garu Caerdydd



01

## Y brifddinas yw ein campws


Mae Prifysgol Caerdydd wrth galon prifddinas ffyniannus sy'n tyfu.

O fonllefau cefnogwyr y tîm cartref yn gwylio rygbi yn Stadiwm Principality, i heulwen Bae Caerdydd, mae prifddinas Cymru yr un mor adnabyddus am ei balchder cenedlaethol â'i chroeso cynnes i bob ymwelydd.

Reasons to love Cardiff

Mae ein myfyrwyr yn gwirioni ar Gaerdydd.
Beth sy'n gwneud prifddinas Cymru mor ddeniadol?

Cewch ragor o wybodaeth yn:
**www.cardiff.ac.uk/reasons**



# 02

## Ymchwil o safon fyd-eang

Mae Caerdydd ymhlith haen uchaf prifysgolion ymchwil Prydain ac yn aelod o Grŵp Russell o Brifysgolion, sy'n uchel eu bri. Gosodwyd y Brifysgol yn ail yn genedlaethol am effaith ymchwil, ac ymhlith y pump uchaf am ragoriaeth ymchwil yn y DU.

Rydym wedi ennill saith Gwobr Pen-blwydd y Frenhines (sy'n cydnabod rhagoriaeth fyd-eang mewn Addysg Uwch yn y DU) ac rydym yn gartref i garfan enfawr o staff nodedig, gan gynnwys dau enillydd Gwobr Nobel a 13 o Gymrodyr y Gymdeithas Frenhinol.


Jamie Roberts (MBBCh 2013)


Susanna Reid (PgDip 1993, Anrh 2015)

# 03

## Ein cyn-fyfyrwyr disglair

O wleidyddion a newyddiadurwyr i wyddonwyr ac arloeswyr - mae llawer o wynebau cyfarwydd wedi rhodio coridorau Caerdydd. Mae ein cyn-fyfyrwyr yn cynnwys darlledwyr y BBC, Huw Edwards, Jason Mohammad a Susanna Reid; Bardd Cenedlaethol Cymru gynt, Gillian Clarke; sylfaenydd Money Saving Expert a'r newyddiadurwr, Martin Lewis OBE; yr academydd, yr awdur a'r darlledwr, yr Athro Alice Roberts; a llawer mwy. Mae ein Cymrodyr er Anrhydedd yn cynnwys Syr Patrick Stewart, Stephen Fry a Carol Vorderman.


Martin Lewis (PGDip 1998)

# 04

## Addysgu a chyflogadwyedd o'r radd flaenaf

Mae'n anodd peidio â theimlo'r cyffro wrth gamu i brifysgol sy'n cynnig addysgu arloesol, cyffrous ar draws y disgyblaethau.
Mae addysg yng Nghaerdydd yn unigryw a dymunol; caiff myfyrwyr eu haddysgu a'u mentora gan diwtoriaid a darlithwyr brwdfrydig ac ymrwymedig, a nifer ohonynt yn arwain y byd yn eu meysydd. Mae galw mawr am ein graddedigion ymhlith cyflogwyr.

# 05

## Parc Bute

### Gardd gefn 130 o erwau

Mae Parc Bute yng nghanol Caerdydd y tu ôl i Rodfa'r Brenin Edward VII. Gydag Afon Taf yn llifo gerllaw, dyma'r cyfuniad perffaith o lonyddwch a mannau agored eang, sy'n ddelfrydol ar gyfer ymlacio (neu redeg) ar brynhawn o haf.



# 06

## Sîn gymdeithasol fywiog!

**Boed yn fannau annibynnol prysur sy'n gwerthu bwyd a diod, neu'r dewis helaeth o leoliadau unigryw ar gyfer cerddoriaeth fyw, mae Caerdydd yn cynnig lleoliad cymdeithasol anhygoel i'w myfyrwyr.**

Mae digonedd o sioeau'r West End, gweithdai creadigol a chomedi newydd ar gael i'w mwynhau, tra bod gwyliau blynyddol fel Tafwyl yn dathlu'r celfyddydau Cymreig a'n hiaith sy'n tyfu.



# Rhesymau dros garu Caerdydd

## 07

## Ar garreg drws Cymru wyllt

Mae cyfoeth o drysorau i'w cael ychydig y tu hwnt i ffiniau Caerdydd, rhan unigryw o'r byd sy'n aros i gael ei chrwydro. Mae'n rhaid ymweld ag Ynys y Bari - cyrchfan i wylwyr 'Gavin & Stacey' yn ogystal â phobl sy'n mwynhau'r traeth. Ceir llwybrau cerdded, golygfeydd a gweithgareddau awyr agored anhygoel yng nghanol gerwinder Bannau Brycheiniog.





## 08 Diwrnodau gemau rhyngwladol



**Mae rygbi'n rhan o enaid Caerdydd; does dim dianc rhagddo.**
Ceir awyrgylch gŵyl yn ystod pencampwriaeth flynyddol y Chwe Gwlad, wrth i dimau eraill ddod i ymgiprys â Chymru ar ei thomen ei hun. Mae'r ddinas yn cynnal gemau pêl droed a chriced rhyngwladol.

## 09 Gweithgareddau Cymunedol

Ffordd o fyw yw gwirfoddoli i lawer o fyfyrwyr wrth iddynt arwain llawer o brosiectau sy'n gwasanaethu'r gymuned. Ymhellach o Gaerdydd, mae Prosiect Phoenix yn gwneud gwahaniaeth yn Affrica i wella iechyd a lleihau tlodi, gan weithio gyda Phrifysgol Namibia i ymgorffori addysg o ansawdd uchel mewn prosiectau penodol.

## 10 Ein Hundeb Myfyrwyr yw'r trydydd gorau yn y DU

Mae'n swyddogol - yn ôl Gwobrau Student Choice What Uni 2020, mae Caerdydd yn y trydydd safle yn y DU. Gall Undeb y Myfyrwyr ddiwallu anghenion astudio a chymdeithasu pob myfyriwr. Mae'n gartref i dros 260 o glybiau chwaraeon a chymdeithasau myfyrwyr, gwasanaeth cyflogaeth rhad ac am ddim ac, wrth gwrs, tafarn hynod boblogaidd y Taf.

## 11 Cyfoeth hanesyddol a diwylliannol



O Ganolfan y Mileniwm fyd-enwog ger y glannau i'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays, a Chastell Caerdydd sy'n 2,000 o flynyddoedd oed, mae Caerdydd yn ddinas sydd wedi'i thrwytho mewn treftadaeth a diwylliant.




## 12 Dinas sydd wrth ei bodd yn rhedeg



Mae llawer o athletwyr o'r safon uchaf, gan gynnwys rhai fel Mo Farah, yn cystadlu mewn digwyddiadau o'r radd flaenaf ar lefel fyd-eang yng Nghaerdydd. Mae'r ddinas yn cynnig toreth o ddigwyddiadau i redwyr o bob lefel – o Parkruns wythnosol i Hanner Marathon Caerdydd, yr ail ras fwyaf o'i math yn y DU. Mae llawer o'n myfyrwyr yn ymuno â **#TîmCaerdydd** ar ei gyfer, lle byddant hefyd yn codi arian mawr ei angen i gefnogi ein hymchwil. Mae myfyrwyr eraill yn neilltuo amser i wirfoddoli ac mae ein myfyrwyr ffisiotherapi wrth law i roi sesiwn ddylino gwbl haeddiannol ar ddiwedd y cwrs 13.1 milltir!

# Prifddinas

## Mae Caerdydd yn ddinas ffyniannus, gyfeillgar a deniadol - gyda holl fanteision dinas glos a rhesymol, yn ogystal â chyfleusterau diwylliant a hamdden prifddinas fodern.

**Cyfunir cyffro dinas â heddwch a llonyddwch yr arfordir a'r cefn gwlad gerllaw.**

### Dinas a chanddi gymeriad, treftadaeth, ac uchelgais

Mae hanes Caerdydd yn dyddio yn ôl dros 2,000 o flynyddoedd i gyfnod y Rhufeiniaid. Hi oedd un o borthladdoedd prysuraf y byd, gan allforio'r glo a daniodd y chwyldro diwydiannol. Mae dociau enwog Tiger Bay wedi'u gweddnewid i greu Bae Caerdydd, datblygiad modern sy'n cynnwys bwytai, cartrefi, siopau, swyddfeydd, atyniadau i ymwelwyr, a Senedd Cymru.

Mae cymeriad unigryw gan Gaerdydd ac ansawdd bywyd gwych. Mae'n cynnal nifer o ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol, a chwaraeon, a chan ei bod yn brifddinas Cymru, mae'n gartref i nifer o sefydliadau cenedlaethol gan gynnwys yr Amgueddfa Genedlaethol a Stadiwm Principality. Ymhlith y tirnodau enwog eraill mae Castell Caerdydd hanesyddol, a Chanolfan Mileniwm Cymru eiconig.

### Y ddinas ddelfrydol i fyfyrwyr

O ran adloniant, mae gan Gaerdydd ddigon o gyfleusterau yn benodol i fyfyrwyr. Ceir digonedd o gaffis, tafarnau a chlybiau nos i fodloni pob chwaeth.  Mae'r ddinas wedi'i dynodi'n swyddogol yn 'Ddinas Gerdd' - y gyntaf o'i math yn y DU.

Ceir gigs rheolaidd yn y sîn gerddoriaeth sydd yma, o fandiau mawr sydd ar daith, i leoliadau annibynnol llai o faint a mwy agos-atoch sy'n arddangos y talentau gorau sy'n dod i'r amlwg.

I'r rheiny y mae'n well ganddyn nhw ddrama, ceir tair theatr ffyniannus yng Nghaerdydd, a Chanolfan Chapter eclectig. Mae clybiau comedi hefyd a sawl sinema aml-sgrin yng nghanol y ddinas.

Caerdydd yw un o gyrchfannau siopa gorau'r DU gyda chanolfan Dewi Sant ochr yn ochr â strydoedd i gerddwyr yn unig, marchnadoedd agored a dan do, a rhwydwaith o arcedau siopa diddorol o'r cyfnodau Fictoraidd ac Edwardaidd. Mae mynd am dro o gwmpas Marchnad Jacob, warws gwasgaredig o hen bethau, celf ac eitemau ecsentrig, yn ffordd wych o dreulio ychydig oriau, neu bori drwy'r albymau yn Spillers, y siop recordiau hynaf yn y byd. Yn ogystal, Caerdydd oedd prifddinas Masnach Deg gyntaf y byd ac mae'n annog masnachu moesegol a phrisiau teg i gynhyrchwyr yn y byd datblygol.




**Canolfan Mileniwm Cymru yw un o brif atyniadau diwylliannol y DU, ac mae yng nghanol Bae Caerdydd**



"Dim ond ers 1955 y mae Caerdydd wedi bod yn brifddinas Cymru ac ers y mileniwm mae'r ddinas wedi esblygu'n sylweddol o dref fawr i ddinas wirioneddol ryngwladol, gyda datblygiadau enfawr yn y canol, yn ogystal â'i glannau wedi'u hadnewyddu. Gydag enw am fod yn lle i loddesta, ynghyd â llawer o atyniadau chwaraeon a diwylliannol o'r radd flaenaf, mae'n un o gyrchfannau mwyaf deniadol y DU."

**Rough Guide 2020**



**Mae Stadiwm Principality yng nghanol y ddinas, a chynhelir nifer o ddigwyddiadau chwaraeon a chyngherddau yno drwy'r flwyddyn**



**Caerdydd yw un o gyrchfannau siopa gorau'r DU**

Mae gan Gaerdydd gydbwysedd wych rhwng bywyd cyffrous y ddinas a'r heddwch a geir yng nghefn gwlad. Mae diwylliant bywiog yno sy'n golygu ei fod yn lle perffaith i fyfyrwyr gymdeithasu, cael hwyl a gwneud y gorau o fywyd prifysgol. Ar y llaw arall, ni fyddwch yn teimlo wedi'ch llethu!

**Tommy**, Daearyddiaeth Ddynol



# Prifddinas

Mae llu o fannau gwyrdd trefol yng Nghaerdydd. Mae gennym 330 o barciau a gerddi yn ymestyn i galon y ddinas, gyda pharciau tawel a mannau gwyrdd ger canol y ddinas a'r Brifysgol – mae Parc Bute yn ffefryn penodol ymhlith myfyrwyr.

Mae Caerdydd yn un o brif ganolfannau chwaraeon y Deyrnas Unedig a chewch yma amrywiaeth o gyfleusterau a digwyddiadau i gystadleuwyr a gwylwyr. Gallwch wylio gemau rygbi yn Stadiwm Principality neu Barc yr Arfau, pêl-droed yn Stadiwm Dinas Caerdydd, criced yng Ngerddi Sophia neu hoci iâ yn Arena Viola. Os hoffech gymryd rhan, mae gan y ddinas ddigon o gyfleoedd i chi wneud chwaraeon yn ogystal â bodloni eich lles ysbrydol, gyda'r awyr agored yn llythrennol ar garreg y drws.

Os hoffech archwilio ymhellach, rydym yn ffodus o fod yn agos at fannau gwych megis Penrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog, cymoedd Gwy ac Wysg yn ogystal ag atyniadau megis Castell Caerffili a Chastell Coch.

Mae myfyrwyr hefyd yn hoff o ymweld â thraeth Ynys y Barri neu deithio ychydig ymhellach i'r gorllewin i fwynhau harddwch a golygfeydd dramatig yr Arfordir Treftadaeth.

Yn ôl yn y ddinas, mae digon i ddiwallu eich anghenion diwylliannol gyda'r amgueddfeydd di-rif, gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (gerllaw'r Brifysgol), Techniquest (un o'r canolfannau gwyddoniaeth ymarferol mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain) ac Amgueddfa Werin Sain Ffagan – lle da i fynd ag ymwelwyr hefyd!



**Mae parciau deniadol yn amgylchynu'r Brifysgol, sydd ger Castell Caerdydd a chanol y ddinas**



Yn anad dim, mae nerth Caerdydd i'w weld yn ei hadeiladau. "Mae'n fflachio ei chyhyrau pensaernïol newydd fel pe bai'n synnu atynt o hyd. Heintus yw'r fath hyder, a'r dyddiau hyn, nid y rygbi'n unig sy'n denu torfeydd i'r ddinas. Erbyn y penwythnos, bydd cyffro'n llenwi'r strydoedd wrth i'r siopwyr dramwyo'r Aes, a'r gloddestwyr lanio yn nhafarndai, bariau a lleoliadau cerddoriaeth fyw y brifddinas."

**Lonely Planet 2022**



Glannau'r ddinas, Bae Caerdydd, cartref i Ganolfan Mileniwm Cymru, lleoliad o'r radd flaenaf ar gyfer y celfyddydau, ac adeilad hanesyddol y Pierhead.

Rwy'n credu bod Caerdydd yn gyfuniad perffaith o dref fach a dinas fawr – mae'n ddigon bach a rhad i fyfyrwyr fyw ynddi, ond hefyd yn ddigon mawr a diddorol i bawb gael hwyl a threulio blynyddoedd gorau eich bywyd yma!

**Aleksandra**, Saesneg Iaith ac Almaeneg



# Prifysgol flaenllaw



Prif Adeilad y Brifysgol – yn ddiweddar cafodd Prifysgol Caerdydd ei henwi'n un o'r 10 Prifysgol harddaf yn y Deyrnas Unedig

Rhan o
RUSSELL GROUP



Rydym yn falch o gael enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth ym meysydd addysgu ac ymchwil. Mae'n seiliedig ar ein hanes o gyflawni er 1883.

**A ninnau'r unig sefydliad Grŵp Russell yng Nghymru, nid ar chwarae bach y mae cael lle yn ein prifysgol. Fodd bynnag, rydym yn ymfalchïo mewn bod yn brifysgol gynhwysol sy'n croesawu ceisiadau gan unrhyw un sydd â'r awydd a'r angerdd i astudio gyda ni.**

Mae ein myfyrwyr yn dysgu gan academyddion blaenllaw mewn dros 300 o gyrsiau ar draws ein 24 ysgol academaidd.

Mae tua 5,500 o fyfyrwyr israddedig newydd o bob cwr o'r byd yn ymgartrefu ym Mhrifysgol Caerdydd bob blwyddyn.

Mae ein myfyrwyr yn rhan hanfodol o'r hyn sy'n gwneud Prifysgol Caerdydd yn brifysgol lwyddiannus, fywiog, gyfeillgar a chosmopolitan, ac rydym yn gobeithio yr hoffech fod yn rhan ohoni.



**Mae ystod eang o gyfleusterau modern ar gael ar gyfer ein myfyrwyr**

"Mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol boblogaidd iawn yn y DU. . . Mae ganddi enw da am ymchwil o'r radd flaenaf ac mae'n rhoi profiad ardderchog i'w myfyrwyr."

**The Telegraph University Guide**

"Fe wnes i ddewis Caerdydd gan fy mod yn hoff iawn o strwythur rhaglen fy ngradd. Fe wnes i gwrdd â darlithwyr cyn gwneud cais ac roedd pob un ohonyn nhw'n hyfryd. Roeddwn yn gallu dychmygu fy mywyd ym Mhrifysgol Caerdydd yn hawdd iawn. Mae'n brifysgol hynod gymdeithasol ond yn un sy'n cynnig addysg o'r radd flaenaf o hyd a hithau'n un o brifysgolion Grŵp Russell."

**Monique**, Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol gyda Sbaeneg



# Prifysgol flaenllaw




## Ein campysau

Mae Campws y Brifysgol ym Mharc Cathays yng nghyffiniau canol dinas ddeniadol Caerdydd a'i hadeiladau a'i pharciau a'i rhodfeydd coediog braf.

Gellir dod o hyd i'r rhan fwyaf o'n hysgolion academaidd yma, gyda'r fantais eu bod nhw ond pellter cerdded byr i ganol Caerdydd.

Ar Gampws Parc y Mynydd Bychan gerllaw, ceir tair ysgol academaidd sy'n cynnig cyrsiau gofal iechyd (heblaw am optometreg a fferylliaeth).

Mae Campws Parc y Mynydd Bychan hefyd yn gartref i ysbyty mwyaf Cymru, Ysbyty Athrofaol Cymru sydd â 900 gwely ac mae'n amgylchedd delfrydol i addysgu gweithwyr iechyd proffesiynol mewn lleoliad clinigol modern.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein gwasanaethau, ac mae gennym labordai, darlithfeydd, llyfrgelloedd a chyfleusterau cyfrifiadura newydd sy’n llawn cyfarpar, i enwi rhai yn unig, gyda datblygiadau mwy cyffrous yn mynd rhagddynt yn barhaus.

Mae ein cyfrifoldebau o ran yr amgylchedd a diogelwch yn bwysig iawn i ni, ac mae ein polisi cynhwysfawr ar gyfer ynni, dŵr a gwastraff eisoes yn gwneud arbedion sylweddol o ran defnyddio ynni ac yn ein helpu ni i wneud ein rhan i fynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd.

Mae gennym drefniadau diogelwch a gwarchod 24 awr drwy gydol y flwyddyn ar y campws cyfan i helpu i ddiogelu holl aelodau ein cymuned a'n heiddo.

## Ein rhaglenni gradd

Nodwedd arbennig o ddeniadol ar y Brifysgol yw strwythur ein graddau.

Yn aml, gallwch deilwra'ch gradd fel ei bod yn benodol i chi a'ch llwybr gyrfa o ddewis. Dewiswch bynciau rydych chi'n angerddol amdanynt a dethol y modiwlau fydd yn eich helpu i adeiladu'ch dyfodol.

Manteisiwch ar y cyfle i beidio â gorfod dewis eich modiwlau tan ddiwedd eich blwyddyn gyntaf, gan roi’r cyfle i chi gynefino â’ch maes pwnc cyn i chi ddewis eich camau nesaf.

Mae llawer o'n rhaglenni'n manteisio ar gynnwys galwedigaethol a phroffesiynol sylweddol, tra bod eraill yn cynnig cyfle i chi ennill profiad ac arbenigedd mewn diwydiant. Bydd cwblhau rhai cyrsiau yn llwyddiannus yn eich eithrio'n rhannol neu'n llwyr rhag sefyll arholiadau proffesiynol.

**Mae’r rhan fwyaf o ysgolion academaidd wedi elwa'n fawr ar waith adnewyddu'r ystafelloedd dysgu**





I'r rhai sy'n astudio cyrsiau gofal iechyd, mae gennym gysylltiadau agos ag ysbytai cyffredinol ac arbenigol a sefydliadau gofal iechyd eraill ledled Cymru. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i chi gael profiad clinigol gwych mewn amgylcheddau gwahanol, yn y dref ac yng nghefn gwlad, mewn ysbytai ac yn y gymuned. Ein cysylltiadau agosaf yw'r un ag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sy'n cynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, ac sydd hefyd yn gyfrifol am wasanaethau iechyd yn y gymuned. Mae'r trefniant hwn yn bwysig am nad yw profiad clinigol wedi'i gyfyngu i'r ysbyty. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar addysgu yn y gymuned ac ar leoliadau gofal sylfaenol, gyda rhai o'n myfyrwyr yn treulio cyfnodau mewn meddygfeydd teuluol a chlinigau cymunedol.

## LinkedIn Learning

A chithau'n fyfyriwr o Brifysgol Caerdydd, bydd gennych fynediad at ystod eang o adnoddau ar-lein, gan gynnwys LinkedIn Learning sy'n dwyn ynghyd dros 16,000 o gyrsiau byr o ansawdd uchel sy'n cwmpasu sgiliau proffesiynol, hyfforddiant mewn rhaglenni meddalwedd a llu o bynciau eraill. Mae'n costio tua £20 y mis i danysgrifio i'r cyrsiau hyn fel arfer ond maent bellach ar gael yn rhad ac am ddim i holl fyfyrwyr Caerdydd drwy drwydded ar draws y Brifysgol.

Gellir defnyddio cyrsiau LinkedIn Learning mewn sawl ffordd:

- i ategu'r adnoddau sydd ar gael i chi ar eich modiwl/rhaglen
- i ddatblygu sgiliau allweddol ar gyfer dysgu a chyflogadwyedd
- i ystyried diddordebau allgyrsiol, er enghraifft ffotograffiaeth ddigidol

## Y Tîm Cyfleoedd Byd-eang

Mae gennym gysylltiadau â mwy na 300 o sefydliadau yn Ewrop ac ar draws y byd, a bydd ein tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu chi i gael profiad rhyngwladol gwerthfawr drwy astudio, gweithio neu wirfoddoli.
(Cewch ragor o fanylion ar dudalen 24.)

## Ieithoedd i Bawb

Gallwch ddysgu iaith am ddim wrth astudio ar gyfer eich gradd gyda'n rhaglen Ieithoedd i Bawb. (Cewch ragor o fanylion ar dudalen 24.)

## Cymraeg i Bawb

Diddordeb mewn dysgu ychydig o Gymraeg yn ystod eich amser yma? Nid yw'n hanfodol eich bod chi'n siarad Cymraeg er mwyn astudio yng Nghaerdydd, ond mae'n wych gallu deall peth o'r iaith leol. Mae Cymraeg i Bawb yn cynnig y cyfle i chi wella eich sgiliau iaith tra eich bod yn astudio. Mae ein cyrsiau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'ch astudiaethau ac maent yn rhad ac am ddim.


## Eich cefnogi chi

Mae cyfleuster newydd Canolfan Bywyd y Myfyrwyr yn cynnig amrywiaeth sylweddol o wasanaethau sydd ar gael i bob myfyriwr. Mae'r gwasanaethau yn rhad ac am ddim, yn ddiduedd, yn anfeirniadol ac yn gyfrinachol, a'u nod yw eich helpu chi i fanteisio i'r eithaf ar eich bywyd fel myfyriwr a'ch cefnogi chi wrth i chi astudio.

Mae gennym raglenni cefnogi ar waith ar gyfer ymadawyr gofal, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu, cyn-filwyr, ceiswyr lloches a myfyrwyr ag anabledd.

Rydym yn ymdrechu i barhau i wella profiad ein myfyrwyr LHDT+, ac rydym wedi cael ein cydnabod yn barhaus am ein hymdrechion gan sefydliad cydraddoldeb LHDT mwyaf Ewrop.

# Adeiladu prifysgol lwyddiannus




Mae £41m wedi'i fuddsoddi i adnewyddu cyfleusterau addysgu presennol

Prif lun: Canolfan Bywyd y Myfyrwyr



Ni fu erioed adeg fwy cyffrous i fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym yn buddsoddi cannoedd o filiynau o bunnoedd i ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i'n myfyrwyr fel rhan o'r cynllun mwyaf i uwchraddio'r campws ers cenhedlaeth.

**Bydd rhaglen buddsoddi cyfalaf enfawr o £600m ar draws y Brifysgol, gan gynnwys £260 miliwn mewn cyfleusterau i fyfyrwyr, yn ein helpu i roi'r profiad gorau posibl i'n myfyrwyr.**

Yn 2021, fe agorodd un o'n prosiectau mwyaf uchelgeisiol, Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, i greu canolbwynt ar gyfer ein gwasanaethau cefnogi myfyrwyr yn ogystal â chynnig mannau dysgu cymdeithasol modern, hyblyg a darlithfa ac iddi 550 o seddi.

Fe wnaethom hefyd agor cartref pwrpasol newydd ar y cyd ar gyfer yr Ysgol Mathemateg a’r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg fydd yn cefnogi twf y ddwy adran.

Yn ddiweddar, mae ein rhaglen fuddsoddi wedi darparu cartref newydd i'n Hysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant. Mae’r ffaith ei bod yng nghanol y ddinas y drws nesaf i bencadlys newydd BBC Cymru Wales yn galluogi'r Ysgol i feithrin cysylltiadau cryfach fyth â'r diwydiant a hybu cyflogadwyedd myfyrwyr.

Mae cyfleusterau o'r radd flaenaf wedi'u darparu ar Gampws Parc y Mynydd Bychan hefyd. Mae Adeilad Cochrane yr Ysgol Meddygaeth, sy'n cael ei rannu â myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gofal iechyd eraill, yn darparu ystod o adnoddau gan gynnwys canolfan sgiliau clinigol, canolfan efelychu meddygol uwch-dechnoleg, a llyfrgell.

Mae ein hadeiladau a'n cyfleusterau newydd yn ychwanegu at ein hystâd hanesyddol bresennol sydd wedi elwa ar waith adnewyddu sylweddol. Mae'r gwaith uwchraddio wedi cynnwys dodrefn ac offer newydd, megis gosod pwyntiau pŵer i'ch galluogi i wefru dyfeisiau.

Credwn y dylai ein myfyrwyr allu ymlacio mewn lleoliadau modern gyda'r dechnoleg ddiweddaraf, felly mae ein partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr wedi arwain at lawer o ddatblygiadau cyffrous. Gwnaed gwelliannau mawr i Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys clwb nos a man astudio Y Plas, a ddefnyddir ar gyfer adloniant gyda’r nos a dysgu cymdeithasol. Mae siopau a gwasanaethau newydd yn cwblhau'r trawsnewidiad.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi partneriaeth newydd gyda Thŷ Chwaraeon Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a Chyngor Caerdydd yn ddiweddar fydd yn rhoi mynediad digynsail i'n myfyrwyr a'n timau chwaraeon at gaeau o'r radd flaenaf, gan gynnwys rhai glaswellt, o dan lifoleuadau, ac addas i bob tywydd.

Mae buddsoddiadau ychwanegol yn cael eu gwneud hefyd mewn cyfleusterau ymchwil newydd ar ein campws Arloesedd £300m i greu llewyrch economaidd a chymdeithasol.




Adeilad newydd ar y cyd yr Ysgol Mathemateg a'r Ysgol Cyfrifiadureg

# Ymhlith meddyliau gwych



Mae'r Brifysgol ymhlith arweinwyr y byd ym maes uwch-dechnoleg delweddu'r ymennydd

## Gosodwyd Prifysgol Caerdydd yn y pumed safle ymhlith Prifysgolion y DU o ran ansawdd ei hymchwil, ac ail o ran ei heffaith, yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf, gan gadarnhau ein lle fel un o ganolfannau rhagoriaeth ymchwil mwyaf blaenllaw'r byd.

Rydym yn aelod o Grŵp Russell – 'Ivy League' y Deyrnas Unedig o brifysgolion ymchwil blaenllaw – ac mae ein staff yn helpu datrys y cwestiynau mawr sy'n wynebu'r ddynolryw yn yr 21ain ganrif.

Fel ymchwilwyr gweithgar, mae ein staff academaidd yn frwdfrydig ac ymroddedig. Hanfod ymchwil yw ysbryd ymholi, ac mae'n annog meddwl beirniadol ac yn amlygu natur dros dro gwybodaeth. Wrth wneud gwaith ymchwil, bydd myfyrwyr yn ennill sgiliau cyffredinol a sgiliau sy'n benodol i'r pwnc ac yn dysgu sut i weithio ar eu liwt eu hunain ac mewn tîm. Dyma sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.

Mae eu gwaith yn gwneud gwir wahaniaeth – o helpu i ddatrys anawsterau amgylcheddol a gwella bywydau unigolion, i ddatblygu'n dealltwriaeth o sut beth yw bod yn ddynol.

Mae ein hymchwil gofal iechyd a'n hymchwil biowyddonol yn mynd o'r labordy i ddatblygu cyffuriau i dreialon clinigol mawr - strategaeth 'o'r fainc i erchwyn y gwely'.

Mae ein hymchwilwyr yn gwneud gwelliannau i ecosystemau ledled y byd, ac mae offer a ddyluniwyd yma yn ymestyn i bellafoedd y gofod, i wely'r cefnfor ac o dan gramen y ddaear.

Wrth ymchwilio i newid hinsawdd, rydym hefyd yn chwilio am ffyrdd gwahanol a chynaliadwy i brosesau diwydiannol ac wrth gynhyrchu ynni. Mae ein gwyddonwyr cyfrifiadureg wrthi'n arloesi mewn meysydd fel telathrebu, rheoli bioamrywiaeth a dylunio peirianegol.

Oherwydd ehangder a dyfnder yr arbenigedd hwn, mae galw mawr am ein gwaith ymysg llunwyr polisïau yn lleol a thramor, a hynny mewn meysydd sy'n amrywio o anghydraddoldebau iechyd i ddiogelwch ar y môr.

**REF2014**
**Research Excellence Framework**

**Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014: Rhestr gyffredinol y prifysgolion:**

| Safle | Prifysgol | Pwynt Gradd Cyfartaledd* |
|---|---|---|
| 1 | Coleg Imperial | 3.36 |
| 2 | Ysgol Economeg Llundain (LSE) | 3.35 |
| 3 | Prifysgol Rhydychen | 3.34 |
| 4 | Prifysgol Caergrawnt | 3.33 |
| **5** | **Prifysgol Caerdydd** | **3.27** |
| 6 | Coleg y Brenin, Llundain | 3.23 |
| 7 | Prifysgol Warwick | 3.22 |
| 8 | Coleg Prifysgol Llundain | 3.22 |
| 9 | Ysgol Hylendid Llundain a Meddygaeth Drofannol | 3.2 |
| 10 | Prifysgol y Frenhines Mary Llundain | 3.18 |
| 11 | Prifysgol Caeredin | 3.18 |
| 12 | Prifysgol Bryste | 3.18 |
| 13 | Prifysgol Sheffield | 3.17 |
| 14 | Prifysgol Caerfaddon | 3.17 |
| 15 | Prifysgol Efrog | 3.17 |
| 16 | Prifysgol Manceinion | 3.16 |
| 17 | Prifysgol Southampton | 3.15 |
| 18 | Prifysgol Caerhirfryn | 3.15 |
| 19 | Prifysgol Durham | 3.14 |
| 20 | Prifysgol St Andrews | 3.13 |
| 21 | Prifysgol Leeds | 3.13 |
| 22 | Prifysgol East Anglia | 3.11 |
| 23 | Prifysgol Glasgow | 3.1 |
| 24 | Prifysgol Abertawe | 3.09 |
| 25 | Royal Holloway, Prifysgol Llundain | 3.09 |
| 26 | Prifysgol Nottingham | 3.09 |
| 27 | Prifysgol Newcastle | 3.09 |
| 28 | Prifysgol Caerwysg | 3.08 |
| 29 | Prifysgol Birmingham | 3.07 |
| 30 | Prifysgol Cranfield | 3.07 |

**Noder:** *Mae Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn asesiad pwysig o ymchwil a gynhelir o bryd i'w gilydd gan gynghorau ariannu y DU. Trefnir y canlyniadau mewn amryw o ffyrdd, ac un o'r rhai mwyaf cyffredin yw Cyfartaledd y Pwyntiau Gradd. 'Cyfartaledd Pwynt Gradd' yw proffil ansawdd wedi'i bwysoli yn ôl staff (cyfwerth ag amser llawn), lle mae canran ar 4 * x 4, y ganran ar 3 * x 3, y ganran ar 2 * x 2, y ganran ar 1 * x 1 wedi'i rhannu â 100 (cyfanswm canran yr holl ymchwil). Cewch wybod rhagor am y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn https://www.cardiff.ac.uk/cy/research/impact-and-innovation/quality-and-performance*

# Addysgu a arweinir gan ymchwil

## Yng Nghaerdydd, mae dysgu ac addysgu'n digwydd mewn amgylchedd lle gallwch ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymchwilwyr sy'n gweithio ar flaen gad gwybodaeth ac ymarfer yn eu meysydd.

Mae hyn wedi cyfrannu at ansawdd uchel ein haddysgu, sydd wedi derbyn sêl bendith bendant gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch o fodloni disgwyliadau'r DU neu ragori arnynt. Mae diwylliant ymchwil Caerdydd yn effeithio'n gadarnhaol arnoch chi. Yn y camau cynnar, cewch flas ar y gweithgareddau ymchwil yn eich pwnc, ac fe'ch cyflwynir i ystod o sgiliau ymchwil. Wrth i chi ddatblygu, byddwch yn cymryd rhan gynyddol fwy mewn gweithgareddau y dylanwedir arnynt gan ymchwil ac ysgolheictod y staff.

### Strwythur y Graddau

Ar wahân i raddau meddygol a deintyddol, mae graddau yng Nghaerdydd yn dilyn cynllun modiwlaidd. Rydym yn adolygu ein strwythurau gradd yn barhaol i'w cadw'n berthnasol, felly ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

### Dysgu ar y campws ac ar-lein

Mae ein myfyrwyr yn elwa ar brofiad dysgu o safon uchel a chyson, gan gynnwys defnyddio technoleg bwrpasol i helpu'r holl fyfyrwyr i wireddu eu potensial.

Ar y campws, mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfarpar ystafell ddosbarth i hwyluso rhyngweithio mewn darlithoedd a sesiynau grŵp bach, a thechnoleg recordio darlithoedd i'ch helpu wrth wneud nodiadau ac adolygu. Yn ogystal, mae pob myfyriwr yn elwa ar ystod o dechnolegau a dulliau ar-lein sy'n darparu cynnwys, yn hwyluso cydweithredu ac yn cefnogi dysgu annibynnol.



***Guiding Light* – ein cwch ymchwil. Mae gwaith maes yn rhan bwysig o sawl rhaglen radd**

Er mwyn sicrhau profiad dysgu digidol cadarnhaol i bawb, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i werthuso a gwella ein hoffer digidol, ein hadnoddau a'n dulliau addysgu yn barhaus.

### Addysgu a gyfoethogir gan dechnoleg

Mae ein myfyrwyr yn elwa ar ddulliau addysgu arloesol. Yn llawer o'n mannau addysgu, mae ein staff academaidd yn gallu recordio eu darlithoedd a'u rhoi ar ein pyrth i fyfyrwyr lle maent ar gael ar-alw. Defnyddir y dechnoleg hefyd i ffrydio cyrsiau addysg o bell, i recordio fideos 'ystafell ddosbarth wyneb i waered', ac i recordio aseiniadau myfyriwr.

Mae hyn yn galluogi recordio sain, fideo, ac unrhyw nodwedd gyfrifiadurol y gellir ei rhannu wedyn mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ystod neu ar ôl y sesiwn.

Mae adborth gan ein myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y modd yr ydym yn datblygu ein hadnoddau addysgu at y dyfodol - rydym yn gwrando ar lais y myfyrwyr ac yn annog cymaint o ryngweithio dwyffordd ag y gallom.



**Mae gennym gyfres eang o labordai diweddaraf i gefnogi ein haddysgu**

> Rwyf yn bendant wedi mwynhau cael y rhwydd hynt i ddewis fy modiwlau blwyddyn olaf yn seiliedig ar fy niddordebau. Gorau oll, rhoddodd y flwyddyn ar leoliad gyfle imi ystyried fy niddordebau gyrfaol cyn bod o dan bwysau i orfod gwneud hynny ar ôl graddio. Yn y flwyddyn olaf, mae pwyslais cryf ar ddysgu ac astudio annibynnol, ond gallwch barhau i gael cymorth os oes angen drwy'r byrddau trafod ar-lein neu drwy gysylltu â'ch darlithwyr neu eich tiwtor personol.
>
> **Ioana**, Seicoleg gyda Lleoliad Proffesiynol



# Llwyddiant graddedigion



## Mae graddedigion Prifysgol Caerdydd yn boblogaidd iawn ymysg cyflogwyr.

**Rhoddwn bwyslais arbennig ar feithrin y sgiliau y mae ar raddedigion eu hangen ym myd gwaith - boed yn y sector cyhoeddus neu breifat, yn y byd academaidd, mewn cwmni amlwladol neu fusnes bach lleol.**

O ganlyniad, mae gradd o Brifysgol Caerdydd yn uchel ei pharch yn y farchnad swyddi. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi ein graddedigion am eu gallu academaidd, eu cymhelliant, a'u dyfeisgarwch. Rydym yn paratoi ein myfyrwyr i arwain. Yn ôl arolwg blynyddol *Graduate Market* a gyhoeddir gan *High Fliers*, bob blwyddyn cawn ein rhestru ymhlith y pump ar hugain uchaf ar restr y prifysgolion sy'n cael eu targedu gan recriwtwyr graddedigion.

Yn ogystal â chynnig gwasanaeth Dyfodol Myfyrwyr proffesiynol arbenigol (gweler tudalen 22), rydym wedi cymryd camau i ymgorffori cyflogadwyedd ym mhrofiad y myfyriwr drwy ystod o weithgareddau.

Yn eu plith mae gwobr Dyfodol Myfyrwyr sy'n eich helpu i gynyddu eich proffesiynoldeb a datblygu'r sgiliau a'r hyder i lwyddo ym myd gwaith.

I'ch helpu i fod yn fwy arloesol yn eich gyrfa, neu i gychwyn eich busnes eich hun, mae'r tîm Dyfodol Myfyrwyr yn cynnig rhaglen sy'n cynnwys gweithdai ar sgiliau mentro, arweiniad un-i-un i gychwyn busnes newydd, a chystadlaethau i'ch helpu i roi eich syniadau ar waith.

Mae rhai o'n graddau'n cynnwys blwyddyn o hyfforddiant proffesiynol, tra bod eraill yn cynnig cyfleoedd gwahanol i feithrin y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw. Yn y cyfamser, mae Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Prifysgol Caerdydd yn rhoi cyfleoedd unigryw i chi flasu ymchwil fyw gan wella'ch sgiliau academaidd. Gan fod cyflogadwyedd yn rhan annatod o brofiad y myfyrwyr, nid oes syndod bod cyflogwyr mor frwd eu croeso i raddedigion Caerdydd.

**96%** canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu’n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Ffynhonnell:
**Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yr Arolwg Hynt Graddedigion Diweddaraf 2018/19, a gyhoeddwyd gan HESA ym mis Mehefin 2021**

* Gweler tudalen 40

"Mae myfyrwyr Caerdydd yn amlygu'r ddawn, y cymhelliant a'r brwdfrydedd y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw."

**Paul Davies – Partner, Latham and Watkins LLP**

(Cwmni cyfreithiol Prydeinig a rhyngwladol)



## Barn y cyflogwyr

"Mae gan Brifysgol Caerdydd enw da am gynhyrchu graddedigion sy'n barod am waith. Maent yn sefyll allan am eu bod yn meddu ar ystod o sgiliau a phrofiadau perthnasol sy'n eu paratoi ar gyfer heriau'r byd gwaith."

**Lorna Culpin** - Rheolwr Recriwtio Prifysgolion, **TeachFirst**

"Fel cwmni cyfreithiol byd-eang gyda swyddfa yng Nghaerdydd, mae'r Brifysgol yn ffynhonnell amlwg o ymgeiswyr o safon uchel ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a swyddfeydd eraill yn y DU."

**Catherine Knight** - Rheolwr Talent Newydd, **Eversheds Sutherland**

"Rydyn ni'n ystyried myfyrwyr Caerdydd yn rhagweithiol ac yn chwilfrydig ac maen nhw'n gwneud gwahaniaeth yn ein sefydliad. Dyma'r mathau o raddedigion rydyn ni'n hoffi eu recriwtio i'n busnes i'n gwneud ni'n llwyddiannus."

**Melissa Hopper** - Rheolwr Caffael Talent Dechrau Gyrfa, **Mott MacDonald**

"Mae gan Brifysgol Caerdydd rai o'r meddyliau ifanc gorau yn y wlad. Mae eu digwyddiadau ar y campws bob amser yn gyfle i ni recriwtio myfyrwyr peirianneg o'r radd flaenaf ar gyfer ein cwmni rhyngwladol."

**Mikey Bishop** - Cydlynydd Dechrau Gyrfaoedd, **ARUP**



### Callum (BSc 2016)

**Sylfaenydd Bula Batiki, cwmni olew cnau coco nid-er-elw**

"Cyn dechrau yng Nghaerdydd, roeddwn i'n gwirfoddoli ar ran elusen o'r enw Think Pacific. Menter gymdeithasol yw hi sy'n dod â myfyrwyr blwyddyn i ffwrdd i Ffiji. Mae'r gwirfoddolwyr yn helpu i godi plant Ffiji mas o dlodi trwy adeiladu seilwaith a chefnogi addysg.

"Arhosais gyda theulu Ffijiaidd a'm cymerodd dan ei adain. Erbyn i mi adael, roeddwn yn teimlo fel rhan o'r gymuned."

Mor gryf oedd yr ymlyniad, dychwelodd Callum ar ddiwedd ei semester cyntaf i dreulio gwyliau'r Nadolig gyda'i deulu Ffijiaidd.

"Dechreuais feddwl am y Vu ni Niu (palmwydd cnau coco) ar wasgar ar draws yr ynys. Gwyddwn fod galw mawr am olew cnau coco yn y DU. Sylweddolais y gallwn ei allforio adref a defnyddio'r elw i ail-fuddsoddi yn yr ynys."

Doedd gan Callum ddim diddordeb blaenorol mewn entrepreneuriaeth, ond gyda chymorth Tîm Menter Caerdydd, ysgrifennodd gynllun busnes effeithiol ar gyfer Bula Batiki a aeth yn ei flaen i ennill SPARK, cystadleuaeth syniadau busnes flynyddol y Brifysgol.

Gyda chymorth grant bach, hedodd yn ôl i Ffiji a chyflwyno ei syniad i'r gymuned. Mewn ardal lle mae'r trigolion yn rhygnu byw drwy amaethu ymgynhaliol a physgota, roedd cefnogaeth eang i'w syniad.

"Datblygon ni ein deunydd pacio a dechrau talu pentrefwyr i gynhyrchu'r olew cnau coco. Dim ond chwe chneuen goco sydd eu hangen i wneud un jar o olew, ond mae pob jar yn cael effaith enfawr. Trwy werthu ein 160 litr cyntaf, gallodd y pentrefwyr ddatblygu eu tai a gallodd eu plant fynd i'r ysgol."

Cododd Callum £8,000 drwy ymgyrch dorfoli lwyddiannus a bydd yn defnyddio'r arian i ymestyn ei fodel o fenter gynaliadwy i ynysoedd cyfagos. "Yna, gallwn wir ddechrau gwneud gwahaniaeth. Dyna ble rwy'n gweld fy nyfodol. Mae fy ngobaith a'm breuddwydion i gyd yn Batiki."

# Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

**Beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud, mae ein tîm Dyfodol Myfyrwyr yn falch iawn o gynnig cymorth i chi drwy gydol eich astudiaethau ac ar ôl i chi raddio.**

Does dim ots os oes gennych syniad cadarn am beth rydych chi am ei wneud yn eich dyfodol neu ddim clem, byddwn yn eich cefnogi i ddatblygu a chyflawni eich nodau gyrfaol o gychwyn cyntaf eich amser ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydyn ni yma i'ch cefnogi a'ch hyfforddi, er mwyn eich helpu chi i ennill y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth a fydd yn eich paratoi i lwyddo yn y dyfodol:

### Cymorth ar-lein

- Gweithgareddau, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar-lein i'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd drwy'r wahanol gamau ar daith eich gyrfa
- Cefnogaeth ar-lein sydd wedi'i theilwra ac ar gael 24/7 i'ch helpu i ddatblygu eich hun, cynllunio eich gyrfa, paratoi ar gyfer y broses recriwtio a chwilio am swydd
- Cyfleusterau ymchwil a gwybodaeth.

### Cymorth wyneb yn wyneb

- Apwyntiadau y gellir eu trefnu gyda gweithwyr gyrfaoedd proffesiynol sy'n gysylltiedig ag ysgolion academaidd
- Gweithdai gyrfaoedd a sesiynau galw heibio a gynhelir yn eich ysgol academaidd am bynciau fel opsiynau gyrfaol, chwilio am swyddi, gwneud cais, cyfweliadau a chanolfannau asesu
- Gwasanaeth galw heibio canolog ar gael bob dydd.

### Profiad gwaith

- Mae ein tîm penodedig yn chwilio am gyfleoedd sy'n rhoi cipolwg ar fyd gwaith, lleoliadau tymor byr, interniaethau dros yr haf, profiad yn yr ystafell ddosbarth a phrosiectau busnes byw
- Cysylltu myfyrwyr â chyflogwyr, o ficrofusnesau a BBaChau i sefydliadau rhyngwladol mawr.

## Oes gennych chi syniad am fusnes neu fenter gymdeithasol?

Os oes gennych chi syniad am fusnes neu fenter gymdeithasol, neu os hoffech chi gaffael sgiliau newydd i'ch helpu i fod yn fwy cyflogadwy, mae ein tîm yma i'ch helpu i ddatgloi eich creadigrwydd a chyflawni eich potensial. Mae ein pecyn cefnogi ac arwain yn cynnig cyfarfodydd â mentoriaid busnes, gweithdai dechrau busnes, sesiynau datblygu sgiliau ac adnoddau ar-lein i'ch helpu i roi bod i'ch syniad.

## Eich helpu i ddeall eich potensial a'i gyflawni

Gwobr Dyfodol Myfyrwyr yw eich cyfle i ddeall potensial eich gyrfa a chael cydnabyddiaeth am feithrin eich sgiliau cyflogadwyedd yn ogystal â chynnig profiad ymarferol o'r broses recriwtio i'ch helpu i gystadlu â graddedigion eraill wrth chwilio am swydd.

Caiff y Wobr ei nodi ar eich Cofnod Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) pan fyddwch yn graddio. Bydd yn rhoi cydnabyddiaeth gan y Brifysgol o'ch sgiliau cyflogadwyedd a'r rhinweddau y byddwch wedi'u datblygu drwy weithgareddau fel profiad gwaith, gwirfoddoli neu gymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau.

## Recriwtio graddedigion

Bob blwyddyn, bydd cannoedd o recriwtwyr myfyrwyr a graddedigion yn targedu Prifysgol Caerdydd yn rhan o'u hymgyrchoedd recriwtio, a byddwn ni'n gweithio'n agos gyda nhw i roi'r ddolen gyswllt hanfodol rhyngddyn nhw a chi, drwy gynnig:

- Hysbysfwrdd swyddi ar-lein sy'n hysbysebu cannoedd o gyfleoedd
- Ffeiriau gyrfaoedd – rhai cyffredinol a rhai sector benodol
- Digwyddiadau gyda chyflogwyr i'ch galluogi chi i ddeall y farchnad lafur i raddedigion a rhwydweithio â chysylltiadau yn y diwydiant.

Gallwn ni eich helpu ar Daith Eich Gyrfa, o wythnos y glas i wythnos y seremonïau graddio a thu hwnt.

**Chwiliwch amdanom ni ar y cyfryngau cymdeithasol**

**www.linkedin.com/showcase/student-futures-dyfodol-myfywyr**

## Bywyd ar ôl Caerdydd

### Rhwydwaith Cynfyfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Mae Caerdydd yn fan cychwyn ar gyfer gyrfaoedd llwyddiannus. Mae ein cynfyfyrwyr yn arwain y gad yn eu meysydd, ac maent yn cynnwys Huw Edwards, cyflwynydd News at Ten ar y BBC ac enillydd BAFTA am ei waith newyddiadurol, sylfaenydd MoneySavingExpert.com Martin Lewis OBE, a sylfaenwyr Specsavers, Doug a'r Fonesig Mary Perkins DBE.

Mae'r profiadau a gewch yng Nghaerdydd yn mynd y tu hwnt i'ch amser ar y campws. Ar ôl graddio, byddwch yn gallu manteisio i'r eithaf ar y 165,000 o bobl sy'n rhan o'n rhwydwaith o gynfyfyrwyr er mwyn llywio a chefnogi eich gyrfa am flynyddoedd i ddod. Ble bynnag yr ydych yn y byd, mae cymuned cynfyfyrwyr Prifysgol Caerdydd yno i roi hwb i'ch gyrfa a'ch helpu i gadw mewn cysylltiad.

> "Crëwyd Virtus Tech ar ôl darlith Marchnata a Strategaeth yn fy ail flwyddyn gan ddarlithydd gwych, Dr Eleri Rosier, a ysbrydolodd y syniad busnes. Ar ôl cyfarfod ag Eleri i gael cyngor arbenigol, penderfynais fynd ar drywydd y busnes ac erbyn hyn, dim ond pum mis yn ddiweddarach, rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o gwmnïau. Mae'r Brifysgol wedi'n helpu'n aruthrol."
>
> **George Bellwood** BSc Rheoli Busnes (Marchnata), Cyfarwyddwr, Virtus Tech Ltd



## Rhagor o wybodaeth...

**www.caerdydd.ac.uk/alumni**

**CardiffUniAlumni**


**@CardiffAlumni**

## Barn y cyflogwyr

"Rydyn ni'n chwilio am gymwyseddau craidd. Nid dim ond eich gradd sy’n bwysig ond hefyd eich syniadau a’ch brwdfrydedd. Y sgiliau y bydd y myfyrwyr yn eu datblygu drwy gydol eu hamser yn y brifysgol sy’n pennu pa mor gyflogadwy ydyn nhw. Y nod i ni yw helpu’r myfyrwyr i ddeall sut mae trosglwyddo’r sgiliau hyn i’r gweithle. Yr ymgeiswyr sy’n dod i’r amlwg yw’r rhai sydd wedi ymchwilio ac wedi paratoi’n dda ac yn gallu cyplysu eu sgiliau a’u profiadau â fframwaith 'PwC Professional'. Mae gennym ni ddiddordeb yn eich gallu i ddatblygu. Fel cyflogwr blaenllaw i raddedigion, rydyn ni’n cydnabod rôl bwysig Prifysgol Caerdydd a’r gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd drwy annog y myfyrwyr i gwrdd â chyflogwyr lleol a chenedlaethol a chynhyrchu unigolion uchel eu safon a’u cymhelliant sy’n barod i ddechrau gweithio ym myd y gwasanaethau proffesiynol."

**Scarlett Seager**
Swyddog Recriwtio Graddedigion
**PwC**


## Cyrchfannau Hysbys Graddedigion




| | |
|---|---|
| Cyflogedig | 76% |
| Astudiaethau Pellach | 14% |
| Di-waith | 4% |
| Arall (gan gynnwys teithio) | 6% |

*Ffynhonnell: Arolwg Hynt Graddedigion 2018/19 gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, a gyhoeddwyd yn 2021. Yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg gan 2,887 o raddedigion gradd gyntaf amser llawn yn y DU.**

*Gweler tudalen 40





**Mae gan Gaerdydd record ragorol o ran cyflogaeth ei graddedigion**

## Mae graddedigion Prifysgol Caerdydd yn mynd ymlaen i weithio gyda chyflogwyr fel:

- Accenture
- Admiral
- AECOM
- Airbus
- Amazon
- Arup
- AstraZeneca
- Atkins
- Atradius
- Babcock International
- BAE Systems
- Banc Tsieina
- Barclays
- BBC
- BDO LLP
- Blake Morgan LLP
- Boots
- Y Fyddin Brydeinig
- British Council
- British Telecom
- Swyddfa'r Cabinet
- Prifysgol Caerdydd
- Cyngor Sir Caerdydd
- Undeb y Myfyrwyr, Caerdydd
- Y Gwasanaeth Sifil
- Tŷ’r Cwmnïau
- Cushman & Wakefield
- Deloitte LLP
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- DHL
- Dŵr Cymru
- Dyson
- Enterprise Rent a Car
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- EY
- Eversheds Sutherland
- Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad
- Foster and Partners
- GE
- Geldards LLP
- Grant Thornton
- GSK
- Ymchwil i Ddeilliannau Economeg Iechyd
- CThEM
- Howells Solicitors
- HSBC
- Huawei
- Hugh James
- IBM
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- IQE
- ITV
- Jacobs Engineering Group
- Jaguar Land Rover
- John Lewis and Partners
- Grŵp Kier
- KPMG
- Legal & General
- Lidl
- Linklaters
- Grŵp Bancio Lloyds
- McKinsey & Co
- Y Swyddfa Dywydd
- Microsoft
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Mott Macdonald
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Network Rail
- NewLaw Solicitors
- GIG
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Oxfam
- PCI Pharma Services
- PepsiCo
- PwC
- Priory Group
- Iechyd Cyhoeddus Lloegr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Renishaw
- Rolls-Royce
- Savills
- Newyddion Sky
- Heddlu De Cymru
- Specsavers
- Tata Steel
- Teach First
- Tesco
- Thomson Reuters
- Victim Support
- Vodafone
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Llywodraeth Cymru
- WSP

# Barod i gychwyn, barod i grwydro

Gall cyfleoedd i dreulio amser dramor, dysgu iaith a chymryd rhan mewn ymchwil helpu i gyfoethogi eich astudiaethau.

## Cyfleoedd byd-eang

Mae astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor fel rhan o'ch profiad yn y brifysgol yn ffordd wych o ehangu'ch gwybodaeth academaidd, ymgolli mewn diwylliant arall a dysgu sgiliau y bydd cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae gennym gysylltiadau â thros 200 o sefydliadau blaenllaw a gallwn gynnig cyfle i chi astudio mewn gwledydd yn Ewrop ac ar hyd a lled y byd.

## Fel rhan o'ch gradd

Rydym yn cynnig cyfleoedd i astudio yn rhai o brifysgolion rhyngwladol gorau'r byd yn Ewrop a thu hwnt, gan gynnwys gwledydd fel UDA, Canada ac Awstralia.

Nid oes rhaid i chi fod yn astudio iaith i astudio dramor ac yn dibynnu ar eich cwrs efallai y byddwch hefyd yn gallu gweithio dramor. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i chi ennill profiad gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar arbenigedd eich gradd mewn lleoliad rhyngwladol. Ymhlith y dewisiadau astudio, cewch dreulio blwyddyn neu semester dramor, neu gymryd lleoliad gwaith clinigol.

Mae'r tîm Cyfleoedd Byd-eang yn cynnig cymorth cynhwysfawr cyn a thrwy gydol eich lleoliad.

## Astudio tymor-byr, interniaethau, a chyfleoedd i wirfoddoli

Drwy dîm Cyfleoedd Byd-eang y Brifysgol, cewch ddewis o blith amrywiaeth o leoliadau tymor-byr i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor. Mae'r rhaglenni'n para o leiaf bythefnos yn ystod gwyliau'r haf fel arfer ac maent yn ddelfrydol os na chewch gyfle i astudio dramor fel rhan o'ch gradd er bod profiad rhyngwladol yn apelio atoch chi.

## Arian a chymorth

Gallwch gael nawdd er mwyn ei gwneud yn haws i chi fynd ar brofiad gwaith dramor. Mae'r rhain yn cynnwys bwrsariaethau untro a grantiau misol. Ni fydd myfyrwyr sy'n mynd ar gyfnewidiadau Ewropeaidd a rhyngwladol fel rhan o raglen eu gradd yn talu unrhyw ffi dysgu ychwanegol ac maent yn gymwys i gael cymorth gan Gyllid Myfyrwyr.

## Cyflogadwyedd

Gall profiad rhyngwladol eich helpu i gyfoethogi'ch CV drwy ddatblygu'r sgiliau gwerthfawr y mae cyflogwyr yn y farchnad recriwtio fyd-eang yn chwilio amdanynt.

## Ieithoedd i Bawb

Bydd dysgu iaith yn agor drysau i brofiadau newydd, yn ehangu'ch rhwydweithiau ac yn cynyddu'ch cyflogadwyedd. Yn ôl arolwg diweddar gan y CBI, barn 72% o gwmnïau'r DU oedd bod gallu eu staff i siarad iaith neu ieithoedd tramor yn fantais i'w busnes.

Yng Nghaerdydd, gallwch astudio iaith fodern o'ch dewis yn rhad ac am ddim. Cynigiwn ddewis hyblyg ac arloesol o astudio i gyd-fynd â chwrs eich gradd. P'un a ydych chi'n awyddus i ddysgu iaith newydd neu i ddatblygu eich sgiliau presennol ymhellach, bydd gan Ieithoedd i Bawb yng Nghaerdydd rywbeth i'w gynnig i chi, gan gynnwys:

- Cyrsiau wythnosol yn ystod y tymor mewn amrywiaeth o ieithoedd o lefel dechreuwyr i lefel uwch, wedi'u hamserlenni i osgoi gwrthdaro â'ch modiwlau
- Cyrsiau carlam wythnos o hyd yn ystod y gwyliau os byddai'n well gennych ddysgu'n ddwys neu gyrraedd y lefel nesaf yn gyflym
- Opsiwn Dysgu Annibynnol, lle gallwch astudio iaith yn annibynnol neu gael mwy o ymarfer. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cyfnewid ieithyddol a diwylliannol, cyrsiau ac adnoddau a argymhellir, a chyngor ynghylch yr iaith darged.

Bydd y rhaglenni'n defnyddio'r dechnoleg a'r dulliau addysgu diweddaraf i wneud yn siŵr eich bod chi'n manteisio i'r eithaf ar ddysgu iaith.

Mae Ieithoedd i Bawb yn cynnig dosbarthiadau mewn Arabeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japaneg, Tsieinëeg Mandarin, Portiwgaleg, Rwsieg a Sbaeneg. Gallwch ddewis unrhyw iaith ar gyfer y dysgu annibynnol.

## Rhaglen cyfleoedd ymchwil Prifysgol Caerdydd

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle unigryw i chi gael blas o ymchwil fyw, gwella'ch sgiliau academaidd a gwneud penderfyniad mwy gwybodus ynghylch ymchwilio ymhellach ar lefel ôl-raddedig. Mae'r rhaglen yn cynnig arian i gymryd rhan yng ngweithgarwch ymchwil y Brifysgol mewn prosiectau allgyrsiol sy'n gysylltiedig â diddordebau'r staff. Gan amlaf, bydd y myfyrwyr yn gweithio ar brosiectau penodol am gyfnodau o wyth wythnos yn ystod yr haf.

## Rhagor o wybodaeth...

Ebost: **go@caerdydd.ac.uk**

**www.cardiff.ac.uk/globalopportunities**

**www.caerdydd.ac.uk/ieithoeddibawb**

**www.cardiff.ac.uk/curop**

"

Eistedd mewn darlith oeddwn i pan glywais am y cyfle i ddilyn rhaglen haf ym Mhrifysgol Hong Kong. Serch fy niddordeb, doeddwn i heb sylwi pa mor wych oedd y cyfle roedd Prifysgol Caerdydd yn ei gynnig tan i mi ymchwilio iddo. Roedd y cwrs ei hun, y lle a'r profiad diwylliannol i gyd yn apelio, yn enwedig gan fod arian i dalu'r gost!

Cefais brofiad 'unwaith mewn oes', yn sicr. Roedd y profiad yn bopeth roeddwn i'n ei ddisgwyl, a mwy.

Cefais wybodaeth am feysydd na fyddai fy nghwrs gradd yn cyffwrdd â nhw. Cefais brofi diwylliant newydd, magu annibyniaeth a hyder a gwneud ffrindiau rhyfeddol. Er 'mod i'n nerfus a phryderus cyn mynd, rhoes y Ganolfan Cyfleoedd Byd-Eang arweiniad a chyngor drwy gydol y broses a'm helpu o ddifrif i elwa i'r eithaf ar y profiad. Hyd yn oed os nad yw'r rhaglen benodol honno'n apelio atoch chi, byddwn i'n bendant yn ymchwilio i'r cyfleoedd y mae'r Ganolfan Cyfleoedd Byd-Eang yn eu cynnig am fod cyrchfannau a phrofiadau di ben draw yn cael eu cynnig.

**Lara**, Prifysgol Hong Kong, Rhaglen Haf Gorwelion Newydd: Byd Busnes Byd-Eang yn Asia

"



Mae astudio, gweithio, neu wirfoddoli dramor fel rhan o'ch profiad yn y brifysgol yn ffordd ardderchog o ehangu'ch gwybodaeth academaidd


**O 2022, bydd myfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn cael mynediad at y Rhaglen Gyfnewid Rhyngwladol ar gyfer Dysgu gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyfleoedd ariannu ar gyfer lleoliadau astudio yn Ewrop a thu hwnt.**

Cysylltwch â'r tîm Cyfleoedd Byd-eang i gael rhagor o wybodaeth.

ebost: **go@caerdydd.ac.uk**

# Fy nghyfle byd-eang yn Washington

## Lleoliad astudio yn America, a ehangodd fy ngorwelion.



Roedd yn gyfle mor newydd! Doeddwn i erioed wedi bod dramor ar fy mhen fy hun, erioed wedi bod ar awyren o'r blaen, a byth wedi camu y tu allan i Ewrop. Roedd y profiad mor gyffrous a brawychus, i gyd ar yr un pryd. Hefyd, roeddwn i eisiau rhywbeth mwy diddorol i'w wneud gyda fy haf na dim ond gweithio, a gyda'r bwrsari a gefais roeddwn yn gallu mynd dramor heb boeni am arian. Roeddwn i'n meddwl mai'r brifysgol fyddai'r tro olaf i mi allu mynd dramor ar fy mhen fy hun heb unrhyw, wel, llawer o gyfrifoldebau.

Roeddwn i eisiau, am unwaith, byw yn wirioneddol yn y foment, ac rwy'n meddwl bod fy Nghyfle Byd-eang wedi caniatáu i mi wneud hynny. Mae fy lleoliad wedi bod yn fuddiol i fy astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd oherwydd ei fod wedi caniatáu i mi weithio ar lefel uwch yn fy maes (fferylliaeth) yn gynharach nag y byddai wedi bod disgwyl i mi ei wneud yma.

Mae wedi agor byd o bosibiliadau o glinigau dan arweiniad fferyllwyr, i ymwneud yn uniongyrchol â threfniadau cyffuriau cleifion, trafod yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a defnyddio'r wybodaeth honno i gael trafodaeth â'u meddygon a gweithwyr gofal iechyd eraill. Yn y bôn, dangosodd fy lleoliad pa mor werthfawr yw fy ngradd!

**Joseph,**
Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol






# Byw yng Nghaerdydd



Mae'r rhan fwyaf o’n lletyau o fewn pellter cerdded hawdd i adeiladau academaidd ac Undeb y Myfyrwyr

# Eich cartref oddi cartref - mae gennym amrywiaeth o opsiynau a fydd at ddant a waled pawb.

**Ein cyngor fyddai byw yn un o letyau'r Brifysgol yn eich blwyddyn gyntaf, boed hynny'n dŷ myfyrwyr neu'n neuadd breswyl. Trwy fyw yn un o letyau'r Brifysgol, cewch gyfle i gwrdd â phobl o wahanol gefndiroedd, sy'n astudio amrywiaeth eang o bynciau. Mae llety prifysgol yn cynnig cymuned gefnogol a chyfeillgar ac mae'r tîm Bywyd Preswyl yn cynnal digwyddiadau cyffrous i'ch helpu i deimlo'n gartrefol.**

## Gwarant o lety

Os ydych yn derbyn cynnig lle gan Brifysgol Caerdydd ar sail bendant ac yn cydymffurfio â therfynau amser penodol, cewch warant o ystafell sengl yn un o breswylfeydd y Brifysgol yn eich blwyddyn gyntaf, gyda myfyrwyr blwyddyn israddedig eraill yn eu blwyddyn gyntaf.

Ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/preswylfeydd** i gael manylion llawn am ein gwarant o lety a'r dyddiadau cau cysylltiedig.

## Amrywiaeth o letyau

Yn anarferol i brifysgol ddinesig, mae'r rhan fwyaf o'r lletyau o fewn pellter cerdded hawdd i'r darlithfeydd, y llyfrgelloedd, y labordai, Undeb y Myfyrwyr a chanol y ddinas.

Gyda 16 neuadd wahanol, sy'n cynnwys dros 5,500 o ystafelloedd astudio/gwely, gallwch wneud cais am y llety sydd fwyaf addas i chi, eich diddordebau a'ch cyllideb. Mae gan 70% o'r ystafelloedd gwely gawod a thoiled en-suite, ac mae gan bob ystafell astudio/wely bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol y Brifysgol, a mynediad di-wifr.



**Mae gan bob ystafell astudio/wely bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol y Brifysgol a mynediad di-wifr**



**Cegin nodweddiadol mewn preswylfa hunanarlwyo i fyfyrwyr**



## Cyngor i'ch helpu i ymgartrefu pan fyddwch yn mynd i'r brifysgol am y tro cyntaf

Pan ddechreuais yn y brifysgol am y tro cyntaf, y peth pwysicaf i mi oedd sicrhau bod fy ystafell yn teimlo'n gartrefol, er mwyn gwneud i'r ystafell deimlo'n debycach i gartref ac i'm helpu i beidio â theimlo hiraeth.

Es i â llawer o ffotograffau a'u pinio i gyd ar y pinfwrdd, ac fe wnes i fwynhau edrych ar y rhain drwy gydol fy mlwyddyn gyntaf.  Mae yna lawer o bethau sy'n gallu gwneud i'ch ystafell brifysgol deimlo'n gartrefol, gallai'r rhain gynnwys: posteri, tlysau, paentiadau cynfas, seinyddion a mwy.

Wrth gyrraedd eich llety bydd llawer o bobl newydd nad ydych chi erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen. Bydd rhai o'r bobl gyntaf y byddwch yn cwrdd â nhw yn gyd-letywyr, a byddwch yn byw gyda nhw am weddill y flwyddyn academaidd. Roedd hi'n bwysig iawn i mi wneud yn siŵr fy mod i'n dod i adnabod fy nghyd-letywyr a ffurfio perthynas â nhw, i'm helpu i deimlo'n gartrefol drwy gydol y flwyddyn ac i wybod bod gen i bobl i gymdeithasu â nhw ar garreg fy nrws.

**Jess**

# Byw yng Nghaerdydd




## Chi biau'r dewis

Mae preswylfeydd hunanarlwyo yn eich galluogi i baratoi eich prydau eich hun i gyd-fynd â'ch amserlen, chwaeth, a chyllideb. Gallech hefyd ddewis opsiwn arlwyo rhannol gyda phryd gyda'r nos, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Mae'r holl opsiynau arlwyo rhannol yn cynnig prydau llysieuol a chyfleusterau i wneud byrbrydau a diodydd poeth.

## Gwneud cais am lety

Pan fyddwch wedi gwneud cais am le ym Mhrifysgol Caerdydd, cewch fanylion am sut i wneud cais am le yn ein neuaddau preswyl. Os ydych yn derbyn ein cynnig ar sail gadarn, cewch y flaenoriaeth uchaf o ran dyrannu preswylfeydd.



**Mae gan y Brifysgol 16 o breswylfeydd**

## Llety fforddiadwy

Mae ffioedd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, megis y cyfleusterau sydd gan y breswylfa neu'r ystafell astudio/wely, ac a ydych am fyw mewn llety ag arlwyo rhannol neu lety hunanarlwyo. Mae ein ffioedd yn cymharu'n ffafriol iawn â phrifysgolion eraill y Deyrnas Unedig. Fel arfer, mae llety arlwyo rhannol yn costio rhwng £129 a £148 yr wythnos. Mae lle mewn llety hunanarlwyo yn costio rhwng £114 a £145 yr wythnos ar hyn o bryd (prisiau 2020/21 yw'r holl ffigurau hyn). Cadarnheir y costau ar gyfer **2022/23** yn ystod 2022, ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan.

## Cyplau a theuluoedd

Mae gennym nifer fechan o breswylfeydd sy'n addas i gyplau a theuluoedd. O ganlyniad, ni allwn warantu'r math hwn o lety i chi a rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n dod o wlad dramor am y tro cyntaf. Disgwylir i'r holl fyfyrwyr sy'n byw mewn llety o'r fath chwilio am lety gwahanol yn y blynyddoedd dilynol, gan na ellir ymestyn y cyfnod preswyl y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf. Cynghorir myfyrwyr sy'n chwilio am lety parau/teuluoedd yn gryf i sicrhau llety addas cyn iddynt gyrraedd Caerdydd.

# Residence life
# Bywyd Preswyl

## Bywyd Preswyl

Mae'r Tîm Bywyd Preswyl yn fyfyrwyr a staff sydd am wneud yn siŵr eich bod yn cael yr amser gorau posibl wrth aros yn ein neuaddau. Bydd y tîm yn gwneud eu gorau glas i gynnig croeso cynnes a'ch helpu i ymgartrefu mewn modd diffwdan ym mywyd y Brifysgol. Bydd y tîm yno i'ch cyfarch pan fyddwch yn cyrraedd Prifysgol Caerdydd ac yn eich helpu i ddod o hyd i'ch ystafell.

Bydd anrhegion gan y Tîm yn eich fflat a'ch cegin i'ch croesawu. Manteisiwch ar y talebau lleol a'r nwyddau rhad ac am ddim, yn ogystal â'r calendr o ddigwyddiadau i lasfyfyrwyr i'ch helpu i ymgartrefu, cael hwyl a gwneud ffrindiau. A pheidiwch â cholli'r holl fwyd am ddim!

Rydych yn bwysig i'r Tîm Bywyd Preswyl ac maen nhw am weithio gyda chi i greu ymdeimlad cryf o gymuned yn eich neuaddau. Drwy amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â chefnogaeth ymarferol, maen nhw yma ar eich cyfer chi.

Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid hefyd, ac yn atgyfeirio myfyrwyr i'r gwasanaethau Bywyd Myfyrwyr os oes angen. Dewch i ymuno â nhw a dod o hyd i'ch lle ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Taith Rithwir o Amgylch y Campws

Dysgwch fwy am y Brifysgol ac am ddinas Caerdydd drwy fynd ar ein taith ryngweithiol ar-lein yma:
**virtualtour.cardiff.ac.uk/cy**

## Rhagor o wybodaeth...

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**www.caerdydd.ac.uk/preswylfeydd**

Fel arall, mae canllawiau sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanylach ar gael yn:
**www.caerdydd.ac.uk/pubs/ug**

Gallwch hefyd wylio ein ffilm preswylfeydd ar-lein yn:

YouTube **www.youtube.com/watch?v=hxzX-dYLfB8**

# Sgwrs â'n myfyrwyr...

Hoffech chi wybod rhagor am fywyd ym Mhrifysgol Caerdydd? Sut beth yw eich cwrs? Neu efallai sut beth yw diwrnod nodweddiadol? Pa glybiau a chymdeithasau allech chi ymuno â nhw? Ydy'r sîn gerddorol yng Nghaerdydd o unrhyw werth?




**Cewch hyd i'r atebion i'r rhain a llawer mwy o gwestiynau isod.**

Mae rhai o'n myfyrwyr ar-lein a gallant rannu eu profiadau o sut beth yw bod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd. Gallant ateb eich cwestiynau – ewch i: **www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau** a chlicio ar y cwrs y mae gennych ddiddordeb ynddo a chwiliwch am y blwch sgwrsio ar-lein.










## Tommy

**Daearyddiaeth (Ddynol)**

Helo 'na! Fy enw i yw Tommy ac rwy'n fyfyriwr Daearyddiaeth Ddynol yn fy mlwyddyn gyntaf. Roedd ymuno â Phrifysgol Caerdydd yn gyflawniad enfawr i mi ac rwy'n edrych ymlaen at rannu fy mhrofiadau a rhoi awgrymiadau i ddarpar fyfyrwyr. Mae Caerdydd yn ddinas hynod amrywiol a bywiog, gyda llawer o wahanol ardaloedd i'w darganfod a'u mwynhau! Mae fy hobïau yn cynnwys pêl-droed, rasio modur, pêl-fasged, rhedeg, ac yn y bôn unrhyw beth sy'n ymwneud â chwaraeon! Rydw i hefyd yn deithiwr brwd, ac rydw i wrth fy modd yn crwydro o gwmpas lleoedd newydd! Rydw i hefyd ar Rwydwaith Blogiau Prifysgol Caerdydd, felly os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am Gaerdydd a'r Brifysgol, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y blogiau hynny!

## Ellen

**Meddygaeth**

Helo! Ellen ydw i, myfyriwr meddygol trydedd flwyddyn o Swydd Stafford! Y tu allan i feddygaeth, rydw i wrth fy modd yn bod yn rhan o gymdeithasau, chwarae'r ffidil, bod yn rhan o'r eglwys a phobi! Mae bod yn flogiwr myfyriwr mor bwysig i mi gan fy mod yn gallu rhannu gwybodaeth am y broses ymgeisio yn ogystal â bywyd fel myfyriwr meddygol yng Nghaerdydd, ac mae'n wych i grynhoi'r cyfan mewn un gair! Rwyf hefyd wrth fy modd yn bod yn UniBuddy gan fy mod yn cael siarad â darpar fyfyrwyr bob dydd o bob rhan o'r byd a chefnogi eu hymholiadau. Mae'n gyfle prin i gael siarad â myfyrwyr presennol y brifysgol ac mae'n bleser gallu darparu'r gwasanaeth hwn drwy gydol y flwyddyn!

## Henry

**Cerddoriaeth**

Helo! Henry ydw i. Rydw i yn fy nhrydedd flwyddyn a blwyddyn olaf yn astudio Cerddoriaeth, ac yn dod o Birmingham. Rydw i yn y gymdeithas figanaidd a llysieuol ac yn llywydd Côr Unison, sy'n llawer o hwyl (er nad ydyn ni wedi gallu gwneud llawer eleni fel côr yn y cyfnod clo)! Rydw i wrth fy modd yn gallu ysgrifennu blogiau am fy mhrofiad o'r Brifysgol a Chaerdydd yn arbennig, ac mae bod yn UniBuddy yn golygu fy mod i'n gallu rhoi cyngor ymarferol i fyfyrwyr newydd a darpar fyfyrwyr, sy'n deimlad braf, oherwydd rydw i eisoes wedi profi beth maen nhw'n mynd drwyddo.

# Gwasanaethau i fyfyrwyr

## Gydag 1.2 miliwn o lyfrau, rhwydwaith TG cyflym a diwifr, cyfleusterau astudio pwrpasol, a gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr i fyfyrwyr, rydym yn sicrhau bod cymorth da ar eich cyfer drwy gydol eich amser yng Nghaerdydd.

### Cyfleusterau TG

Mae ein cyfleusterau TG yn rhoi mynediad i amrywiaeth o gymorth, offer, ac adnoddau i'ch helpu i astudio. Mae rhwydwaith diwifr ar gael ledled y Brifysgol, ar y ddau gampws yn ogystal â'r preswylfeydd sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Drwy rwydwaith y Brifysgol, gallwch ddefnyddio ystod eang o raglenni meddalwedd ac offer cydweithio. Bydd eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair yn y Brifysgol yn eich galluogi i gael gafael ar wasanaethau ac adnoddau ar-lein, gan gynnwys ebost a storfa ffeiliau ar rwydwaith. Byddwch hefyd yn elwa ar danysgrifiad am ddim i gynhyrchion Microsoft Office 365 (Microsoft Office ProPlus) ynghyd â meddalwedd gwrth-feirws am ddim drwy gydol eich astudiaethau.

Mae gennym 'amgylchedd dysgu rhithwir ar-lein estynedig' sy'n rhoi cefnogaeth i chi ar-lein at ddysgu, astudio, a chydweithio. Gallwch gael gafael ar y gwasanaethau hyn ar y campws ac oddi arno drwy ein mewnrwyd. Mae ystafelloedd TG Mynediad Agored ar draws y Brifysgol, ac mae rhai ohonynt ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Cewch rwydd hynt i ddefnyddio'r rhain.

Cewch fynediad at dros 1.2m o lyfrau print, gan gynnwys nifer o gopïau o’r gwerslyfrau sydd wedi’u hargymell ar y rhestri darllen, 60,000 o e-gyfnodolion, 543,000 o e-lyfrau, ac ystod eang o lyfrau prin a hanesyddol ym mhob pwnc.

Rydym hefyd yn cynnig cyfleusterau hunanwasanaeth, a chyfle i ddefnyddio gwasanaethau llungopïo a ThG.

### Staff sy'n barod i helpu

Mae ein staff cyfeillgar yn arbenigwyr yn eu maes a bob amser wrth law i roi cyngor.

Mae ystod o gymorth i ddefnyddio'r ddwy lyfrgell ac adnoddau TG ar gael. Rydym yn cynnal rhaglen o weithdai, seminarau, a chyrsiau hyfforddi, gan gynnwys rhaglen ymsefydlu ar-lein y llyfrgell sy'n eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i chi. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o gymorth i alluogi myfyrwyr ag anableddau i ddefnyddio ein llyfrgelloedd a'n gwasanaethau TG.

Os oes gennych gwestiynau neu os oes angen cymorth penodol, gallwch gysylltu drwy ffonio (mae cymorth TG ar gael dros y ffôn 24 awr y dydd), sgwrsio'n fyw ar-lein, ebostio neu alw heibio. Mae'r Clinig TG yn Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnig cyngor ar faterion TG cyffredin.

### Eich bywyd fel myfyriwr, gyda chefnogaeth

Mae'r Timau Bywyd Myfyrwyr yma i'ch cefnogi yn ystod eich astudiaethau. Mae staff arbenigol ar gael i gynnig cyngor a chefnogaeth gyfrinachol, i’ch helpu i fanteisio i’r eithaf ar eich bywyd fel myfyriwr.



**Mae gennym 'amgylchedd dysgu rhithwir ar-lein estynedig' sy'n rhoi cefnogaeth i chi ar-lein at ddysgu, astudio, a chydweithio.**

### Cefnogi eich astudiaethau

Er mwyn eich helpu i addasu i ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu, yn ogystal â byw i ffwrdd o gartref, bydd gennych fynediad at fentor sy’n fyfyriwr o’ch ysgol academaidd. Mae’r cynllun mentora myfyrwyr yn dîm o fyfyrwyr hyfforddedig sy’n rhoi arweiniad academaidd ac anacademaidd, maen nhw yno i’ch helpu gyda materion sy'n ymwneud â'ch ysgol academaidd ac ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych o safbwynt myfyriwr.

Mae'r gwasanaeth Sgiliau Astudio Academaidd ar gael i bob myfyriwr israddedig i'ch cefnogi gyda'ch astudiaethau drwy gynnig dosbarthiadau ac arweiniad ar ystod o bynciau, fel ysgrifennu traethodau, adolygu ac awgrymiadau ar gyfer arholiadau, meddwl yn feirniadol, a gwneud nodiadau. Yn ychwanegol at hynny y mae ein cyfres o diwtorialau hunanastudio ar-lein a dewis eang o adnoddau sydd ar gael yn ein Hamgylchedd Dysgu Rhithwir, a gallwch gweithio drwy'r rhain yn eich amser eich hun.

Mae cefnogaeth arbenigol ar gael hefyd gan ein Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr. Mae'r tîm yn cefnogi myfyrwyr â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, anawsterau dysgu penodol, cyflyrau sbectrwm awtistiaeth neu namau synhwyraidd a chorfforol. Bydd y tîm yn cynnig cyngor arbenigol, anfeirniadol i’ch helpu i adnabod eich anghenion cymorth, unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnoch, ac yn eich helpu i gael mynediad at wasanaethau cymorth perthnasol. Gallant roi cyngor ar wneud cais am y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) a'r cymorth sydd ar gael gan y Lwfans. I drafod eich anghenion penodol cysylltwch â'r tîm cyn gynted â phosibl.

### Gofalu am eich iechyd a’ch lles

Credwn fod gofalu am eich iechyd a'ch lles yn hollbwysig er mwyn i chi wneud y mwyaf o'ch bywyd fel myfyriwr. Os ydych yn profi anawsterau personol, emosiynol neu seicolegol – neu'n awyddus i wybod sut i fyw bywyd mwy iach – gall ein tîm iechyd a lles eich helpu. Rydym yn cynnig ystod eang o gymorth gan gynnwys: adnoddau hunangymorth, rhaglen cymorth gan

gymheiriaid, gweithdai, cyrsiau a grwpiau, sesiynau galw heibio lles, cwnsela un-i-un ac apwyntiadau lles, apwyntiadau cymorth arbenigol, ac atgyfeiriadau am gymorth pellach. Fel arfer gellir cael mynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn. Mae ein tîm iechyd galwedigaethol, ar gampws Parc y Mynydd Bychan, yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr gofal iechyd i'ch paratoi chi at eich cwrs a'ch lleoliadau. Mae hefyd gennym feddygfa Plas y Parc os ydych yn byw yn y dalgylch. Darperir y gwasanaeth hwn ar y cyd rhyngom ni â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Cymorth i fyfyrwyr sy'n byw mewn llety yn y Brifysgol

Rydym eisiau i chi fanteisio i'r eithaf ar eich amser mewn neuadd breswyl. Mae ein tîm Bywyd Preswyl wedi ymrwymo i greu cymuned o fewn preswylfeydd lle rydych yn teimlo eich bod chi'n perthyn ac yn cael eich cynnwys, yn ogystal â'ch annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhannu eich profiadau. Lle bo'n briodol, byddant yn eich cyfeirio at wasanaethau cefnogaeth i'ch helpu i fanteisio'n llawn ar eich bywyd fel myfyriwr a chyflawni eich nodau a'ch dyheadau personol.

## Rheoli eich arian a chyngor ymarferol ynghylch byw yng Nghaerdydd a'r DU

Os oes angen cyngor, gwybodaeth neu gymorth arnoch ynglŷn â fisâu a mewnfudo, neu gyllid myfyrwyr, bwrsariaethau, ysgoloriaethau, elusennau neu gronfeydd ymddiriedolaeth, gall ein tîm Cyngor ac Arian eich helpu. Gall y tîm hefyd eich helpu gyda sgiliau arian a chyllidebu, ac mewn sefyllfaoedd o galedi ariannol. Yn ogystal â chynnig cyngor ar lety, newidiadau i'ch amgylchiadau, ac addasu i fywyd yng Nghaerdydd.

## Paratoi ar gyfer eich dyfodol

Rydym yn eich annog i fanteisio i'r eithaf ar eich amser yn ystod eich astudiaethau i ddatblygu eich sgiliau a'ch profiadau. Mae ein timau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd a Chyfleoedd Byd-eang yn gallu eich helpu gyda chynllunio eich gyrfa a'ch annog i ddechrau yn eich blwyddyn gyntaf. Mae'r timau ar gael i'ch cefnogi wrth i chi ystyried eich opsiynau, ennill profiadau yn y DU a threulio amser dramor, datblygu eich sgiliau a chystadlu am swyddi. Gall y timau eich helpu i wella eich rhagolygon a datblygu'r sgiliau a'r rhinweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Mae timau Cefnogi a Lles Myfyrwyr yn cynnig ystod o apwyntiadau, sesiynau galw heibio, sesiynau grŵp, gweithdai, digwyddiadau, adnoddau hunan-gymorth a chefnogaeth gan gymheiriaid.

## Canolfan Gofal Dydd

Gallwn gynnig cyfleusterau gofal dydd llawn i blant rhwng 10 wythnos a 5 mlwydd oed, ac rydym ar agor rhwng 8am a 6pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Gorau po gyntaf y cyflwynwch eich cais gan fod lleoedd yn brin. Cewch wybodaeth am ffioedd ar ein gwefan.

## Clinig llygaid

Mae'r Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg yn cynnal clinig llygaid lle gallwch gael prawf golwg.

## Caplaniaeth y Brifysgol

Mae ein Caplaniaeth yn cynnwys caplaniaid Cristnogol (Catholig, yr Eglwys yng Nghymru (Anglicanaidd), Methodistiaid, Cristnogol Dwyreiniol), Hindŵ, Iddewig a Mwslimaidd. Maent oll ar gael i fyfyrwyr ar y campws neu drwy wefan y Brifysgol. Maent yma i'ch cynorthwyo ag unrhyw faterion bugeiliol neu ysbrydol.

## Rhagor o wybodaeth...

**https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support**

Ebost: **studentsupportcentre@caerdydd.ac.uk**

Ffôn: **(029) 2087 4844**

**studentlifecu**

**www.youtube.com/Cardiffuni**



Pan gefais broblemau yn y Brifysgol, bu Cefnogi Myfyrwyr yn gefn aruthrol i mi. Roedd gwybod bod tîm penodol ar gael i fy helpu yn gysur enfawr a helpodd hynny fi yn ôl ar y trywydd iawn gyda fy astudiaethau.

**Victoria**



**Mae cyfleusterau gofal dydd ar gael ar gyfer plant myfyrwyr**




**Mae Canolfan Bywyd y Myfyrwyr yn cynnig canolbwynt ar gyfer gwasanaethau myfyrwyr**

# Undeb y Myfyrwyr

## Ein Hundeb Myfyrwyr yw’r trydydd gorau yn y DU.*

**Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhan greiddiol o brofiad myfyrwyr yng Nghaerdydd. Mae'r Undeb yn rhan annibynnol o'r Brifysgol dan arweiniad y myfyrwyr, ac mae’n cynrychioli eich buddiannau academaidd yn ogystal â chynnig amrywiaeth o weithgareddau i’ch helpu i wneud ffrindiau a meithrin cymuned o’ch cwmpas yn ystod eich amser yn y brifysgol.**

Fel rhan annibynnol o’r Brifysgol sy'n cael ei harwain gan fyfyrwyr, mae Undeb y Myfyrwyr yno i helpu myfyrwyr i feithrin cymuned yng Nghaerdydd a’u cefnogi ym mhob maes o’u bywyd academaidd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Undeb yn cynnal digwyddiadau a gwasanaethau rhagorol i helpu myfyrwyr i gael hwyl yn ystod y dydd a'r nos, ac yn gweithio i rymuso myfyrwyr i ofalu am eu lles eu hunain a'u lles ei gilydd, ynghyd â rhoi'r wybodaeth a'r gwytnwch sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i'w lle yn y byd.

### Canolbwynt bywyd myfyrwyr yng Nghaerdydd

Yn ogystal â chynnig gweithgareddau a gwasanaethau sy’n hyrwyddo cynhwysiant, cyfeillgarwch, lles a datblygiad personol, mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnig cyngor, adloniant, a chyfleoedd i wirfoddoli, datblygu sgiliau a dod o hyd i gyflogaeth.

Gyda thros 200 o gymdeithasau myfyrwyr a 60 o glybiau chwaraeon, rydym yn gwneud popeth y gallwn i'ch helpu i fanteisio’n llawn ar eich amser yng Nghaerdydd. Os nad ydych yn siŵr eich bod am ymrwymo’n llawn i glwb neu gymdeithas, mae rhaglen Rhowch Gynnig Arni yn gyfle i chi roi cynnig ar lwyth o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys chwaraeon, y celfyddydau, gwleidyddiaeth myfyrwyr, gwibdeithiau dydd a phenwythnosau i ffwrdd. Hefyd, cewch gyfleoedd i gymryd rhan yn ein cyfryngau arobryn, gan gynnwys y papur newydd i fyfyrwyr, Gair Rhydd, cylchgrawn ffordd-o-fyw o’r enw Quench, yn ogystal â gorsafoedd radio a theledu’r Undeb, Xpress Radio a Theledu Undeb Caerdydd.

### Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, gwirfoddoli a gweithio

Cynigiwn gyrsiau ar ddatblygu sgiliau, cyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned, a chael profiad gwaith tra byddwch chi'n astudio. Gallwch hefyd ddod o hyd i waith dros dro ochr yn ochr â'ch astudiaethau drwy'r Siop Swyddi. Mae'r Siop Swyddi yn cynnig swyddi i fyfyrwyr yn y Brifysgol, yn Undeb y Myfyrwyr ac mewn llu o fusnesau lleol eraill.

### Cartref llais y myfyrwyr


Mae'r Undeb yn gweithio'n galed drwy'r amser i gyflwyno eich barn i'r bobl berthnasol, ac mae'n cydweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i wneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei chlywed ar bob lefel. Mae gennym 1,000 o gynrychiolwyr academaidd myfyrwyr ar draws y Brifysgol sy'n gallu eich cynrychioli mewn materion academaidd.

### Adloniant a gwasanaethau

Mae Undeb y Myfyrwyr mewn adeilad pwrpasol ym Mhlas y Parc ar Gampws Parc Cathays, ac yn Lolfa IV ar Gampws Parc y Mynydd Bychan. Mae'n lle gwych i astudio, cymdeithasu, ac ymlacio. Yma, cewch ddigonedd o ofod desg, seddau, mynediad at gyfrifiaduron, pwyntiau pŵer i liniaduron, a gofod i grwpiau gyfarfod ynddo. Gallwch archebu bwyd a diodydd i’ch bwrdd gan ddefnyddio ap Undeb y Myfyrwyr, p’un a ydych chi’n gwneud gwaith cwrs, yn adolygu ar gyfer arholiad neu’n dal i fyny gyda ffrindiau.

Bob wythnos, bydd yr Undeb yn cynnal nosweithiau clwb â cherddoriaeth sy'n amrywio o ddawns ac amgen i gerddoriaeth boblogaidd y siartiau. Clwb nos yw Y Plas gyda'r nos, ond mae hefyd yn lleoliad ar gyfer cerddoriaeth fyw, nosweithiau clwb, digrifwyr, sioeau ffasiwn a seremonïau gwobrwyo, felly mae digon i'ch diddanu. Mae'r Neuadd Fawr enwog wedi croesawu rhai o enwau mwyaf y byd cerddorol, o Oasis a'r Chemical Brothers, i Ellie Goulding ac Ed Sheeran.

Ar y llawer gwaelod, mae amrywiaeth o siopau a gwasanaethau, gan gynnwys siop goffi, barbwr, banc, siop lyfrau ac archfarchnad. Mae hefyd gan yr Undeb siop ddillad y Brifysgol a'i hasiantaeth gosod eiddo ei hun.







Y Plas, lleoliad diweddaraf yr Undeb

* Ffynhonnell: What Uni Student Choice Awards 2020

"Mae gan Gaerdydd undeb myfyrwyr sydd ymysg y gorau yn y DU o ran maint, safon a gweithgarwch. Mae'r cyfleusterau gwych yn cynnwys Y Plas, clwb nos sydd â lle i 2,150 o bobl, a'r Neuadd Fawr, sy'n lleoliad o bwys ar gyfer cyngherddau."

**Complete University Guide, 2019**

Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd





Mae gan yr Undeb ei orsafoedd teledu a radio ei hun

**Jody** (BA) yw cyfarwyddwr cwmni Bulldozer Film, cwmni ffilmiau annibynnol sy'n arbenigo mewn fideos cerddoriaeth, ffilmiau byrion, rhaglenni byrion, a chynnwys ar gyfer y teledu.

**Roedd astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn help mawr wrth i mi geisio penderfynu beth i'w wneud yn fy ngyrfa.** Drwy gymryd rhan yng nghyfryngau'r myfyrwyr, datblygais y sgiliau rwy'n eu defnyddio bob dydd yn fy ngwaith. Roedd fy ngradd mewn Saesneg a Chyfathrebu yn wych, ond y profiad a gefais y tu hwnt i fy astudiaethau wnaeth fy ngalluogi i gyrraedd lle ydw i heddiw.

Cefais i fy nghyfareddu'n llwyr gan y cyfle i gymryd rhan yng Ngwobrau Cyfryngau Myfyrwyr Caerdydd, a gweithio ar nifer o gyfryngau megis Gair Rhydd, Quench, CUTV, ac Xpress Radio.

Mae Gwobrau Cyfryngau'r Myfyrwyr yn un o fy hoff atgofion. Mae'n ddigwyddiad hynod fawreddog, lle caiff myfyrwyr gydnabyddiaeth am y gwaith maent wedi ei wneud yn y cyfryngau y tu allan i'w graddau. Mae hefyd yn esgus gwych i ymwisgo'n foethus a chael parti.

Yn y flwyddyn ar ôl graddio, bûm yn gwneud gwaith llawrydd fel fideograffydd, ac yn cymryd rhan mewn cynllun mentora busnes a wnaeth fy helpu i gymryd y camau nesaf ym myd hunangyflogaeth.

Rwyf bellach yn rhedeg fy musnes fy hun: Bulldozer Films. Rwy'n gweithio oriau o'm dewis i, a gallaf fod yn gwneud unrhyw beth o farchnata i brosesu ceisiadau cyllid. Rydw i hefyd yn gyfarwyddwr ar gyfer Gŵyl Ffilmiau Mini Caerdydd a Gŵyl Cyfryngau Myfyrwyr Ffresh Cymru. Rwy'n cymryd rhan ym mhob agwedd o'r broses gynhyrchu ar gyfer y naill ŵyl a'r llall.

Byddaf wastad yn cofio fy mhrofiad yn y brifysgol fel rhai o flynyddoedd gorau fy mywyd. Rwyf mor falch i mi fynd. Dechreuais fel myfyriwr hŷn, tua naw mlynedd yn hŷn na'm cyfoedion, ond teimlais yn gwbl gartrefol. Prifysgol Caerdydd oedd y platfform a'm galluogodd i sylweddoli fy nyfodol.



## Rhagor o wybodaeth...

Gwe: **cardiffstudents.com**

# Chwaraeon

## Mae gennym bedair prif ganolfan ar gyfer chwaraeon ar draws y Brifysgol:

### Pentref Hyfforddiant Chwaraeon – Tal-y-bont

Cewch hyd i ystod eang o gyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored wedi'u lleoli'n hwylus ar safle un o'n preswylfeydd myfyrwyr mwyaf, a thaith gerdded fer yn unig o'r prif gampws.

Mae nifer o glybiau chwaraeon y Brifysgol yn cynnal eu sesiynau hyfforddi a'u gemau yn ein neuadd chwaraeon amlbwrpas, ac mae hefyd yn cynnwys ystafell ffitrwydd, ystafell datblygiad corfforol, cyrtiau sboncen â chefn gwydr, a rhwydi criced. Mae'r cyfleusterau awyr agored yn cynnwys cyrtiau tennis a chaeau artiffisial o dan lifoleuadau. Mae gwasanaethau ffisiotherapi a sesiynau datblygiad corfforol ar gyfer timau yn cael eu cynnal yn y Ganolfan hefyd.

### Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol – Plas y Parc/Ffordd Senghennydd

Yng nghanol y prif gampws, mae'r cyfleuster hwn yn cynnig tri llawr ag offer cardiofasgwlaidd, ymwrthiant a phwysau. Mae gan yr ystafell ffitrwydd amrywiaeth eang o offer sy'n seiliedig ar ymwrthiant a pheiriannau cardiofasgwlaidd, gyda darpariaeth o'r radd flaenaf ar gyfer cryfder a datblygiad corfforol ar y llawr uchaf. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys offer codi pwysau o safon Olympaidd ac offer hyfforddi ymarferol, gan gynnig mantais gystadleuol i athletwyr elitaidd. Fe'i defnyddir gan dimau rhyngwladol, gan gynnwys timau rygbi Seland Newydd ac Awstralia, ac mae'n addas i bob gallu, o ddechreuwyr i athletwyr proffesiynol. Mae'n hymagwedd gyfeillgar a phersonol at iechyd a ffitrwydd yn cynnwys hyfforddiant personol, cynllunio rhaglen i'r unigolyn, profion ffitrwydd a chyngor ynghylch maeth.

### Stiwdio 49, Plas y Parc

Mae Stiwdio 49, sy'n agos iawn at Ganol y Ddinas a Phrif Adeilad y Brifysgol, yn stiwdio ddawns fodern sy'n cynnig ystod eang o ddosbarthiadau ffitrwydd. Mae rhai o'n dosbarthiadau mwyaf poblogaidd yn cynnwys pilates, ioga, beicio dan do a Zumba.

### Meysydd Chwarae - Llanrhymni

Mae'r cyfleuster chwaraeon awyr agored hwn yn cynnwys 33 erw o feysydd chwarae glaswellt (ac un a chanddo lifoleuadau) a chae chwarae 3G maint-llawn. Mae FIFA a'r IRB wedi cymeradwyo'r arwyneb pob-tywydd dan lifoleuadau, ac mae yno eisteddle a man cynhesu hefyd fel y gellir cynnal chwaraeon yno drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfleuster hwn hefyd wedi croesawu timau rygbi a phêl-droed rhyngwladol ar daith fel safle hyfforddi.

### Clybiau chwaraeon

Ceir amrywiaeth eang o glybiau chwaraeon yn y Brifysgol, gyda chyfleoedd i gymryd rhan ar lefel uchel neu yn hamddenol. Ar hyn o bryd, mae gennym dros 60 o glybiau Undeb Athletau i ddynion a menywod, gan amrywio o chwaraeon traddodiadol, fel rygbi a chriced, i grefftau ymladd, chwaraeon modur a dodgeball. Mae llawer o'n clybiau'n cystadlu yng nghystadleuaeth Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS), lle mae timau'n teithio ledled Cymru a Lloegr i frwydro yn erbyn prifysgolion eraill am bwyntiau BUCS. Mae nifer o glybiau chwaraeon y Brifysgol yn cystadlu ar y lefel uchaf, yn Uwch Gynghrair BUCS yn eu priod feysydd chwaraeon. Rydym yn cael ein rhestru'n gyson ymhlith prifysgolion mwyaf blaenllaw y DU sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth BUCS. Mae hefyd gennym raglen hynod boblogaidd o gemau mewnol (IMG) gyda thros 100 o dimau mewnol ysgolion a chymdeithasau yn cystadlu yn wythnosol mewn pêl-rwyd, pêl-droed a rygbi.

### Rhaglen chwaraeon lefel uchel

Mae ein Rhaglen Perfformiad Uchel yn cynnig rhaglen cymorth gynhwysfawr i'r athletwyr gorau er mwyn gwneud yn siŵr bod ganddynt yr amgylchedd angenrheidiol i ragori yn eu gyrfaoedd chwaraeon yn ogystal â'u gyrfaoedd academaidd. Mae'r rhaglen yn cynnwys cefnogaeth mewn meysydd fel cryfder a chyflyru, ffisiotherapi, seicoleg, maeth a ffordd o fyw perfformiad. Mae athletwyr sy'n cael eu dewis ar y Rhaglen Perfformiad Uchel hefyd yn cael aelodaeth o'r cyfleusterau chwaraeon am ddim, gyda'r potensial am wobr ariannol. I fod yn gymwys, mae angen i fyfyrwyr-athletwyr fod yn cystadlu ar safon ryngwladol iau neu uwch yn eu camp.


**Mae gan Gaerdydd 33 erw o gaeau glaswellt o'r radd flaenaf ar gyfer chwaraeon awyr agored**

Rydym yn un o dri sefydliad sy'n ffurfio Canolfan Ragoriaeth Criced Prifysgolion De Cymru Caerdydd (UCCE, MCCU gynt), sy'n rhoi cyfle i gricedwyr dawnus gyfuno addysg uwch â hyfforddiant lefel uchaf a chyfleoedd i chwarae.

Mae gennym hefyd bartneriaeth gyda Triathlon Cymru a sefydliad lleol arall drwy Ganolfan Perfformiad Triathlon Genedlaethol Cymru (NTPCW), sy'n cynnig yr hyfforddiant, y cymorth a'r amgylchedd i ddatblygu triathletwyr elît yn ystod eu hastudiaethau.

**Ymysg y Clybiau Chwaraeon mae:**

| | |
|---|---|
| Ffitrwydd Awyrol | Caiacio |
| Aikido | Bocsio Cic |
| Pêl-droed Americanaidd | Pêl-korf |
| Saethyddiaeth | Kung fu |
| Athletau | Lacrosse |
| Badminton | Crefft Ymladd Cymysg |
| Pêl-fas a phêl feddal | Chwaraeon Modur |
| Pêl-fasged | Beicio Mynydd |
| Barbell | Mynydda |
| Bocsio | Pêl-rwyd |
| Ogofa ac archwilio canionau | Polo |
| Criw Codi Hwyl (Cheerleading) | Reiffl |
| Saethu Colomennod Clai | Rhwyfo |
| Criced | Rygbi |
| Chwaraeon ffyn | Hwylio |
| Beicio | Plymio sgwba/Nofio tanddwr |
| Dawnsio | Chwaraeon Eira |
| Dodgeball | Sboncen |
| Marchogaeth | Chwaraeon Syrffio |
| Cleddyfa | Nofio a Pholo Dŵr |
| Pêl-droed a Futsal | Tennis Bwrdd |
| Golff | Taekwon-do |
| Heicio | Tennis |
| Hoci | Rygbi Cyffwrdd |
| Hoci iâ | Trampolinio |
| Sglefrio Iâ | Triathlon |
| Jiu Jitsu | Ultimate Frisbee |
| Karate | Pêl foli |
| | Hwylfyrddio |



Y cae hoci yn y Pentref Hyfforddiant Chwaraeon

Rydym yn cael ein rhestru'n gyson ymhlith prifysgolion mwyaf blaenllaw y DU sy'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS).





**Heather** OBE (BSc Gwyddorau Biofeddygol) yw capten tîm criced merched Lloegr.

**Dechreuodd fy nghariad tuag at griced dyfu pan oeddwn tua chwe mlwydd oed.** Treuliais y rhan fwyaf o'm plentyndod yn chwarae yn y timau bechgyn a dynion, ac nid oeddwn yn gweld criced fel gyrfa bosib nes i mi dreulio pedair blynedd yn chwarae dros Loegr. Yna, daeth contractau proffesiynol.

Roeddwn am fynd i brifysgol gydag academi criced MCCU. Ar ôl ymweld â Chaerdydd ar ddiwrnod agored, cefais deimlad da, ac roeddwn yn gwybod y byddwn yn mwynhau fy nghyfnod yno. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig mewn ffisioleg, ac mae gan Gaerdydd adran Biowyddorau gref.

Hanner ffordd drwy fy ngradd, fe'm galwyd i daith Lloegr i India. Ar ôl India, roeddwn yn aml ar daith am fisoedd ar y tro, a oedd yn golygu bod rhaid i mi astudio llawer o'r darlithoedd o hirbell. Roedd rhaid i fi sefyll rhai o fy arholiadau yn ystod y cyfnod ailsefyll hefyd. Roedd yr adran yn wych, gan roi amser ychwanegol i mi ar gyfer fy aseiniadau, ac aros yn hyblyg; rhaid oedd y ffaith bod fy nhiwtor personol yn ffoli ar griced yn help!

Mae fy ngradd o Gaerdydd wedi peri i mi weld pethau y tu allan i'r byd chwaraeon o safbwynt gwahanol.

Mae cyfle i bawb fod ynghlwm wrth griced. Mae'n gêm gymdeithasol iawn ac mae lle i bawb ar ryw lefel, yn ogystal â'r cyfle i gymysgu ag amrywiaeth o bobl na fyddech o bosib yn cwrdd â nhw fel arall. Fe wnes i gwrdd â llawer o bobl wych drwy Glwb Criced Prifysgol Caerdydd ac rwy'n dal i fod yn ffrindiau â rhai ohonynt hyd heddiw.

# Myfyrwyr o bedwar ban byd

Mae dros 8,600 o fyfyrwyr o fwy na 130 o wledydd yn dewis astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn ymuno â'n cymuned amrywiol ac amlddiwylliannol o fyfyrwyr.

## Cyn gadael gartref

Ceir croeso cynnes o'r tro cyntaf i chi gysylltu â ni. Bydd gwasanaeth ymroddedig a phersonol gan y Swyddfa Ryngwladol yn eich cefnogi chi drwy gydol eich cais ac yn cynnig unrhyw gyngor ac arweiniad pan fo angen.

## Gwarant o lety

Rydym yn falch o allu gwarantu llety ystafell sengl ar y campws i bob myfyriwr rhyngwladol amser llawn sy'n gwneud cais drwy'r cylch derbyn arferol ar gyfer cyfnod ei raglen radd. Bydd gennych eich ystafell wely eich hun yn ystod y tymor yn ogystal â chyfnodau gwyliau.

## Ar ôl cyrraedd y DU

### Gwasanaeth casglu ar fws

Rydym yn cynnig gwasanaeth casglu ar fws o feysydd awyr Heathrow a Chaerdydd wythnos cyn ymrestru ym mis Medi. Bydd rhywun yn cwrdd â chi yn y maes awyr ac yn mynd â chi i'ch llety yng Nghaerdydd. Bydd staff y Brifysgol ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

### Digwyddiadau croeso

Cynhelir digwyddiadau croesawu myfyrwyr rhyngwladol ym mis Medi a mis Ionawr a'u nod yw eich cyflwyno i'r Brifysgol, dinas Caerdydd, a'r ardaloedd cyfagos. Mae'n ffordd wych o gwrdd â myfyrwyr eraill a gwneud ffrindiau. Gallwch hefyd ymuno ag unrhyw rai o gymdeithasau chwaraeon a digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr.

## Ym Mhrifysgol Caerdydd

### Cymorth drwy gydol eich astudiaethau

Amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar fywyd fel myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys cyngor a chefnogaeth lles gan ein Tîm Cyngor ac Arian, Tîm Lles a Chwnsela, a Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Mae gan ein tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol gynghorwyr arbenigol a all helpu gyda materion fel fisâu, mewnfudo, ac ymgartrefu yn y DU. Mae gan bob myfyriwr diwtor personol hefyd i'ch arwain a'ch cefnogi gyda'ch anghenion academaidd ac anacademaidd drwy gydol cyfnod eich cwrs gradd.

### Cymdeithasau myfyrwyr rhyngwladol

O fewn Undeb y Myfyrwyr, ceir nifer o gymdeithasau sy'n cael eu cynnal gan fyfyrwyr rhyngwladol. Maent yn trefnu digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol drwy gydol y flwyddyn, gan wneud eich amser ym Mhrifysgol Caerdydd mor ddymunol â phosibl.

### Siop Swyddi

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr rhyngwladol yn cael gweithio'n rhan-amser, os yw eu hastudiaethau yn caniatáu - hyd at 20 awr yr wythnos yn ystod y tymor ac amser llawn yn ystod y gwyliau. Y Siop Swyddi yw asiantaeth cyflogaeth y Brifysgol sy'n eich helpu i ddod o hyd i waith achlysurol ar y campws ac ar draws y ddinas.

## Cynfyfyrwyr

Nid yw eich perthynas gyda Phrifysgol Caerdydd yn gorffen ar y diwrnod graddio. Ar ôl graddio, byddwch chi'n rhan o rwydwaith fyd-eang o dros 180,000 o gynfyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Byddwch yn gallu ymuno â chymdeithasau cynfyfyrwyr byd-eang, mynd i aduniadau ac argymell eich profiad i eraill sy'n ystyried Caerdydd.

## Ffioedd a chostau byw

### Ffioedd dysgu sefydlog

Mae ffioedd dysgu rhyngwladol yn sefydlog ar gyfer y rhan fwyaf o'n rhaglenni israddedig tair blynedd dros gyfnod y cwrs. Bydd y pris y byddwch yn ei dalu yn y flwyddyn gyntaf yr un peth yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, sy'n ei gwneud yn haws i chi gynllunio a chyllidebu.

### Taliad ffioedd hyblyg

Os ydych chi'n fyfyriwr sy'n ariannu eich hun, gallwch, heb gost ychwanegol, dalu ffioedd dysgu a llety mewn tri rhandaliad cyfartal drwy gydol y flwyddyn, sy'n gwneud y taliadau yn haws i chi a'ch teulu.

### Costau byw

Mae costau byw yng Nghaerdydd yn isel iawn o'u cymharu ag unrhyw ddinas fawr yn y DU.

Dim ond taith gerdded fer yw ein lletyau o'r ysgolion academaidd a chanol y ddinas, sy'n golygu na fyddwch yn gwastraffu arian yn talu am deithio diangen. Mae costau byw



Mae dros 8,600 o fyfyrwyr rhyngwladol ym Mhrifysgol Caerdydd

**amcangyfrifedig** myfyriwr unigol sy'n byw mewn llety hunanarlwyo sy'n eiddo i'r Brifysgol yn ystod y tymor (naw mis/40 wythnos) yn £10,000.

## Gofynion mynediad

Cyflwynir gofynion mynediad academaidd yn y prosbectws hwn yn ôl graddau Safon Uwch/pwyntiau IB. Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw gymwysterau eraill, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'r Swyddfa Ryngwladol a fydd yn hapus iawn i'ch cynghori ynghylch a yw eich cymwysterau yn dderbyniol a pha raddau y bydd eu hangen arnoch: **international@caerdydd.ac.uk**

## Saesneg fel iaith dramor

Mae'n rhaid i chi gael safon Saesneg llafar ac ysgrifenedig a fydd yn eich galluogi i fanteisio'n llawn ar eich cwrs. Mae detholiad o gymwysterau Iaith Saesneg a'r sgoriau sydd eu hangen fel arfer gan y Brifysgol wedi eu nodi isod.* Mae gan rai ysgolion academaidd ofynion unigol ac efallai y byddant yn gofyn am sgoriau uwch. Os nad yw eich cymhwyster wedi'i restru, cysylltwch â ni am gyngor.

**IELTS:** Gofynnir am sgôr gyffredinol o 6.5 gydag o leiaf 5.5 ym mhob is-sgôr ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau

**TOEFL:** Sgôr o 90 neu fwy ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau

**Prawf Saesneg Pearson:** Sgôr o 62 neu fwy ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau

**TAG neu TGAU Saesneg:** Gradd C/4 neu uwch

**Trinity ISE II/III:**
II: dau ragoriaeth a dau deilyngdod o leiaf
III - llwyddo ym mhob cydran o leiaf.

* Gall gofynion amrywio ar gyfer rhai cyrsiau ac, yn ychwanegol i'r radd gyffredinol, efallai y bydd angen i chi gyrraedd lefel benodol mewn is-sgoriau.

# Ymgyrch #weareinternational



## Cyrsiau iaith Saesneg

Rydym yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau Saesneg cyn-sesiynol a mewn-sesiynol.

Gweler tudalen 149 neu ewch i:
**www.cardiff.ac.uk/elt**

## Yn eich gwlad chi

**Arddangosfeydd addysg**
Mae aelodau staff yn mynychu arddangosfeydd tramor yn rheolaidd a byddant yn falch iawn o gwrdd â chi i drafod eich cais ac ateb cwestiynau ynghylch astudio yng Nghaerdydd. Cysylltwch â'r Swyddfa Ryngwladol, neu ewch ar ein gwefan i weld a fyddwn yn ymweld â'ch gwlad.

**Cynghorwyr addysg lleol**
Rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â nifer o gynghorwyr addysgol lleol mewn amrywiaeth o wledydd. Gallant gynnig cymorth wrth i chi wneud cais i astudio yng Nghaerdydd. I weld a oes cynghorydd yn agos atoch chi, ewch i **www.caerdydd.ac.uk/international**

## Rhagor o wybodaeth...

I gael gwybodaeth fanwl am bob agwedd ar wneud cais, astudio a byw yng Nghaerdydd, ewch ar-lein i:
**www.cardiff.ac.uk/international**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag un o'r ymgynghorwyr addysgol, neu'r Swyddfa Ryngwladol, a byddwn yn hapus i'ch helpu:

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4432**
Ebost: **international@caerdydd.ac.uk**
Gwefan: **www.cardiff.ac.uk/international**
**cardiffinternationalstudents**



"Mae **Tanla** yn greawdwr a chyflwynydd y rhaglen deledu o Affrica Tailored Business, lle mae'n cyfweld ag entrepreneuriaid ac yn eu mesur am siwt.

**Ar ôl imi adael Caerdydd, treuliais amser ym Milan, ac wedyn dechrau gweithio i'r cwmni o'r Iseldiroedd sy'n gwneud dillad dynion, Suitsupply.** Dysgais fwy am ffabrigau, siwtiau a chelfyddyd teilwra nag a ddisgwyliais erioed. Roedd Suitsupply yn awyddus i ehangu i Affrica, felly symudais i Johannesburg. Yno, daeth criw newyddion o Dde Affrica i gynnig swydd i fi, ar ôl fy ngweld i'n gwneud cyfweliad ar y teledu. Dechreuais feddwl sut y gallwn uno fy rôl yn Suitsupply gyda fy niddordeb newydd mewn dweud 'stori busnes Affrica'.

Bob dydd roeddwn i'n mesur pobl fusnes wirioneddol lwyddiannus a diddorol am siwtiau. Roeddwn i'n gadael pob cyfarfod gyda chyfoeth o wybodaeth newydd ac awgrymiadau busnes a dyna sut y daeth Tailored Business i fod.

Dod i Brifysgol Caerdydd oedd y tro cyntaf erioed i mi fyw ar fy mhen fy hun. Roedd prifddinas Cymru'n llawn cyffro a bywyd.

Rwyf i wrth fy modd gyda'r hyn rwyf i'n ei wneud. Rwy'n cwrdd â phobl sy'n cael effaith enfawr mewn cynifer o feysydd gwahanol. Rwyf i wedi cael coffi gyda Phrif Swyddog Gweithredol Java House, wedi gwneud siwt i sylfaenydd Jamia ac wedi cyfarfod â Peter Okoye o Psquare, un o frandiau enwocaf Nigeria."






## Preswylfeydd

| | |
|---|---|
| Neuadd Aberconwy | 58 |
| Neuadd Aberdâr | 60 |
| Llys Cartwright | 57 |
| Neuadd Colum | 59 |
| Neuadd Gordon | 64 |
| Neuadd Hodge | 61 |
| Tŷ Liberty | 50 |
| Neuadd Roy Jenkins | 56 |
| Llys Senghennydd | 63 |
| Neuadd Senghennydd | 62 |
| Llys Tal-y-bont | 55 |
| Porth Tal-y-bont | 52 |
| Gogledd Tal-y-bont | 53 |
| De Tal-y-bont | 54 |
| Neuadd y Brifysgol | 51 |

### Cyfarwyddiadau

Cewch gyfarwyddiadau manwl ar gyfer pob cam o'ch taith i Gaerdydd yn:
**https://www.cardiff.ac.uk/cy/visit/directions**


### Codau Post i declynnau llywio â lloeren

Campws Parc Cathays - Prif Adeilad: **CF10 3AT**
Campws Parc y Mynydd Bychan: **CF14 4XN**


# Lleoliad – mapiau'r campws

Mae'r adeiladau academaidd, y llyfrgelloedd, Undeb y Myfyrwyr, y rhan fwyaf o'r neuaddau preswyl a chanol y ddinas o fewn pellter cerdded agos i'w gilydd.

## Campws Parc Cathays




## Campws Parc y Mynydd Bychan




### Campws Parc Cathays

| | |
|---|---|
| Adeilad Aberconwy | 30 |
| Pensaernïaeth | 6 |
| Biowyddorau | 1, 2 |
| Ysgol Busnes | 30 |
| Adeilad Bute | 6 |
| Canolfan Bywyd y Myfyrwyr | 11 |
| Caplaniaeth | 10 |
| Cemeg | 1 |
| Cyfrifiadureg a Gwybodeg | 18, 21 |
| Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC) | 33 |
| Canolfan Gofal Dydd | 16 |
| Tŷ Deri | 19 |
| Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd | 1, 22 |
| Tŷ Eastgate | 22 |
| Peirianneg | 21 |
| Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth | 27 |
| Clinig Llygaid | 31 |
| Daearyddiaeth a Chynllunio | 7 |
| Adeilad Morgannwg | 7 |
| Adeilad Hadyn Ellis | 32 |
| Y Gwyddorau Gofal Iechyd | 22 |
| Hanes, Archaeoleg a Chrefydd | 27 |
| Adeilad John Percival | 27 |
| Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant | 35 |
| Adeilad Julian Hodge | 29 |
| Y Gyfraith | 4 |
| Prif Adeilad | 1 |
| Mathemateg | 18 |
| Tŷ McKenzie | 23 |
| Ieithoedd Modern | 8 |
| Cerddoriaeth | 24 |
| Optometreg a Gwyddorau'r Golwg | 31 |
| Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol | 5 |
| Ffiseg a Seryddiaeth | 21 |
| Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol | 4 |
| Seicoleg | 3 |
| Adeiladau'r Frenhines | 21 |
| Adeilad Redwood | 5 |
| Y Gofrestrfa | 23 |
| Canolfan Diogelwch | 2 |
| Adeilad Syr Martin Evans | 2 |
| Y Gwyddorau Cymdeithasol | 7 |
| Tŷ Southgate | 34 |
| Chwaraeon | 34, 15 |
| Cymorth i Fyfyrwyr | 11 |
| Undeb y Myfyrwyr | 14 |
| Adeilad y Tŵr | 3 |
| Adeilad Trevithick | 21 |
| Saesneg | 27 |

### Campws y Mynydd Bychan

| | |
|---|---|
| Tŷ Aberteifi | 84 |
| Adeilad Cochrane | 83 |
| Ysbyty Deintyddol/Ysgol Deintyddiaeth | 76 |
| Y Gwyddorau Gofal Iechyd | 79 |
| Lolfa IV | 81 |
| Meddygaeth | 78 |
| Neuadd Meirionnydd | 81 |
| Canolfan Addysg Michael Griffith | 80 |
| Nyrsio a Bydwreigiaeth | 79 |
| Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon | 91 |
| Adeilad Tŷ Dewi Sant | 79 |

# Rhaglenni Gradd

## fesul Ysgol Academaidd


| | |
|---|---|
| Pensaernïaeth | 42-44 |
| Biowyddorau | 45-51 |
| Busnes | 52-56 |
| Cemeg | 57-59 |
| Cyfrifiadureg a Gwybodeg | 60-62 |
| Deintyddiaeth | 63-66 |
| Gwyddorau’r Ddaear a’r Amgylchedd | 67-71 |
| Peirianneg | 72-76 |
| Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth | 77-81 |
| Daearyddiaeth a Chynllunio | 82-85 |
| Y Gwyddorau Gofal Iechyd | 86-91 |
| Hanes, Archaeoleg a Chrefydd | 92-95 |
| Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant | 96-98 |
| Y Gyfraith | 99-102 |
| Mathemateg | 103-106 |
| Meddygaeth (gan gynnwys Ffarmacoleg Feddygol) | 107-112 |
| Ieithoedd Modern | 113-117 |
| Cerddoriaeth | 118-120 |
| Optometreg | 121-123 |
| Fferylliaeth | 124-126 |
| Ffiseg a Seryddiaeth | 127-130 |
| Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol | 131-133 |
| Seicoleg | 134-136 |
| Y Gwyddorau Cymdeithasol | 137-140 |
| Y Gymraeg | 141-143 |


**Ystadegau**

Mae tudalennau'r Ysgolion Academaidd yn y prosbectws hwn yn cynnwys cyfeiriadau at ein perfformiad o ran bodlonrwydd myfyrwyr, cyrchfannau graddedigion ac ansawdd ymchwil. Mae'r ffynonellau data diweddaraf sydd ar gael fel a ganlyn:

- Mae Bodlonrwydd Myfyrwyr yn seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2020
- Daw cyrchfannau graddedigion o ymatebion i Arolwg Hynt Graddedigion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2018/19. Yn cynnwys data gan HESA: Hawlfraint yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig 2022. Ni all yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig dderbyn cyfrifoldeb am gasgliadau neu benderfyniadau gan drydydd partïon yn sgîl data’r Asiantaeth
- Mae'r ystadegau am ansawdd ymchwil yn seiliedig ar ein perfformiad yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.



Trwy gydol tudalennau'r rhaglenni gradd, sylwch ar gyfuniad o symbolau sy'n ymddangos ar gornel dde uchaf tudalen deitl yr Ysgol. Mae'r symbolau yno i'ch rhybuddio bod rhai o'r rhaglenni gradd:

- **wedi'u hachredu'n broffesiynol**
- **yn cynnig blwyddyn dramor fel rhan o'ch astudiaeth**
- **yn cynnig lleoliad proffesiynol yn rhan o'ch astudiaeth**



# Pensaernïaeth

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**



## Pam dewis **Pensaernïaeth** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae'r Ysgol yn gyson ymhlith **50** ysgol pensaernïaeth orau'r byd ar restr QS World Rankings ac mae'n **un o'r 5** ysgol pensaernïaeth orau yn y DU.

Rydym yn **cynorthwyo** ac yn herio ein myfyrwyr i fod yn ymarferwyr creadigol, gan eu helpu i feithrin y **wybodaeth**, y sgiliau a'r **hyder** fydd eu hangen arnynt i arwain arferion yn y dyfodol yn feirniadol a mynd i'r afael â heriau byd-eang.

Ymunwch â'n **cymuned** fyd-eang o staff a myfyrwyr ac astudio mewn amgylchedd cydweithredol bywiog **sy'n hyrwyddo diwylliant stiwdio cryf.**

Mae ein **gwaith addysgu a arweinir gan ymchwil** yn cwmpasu'r gwyddorau ffisegol, y gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau, a dylunio er mwyn meithrin **rhagoriaeth** mewn meysydd allweddol o bensaernïaeth a'r amgylchedd adeiledig.

**98%**
Canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Mae gennym gyfleusterau newydd a phwrpasol **rhagorol** i gynorthwyo eich astudiaethau, gan gynnwys stiwdios wedi'u hadnewyddu, **gweithdy â'r holl gyfarpar**, labordy saernïo digidol, Stiwdio Hybrid, **Labordy Byw** a labordy roboteg bensaernïol.



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Astudiaethau Pensaernïol (BSc/MArch)** K100

**Achrediad**
Mae'r rhaglen hon wedi ei hachredu gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain a Bwrdd Cofrestru'r Penseiri (LAM).

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAA/A*AB neu AAB gydag A yn EPQ.
Mae'n well gennym fod yr ystod o gymwysterau Safon Uwch a/neu gymwysterau cyfatebol yn cwmpasu pwnc Celf/Dylunio ynghyd ag unrhyw gyfuniad o bynciau eraill o feysydd Gwyddoniaeth/Mathemateg a'r Dyniaethau.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 36 o bwyntiau. Cyfuniad academaidd da o bynciau.

**BTEC:** DDD (QCF)/DDM (RQF)

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen eraill, a'r rhai a all fod â phrofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Pob ymgeisydd**
**TGAU** (neu gyfwerth):
- Gradd B neu radd 6 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg Iaith.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

**Portffolio**
Mae profiad a/neu ddiddordeb brwd mewn celf a/neu ddylunio yn fantais. Gall yr Ysgol ofyn i ymgeiswyr gyflwyno dogfennau atodol, gan gynnwys portffolio electronig sy'n dangos gwaith celf a dylunio yn rhan o'u cais, lle bo hynny'n briodol. Gallai graddau a chymwysterau eraill fod yn dderbyniol os cyflwynir portffolio nodedig. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.



## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 180 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,000

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwyr: **Dr Sam Clark** a **Kelly Butt**

Ffôn: **(029) 2087 5963** **+44 (0)29 2087 5963**

Ebost: **architectureadmissions@caerdydd.ac.uk** **@WSofArchi** **wsofarchi**

**Mae'r cyfleusterau wedi'u hehangu'n sylweddol** yn ddiweddar i gynnwys gweithleoedd pwrpasol gan gynnwys Labordy Byw, Stiwdio Hybrid a Neuadd Arddangos lle bydd arddangosfeydd, cynadleddau a digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal.

## Gyrfaoedd

**Rolau swydd** – Pensaer, dylunydd trefol, ymchwilydd, gwneuthurwr modelau, animeiddiwr CG, adeiladu, cysylltiadau cyhoeddus, dyluniwr gwe, dyluniwr set a rheolwr prosiect.

**Cyflogwyr**– Practisau pensaernïaeth, adrannau technegol/amgylcheddol llywodraeth leol, cwmnïau adeiladu a phrifysgolion.

"Roeddwn i wir wrth fy modd gyda fy amser yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru. Roedd yn saith mlynedd o waith caled ac yn llawn heriau, ond yn daith hynod gynhwysfawr a gwerth chweil sydd wedi cynnig cymaint i mi. Roedd y cyrsiau'n gytbwys iawn gan annog pobl i lunio cynigion creadigol iawn a chyflwyno'r dechnoleg bensaernïol, yr hanes a'r agweddau damcaniaethol sy'n ategu pensaernïaeth ystyrlon a chynaladwy. Trwy ei theithiau astudio blynyddol, rhoes yr Ysgol gyfleoedd i'n carfan ni fynd i bedwar ban byd i ddysgu am ddiwylliannau, pensaernïaeth a hanes ar lawr gwlad. Fe wnes i gydio'n llwyr ym mhopeth roedd yr Ysgol yn ei gynnig - roedd yn dda gen i weld bod cymaint i'w ddysgu a rhoes yr amrywiaeth helaeth o ddysg hyder imi ddechrau fy ngyrfa."

**Ross**, (BSc, MArch, Pgdip)



## Mae gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru enw rhagorol am addysg ac ymchwil bensaernïol.

Sefydlwyd yr Ysgol yn 1920, ac rydym yn hen law ar ddenu myfyrwyr ôl-raddedig a graddedig o bob cwr o'r byd. Mae'r Ysgol wedi'i lleoli yng nghanol canolfan ddinesig Edwardaidd Caerdydd.

Mae ein holl raglenni gradd wedi'u hachredu'n llawn gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (yr RIBA) a Bwrdd Cofrestru'r Penseiri (yr ARB) ac maent yn cynnig sylfaen ysgogol ar gyfer ymarfer yn broffesiynol.

## Strwythur dwy haen y radd

Rhaglen tair blynedd amser llawn yw'r BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol, ac mae'n cyflwyno'r materion sydd dan sylw ym myd pensaernïaeth a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r cwrs BSc tair blynedd yn rhaglen gyflawn ynddi ei hun ar gyfer y rhai a hoffai gael addysg sy'n seiliedig ar ddylunio. Yn ogystal, gall y rhaglen BSc arwain at gael lle ar y rhaglen MArch, ar yr amod eich bod yn ennill gradd dosbarth 2:1 neu uwch.

## BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol

### Blynyddoedd 1 i 3
(RIBA Rhan 1)

Ar ôl cwblhau'r rhaglen BSc, dylech allu:

- meistroli cysyniadau sylfaenol a datblygu'r gallu i gael gafael ar wybodaeth ynghylch:
  - gwahanol ddisgyblaethau dylunio pensaernïol
  - disgyblaethau sylfaenol pensaernïaeth.
- datblygu fel dylunydd drwy:
  - ddysgu amrywiaeth o sgiliau cynrychioli, gan gynnwys technegau llaw, crefft a CAD
  - datblygu dirnadaeth ddychmygus o anghenion defnyddwyr adeiladau
  - trin a datrys problemau dylunio tri dimensiwn cymhleth
  - gallu cydblethu ystyriaethau cymdeithasol, technegol, diwylliannol, amgylcheddol ac adnoddau mewn dylunio pensaernïol
  - mireinio a mynegi'r canfyddiad o bensaernïaeth
  - datblygu sgiliau hunanreoli a chyfathrebu.

Rydym yn datblygu eich sgiliau drwy:

- waith prosiect mewn stiwdio, sy'n ddwy ran o dair o'r rhaglen hon
- modiwlau ar sail darlithoedd sy'n cefnogi gwaith prosiect. Mae pynciau'n cynnwys: technoleg bensaernïol (strwythur adeiladau, dylunio amgylcheddol, adeiladu a deunyddiau); adeiladu drwy'r oesoedd; pensaernïaeth yn ei chyd-destun; ymarfer, rheoli ac economeg; problemau pensaernïaeth gyfoes ac egwyddorion a dulliau dylunio
- ymweld â dinasoedd, adeiladau a lleoedd yn eu cyd-destun a'u hamgylchedd ffisegol gartref a thramor.



### Asesiadau a dyfarniadau

Asesir y rhaglen trwy gyflwyno gwaith cwrs: portffolios dylunio, traethodau, cyfnodolion myfyriol ac adroddiadau technegol ar ddiwedd pob semester a chynhelir adolygiadau yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd nid ydym yn cynnal unrhyw arholiadau ysgrifenedig.

## Meistr mewn Pensaernïaeth

### Blynyddoedd 4 a 5
(Rhan 2 RIBA)

Mae ail gam y rhaglen BSc/MArch dwy haen ar gyfer y rhai a hoffai barhau â'u haddysg er mwyn dod yn benseiri cymwys yn y DU.

Mae'n cynnwys dwy flynedd o astudio, y mae'r cyntaf ohoni'n seiliedig ar ymarfer yn bennaf, ac mae'r ail wedi'i lleoli yn yr Ysgol. Gwahoddir graddedigion o Ysgolion eraill i gael wneud MArch os oes ganddynt radd ail ddosbarth uwch o leiaf o Ysgol sydd wedi'i hachredu gan Ran 1 ARB/RIBA.

Gall myfyrwyr BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol ddewis symud ymlaen yn awtomatig i'r MArch yn yr Ysgol, ar yr amod eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol o 2:1 neu uwch yn eu BSc.

Ar ôl cwblhau rhaglen MArch, dylech allu:

- ehangu'ch profiad a'ch gwybodaeth o ddylunio i gynnwys dylunio adeiladau mwy cymhleth a gofynion dylunio trefol ac, wrth wneud hynny, anelu at gyrraedd y safonau uchaf posibl mewn pensaernïaeth
- astudio'r agweddau proffesiynol ar waith pensaer ac, o fewn y profiad hwnnw, datblygu'r gallu i fodloni'r gofynion sydd ar y proffesiwn pensaernïol
- mynd ar drywydd arbenigeddau yn y maes ac, wrth wneud hynny, cael eich trwytho mewn dulliau ymchwil ac astudio agwedd benodol ar ddylunio pensaernïol yn fanwl.

Rydym yn datblygu eich sgiliau drwy:

- cyfnod o amser ymarferol, a fydd yn cynnwys o leiaf naw mis o ddysgu seiliedig ar waith mewn practis pensaernïol, lle byddwch yn cyflawni modiwlau astudio a dylunio ac yn dychwelyd sawl tro i'r Ysgol i ddilyn cyrsiau byr. Cewch hyd i'ch swyddi eich hunain a byddwch yn cadw mewn cysylltiad â'r Ysgol ac wedyn yn dychwelyd ar gyfer cyfres o gyrsiau preswyl byr yn ystod y cyfnod astudio hwn
- traethawd hir sy'n fodd i chi ddewis o blith amrywiaeth o ddiddordebau yn yr Ysgol a chyflawni astudiaeth fanwl yn seiliedig ar fethodoleg briodol a addysgwyd. Mae'r opsiynau presennol yn cyd-fynd â saith grŵp ymchwil ac ysgolheictod yr Ysgol: Dylunio, Adeiladu a deunyddiau; Hanes a Theori; Dulliau Cyfrifiadurol ym maes Pensaernïaeth; Trefolaeth; Ynni, yr Amgylchedd a Phobl; Treftadaeth a Chadwraeth; Astudiaethau ac Ymarfer Proffesiynol.
- gwaith prosiect sy'n cynnwys gwaith dylunio cynhwysfawr ar gyfer adeilad neu grŵp o adeiladau a ddewisir gennych chi ac sy'n ymwneud ag arbenigeddau dylunio sydd gan y staff ac academyddion ac ymarferwyr uchel eu parch. Gwaith prosiect yw prif gydran ail flwyddyn y cwrs. Mae cyfleoedd i chi fynd dramor ar deithiau astudio. Gweler hefyd Cyfleoedd Byd-eang ar dudalen 24
- modiwlau sy'n seiliedig ar ddarlithoedd sy'n cynnwys pynciau fel ymarfer myfyriol ac economeg ac astudiaethau rheoli.

### Asesiadau

Asesir y rhaglen trwy gyflwyno gwaith cwrs: portffolios dylunio, traethodau, cyfnodolion myfyriol ac adroddiadau technegol ar ddiwedd pob semester a chynhelir adolygiadau yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd nid ydym yn cynnal unrhyw arholiadau ysgrifenedig.

# Biowyddorau

Lleoliad proffesiynol




## Pam dewis y **Biowyddorau** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae ein **cwricwlwm hyblyg** yn caniatáu i chi deilwra'ch gradd i'ch diddordebau a'ch dyheadau o ran gyrfa.

**93%** Canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Ni yw cartref **Canolfan Addysg Anatomegol Cymru**.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae rhai cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn yr Ysgol.

I gael gwybod rhagor: **www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Mae **Gwyddorau Biolegol** ym Mhrifysgol Caerdydd yn y **4ydd safle yn y DU ac yn y 27ain safle ledled y byd**.

Ffynhonnell: Rhestr Fyd-eang Shanghai 2021 o Bynciau Academaidd

Barnwyd bod **98%** o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym o safon ryngwladol, a bod **84%** ohoni'n '**rhyngwladol-ragorol**' neu'n '**arwain y byd**'.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Gwyddorau Biolegol (BSc)** | |
| (Tair blynedd) | C100 |
| (Pedair blynedd*) | C101 |
| **Gwyddorau Biolegol (Sŵoleg) (BSc)** | |
| (Tair blynedd) | C300 |
| (Pedair blynedd*) | C301 |
| **Biocemeg (BSc)** | |
| (Tair blynedd) | C700 |
| (Pedair blynedd*) | C701 |
| **Gwyddorau Biofeddygol (BSc)** | |
| (Tair blynedd) | BC97 |
| (Pedair blynedd*) | BC9R |
| **Niwrowyddoniaeth (BSc)** | |
| (Tair blynedd) | B142 |
| (Pedair blynedd*) | B143 |
| **Gwyddorau Biolegol (MBiol)** | |
| (Pedair blynedd) | L9Y7 |
| (Pum mlynedd*) | 6FK9 |
| **Biocemeg (MBiochem)** | |
| (Pedair blynedd) | 386N |
| (Pum mlynedd*) | 873C |
| **Gwyddorau Biofeddygol (MBiomed)** | |
| (Pedair blynedd) | 51T8 |
| (Pum mlynedd*) | 52G9 |
| **Niwrowyddoniaeth (MNeuro)** | |
| (Pedair blynedd) | 37JL |
| (Pum mlynedd*) | 4K5G |

*Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Blwyddyn (Ryngosod) o Hyfforddiant Proffesiynol.

### Dewisiadau pellach o ran graddau

Os cewch le ar un o'n pum gradd mynediad BSc, bydd hefyd gennych yr opsiwn o raddio gydag un o'r teitlau gradd isod:

**BSc yn y Gwyddorau Biolegol (Geneteg)**

**BSc yn y Gwyddorau Biofeddygol (Anatomeg)**

**BSc yn y Gwyddorau Biofeddygol (Ffisioleg)**

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAB-ABB gan gynnwys B mewn Bioleg neu Gemeg. Mae angen llwyddo yn elfen ymarferol gwyddoniaeth Safon Uwch (lle bo hynny'n berthnasol).

Ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn y cymhwyster EPQ, bydd A yn yr EPQ yn gostwng y gofynion mynediad o un radd. Er enghraifft, byddai cynnig o AAB yn 'AAB mewn tri phwnc Safon Uwch neu ABB mewn tri phwnc Safon Uwch, ynghyd â gradd A yn yr EPQ'.

Byddai ail bwnc gwyddonol yn fuddiol ond nid yw'n ofynnol. Mae'r ail bynciau gwyddonol addas cyffredin yn cynnwys Cemeg, Mathemateg, Ffiseg, Seicoleg, Addysg Gorfforol, Gwyddor Amgylcheddol a Daearyddiaeth.

Gellir derbyn dau gymhwyster Uwch-gyfrannol yn lle Safon Uwch, heb gynnwys gofynion pwnc penodol Safon Uwch mewn naill ai Bioleg neu Gemeg. Mae cymhwyster mathemateg craidd yn cael ei gyfrif fel cymhwyster Safon Uwch-gyfrannol.

**Gradd meistr integredig:** AAA-AAB gan gynnwys Bioleg neu Gemeg.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Gall Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch gymryd lle Safon Uwch nad yw'n bwnc gwyddonol os yw'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei dyfarnu ar yr un radd â'r gofyniad Safon Uwch nad yw'n bwnc gwyddonol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol: BSc:** BSc: Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol gyda sgôr cyffredinol o 34-32, gan gynnwys gradd 6 mewn Bioleg Lefel Uwch neu Gemeg Lefel Uwch, – neu – Ddiploma'r Fagloriaeth Ryngwladol gyda 666-665 mewn 3 phwnc ar Lefel Uwch, gan gynnwys gradd 6 Bioleg neu Gemeg.

**Meistr integredig:** Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol gyda sgôr cyffredinol o 36-34 Pwynt, gan gynnwys gradd 6 mewn Bioleg neu Gemeg Lefel Uwch, neu Ddiploma'r Fagloriaeth Ryngwladol gyda 666 i gynnwys Bioleg neu Gemeg Lefel Uwch.

**Diploma Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol:**
**BSc a Meistr Integredig:** DDD-DDM mewn Diploma Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol, Gwyddoniaeth Fforensig neu Reoli Anifeiliaid, gyda Rhagoriaeth ym mhob un o'r unedau craidd/gorfodol.

**Cymwysterau Mynediad at Addysg Uwch:**
Mae'r Diploma Mynediad at Addysg Uwch (Biowyddorau neu Wyddoniaeth) yn addas ar gyfer mynediad i'n cyrsiau gyda'r cyrhaeddiad canlynol. BSc: 30 credyd lefel 3 i'w dyfarnu ar lefel Rhagoriaeth, 15 i'w dyfarnu ar lefel Teilyngdod. Gradd meistr integredig: 45 credyd lefel 3 i'w dyfarnu ar lefel Rhagoriaeth.

**Gofynion TGAU:**
- Gradd C neu radd 4 mewn TGAU mathemateg neu rifedd.
- Gradd C neu radd 4 mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

**Cymwysterau amgen**
Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd. Os hoffech weld y gofynion mynediad ar gyfer cymhwyster penodol nad ydynt wedi'u rhestru yma, cysylltwch ag un o'n tiwtoriaid derbyn myfyrwyr gan ddefnyddio'r manylion isod a byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw'r cymhwyster yn addas o ran mynediad.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 400

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 2,000

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:
**Pob gradd:**
Ebost: **bioscience-ug@caerdydd.ac.uk**
Ffôn: **029 2087 4296 +44 (0)29 2087 4296**

## O gael cipolwg newydd ar gyflyrau niwrolegol prin, i amddiffyn bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol y byd, mae gan fiowyddonwyr ran hanfodol i'w chwarae ym mhob rhan o'r gymdeithas.

Beth bynnag yw eich diddordebau, mae gradd yn y biowyddorau yn cynnig cyfle cyffrous i astudio maes pwnc pwysig ac eang sydd â digon o gyfle ar gyfer arloesi, darganfod ac antur.

### Chi biau'r dewis

Un o'r pethau gwych am astudio yn Ysgol y Biowyddorau yw bod gennych y rhyddid a'r hyblygrwydd i ddewis eich antur eich hun ac adeiladu gradd sy'n cyfateb i'ch diddordebau a'ch dyheadau o ran gyrfa.

- Dewiswch gynnal ystod eang o ddysgu rhyngddisgyblaethol, neu ddewis arbenigo mewn maes penodol.
- Magwch brofiad proffesiynol gwerthfawr trwy gymryd blwyddyn ryngosod, neu baratoi ar gyfer gyrfa mewn ymchwil gydag un o'n graddau meistr integredig.
- Ewch ati i ymarfer eich sgiliau ymchwil yn y labordy, neu archwilio ecosystemau'r byd gyda'n cyrsiau maes sy'n seiliedig ar brosiectau (yn dibynnu ar y modiwl).

Mae ein holl raddau yn dechrau gyda blwyddyn gyntaf gyffredin, sy'n darparu sylfaen gadarn mewn pynciau craidd yn y biowyddorau ac yn datblygu eich sgiliau gwyddonol. Mae gweddill y cwrs yn cynnig rhaglen wirioneddol hyblyg sy’n eich galluogi i ddewis y llwybr gradd sy'n gweddu orau i’ch diddordebau a’ch dyheadau.

Yn dibynnu ar y modiwlau a ddewiswch, ac os ydych yn dymuno gwneud hynny, gallech raddio â gradd wahanol i’r un y bu i chi ddechrau arni, gan gynnwys un o’n tair gradd ychwanegol mewn anatomeg, geneteg a ffisioleg. Mae’r system hon yn cynnig mwy o ddewis a rheolaeth dros eich astudiaethau, a bydd y modiwlau a ddewiswch yn pennu teitl eich gradd derfynol.

### Ymchwil sy’n cael effaith

Mae gennym enw da rhyngwladol am wneud gwaith ymchwil o ansawdd uchel a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r byd rydym yn byw ynddo. Mae gennym ystod eang o arbenigedd ymchwil ar draws pedwar maes allweddol – biowyddorau moleciwlaidd, niwrowyddoniaeth, organebau a'r amgylchedd a biofeddygaeth, ac mae ein holl gyrsiau yn cael eu llywio gan ein cryfderau ymchwil.

Rydym yn cynnig y cyffro o ddysgu mewn amgylchedd ymchwil gweithredol, a byddwch yn cael eich addysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd ac sy'n gweithio i ddarganfod atebion i heriau byd-eang allweddol – o ddatblygu strategaethau i ddiogelu rhywogaethau sydd mewn perygl, i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymladd canser. Cewch hefyd gyfleoedd i feithrin eich sgiliau ymchwil eich hun, gyda sesiynau labordy rheolaidd, cyrsiau maes dewisol (yn dibynnu ar y modiwl) a phrosiect ymchwil annibynnol.

### Addysgu arloesol

Mae gennym ymrwymiad cryf i ragoriaeth addysgu, a byddwch yn cael eich addysgu gan ymchwilwyr sy'n arweinwyr byd yn eu meysydd. Mae ein cyrsiau yn cyfuno damcaniaeth wyddonol a sesiynau ymchwilio ymarferol, ac rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu arloesol, er enghraifft ‘ystafell ddosbarth wrthdro’, gweithgareddau dysgu cydweithredol, ac addysgu ac asesu cyfoedion, a hynny er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu deinamig sy'n ennyn diddordeb ac sy'n eich helpu i ddatblygu eich galluoedd fel gwyddonydd.

### Cyfleusterau ansawdd uchel

A chithau'n fyfyriwr yn Ysgol y Biowyddorau, byddwch yn mwynhau mynediad at labordai modern gyda chyfarpar da, ac rydym yn denu arian ymchwil allanol sylweddol a fydd yn eich galluogi i wneud defnydd o'r offer, y technegau a'r cyfleusterau diweddaraf yn eich gwaith prosiect. Gall myfyrwyr hefyd elwa ar gyfleuster e-ddysgu ac e-asesu newydd gwerth £1.9m. Gyda 165 o gyfrifiaduron gweithfan newydd, system glyweledol ryngweithiol, podiau gweithio ‘huddle’, systemau cyfathrebu amlgyfrwng a chyfleusterau delweddu, mae'r adnodd hwn yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau addysgu rhyngweithiol, gan wella profiad dysgu cyffredinol y myfyrwyr.

### Cefnogaeth bersonol

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol i'n holl fyfyrwyr, a pha lwybr gradd bynnag a ddewiswch, gallwch fod yn siŵr y bydd ein staff profiadol wrth law i'ch arwain a'ch cefnogi trwy'r broses.

Bydd gennych diwtor personol a fydd ar gael i gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad ar broblemau academaidd a phersonol. Mae gennym hefyd raglen mentoriaid myfyrwyr sefydledig, lle mae myfyrwyr mwy profiadol yn cynnig cymorth i'r rhai sy'n newydd i'r Brifysgol.

## Gyrfaoedd

O ymchwilwyr canser i geidwaid anifeiliaid cigysol, o ecolegwyr i flogwyr gwyddoniaeth, mae ein graddedigion yn mynd yn eu blaen i fwynhau ystod eang o yrfaoedd llwyddiannus a gwerth chweil.

Mae cyfran sylweddol o'n graddedigion yn mynd ymlaen i astudio ar gyfer gradd PhD neu radd Meistr, tra bo llawer o rai eraill yn dewis gweithio mewn meysydd sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth:

- amaethyddiaeth ddiwydiannol
- biodechnoleg
- cadwraeth a rheoli'r amgylchedd
- gofal iechyd
- ymchwil feddygol
- bioleg foleciwlaidd
- Iechyd y Cyhoedd
- ymchwil a datblygu
- cyfathrebu gwyddoniaeth a newyddiaduraeth
- cyhoeddi gwyddonol
- rheoli ac ymchwilio i fywyd gwyllt

Gall gradd yn y biowyddorau fod yn gam tuag at hyfforddiant pellach mewn meysydd proffesiynol sy'n cynnwys addysgu, meddygaeth, deintyddiaeth, nyrsio, a gwyddor filfeddygol. Mae gan ein graddedigion hefyd nifer o sgiliau trosglwyddadwy sy’n ddeniadol i ystod eang o gyflogwyr mewn diwydiannau eraill.

Mae gan ein myfyrwyr enw rhagorol am ddod o hyd i waith ar ôl iddynt raddio. Yn ôl ein data mwyaf diweddar, roedd 93% o'n graddedigion mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl graddio.

> Roeddwn yn hoffi hyblygrwydd y radd yn y biowyddorau o ran dewis modiwlau a'r gallu i ddewis gwneud Blwyddyn o Hyfforddiant Proffesiynol (PTY) neu radd Meistr Integredig. Pe bawn i'n cael fy amser unwaith eto byddwn yn dewis Caerdydd unwaith eto, heb os nac oni bai, ac yn ei argymell i bawb!
>
> **Lily**, Biocemeg (gyda Blwyddyn o Hyfforddiant Proffesiynol)



## Ein blwyddyn gyntaf gyffredin

Ym Mhrifysgol Caerdydd, credwn fod dull gweithredu holistig yn bwysig yng nghamau cynnar hyfforddiant biowyddonydd. Gan fod y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i astudio pynciau biolegol, biofeddygol, biofoleciwlaidd a niwrolegol yn debyg, rydym ni'n cynnig cwricwlwm blwyddyn gyntaf eang sydd â man cychwyn cyffredin, sy'n eich galluogi i symud ymlaen a dewis meysydd dysgu mwy arbenigol yn ddiweddarach yn y cwrs. Mae'r flwyddyn gyntaf gyffredin hon yn rhoi hyblygrwydd o ran dewisiadau gradd; ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf gallwch benderfynu cadw at y radd y cofrestroch arni'n wreiddiol neu ddewis gradd wahanol yn yr Ysgol sy'n fwy addas i'ch dyheadau a'ch diddordebau academaidd. Gall ein staff academaidd cefnogol gynnig arweiniad cyflawn ar y llwybrau.

Os ydych ar gwrs BSc tair blynedd, gallech hefyd newid i gwrs rhyngosod pedair blynedd sy'n cynnwys lleoliad proffesiynol sy'n seiliedig ar ymchwil mewn diwydiant neu yn y byd academaidd.

At hynny, yn dibynnu ar eich cyrhaeddiad academaidd ac argaeledd, gallai hefyd fod yn bosibl i chi newid eich cwrs i un o'n graddau meistr integredig.

## Cynnwys y flwyddyn gyntaf

Bydd y flwyddyn gyntaf yn rhoi sylfaen gadarn i chi yn yr holl ddisgyblaethau biolegol a'r disgyblaethau cysylltiedig hanfodol, gan sicrhau eich bod wedi'ch paratoi yn dda ar gyfer astudiaethau dilynol ym mlynyddoedd 2 a 3. Yn ogystal â'r darlithoedd, cewch lawer o ddosbarthiadau ymarferol a dosbarthiadau datrys problemau.

Byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

- Sgiliau ar gyfer Gwyddoniaeth
- Strwythur a Gweithrediadau Organebau Byw
- Organebau a'r Amgylchedd
- Y Gell Ddeinamig
- Cemeg Fiolegol
- Geneteg ac esblygiad

## Mae Blynyddoedd 2 a 3 yn cynnig opsiynau gradd ychwanegol

Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, rydym yn cynnig rhaglen wirioneddol hyblyg sy'n eich galluogi i ddewis y llwybr gradd gorau i'ch diddordebau a'ch dyheadau.

Yn dibynnu ar y modiwlau a ddewiswch, ac os ydych yn dymuno gwneud hynny, gallech raddio â gradd wahanol i'r un y bu i chi ddechrau arni, gan gynnwys un o'n tair gradd ychwanegol mewn Anatomeg, Geneteg a Ffisioleg. Mae'r system hon yn cynnig mwy o ddewis a rheolaeth dros eich astudiaethau, a bydd y modiwlau rydych yn eu dewis yn arwain at eich dynodiad gradd terfynol.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd y modiwlau a ddewiswch ym mlynyddoedd 2 a 3 yn pennu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer teitl eich gradd derfynol. Bydd ein tiwtoriaid yn eich tywys trwy'r opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau eich bod yn graddio gyda gradd sy'n adlewyrchu eich diddordebau a'ch dyheadau.

### Blwyddyn 1

Mae pob un o'n myfyrwyr yn dilyn blwyddyn gyntaf gyffredin, sy'n cynnwys chwe modiwl 20 credyd ac sy'n rhoi sylfaen gadarn i bynciau biowyddorau craidd.

- Sgiliau ar gyfer Gwyddoniaeth
- Strwythur a Gweithrediadau Organebau Byw
- Organebau a'r Amgylchedd
- Y Gell Ddeinamig
- Cemeg Fiolegol
- Geneteg ac esblygiad

### Blwyddyn 2

Ym mlwyddyn dau, byddwch yn astudio tri modiwl 40 credyd o'r detholiad isod.

- Amrywiaeth ac Addasu mewn Anifeiliaid
- Geneteg a'i Chymwysiadau
- Ecoleg (gyda chwrs maes)
- Bioleg Celloedd
- Biocemeg
- Bioleg Ddatblygiadol a Bioleg Bôn-gelloedd
- Bioleg Foleciwlaidd y Genyn
- Ffisioleg
- Cysyniadau o Glefyd
- Anatomeg Ymarferol
- Yr Ymennydd ac Ymddygiad

### Blwyddyn 3

Ym mlwyddyn 3, byddwch yn cwblhau prosiect ymchwil 30 credyd ynghyd â thri modiwl 30 credyd ychwanegol. Bydd myfyrwyr ar y radd meistr integredig yn cwblhau modiwl mewn Technegau Ymchwil Uwch yn lle'r prosiect ymchwil.

- Prosiect Blwyddyn Olaf BSc yn y Biowyddorau (myfyrwyr BSc yn unig)
- Technegau Ymchwil Uwch (myfyrwyr meistr integredig yn unig)
- Planhigion ar gyfer y Dyfodol: Ffiniau Gwyddor Planhigion
- Ecosystemau, Cynaliadwyedd a Newid Byd-eang
- Esblygiad ac Addasu
- Bioleg Bioamrywiaeth a Chadwraeth
- Bioleg Heintiau ac Epidemioleg
- Bioleg Systemau
- Pynciau Cyfredol sy'n Datblygu, Bôn-gelloedd ac Atgyweirio
- Chwyldro'r 'Omeg' (Biowybodeg a Genomeg Ymarferol)
- Uwch-fioleg Celloedd a Delweddu
- Genynnau i Genomau
- Bioleg Synthetig a Pheirianneg Proteinau
- Pynciau Cyfoes ym maes Clefydau
- Canser: Mecanweithiau a Therapiwteg Cellog a Moleciwlaidd
- Bioleg Cyhyrysgerbydol Uwch a Pheirianneg Meinweoedd
- Anatomeg Uwch (lleoedd cyfyngedig)
- Datblygiadau ym maes Ffisioleg a Phathoffisioleg
- Niwrofioleg Anhwylderau'r Ymennydd
- Niwrowyddoniaeth Systemau

### Blwyddyn 4 (gradd meistr integredig)

Ym mlwyddyn olaf y radd feistr integredig, byddwch yn astudio dau fodiwl 20 credyd ac yn cwblhau prosiect ymchwil uwch gwerth 80 credyd.

- Prosiect Ymchwil Uwch
- Dulliau Ymchwil Uwch
- Ffiniau yn y Biowyddorau

Noder ei bod yn bosibl i'r modiwlau newid. Cyn gwneud cais, edrychwch ar ein gwefan am y rhestr derfynol o fodiwlau a'r disgrifiadau ohonynt.

Efallai y bydd cyfyngiadau ar rai cyfuniadau o fodiwlau o ganlyniad i amserlenni a lleoedd.

## MBiochem/BSc Biocemeg

Biocemeg yw'r astudiaeth o sail foleciwlaidd bywyd, ac mae'n bwnc sydd â hanes cyfoethog o ddarganfyddiadau gwyddonol, o ensymoleg a llwybrau metabolaidd, i ddarganfod genynnau a strwythur DNA.

Trwy'r cwrs hwn, byddwch yn dysgu sut mae biocemeg a gwyddorau biofoleciwlaidd yn cyfrannu at ddatblygiadau ym mhob disgyblaeth fiolegol, gan gynnwys meddygaeth a biodechnoleg. Cewch hyfforddiant ymarferol helaeth mewn technegau labordy, yn ogystal â phrofiad ymarferol o sgiliau trosglwyddadwy eang ym maes cyfrifiadura, ystadegaeth, dadansoddi data a chyflwyno. O flwyddyn dau ymlaen, mae pwyslais ar sail arbrofol biocemeg, a byddwch yn cael cymryd rhan mewn sesiynau ymarferol sy'n cwmpasu technegau ymchwil modern megis trin DNA ailgyfunol, puro proteinau a synhwyro imiwnedd.

Ochr yn ochr â modiwlau mewn biocemeg a bioleg foleciwlaidd, mae'r cwrs hwn yn croesawu meysydd newydd pwysig, megis genomeg a golygu genomau, bioleg synthetig a pheirianneg proteinau. Byddwch hefyd yn cael cyfle i gyfuno modiwlau biocemeg-benodol â modiwlau eraill a gynigir yn Ysgol y Biowyddorau.

Mae ein gradd Biocemeg yn darparu sylfaen ardderchog ar gyfer gyrfaoedd ym mhob maes o'r gwyddorau biolegol a moleciwlaidd, ac yn cynnig hyfforddiant cadarn ar gyfer gwyddonwyr ymchwil yn y dyfodol.

## MBiol/BSc yn y Gwyddorau Biolegol

Y gwyddorau biolegol yw'r astudiaeth o fywyd ei hun – o'r organeb fyw leiaf i'r un fwyaf. Mae'n bwnc hynod ddiddorol a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r byd o'ch cwmpas a'r modd y mae'n gweithio.

Gan gyfuno damcaniaeth wyddonol â gwaith ymarferol yn y labordy ac yn y maes, mae ein gradd yn y Gwyddorau Biolegol, sy'n cael ei harwain gan ymchwil, yn cynnig y dewis a'r hyblygrwydd mwyaf posibl. Mae'n eich galluogi i ddewis modiwlau ymhlith bron yr ystod gyfan o bynciau y mae'r Ysgol yn eu cynnig, gan gynnwys sŵoleg, bioleg planhigion, ecoleg, esblygiad, geneteg, clefyd, niwrowyddoniaeth, microbioleg, biocemeg a bioleg ddatblygol a bioleg bôn-gelloedd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Gallwch benderfynu sut mae eich gradd yn datblygu, gan ddewis arbenigo mewn maes bioleg penodol, neu gynnal ystod eang o ddysgu rhyngddisgyblaethol.

I’r myfyrwyr hynny sy’n dilyn y modiwl Ecoleg ym mlwyddyn dau, rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o gyrsiau maes cyffrous yn y DU a thramor, gan roi cyfle i chi feithrin a mireinio eich sgiliau fel biolegydd maes.

Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i wneud astudiaethau pellach a chael cyflogaeth mewn nifer o feysydd gwahanol, gan gynnwys ymchwil fiolegol, deunyddiau fferyllol, cyfathrebu gwyddoniaeth, bioleg forol, cadwraeth, cwmni ymgynghori amgylcheddol, yn ogystal â llu o yrfaoedd nad ydynt yn rhai gwyddonol.



**Mae ein hamrywiaeth o gyrsiau maes yn y DU a thramor yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau fel biolegydd maes**

## BSc yn y Gwyddorau Biolegol (Geneteg)

Pennir ymddangosiad, swyddogaeth ac ymddygiad pob organeb fyw yn bennaf gan ei genynnau. Geneteg yw'r astudiaeth o strwythur a swyddogaeth y genynnau hyn, a sut y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i wella agweddau ar fywyd. Mae'n faes astudio cyffrous sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n berthnasol ledled y biowyddorau, o fioamrywiaeth, cadwraeth a gwella cnydau, i ddiagnosteg a thrin clefydau.

Gyda modiwlau mewn geneteg foleciwlaidd, biowybodeg a genomeg, byddwch yn meithrin dealltwriaeth fanwl o egwyddorion craidd geneteg, yn ogystal â chael cyfle i ymarfer technegau peirianneg DNA. Gellir cyfuno'r pynciau craidd hyn â meysydd pwnc eraill, fel cadwraeth, esblygiad, bôn-gelloedd, geneteg fiofeddygol, microbioleg a gwyddor planhigion, gan eich galluogi i greu gradd sydd wedi'i theilwra i'ch diddordebau a'ch dyheadau penodol o ran gyrfa.

I astudio un o'n graddau BSc yn y Gwyddorau Biolegol (Geneteg), gwnewch gais am y Gwyddorau Biolegol, Gwyddorau Biofeddygol neu Fiocemeg (yn dibynnu ar eich diddordebau). Gallwch wedyn ddewis y modiwlau priodol i raddio â gradd eneteg-benodol.

## BSc yn y Gwyddorau Biolegol (Sŵoleg)

Mae sŵoleg yn cynnig cipolwg go iawn i ni ar rolau pob math o anifeiliaid yn eu hecosystemau.

Dyma wybodaeth hollbwysig os ydym i gynnal amgylcheddau naturiol iach, rheoli plâu ac afiechydon, gwarchod bioamrywiaeth a diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl.

Mae'r radd hon wedi'i hanelu at unrhyw un sydd â diddordeb ym maes eang bioleg anifeiliaid. Mae'n gwrs gwirioneddol ryngddisgyblaethol sy'n tynnu ar gryfderau ymchwil a geir ledled yr Ysgol. Yn ogystal ag ymdrin ag esblygiad, amrywiaeth ac ymddygiad y prif grwpiau o anifeiliaid, cewch gyfle hefyd i ddewis o blith nifer o fodiwlau eraill a gynigir yn yr Ysgol, gan gynnwys Ecoleg (gyda chwrs maes), Ffisioleg a Geneteg a’i gymwysiadau, a fydd yn eich galluogi i adeiladu cwrs gradd sy'n adlewyrchu'n llawn eich diddordeb sŵolegol.

Mae gennym arbenigedd penodol ym meysydd bioamrywiaeth, cadwraeth ac amrywiaeth ac addasu anifeiliaid, sydd i gyd yn rhan o'r cwrs hwn.

Mae'r radd hon hefyd yn cynnig digonedd o gyfleoedd ar gyfer gwaith maes ymarferol, sy’n eich galluogi i gael profiad ymarferol o dechnegau ymchwil maes.

Mae ein graddedigion Sŵoleg yn mynd i amrywiaeth eang o yrfaoedd, gan gynnwys bioleg forol, ecoleg a chadwraeth, ymchwil a datblygu, a rheoli bywyd gwyllt.

## MBiomed/BSc yn y Gwyddorau Biofeddygol

Mae'r Gwyddorau Biofeddygol yn sail i holl feddygaeth ac ymchwil feddygol, ac mae ein gradd yn y Gwyddorau Biofeddygol yn rhoi cyfle i chi astudio amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys ffisioleg ddynol, anatomeg ddynol, prosesau clefydau a'u triniaeth, biocemeg, geneteg a microbioleg.

Caiff y cwricwlwm ei lywio gan yr amrywiaeth eang o ymchwil fiofeddygol a gynhelir yn Ysgol y Biowyddorau ac yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Felly, bydd cyfle gennych i gael eich hyfforddi mewn pynciau cyfoes sy'n cynnwys bioleg canser, bôn-gelloedd, peirianneg meinweoedd, therapi genynnau a chlefydau niwroddirywiol.

Gellir cyfuno modiwlau gorfodol ar glefydau, ffisioleg a phathoffisioleg â modiwlau eraill o bob rhan o Ysgol y Biowyddorau, gan eich galluogi i ddilyn llwybr gradd personol sydd wedi'i deilwra i'ch diddordebau a'ch dyheadau.

Mae'r Ysgol hefyd yn chwarae rhan arweiniol yn Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau'r Brifysgol, gan ganiatáu mynediad at ystod eang o gyfleoedd hyfforddi cyffrous.

Mae'r cwrs hwn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer astudiaethau pellach, neu ar gyfer ystod eang o yrfaoedd yn y gwyddorau biofeddygol. Yn un o'r graddau bwydo cydnabyddedig ar gyfer Rhaglen Mynediad at Feddygaeth Graddedigion Prifysgol Caerdydd (A101 Caerdydd/A102 Gogledd Cymru), mae hefyd yn cynnig llwybr posibl i feddygaeth.

Mae nifer cyfyngedig o leoedd ar gael ar sail gystadleuol bob blwyddyn, yn dibynnu ar berfformiad academaidd yn ystod blwyddyn gyntaf eich gradd yn y Gwyddorau Biofeddygol (sylwer, rhaid cymryd modiwlau penodol er mwyn gwneud cais). Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio a'r meini prawf mynediad yn yr adran Meddygaeth.

## BSc Gwyddorau Biofeddygol (Anatomeg)

Anatomeg yw'r astudiaeth o strwythur a swyddogaeth y corff dynol, ac mae'n floc adeiladu hanfodol ym maes meddygaeth fodern.

Mae ein gradd Anatomeg yn cyfuno dulliau addysgu traddodiadol â dulliau ar-lein i ddarparu rhaglen radd ysgogol a rhyngweithiol ar eich cyfer. Byddwch yn astudio anatomeg ddynol ymarferol ac uwch ochr yn ochr â gwyddor gyhyrysgerbydol, bioleg bôn-gelloedd ac adfywio meinweoedd. Gallwch hefyd ddewis modiwlau ychwanegol a gynigir yn Ysgol y Biowyddorau, gan eich galluogi i deilwra eich gradd i gyd-fynd â'ch diddordebau a'ch dyheadau.

Yn gartref i Ganolfan Addysg Anatomegol Cymru, ni yw'r unig brifysgol yng Nghymru (ac un o ddim ond nifer fach yn y DU) sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddyrannu cyrff fel rhan o'u cwrs o dan arweiniad arbenigwyr medrus ym maes anatomeg ac addysg, gan gynnig cyfle prin i chi feithrin profiad ymarferol a chael cyflwyniad i sgiliau llawfeddygol.

I astudio'r Gwyddorau Biofeddygol (Anatomeg), gwnewch gais am ein gradd BSc yn y Gwyddorau Biofeddygol. Gallwch wedyn ddewis y modiwlau priodol er mwyn graddio gyda gradd sy'n benodol i anatomeg. Nodwch fod lleoedd yn brin ac yn amodol ar broses ymgeisio ym mlwyddyn dau.

## BSc yn y Gwyddorau Biofeddygol (Ffisioleg)

Ffisioleg yw'r astudiaeth o'r modd y mae'r corff yn gweithio, gan archwilio'r mecanweithiau rhyngweithiol sy'n rheoli ac yn rheoleiddio swyddogaeth arferol y corff dynol. Mae'r pwnc yn un unigryw o ran cynnig astudiaeth integredig o systemau moleciwlaidd, cellog, a swyddogaeth corff cyfan mewn iechyd ac afiechyd.

Bydd y radd hon yn cynnig sylfaen drylwyr mewn ffisioleg, gan eich galluogi i ddysgu am y modd y mae'r corff yn ymateb ac yn addasu i heriau bywyd bob dydd, ac am yr hyn a all fynd o'i le yn achos clefydau. Mae pwyslais cryf ar sail arbrofol y pwnc, a byddwch yn dod yn gyfarwydd â datblygiadau gwyddonol a'u heffaith. Yn eich blwyddyn olaf, cewch gyfle i astudio modiwlau sy'n adlewyrchu arbenigedd yr Ysgol ym meysydd ffisioleg celloedd, niwroffisioleg a phathoffisioleg.

I astudio'r Gwyddorau Biofeddygol (Ffisioleg), gwnewch gais am ein gradd BSc yn y Gwyddorau Biofeddygol. Gallwch wedyn ddewis y modiwlau priodol i raddio â gradd ffisioleg-benodol.

## MNeuro/BSc Niwrowyddoniaeth

Niwrowyddoniaeth yw'r astudiaeth o'r system nerfol, o'r prosesau moleciwlaidd sy'n digwydd mewn celloedd nerfol i'r ffordd y mae'r meddwl yn gweithio. Mae'r modd y mae'r ymennydd dynol yn gweithio yn parhau i fod yn un o'r cwestiynau gwyddonol mwyaf diddorol. A all yr ymennydd ddeall y meddwl? Ai cyfrifiadur anferth yw'r ymennydd, neu rywbeth mwy? Mae ein rhaglen Niwrowyddoniaeth yn ystyried y cwestiynau hyn a mwy, gan ddefnyddio ymagweddau sy'n amrywio o fiocemeg a ffisioleg y celloedd nerfol, i ymchwiliad gan seicolegydd i beirianwaith y meddwl.

Ar ôl blwyddyn gyntaf gyffredin, lle ymdrinnir â phynciau fel bioleg celloedd, biocemeg a geneteg, byddwch yn cymryd modiwlau niwro-benodol sy'n cwmpasu anatomeg a datblygiad yr ymennydd dynol, niwroffisioleg gellog, niwroffarmacoleg a signalau celloedd niwronau, gwybyddiaeth ac ymddygiad a niwrofioleg bôn-gelloedd.

Bydd eich modiwlau blwyddyn olaf yn ymdrin ag ymchwil gyfredol ar fioleg anhwylderau'r system nerfol (megis sgitsoffrenia, anhwylderau sbectrwm awtistiaeth, epilepsi, clefyd Alzheimer, clefyd Parkinson a chlefyd Huntington) ac yn cynnwys pynciau o brosesu synhwyraidd a chanfyddiad i niwroffisioleg ac ysgogi'r ymennydd. Byddwch hefyd yn cael cyfle i archwilio pynciau uwch mewn disgyblaethau biofeddygol perthnasol eraill, gan gynnwys ymchwil bôn-gelloedd, ffisioleg, technegau biolegol a delweddu celloedd uwch.

Mae twf diweddar y pwnc hwn i'w briodoli i raddau helaeth i gyfraniad pwysig niwrowyddoniaeth at ddeall iechyd meddwl a salwch meddwl. Prifysgol Caerdydd yw cartref y Sefydliad Ymchwil Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl, Canolfan y Cyngor Ymchwil Meddygol ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig, y Sefydliad Ymchwil i Ddementia, y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau, a Chanolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd, ac mae'n cynnig cyfle i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi cyffrous.

## Rhaglenni meistr integredig (MBiol, MBiomed, MBiochem, MNeuro)

Mae ein graddau meistr integredig yn y Gwyddorau Biolegol, y Gwyddorau Biofeddygol, Biocemeg a Niwrowyddoniaeth yn rhoi cyfle i chi fynd â'ch astudiaethau i'r lefel nesaf ac archwilio ffiniau cyfredol y wybodaeth yn eich maes dewisol.

Gyda hyfforddiant mewn technegau ymchwil datblygedig, ynghyd â phrosiect ymchwil annibynnol pwrpasol ar bwnc o'ch dewis, maent yn darparu llwyfan ardderchog ar gyfer gyrfa mewn ymchwil wyddonol, a hefyd yn ehangu eich sylfaen sgiliau ar gyfer cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y radd uchel o arbenigedd pwnc a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod y cwrs yn gwella eich cyflogadwyedd yn y sector ymchwil a sector masnachol y biowyddorau fel ei gilydd.

Gallwch wneud cais am un o'n graddau meistr integredig trwy UCAS (gweler y gofynion mynediad, tudalen 46). Fel arall, gallwch ddewis symud o BSc i radd meistr integredig cyn blwyddyn 3, yn amodol ar gyfyngiadau o ran lle a pherfformiad academaidd (mae marc cyfartalog o fwy na 60% ym mlynyddoedd 1 a 2 yn ofynnol).

Os byddwch yn dechrau ar raglen meistr integredig, mae dilyniant y tu hwnt i flwyddyn



Mae ein myfyrwyr Anatomeg yn cyflawni dyraniad o’r corff o dan gyfarwyddyd arbenigwyr anatomegol medrus yng Nghanolfan Addysg Anatomegol Cymru.

dau yn amodol ar berfformiad academaidd, gyda'r opsiwn i newid i BSc os bydd angen.

Mae ein graddau meistr integredig hefyd ar gael gyda blwyddyn (ryngosod) hyfforddiant proffesiynol.

## Gwybodaeth arall

### Cyrsiau maes

Mae ein cyrsiau maes ar gael i bob myfyriwr sy'n dilyn y modiwl Ecoleg yn ail flwyddyn eu radd. Rydym o'r farn bod ennill profiad uniongyrchol o blanhigion, anifeiliaid a micro-organebau yn eu cynefin naturiol yn rhan bwysig o hyfforddiant unrhyw fiolegydd.

Mae ein cyrsiau maes yn darparu digon o gyfleoedd i gael profiad ymarferol hanfodol o dechnegau modern a sgiliau ymarferol mewn bioleg maes, er enghraifft modrwyo adar, dadansoddi microbaidd, maglu mamaliaid bach, maglu mewn pydewau a chynnal arolygon o ystlumod.

Gall myfyrwyr ail flwyddyn sy’n dilyn y modiwl Ecoleg ddewis o blith sawl cwrs arbenigol, yn seiliedig ar brosiect, sy’n cael eu cynnal mewn amrywiaeth o leoliadau ledled y byd. Mae'r cyrsiau sydd ar gael fel arfer yn cynnwys Ecoleg Drofannol (Borneo, Malaysia), Ecoleg Forol (y Caribî a Malaysia), Ecoleg Drefol (Caerdydd) a Bioleg Arfordirol (Cymru). Mae pob un o'n cyrsiau maes yn cynnwys prosiect ymchwil annibynnol, sydd yn aml yn cynnwys ymddygiad neu ecoleg anifeiliaid.

Nodwch y gall cyfyngiadau o ran teithio neu argaeledd staff effeithio ar y cyrsiau maes unigol a fydd ar gael. Mae yna gostau ychwanegol ar gyfer cyrsiau maes preswyl y tu allan i Gaerdydd; fodd bynnag, caiff y rhain eu talu’n rhannol gan y Brifysgol.

### Lleoliad proffesiynol (rhaglenni gradd rhyngosod pedair blynedd)

Mae'n bosibl cymryd pob un o'n cyrsiau gyda blwyddyn (ryngosod) hyfforddiant proffesiynol lle byddwch yn treulio eich trydedd flwyddyn yn gweithio mewn amgylchedd ymchwil proffesiynol i ffwrdd o'r Ysgol. Mae'r opsiwn cwrs poblogaidd hwn yn ffordd wych o fagu profiad ymchwil uniongyrchol gwerthfawr a all fod o fudd i chi am weddill eich gradd a'ch gyrfa ar ôl y brifysgol.

Mae ein myfyrwyr yn dod o hyd i leoliadau mewn ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys cwmnïau fferyllol a biodechnoleg, labordai ysbytai, sefydliadau ymchwil, amgueddfeydd, sŵau, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a sefydliadau amgylcheddol, yn ogystal â phrifysgolion rhyngwladol ac yn y DU. Mae llawer o'r lleoliadau yn y DU, ond mae nifer gynyddol mewn mannau tramor megis De-ddwyrain Asia, De Affrica, yr Almaen, yr Eidal, Awstralia, Madagascar a'r Unol Daleithiau. Mae enghreifftiau o sefydliadau lleoliadau diweddar yn cynnwys GlaxoSmithKline, Asiantaeth yr Amgylchedd, Sefydliad Francis Crick, Morvus Technology, The Game and Wildlife Conservation Trust, a Roskamp Institute yn Florida.

Yn ystod eich blwyddyn ryngosod, byddwch yn ymgymryd â phob agwedd ar ymchwil – o ddylunio arbrofion a chaffael data, i ddadansoddi a chyflwyno data. Byddwch hefyd yn ysgrifennu adroddiad ar y lleoliad gwaith, a fydd yn rhan o'ch asesiad gradd terfynol.

Mae dod o hyd i leoliad yn broses gystadleuol ac ni ellir gwarantu llwyddiant. Fodd bynnag, rydym fel arfer yn llwyddo i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer y mwyafrif llethol o fyfyrwyr sy'n dymuno ymgymryd â blwyddyn ryngosod, a bydd ein staff yn darparu cymorth ac arweiniad i'ch helpu i ddod o hyd i swydd addas sy'n berthnasol i'ch diddordebau ymchwil a'ch nodau o ran eich gyrfa.

Mae’r flwyddyn (ryngosod) hyfforddiant proffesiynol ar gael i bob myfyriwr ac nid yw’n dibynnu ar gyflawni graddau penodol (er y byddem yn disgwyl i chi fod yn gwneud yn dda er mwyn bod yn ymgeisydd cystadleuol am leoliadau). Gallwch wneud cais am gwrs gyda blwyddyn hyfforddiant proffesiynol o'r cychwyn cyntaf, neu gallwch benderfynu newid o'r rhaglen BSc safonol neu'r rhaglen meistr integredig cyn diwedd eich ail flwyddyn. Yn yr un modd, os na fydd lleoliad addas ar gael, neu os byddwch yn newid eich meddwl, gallwch newid o'r radd gyda blwyddyn hyfforddiant proffesiynol i radd BSc tair blynedd neu radd meistr integredig pedair blynedd.

### Defnyddio organebau byw wrth addysgu israddedigion

Gweler tudalen 151.

# Busnes

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Busnes** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Rydym yn **ysgol fusnes wedi'i hachredu gan AACSB** ac yn aelod o **Grŵp Russell**.

AACSB ACCREDITED

Roedd **94%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Ni yw Ysgol Busnes Gwerth Cyhoeddus **gyntaf y byd**, sydd wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau economaidd a chymdeithasol.

Rydym ni ymhlith y **150 prifysgol orau** yn y byd o ran busnes, economeg, cyfrifeg a chyllid.

Ffynhonnell: Rhestr Times Higher Education (THE) o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl pwnc 2022.

**Ehangwch eich gorwelion** a theithio i leoedd fel Ffrainc, Sbaen, yr Almaen, Hong Kong, Awstralia ac UDA fel rhan o'ch gradd.

Paratowch ar gyfer gwaith trwy gymryd rhan mewn **interniaethau**, **lleoliadau** a **phrosiectau busnes byw** gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Cyfrifeg (BSc)*** | N400 |
| **Cyfrifeg a Chyllid (BSc)*** | N490 |
| **Rheoli Busnes (BSc)*** | N201 |
| **Rheoli Busnes** (Rheoli Adnodau Dynol) **(BSc)*** | NN26 |
| **Rheoli Busnes** (Marchnata) **(BSc)*** | NN25 |
| **Rheoli Busnes** (Logisteg a Rheoli Gweithrediadau) **(BSc)*** | N291 |
| **Rheoli Busnes** (Rheoli Rhyngwladol) **(BSc)*** | N202 |
| **Rheoli Busnes gydag iaith Ewropeaidd (BSc)** | (gyda Ffrangeg) N290<br>(gydag Almaeneg) N1R2<br>(gyda Sbaeneg) N1R4 |
| **Rheoli Busnes gyda'r Gymraeg (BSc)**** | ANG26 |
| **Economeg gydag iaith Ewropeaidd (BSc)**† | (gyda Ffrangeg) L160<br>(gydag Almaeneg) L1R2<br>(gyda Sbaeneg) L1R4 |
| **Economeg Busnes gydag iaith Ewropeaidd (BSc)** | (gyda Ffrangeg) L1R9<br>(gydag Almaeneg) L1RX<br>(gyda Sbaeneg) L1RY |
| **Bancio a Chyllid gydag iaith Ewropeaidd (BSc)** | (gyda Ffrangeg) N3R9<br>(gydag Almaeneg) N3R2<br>(gyda Sbaeneg) N3R4 |
| **Bancio a Chyllid (BScEcon)*** | N300 |
| **Economeg Busnes (BScEcon)*** | L114 |
| **Economeg (BScEcon)***† | L100 |
| **Economeg a Chyllid (BScEcon)** * † | LN13 |

### Cydanrhydedd

| | |
|---|---|
| **Economeg ac Astudiaethau Rheoli (BScEcon)*** | LN12 |
| **Economeg a phwnc o blith y dyniaethau** Gweler tudalen 146 | |
| **Astudiaethau Busnes a Siapanaeg (BSc)** | NT12 |

* Mae'r radd hon hefyd ar gael gyda blwyddyn ar leoliad proffesiynol a/neu gyfleoedd i astudio dramor.

** Mae'r rhaglen hon yn addas i'r rhai sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Safon Uwch neu sydd â safon gyfatebol yn y Gymraeg. Nid yw'n ofynnol bod gennych Safon Uwch yn y Gymraeg.

† Mae Economeg (L100), Economeg a Chyllid (LN13) a'r tri chwrs Economeg gydag opsiynau iaith Ewropeaidd yn wahanol am fod gofyn eich bod wedi cael gradd B mewn mathemateg yn Safon Uwch.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAB/ABB o unrhyw gyfuniad o ddim mwy na thri phwnc Safon Uwch. Ar gyfer graddau gydag iaith Ewropeaidd, rhaid i un o'r canlyniadau Safon Uwch fod yn yr iaith y bwriadwch ei hastudio fel rhan o raglen eich gradd ar radd B neu uwch. I wneud L100 Economeg ac LN13 Economeg a Chyllid, yn ogystal ag L160, L1R2, ac L1R4 (Economeg gydag iaith Ewropeaidd), rhaid cael gradd B neu uwch mewn Mathemateg Safon Uwch.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** Graddau 34-32 neu 666/665 mewn tri phwnc Lefel Uwch, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg (Lefel Safonol) gyda sgoriau o 5. Ar gyfer graddau gydag iaith Ewropeaidd, rhaid i un o opsiynau'r Fagloriaeth Ryngwladol fod yn yr iaith y bwriadwch ei hastudio fel rhan o raglen eich gradd. Yn achos L100 Economeg, LN13 Economeg a Chyllid a'r tri opsiwn Economeg gydag iaith Ewropeaidd, rhaid bod wedi cael Mathemateg ar lefel 6 uwch.

**BTEC:** DDD-DDM mewn pwnc sy'n gysylltiedig â busnes. Ar gyfer graddau gydag iaith Ewropeaidd: DD a gradd B mewn iaith Safon Uwch rydych yn bwriadu ei hastudio fel rhan o raglen eich gradd. L100 Economeg a LN13 Economeg a Chyllid, rhaid cael DD a gradd B mewn Mathemateg Safon Uwch. Ar gyfer Economeg gydag iaith Ewropeaidd (L160, L1R2 a L1R4) D a graddau AB-BB ar Safon Uwch mewn Mathemateg a'r iaith rydych eisiau ei hastudio.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau amgen ond cyfwerth. Cysylltwch i drafod eich opsiynau.

**Pob gradd**
**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth):
- Gradd B neu radd 6 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 600 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 3,500

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:

Ffôn: **(029) 2087 5702 +44 (0)29 2087 5702**

Ebost: **studybusiness@caerdydd.ac.uk**

**/BusinessCardiff**

**@cardiffbusiness**

**Mae ein buddsoddiad mewn cyfleusterau astudio, cymorth a chymdeithasol yn cynnig yr amgylchedd gorau posibl i lwyddo.** Rydym wedi trawsnewid llawr gwaelod Adeilad Aberconwy yn 'stryd fawr y myfyrwyr,' gyda chanolfan israddedigion bwrpasol, Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr a Pharth Cyfleoedd pwrpasol. Y gwasanaethau hyn yw eich cyfle i gael gafael ar gefnogaeth, gyrfaoedd a chyfleoedd rhyngwladol ochr yn ochr â'ch gradd i wella eich profiad myfyriwr.

## Rydym yn Ysgol Busnes sydd â phwrpas ac mae ein cenhadaeth yn glir – cael effaith gadarnhaol ar y byd.

Nawr yw'r adeg i sefyll ar eich traed a chael eich cydnabod am eich cyfraniad i gymdeithas.  I ni, mae hyn yn golygu mwy na llwyddiant economaidd. Rydym am ddod â dyngarwch, cynaliadwyedd, haelioni ac arloesedd i'r sector busnes.

Mae'n ddyletswydd arnom i gyd i helpu i gynnal ein heconomïau lleol a byd-eang, a hynny ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a chenedlaethau presennol.

**Gwerth Cyhoeddus** yw'r enw sydd gennym am hyn. Dyma ein diben ni. Dyma'r hyn rydym yn ei gefnogi.

## A wnewch chi ymateb i'r her?

### Gwneud pethau'n wahanol

Yn eich astudiaethau, byddwch chi'n canolbwyntio ar heriau byd-eang ac yn ymarfer moeseg a chyfrifoldeb cymdeithasol.

Mae'r addysg fusnes gwerth cyhoeddus hon yn cael ei chyflwyno gan academyddion sy'n arwain y byd gyda gwahanol safbwyntiau. Byddant yn herio eich ffordd o feddwl wrth iddynt ddangos byd busnes i chi o safbwyntiau gwahanol.

Byddwn ni'n rhoi i chi wybodaeth broffesiynol a sgiliau ymarferol cyfredol fel y gallwch chi wneud cyfraniad cadarnhaol i'r byd o'ch cwmpas, yn ystod eich cwrs yma ac ar ôl hynny.

### Cyfarpar llawn

I wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y profiad gorau posibl gyda ni, rydym wedi buddsoddi yn ein cyfleusterau dysgu ac addysgu.

Mae ein timau yn y Ganolfan Israddedigion a Pharth Cyfleoedd yma ar eich cyfer. Maen nhw ar gael i chi ar gyfer pethau fel cefnogi myfyrwyr, materion cyllid, gyrfaoedd, lleoliadau mewn diwydiant a mentrau cyflogadwyedd, yn ogystal â chyfleoedd i astudio dramor yn ystod eich gradd.

Mae gennym gyfleusterau rhagorol ar draws tri adeilad gan gynnwys ystafell masnach fwyaf Cymru.

Mae cyfarpar llawn yn y gofod hwn, a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer nifer o'n rhaglenni gradd.

Mae'n rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r fantais gystadleuol i chi ddylanwadu ar y sector ariannol byd-eang.

### Eich gradd:

Rydym yn cynnig graddau mewn cyfrifeg, economeg a rheoli busnes.

Gall myfyrwyr economeg ddewis cynnwys disgyblaethau eraill gan gynnwys hanes, astudiaethau rheoli, gwleidyddiaeth, athroniaeth ac ieithoedd modern ar gyfer profiad astudio ehangach sy'n croesi ffiniau disgyblaethau (gweler tudalen 146). Mae'r Ysgol Ieithoedd Modern hefyd yn cynnig gradd gydanrhydedd gyda'r Ysgol Busnes mewn Astudiaethau Busnes a Siapanaeg. (gweler tudalen 113).

## Gwella eich gradd

Mae myfyrwyr yn dweud wrthym o hyd pa mor bwysig yw cael profiad gwaith neu ddilyn cyfleoedd dramor ochr yn ochr â'u gradd. Felly, rydym wedi ymrwymo i'ch cefnogi i wireddu'r uchelgeisiau hyn.

I rai, mae hyn yn golygu gweithio gartref neu dramor gyda sefydliadau fel Deloitte, Microsoft, Disney, Bank of England, PwC, y GIG, GE, Unilever, Porsche neu Lywodraeth Cymru.

Mae eraill yn dewis astudio dramor, gan chwilio am antur ar y môr, ar dywod neu eira mewn prifysgolion partner ar draws y byd.

Beth bynnag yw eich dewis, mae'n siŵr y bydd rhywbeth i gyd-fynd â'ch diddordebau. **Dyma eich dyfodol, manteisiwch arno!**

### Lleoliad proffesiynol

Gellir cyfuno pob un o'n graddau gyda blwyddyn ar leoliad, gan roi profiad gwaith â thâl i chi i'ch paratoi ar gyfer yr heriau y byddwch yn eu hwynebu yn y byd busnes cyfoes a thu hwnt.

Mae ein tîm gyrfaoedd a chyflogadwyedd ymroddedig ar y safle yn cynnig sesiynau ymgynghori ar yrfaoedd, gweithdai ysgrifennu CV, sesiynau paratoi at gyfweliad ar asesiadau seicometrig a hyfforddiant sgiliau eang.

Byddant hefyd yn eich cefnogi i ddod o hyd i leoliad, interniaeth neu gyfle arall am brofiad gwaith sy'n addas i chi.

### Graddau gydag iaith Ewropeaidd

Gallwch gyfuno eich gradd mewn Rheoli Busnes, Bancio a Chyllid neu Economeg gydag iaith Ewropeaidd.

Dewiswch Ffrangeg, Sbaeneg neu Almaeneg yn rhan o'ch cwrs gradd pedair blynedd lle caiff y drydedd flwyddyn ei threulio mewn prifysgol yn Ffrainc, Sbaen, yr Almaen neu'r Swistir.

Mae ein rhagolygon rhyngwladol yn golygu ein bod ni wedi adeiladu partneriaethau gyda phrifysgolion y tu hwnt i Ewrop mewn lleoedd megis Hong Kong, Awstralia ac UDA. Bob blwyddyn, mae ein myfyrwyr yn manteisio ar y cyfleoedd byd-eang hyn i archwilio ffiniau newydd, a chroesawu arferion a diwylliannau newydd wrth iddynt dreulio rhan o'u gradd yn astudio dramor.



**Byddwch yn dysgu mewn canolfan addysgu sy'n bensaernïol ysblennydd, ac sy'n cynnwys ystafell masnach o'r radd flaenaf.**

> Ar ôl gwneud llawer o ymchwil am brifysgolion sy'n cynnig economeg a chyllid, dewisais Gaerdydd am amrywiaeth o resymau. Yn ogystal â bod yn brifysgol o fri o ran fy mhwnc, a minnau'n fyfyriwr rhyngwladol, roedd yn bwysig i mi fy mod mewn amgylchedd amrywiol a oedd yn fy nerbyn megis yr un yma yn yr Ysgol Busnes.
>
> **Dana**, Economeg a Chyllid (BScEcon)



## MSc Cyfrifeg/Cyllid

Bydd ein rhaglenni sydd wedi'u hachredu yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud eich marc yn y maes ariannol byd-eang.

Rydym yn un o dair Prifysgol yn unig yn y DU i gynnig Rhaglen Partneriaeth Israddedig (UPP) Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. Mae’r UPP, sydd ar gael i'r rhai sy'n bodloni gofynion perfformiad blwyddyn 1 o leiaf, yn berffaith ar gyfer myfyrwyr sydd am ddilyn gyrfa ym maes cyfrifeg siartredig. Mae'r rhaglen yn rhoi’r cyfle i gwblhau blwyddyn ar leoliad gyda chwmni cyfrifeg neu ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig cyfatebol fel rhan o'ch astudiaethau.

Gan ymestyn eich cwrs i radd pedair blynedd, bydd y lleoliad hefyd yn cyfrif fel blwyddyn gyntaf y cymhwyster ACA. Mae hyn yn golygu y gallwch gymhwyso’n gyfrifydd proffesiynol mewn dwy flynedd yn hytrach na thair, ar ôl graddio.

Mae pob un o'n rhaglenni cyfrifeg hefyd yn eich eithrio rhag gorfod sefyll arholiadau’r prif gyrff cyfrifeg proffesiynol yn y DU, gan gynnwys:

- Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg.

Mae llawer o'n staff yn arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw yn eu meysydd ymchwil, ac mae nifer ohonynt yn gyfrifwyr cymwys gyda blynyddoedd o brofiad proffesiynol.

O dan eu goruchwyliaeth, mae'r rhaglenni yn cynnig sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer gyrfaoedd sy'n ymwneud ag arian ym meysydd masnach, diwydiant neu'r sector cyhoeddus.

Gallwch ddisgwyl astudio agweddau arbenigol ar gyfrifeg, cyllid, cyfraith masnach, dadansoddi meintiol ac amrywiaeth o bynciau sy’n ymwneud â rheoli, marchnata ac economeg yn ystod eich amser gyda ni.

## BSc Rheoli Busnes

Byddwch yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i fod yn arbenigwr rheoli busnes neu entrepreneur.

Gallwch ddewis gradd gyffredinol mewn rheoli busnes, neu un o’n llwybrau mwy arbenigol mewn adnoddau dynol, marchnata, logisteg a gweithrediadau neu reoli rhyngwladol.

Mae’r llwybr rheoli rhyngwladol wedi’i gynllunio i adlewyrchu cyrhaeddiad byd-eang busnes. Yn seiliedig ar eich perfformiad academaidd, bydd y llwybr arbenigol hwn yn rhoi'r cyfle i chi dreulio tymor dramor lle byddwch yn cael eich addysgu a'ch asesu yn Saesneg yn un o'n prifysgolion partner ledled y byd.

Mae darlithoedd gan westeion sector-benodol, mentora, hyfforddiant gyrfaol a chyfleoedd am leoliadau diwydiannol ymysg rhai o’r manteision i chi ar eich llwybr arbenigol mewn logisteg a rheoli gweithrediadau mewn partneriaeth â NOVUS Lite.

Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM) i roi'r cyfle i chi ennill cymwysterau proffesiynol ar ein llwybr arbenigol mewn marchnata. Mae galw mawr am Borth Graddedigion CIM gan gyflogwyr ac mae'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n eich paratoi ar gyfer dilyn gyrfa lwyddiannus ym myd marchnata.

Os cewch chi 60% ar gyfartaledd yn eich asesiadau yn y flwyddyn gyntaf a llwyddo ym mhob modiwl ar eich cynnig cyntaf, byddwch chi’n gymwys i wneud cais am ein BSc Rheoli Busnes gyda Lleoliad Gwaith Integredig (IWP).

Mae'r radd unigryw hon yn rhoi'r cyfle i chi ymgymryd â lleoliad gwaith 20 wythnos â chredyd yn ail semester blwyddyn dau.

Bydd gennych y cyfle i archwilio a darparu tystiolaeth o'r disgyblaethau rheoli busnes craidd mewn lleoliad gwaith bywyd go iawn, trwy wneud y canlynol:

- cwblhau lleoliad mewn sefydliadau fel Admiral, Trafnidiaeth Cymru, Deloitte, Renishaw, Delio Wealth a Barclays
- cael profiad o fywyd busnes lleol
- cael eich talu i weithio.

Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, gallech ddewis o blith amrywiaeth o fodiwlau ar reoli gwybodaeth, rheoli amrywiaeth, datblygu busnesau bach, rheoli gwasanaethau cyhoeddus, moeseg busnes, rheoli’r gadwyn gyflenwi a marchnata strategol.

ICAEW CHARTERED ACCOUNTANTS | ACCA Think Ahead | The Chartered Institute of Management Accountants | CIPFA The Chartered Institute of Public Finance & Accountancy | CIM Graduate Gateway | NOVUS Inspiring Tomorrow's Supply Chain Professionals



"Yn ystod yr haf yn fy ail flwyddyn, bûm ar leoliad gwaith gydag Undeb Rygbi Cymru yng Nghaerdydd. Trwy weithio mewn amrywiaeth o feysydd gwahanol yn ei Hadran Cyllid, cefais ddefnyddio fy astudiaethau mewn sefyllfaoedd byd go iawn.

Mae'r profiad wedi rhoi hyder i mi ac wedi fy helpu i ganolbwyntio ar y meysydd y gallaf i barhau i weithio arnyn nhw yn y dyfodol."

**Emma,** BSc Cyfrifeg



“Rhoddodd y Wobr NUE ymdeimlad gwych o gyflawniad i mi. Roedd yn gydnabyddiaeth allanol am yr ymdrech a'r gwaith rwyf i wedi'i wneud yn ystod fy interniaeth. Mae wedi talu ar ei ganfed ac rwy'n falch o hynny. Gan weithio fel rhan o dîm bach, roedd gen i lawer o gyfrifoldeb a gwelais yr effaith gadarnhaol a gafodd fy ngwaith ar y cwmni.”

**Daniel,**
BSc Rheoli Busnes gyda Lleoliad Gwaith Integredig (IWP)

Intern Gorau yng Ngwobrau Cenedlaethol Cyflogadwyedd i Israddedigion 2020



“Roeddwn yn Hong Kong ar gyfer fy nhrydedd flwyddyn a chefais yr amser gorau. Cyn i mi fynd, roedd yn rhaid i mi ddweud wrthyf fy hun bod lwc o blaid y rhai mentrus, ac mae hynny’n wir. Rwyf wedi gwneud ffrindiau rhyngwladol am oes, ac mae gennyf wlad arall y gallaf ei galw’n gartref. Mae Hong Kong wedi dwyn rhan o'm calon am byth.”

**Eilish,**
BSc Rheoli Busnes (Marchnata)

## BSc Rheoli Busnes gyda'r Gymraeg

Mae galw mawr am raddedigion sydd â sgiliau lefel uchel mewn rheoli busnes yn ogystal â'r Gymraeg, yma yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r cwrs wedi'i ddylunio i gyfuno prif elfennau'r radd rheoli busnes gydag astudio'r Gymraeg a'i diwylliant, gan baratoi myfyrwyr at gyfleoedd o fewn y farchnad lafur amrywiol yng Nghymru.

Gan mai Caerdydd yw prifddinas gwleidyddiaeth, busnes a chyfryngau Cymru, bydd y rhaglen yn eich galluogi i fanteisio ar y cysylltiadau agos sydd gennym â'r Llywodraeth a diwydiant.

## BScEcon Economeg

Cyfle i archwilio economeg yng nghyd-destun heriau gwleidyddol-gymdeithasol cenedlaethol a rhyngwladol cyfoes.

Mae economeg yn ddisgyblaeth sy'n ysgogi deallusrwydd ac mae galw mawr am sgiliau ein graddedigion ymhlith cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae cyrchfannau graddedigion fel arfer yn cynnwys ystod o broffesiynau rheoli, marchnata, bancio a chyfrifeg, yn ogystal â gwaith fel economegwyr proffesiynol.

Pa bynnag yrfa rydych chi'n ei dilyn, gallwch fod yn sicr y bydd y sgiliau trosglwyddadwy y byddwch wedi'u caffael yn ystod eich gradd economeg, megis datrys problemau, technegau meintiol a dadansoddi, yn cael eu croesawu gan gyflogwyr.

Byddwch yn dilyn modiwlau mewn micro- a macro-economeg, dulliau meintiol, agweddau ar economeg, cyfrifeg, rheoli ac astudiaethau cyfreithiol yn eich blwyddyn gyntaf, cyn bwrw ymlaen at fodiwlau ym meysydd amrywiol eich theori economaidd, yn eich ail a thrydedd flwyddyn.

Caiff y modiwlau gorfodol hyn eu cyfuno â dewisiadau arbenigol a fydd yn cyfateb i'r rhaglen radd a ddewiswyd gennych, ac sy'n cyd-fynd â'ch diddordebau a'ch dyheadau o ran gyrfa.

Yn yr ail flwyddyn, mae'r modiwl Arian, Bancio a Chyllid yn ffefryn arbennig ac yn cynnig cyfle i chi astudio yn ein hystafell masnach lle byddwch yn magu sgiliau ymarfer ar gyfer gyrfaoedd ym myd cyllid.

Gall pob myfyriwr israddedig ddefnyddio'r ystafell masnach i gyflawni gweithgareddau allgyrsiol drwy Gymdeithas Buddsoddi Prifysgol Caerdydd (sy'n cynnal Fforwm Byw drwy Facebook). Bob wythnos, cynhelir Fforwm Ariannol sy'n helpu i feithrin eich dealltwriaeth o sut mae marchnadoedd ariannol yn gweithio.

Gallwch astudio Economeg fel gradd anrhydedd sengl neu gydanrhydedd. Gweler tudalen 53 am restr lawn o'n rhaglenni.

## BScEcon Economeg Busnes

Mae graddedigion Economeg Busnes yn dilyn amrywiaeth o lwybrau gyrfa, o waith fel economegwyr proffesiynol at ystod o broffesiynau rheoli, marchnata, bancio a chyfrifeg.




**Agorodd ein canolfan addysgu gwerth miliynau o bunnoedd yn 2014 ac mae'n cynnwys cyfleusterau astudio a chymdeithasol o'r radd flaenaf**

Cymhwyswch theori economaidd wrth wneud penderfyniadau busnes a datblygu gwybodaeth gadarn am egwyddorion economaidd, eu defnydd a'u cyfyngiadau mewn cyd-destun busnes.

Dros dair blynedd, byddwch yn canolbwyntio ar ddeall theori economaidd sy'n ymwneud â nodweddion strwythur a rheoli mentrau busnes modern.

## BScEcon Bancio a Chyllid

Byddwch yn datblygu'r adnoddau a'r technegau i ddylanwadu ar y sector cyllid byd-eang sy'n gynyddol gystadleuol.

Byddwch yn darganfod sut mae dadansoddiad micro a macro yn croesi ar draws y gyfraith, rheoli a threfnu, mewn materion economaidd hanesyddol a chyfoes.

Gallwch deilwra eich gradd i'ch dyheadau o ran gyrfa gyda modiwlau dewisol megis economeg llafur, masnach, datblygu a diwydiant.



"Roeddwn i'n awyddus i ddilyn llwybr ymarferol ac astudio cymwysiadau economeg, ac mae'r cwrs Bancio a Chyllid yn cynnig hynny. Rwy'n gallu dysgu am theorïau economaidd craidd a chael fy addysgu sut mae marchnadoedd ariannol megis y gyfnewidfa stoc yn gweithio, a hynny trwy gemau efelychedig yn yr ystafell masnach."

**Abheesh,**
BScEcon Bancio a Chyllid

### Cewch weld drosoch eich hun!

Ymunwch â ni ar un o'n diwrnodau i ddeiliaid cynnig ym mis Chwefror ac ym mis Mawrth. Anfonir gwahoddiadau awtomatig i'r holl ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle i astudio gyda ni.

Gallwch hefyd ddod i'n gweld mewn Diwrnod Agored i'r Brifysgol gyfan.

Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan:
**www.caerdydd.ac.uk/opendays**

# Cemeg

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**

**Blwyddyn dramor**

**Lleoliad proffesiynol**



## Pam dewis **Cemeg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae **100%** o'n hymchwil o leiaf yn '**gydnabyddedig yn rhyngwladol**', ac yn y **9fed** safle yn y DU.

Roedd **99%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl i'w cwrs orffen.*

Rydym yn cynnig amrywiaeth o **gyfleoedd prosiect ymchwil** dros yr haf.

Mae graddedigion MChem yn gymwys i fod yn aelodau llawn o'r **Gymdeithas Gemeg Frenhinol** (MRSC) a gallant ymgeisio am deitl Cemegydd Siartredig.

Byddwch yn cwblhau eich astudiaethau a'ch ymchwil mewn cyfleusterau **eithriadol** sydd newydd eu dodrefnu, gan ddefnyddio cyfarpar **o'r radd flaenaf**.

Mae pob un o'n cyrsiau yn cynnig cyfleoedd ar gyfer **lleoliadau proffesiynol** ac **astudiaethau tramor**.

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Cemeg (MChem)** | (Pedair blynedd) F103 |
| **Cemeg (BSc)** | (Tair blynedd) F100 |
| **Cemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Dramor (BSc)** | (Pedair blynedd) F106 |
| **Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (MChem)** | (Pedair blynedd) F104 |
| **Cemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Dramor (BSc)** | (Pedair blynedd) F102 |
| **Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (BSc)** | (Pedair blynedd) F101 |
| **Cemeg gyda Blwyddyn Ragarweiniol (BSc)** | (Pedair blynedd) F105 |

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** Byddai cynigion arferol rhwng AAB a BBB, ac yn cynnwys gradd B mewn Cemeg a llwyddo yn yr elfen ymarferol, lle bo'n berthnasol.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 30-34 pwynt, i gynnwys Cemeg.

BTEC: DDM - DMM mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol. Neu, D a graddau BB ar Safon Uwch gan gynnwys Cemeg. Neu, DM yn ogystal â gradd B mewn Cemeg.

Arall: Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Blwyddyn Ragarweiniol:** Mae mynediad i'r rhaglen hon ar gyfer y rhai nad ydynt â'r cymwysterau arferol mewn cemeg. Gweler tudalen 150 am ragor o fanylion.

**Pynciau penodol**

Cemeg ac, yn ddelfrydol, o leiaf un pwnc gwyddonol neu fathemategol arall.

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:**

- Gradd C neu radd 4 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Cymraeg neu Saesneg.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gyrfaoedd

**Swyddi**

Gwyddonydd datblygu fferyllol, dadansoddwr defnyddiau, ymchwilydd i gatalyddion, twrnai patentau ac athro cemeg.

**Cyflogwyr**

AstraZeneca Pharmaceuticals, 3M, Cadburys, y Swyddfa Batentau Ryngwladol, Johnson and Johnson a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 150 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 450

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr: **Dr Paul Newman**

Ffôn: **(029) 2087 0464 +44 (0)29 2087 0464**

Email: **chemistry@caerdydd.ac.uk**

**CardiffSchoolofChemistry** **@ChemistryCU** **cardiffchemistry**

**Mae ein holl labordai wedi'u hadnewyddu i safon uchel** a cheir cyfleusterau gwych ynddynt ar gyfer y gwaith ymarferol a'r gwaith prosiect helaeth. Ceir amrywiaeth eang o offeryniaeth sbectroscopig o fewn yr ysgol ymchwil lwyddiannus hon a dyma lle byddwch yn ymgymryd â'ch prosiect ymchwil blwyddyn olaf.

> Rydw i'n fyfyriwr Cemeg yn fy nhrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, ar y cwrs MChem gyda blwyddyn dramor. Rydw i newydd dreulio'r wyth mis diwethaf yn gweithio mewn labordy yn Toulouse yn ne Ffrainc, lle bûm yn astudio'r peptidau y tybir bod ganddynt gysylltiad agos ag achosi clefyd Alzheimer. Cefais amser gwych a byddwn yn argymell blwyddyn dramor i unrhyw un; mae'n gyfle anhygoel. Y flwyddyn nesaf, mi fyddaf i'n dychwelyd i Brifysgol Caerdydd ar gyfer fy mlwyddyn olaf i ymuno â phrosiect newydd sy'n ymwneud â bacteria sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfiotigau. Rydw i wedi mwynhau fy amser ym Mhrifysgol Caerdydd yn fawr; mae'n brifysgol wych ac yn ddinas ragorol i fyfyrwyr.
>
> **Megan**, Cemeg gyda Blwyddyn Dramor (MChem)



## Mae Cemeg yn ddisgyblaeth sy'n esblygu'n barhaus ac sydd mewn sefyllfa unigryw i ddatrys nifer o heriau gwyddonol, amgylcheddol a chymdeithasol y presennol a'r dyfodol.

Mae Cemeg wrth galon gwyddoniaeth a thechnoleg fodern ac yn cwmpasu mathemateg a ffiseg ar y naill law a meddygaeth a'r gwyddorau bywyd ar y llall. Mae hefyd yn darparu addysg eang a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau proffesiynol.

Rydym yn cyfuno rhagoriaeth ym myd addysgu, ymchwil arloesol a chysylltiadau diwydiannol helaeth er mwyn cynnig profiad dysgu o'r radd flaenaf a chychwyn cadarn i'ch gyrfa.

### Rhaglenni gradd BSc

Mae'r cwrs BSc Cemeg tair blynedd yn cynnig sylfaen astudio eang fel y gallwch fynd ar drywydd gyrfa ym maes gwyddor gemegol, addysg gemegol a hyd yn oed gyrfaoedd nad ydynt ym maes cemeg.

Mae pob un o'n rhaglenni gradd yn hyblyg a chewch gyfle hyd at ddiwedd ail flwyddyn y cwrs i newid rhwng y rhaglenni MChem a BSc.

Mae Cemeg gyda Blwyddyn Ragarweiniol yn bennaf ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt wedi cael cyfle, am ryw reswm, i astudio'r pynciau rhagofynnol y mae eu hangen i gael mynediad i'r flwyddyn gyntaf. Mae cwblhau'r cwrs sylfaen blwyddyn o hyn yn llwyddiannus yn eich galluogi i fynd ymlaen i flwyddyn gyntaf rhan greiddiol y cwrs gradd.

### Rhaglenni gradd MChem

Mae ein rhaglenni gradd MChem pedair blynedd blaengar wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai sy'n bwriadu dilyn gyrfa broffesiynol mewn cemeg, naill ai yn y diwydiant neu ym myd academaidd, megis ym maes ymchwil wyddonol gyffredinol neu reoli ymchwil. Yn ogystal â'n rhaglen MChem mewn Cemeg, rydym yn cynnig dwy raglen MChem arall: Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a Chemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Gwaith Dramor. Yn y ddau achos, treulir y drydedd flwyddyn allan o Gaerdydd, naill ai mewn labordai cwmni sy'n gwneud gwaith ymchwil neu ddatblygu, neu'n dilyn rhaglen ymchwil mewn prifysgol dramor, fel rheol yn Ewrop, Asia, Gogledd America neu Awstralia. Gweler Cyfleoedd Byd-eang ar dudalen 24 i gael rhagor o wybodaeth.

### Addysgu a gofal bugeiliol

Addysgir trwy gyfres o ddarlithoedd, tiwtorialau, gweithdai a dosbarthiadau ymarferol. Cefnogir hyn gan y deunyddiau sydd ar Dysgu Canolog, sef amgylchedd dysgu rhithwir y Brifysgol.

Darlithoedd yw un elfen bwysig o'r addysgu, fel arfer mae 10-12 yr wythnos sy'n 50 munud o hyd. Mae addysgu hefyd yn cynnwys dosbarthiadau ymarferol, sef tua 10-12 awr yr wythnos.

Rhoddir dosbarthiadau tiwtorial mewn grwpiau bach ym mhob blwyddyn, er mwyn ymarfer, trafod a dadansoddi deunydd y darlithoedd, yn ogystal â datblygu sgiliau cyfathrebu.

Mae gan bob un o'n cyrsiau Cemeg elfen gref o ymchwil annibynnol, o dan oruchwyliaeth.

Mae gan bob myfyriwr dri thiwtor academaidd, y mae un ohonynt hefyd yn diwtor personol i chi. Byddwch yn gweld un o'ch tiwtoriaid bob wythnos, naill ai fel rhan o grŵp tiwtorial bach neu ar sail un-i-un mewn sesiwn diwtorial bersonol.

### Strwythur ein rhaglenni gradd

Nod ein modiwlau yn y flwyddyn gyntaf yw sbarduno eich diddordeb yn y pwnc yn ogystal â rhoi sylfaen wybodaeth gref i adeiladu arni yn ystod y blynyddoedd canlynol. Ategir modiwlau cemeg craidd â gwaith ymarferol a gweithdai mathemategol. Gellir dewis modiwl dewisol ychwanegol ym maes cemeg (mae'r pynciau'n cynnwys cemeg amgylcheddol neu fforensig neu gemeg y cosmos) neu mae cyfleoedd ar gael i astudio iaith fodern drwy'r rhaglen Ieithoedd i Bawb.

Mae blynyddoedd olaf pob rhaglen yn cynnwys pynciau ar draws holl faes cemeg, er enghraifft, cynaliadwyedd, deunyddiau uwch a dylunio cyffuriau, gan roi gwerthfawrogiad trylwyr o natur cemeg ryngddisgyblaethol. Mae ail semester blwyddyn olaf y rhaglenni BSc a blwyddyn 3 y rhaglenni MChem yn gwbl ddewisol o ran dewis modiwlau, fel y mae blwyddyn 4 gyfan ar raglenni MChem. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i arbenigo mewn maes o'u dewis drwy ddewis modiwlau a addysgir a dewis prosiectau.

Mae'r rhaglenni MChem yn rhannu elfennau craidd â'r BSc mewn Cemeg yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, a bydd parhau i'w dilyn yn dibynnu ar berfformiad rhagorol.

Er bod trefniadau'r addysgu yn amrywio ar draws y tair rhaglen MChem, maent i gyd yn cynnwys hyfforddiant mewn dulliau ymchwil, prosiect ymchwil personol, profiad uwch mewn labordy, a dewis o bynciau sy'n cael eu haddysgu hyd at derfynau eithaf y pwnc.



Mae'r dulliau addysgu'n cynnwys darlithoedd a dosbarthiadau ymarferol

### Profiad i ffwrdd o Gaerdydd

Cynigir blwyddyn mewn diwydiant yn y llwybrau MChem a'r BSc ac mae'n rhan o'ch asesiad gradd cyffredinol. Yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant, cwblheir eich gwaith academaidd trwy gyfuniad o dasgau dysgu o bell a gwaith a neilltuwyd gan y diwydiant sy'n eich derbyn.

Yn y rhaglen BSc gyda blwyddyn mewn diwydiant, bydd y lleoliad yn gyfle i chi gael profiad gwaith â thâl, ond heb y gofynion a'r asesiadau academaidd ychwanegol. Gallwch ddisgwyl cael cyflog cystadleuol ar hyd y ddau gwrs sydd â lleoliad diwydiannol.

Mae'r MChem gyda blwyddyn ar leoliad dramor yn dilyn yr un patrwm â'r MChem gyda blwyddyn mewn diwydiant, ond treulir y drydedd flwyddyn mewn prifysgol dramor (gweler hefyd dudalen 24).

Bydd hyn yn cynnwys prosiect ymchwil estynedig dan oruchwyliaeth fel aelod iau o grŵp ymchwil yn y sefydliad sy'n eich derbyn. Mewn rhai achosion, bydd angen sgiliau iaith priodol arnoch, a chewch gyfleoedd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf i'w datblygu.

### Gyrfaoedd

Mae amrywiaeth o opsiynau o ran gyrfa yn agored i raddedigion cemeg. Mae llawer yn ymuno â'r sectorau cemegol, fferyllol neu biodechnoleg, tra bod eraill yn mynd i mewn i'r byd academaidd neu'r llywodraeth.
Mae nifer o raddedigion yn defnyddio'r hyfforddiant rhesymegol ac ymarferol a gawsant er mwyn mynd i feysydd marchnata, gwerthu, rheoli, peirianneg, meddygaeth, y cyfryngau, y gyfraith neu gyllid.

Mae newyddiaduraeth wyddonol, cyhoeddi ac addysgu i gyd yn feysydd realistig y gallech fynd iddynt. Felly hefyd, mae'r sgiliau penodol a gafwyd mewn labordai yn gallu bod yn gam tuag at waith yn y diwydiant gweithgynhyrchu.

Mae gyrfaoedd graddedigion wedi cynnwys fferyllydd datblygu cynnyrch, myfyriwr graddedig technegol, dadansoddydd patentau, cyfrifydd dan hyfforddiant a gwyddonydd rheoli ansawdd.

# Cyfrifiadureg a Gwybodeg

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Cyfrifiadureg a Gwybodeg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â **BCS**, **y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG**, i wneud yn siŵr bod ein graddau'n berthnasol i'r galw diweddaraf yn y diwydiant.

Roedd **99%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Mae astudio **blwyddyn mewn diwydiant** yn eich galluogi chi i **ddefnyddio'r sgiliau** a'r **ddealltwriaeth** y gwnaethoch eu meithrin ar eich cwrs yn y gweithle, gan wella eich cyflogadwyedd.

Byddwch yn cael profiad o'ch pwnc mewn amgylchedd a diwylliant newydd drwy ddewis treulio **blwyddyn yn astudio dramor**.

Rydym ni'n cydweithio â mwy na **220 o bartneriaid academaidd** a **diwydiannol yn y DU**.

Mae ein myfyrwyr yn dweud yn gyson ein bod **ymhlith prifysgolion gorau'r DU** o ran cael mynediad at gyfarpar, ystafelloedd a chyfleusterau pan mae eu hangen arnynt.



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol (BSc)** (Tair blynedd) 4JVD

**Cyfrifiadureg (BSc)** (Tair blynedd) G400

**Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (BSc)** (Pedair blynedd) G401

**Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn Astudio Dramor (BSc)** (Pedair blynedd) 126V

**Cyfrifiadureg gyda Diogelwch a Gwaith Fforensig (BSc)** (Tair blynedd) G4F4

**Cyfrifiadureg gyda Diogelwch a Gwaith Fforensig gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (BSc)** (Pedair blynedd) GKF4

**Cyfrifiadureg gyda Diogelwch a Gwaith Fforensig gyda Blwyddyn Astudio Dramor (BSc)** (Pedair blynedd) 125V

**Cyfrifiadureg (MSci)** (Pedair blynedd) G404

**Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (BSc)** (Pum mlynedd) G402

**Cyfrifiadureg gyda Blwyddyn Astudio Dramor (MSci)** (Pum mlynedd) G403

**Yn ddiweddar, mae'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg** wedi symud i gyfleuster newydd sy'n arwain y byd a rennir gyda'r Ysgol Mathemateg. Yn cynnwys labordai cyfrifiadurol a gynlluniwyd i alluogi gwaith grŵp yn ogystal ag astudio unigol, gofod gwneud a gweithdy TG i gefnogi prosiectau cyfrifiadureg ymarferol a labordy seiberddiogelwch o'r radd flaenaf, mae ein cartref newydd yn dal i fod yn agos at Undeb y Myfyrwyr, preswylfeydd myfyrwyr a chanol y ddinas.

Addysgir ein BSc Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol yn yr Academi Meddalwedd Genedlaethol yng Ngorsaf Wybodaeth Casnewydd, sydd wedi'i chynllunio i ddynwared amgylchedd dechrau busnes wedi'i ddodrefnu â datrysiadau technoleg arloesol a digon o fannau cydweithredol i ysbrydoli gwaith tîm a chreadigrwydd.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAB-ABB ar gyfer Cyfrifiadureg (MSci); ABB-BBB ar gyfer pob rhaglen arall. Mae Cyfrifiadureg (MSci) a phob un â blwyddyn astudio dramor yn gofyn am Fathemateg Safon Uwch.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 34-32 neu 666-665 o bynciau Lefel Uwch ar gyfer Cyfrifiadureg (MSci); 32-31 neu 665 ar gyfer pob rhaglen arall. Mae angen 5 mewn Mathemateg Lefel Uwch ar gyfer Cyfrifiadureg (MSci) a phob un ag opsiynau o ran blwyddyn astudio dramor.

**BTEC:** DDM (RQF yn unig) mewn TG (neu TGCh), Cyfrifiadura a Pheirianneg ar gyfer Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol (BSc), Cyfrifiadureg (BSc) a Chyfrifiadureg gyda Diogelwch a Gwaith Fforensig (BSc). DD-DM mewn TG (neu TGCh), Cyfrifiadureg a Pheirianneg a Mathemateg Safon Uwch ar gyfer Cyfrifiadureg (MSci) a phob opsiwn Blwyddyn Astudio Dramor.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Pob gradd**

**Gofynion TGAU (neu gyfwerth)**:
- Gradd B neu radd 6 mewn Mathemateg ar gyfer graddau Cyfrifiadureg.
- Gradd B neu radd 4 mewn Mathemateg ar gyfer gradd mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol.
- Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg Iaith.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 215 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,200

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lyfryn yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtor derbyn myfyrwyr: **Dr Louise Knight**

Ffôn: **(029) 2251 0951 +44 (0) 29 2251 0951** Ebost: **comsc-ug@caerdydd.ac.uk**

**CompScienceCU** **@CompScienceCU | @CUSoftAcademy**

## Gyrfaoedd

Mae gennym ni gysylltiadau cryf â llawer o'r prif enwau ym myd diwydiant, a fydd yn golygu y cewch chi gyfleoedd rhagorol i fanteisio ar ymweliadau, sgyrsiau a gweithdai gan gyflogwyr. Gallwch hefyd gyfoethogi rhagor ar eich CV a gwella'ch rhagolygon cyflogaeth drwy ddewis gwneud gradd â blwyddyn gyflogedig mewn diwydiant, neu fe allech ddewis gwneud lleoliad haf gyda chefnogaeth yr Ysgol. Mae graddedigion eraill wedi dewis astudio ymhellach neu ymchwilio ym Mhrifysgol Caerdydd neu mewn prifysgolion blaenllaw eraill.

### Cyflogwyr

Admiral, BAE Systems, BT, y Gwasanaeth Sifil, Confused.com, Deloitte, EADS, Fujitsu, GCHQ, General Dynamics UK, IBM, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Red Hat, Thomson Reuters.

> Dewisais BSc Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol gan y byddai'n rhoi profiad i mi na fyddai unrhyw radd arall yn ei roi. Mae'r meintiau dosbarthiadau llai yn rhoi mwy o bwyslais ar y dysgu ac yn ei wneud yn fwy personol na'r cwrs cyffredin, sy'n golygu bod y dysgu'n llawer mwy o hwyl, yn gynhwysol ac yn ddeniadol.
>
> **Meg**, Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol (BSc)



## Mae meysydd deinamig gwyddoniaeth gyfrifiadurol a pheirianneg meddalwedd yn sail i bron bob agwedd ar fywyd bob dydd.

Ein hymchwil amlddisgyblaeth sy'n rhoi ffurf i'n rhaglenni gradd, ac yn eu gwneud yn berthnasol i gyflogwyr heddiw, gan eu gosod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar ddatblygiadau yfory. Mae ein haddysgu o'r safon uchaf ac rydym yn credu bod achrediad proffesiynol yn bwysig. Mae BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG, yn adolygu ein rhaglenni gradd yn rheolaidd.

## BSc Cyfrifiadureg

Mae'r rhaglen hon, sy'n cynnwys cyfuniad o agweddau damcaniaethol ac ymarferol, yn rhoi'r arbenigedd i ddadansoddi problemau ac atebion ar ffurf rhaglenni cyfrifiadurol. Byddwch yn caffael y sgiliau technegol, dadansoddol a phroffesiynol trosglwyddadwy y mae eu hangen ar gyflogwyr.

Mae **blwyddyn 1** y rhaglen yn eang ac yn eich cyflwyno i'r sgiliau a'r cysyniadau cyfrifiadura hanfodol sy'n sail ar gyfer eich gradd. Mae'r rhain yn cynnwys datrys problemau gan ddefnyddio algorithmau sylfaenol yn ieithoedd rhaglennu Python a Java™ a dealltwriaeth o gyfrifiadura rhyngrwyd.

Bydd y modiwlau ym **mlwyddyn 2** yn ehangu eich dealltwriaeth, eich sgiliau a'ch profiad drwy gyflwyno pynciau mwy datblygedig. Edrychir ar strwythur a phrosesu data, a byddwch yn cymryd rhan mewn prosiect grŵp, yn mynd i'r afael â phroblemau o'r byd go iawn ym meysydd datblygu a gweithredu systemau.

Mae **blwyddyn 3** yn canolbwyntio ar bynciau mwy datblygedig megis prosesu delweddau a chronfeydd data amlgyfrwng neu ar raddfa uwch, yn ogystal â rheoli systemau gwybodaeth. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect unigol dan oruchwyliaeth aelod o'n staff academaidd.

### Ffocws i'ch gradd

Rydym yn cynnig fersiwn â thema o'r radd BSc mewn Cyfrifiadureg ym maes hynod o boblogaidd diogelwch a gwaith fforensig.

Bydd dewis canolbwyntio eich astudiaethau yn y maes hwn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i chi o'r egwyddorion, yr offer a'r technolegau sy'n ofynnol i sicrhau bod buddsoddiad sefydliad mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn diwallu ei anghenion mewn modd diogel.

Ochr yn ochr â dysgu pynciau craidd, byddwch yn meithrin gwybodaeth a sgiliau manwl ym maes seiberddiogelwch a gwaith fforensig, a hynny trwy waith prosiect ac amrywiaeth o fodiwlau dewisol.

Mae gennym labordy penodol ar gyfer seiberddiogelwch a gwaith fforensig digidol i gefnogi eich astudiaethau.

### Blwyddyn mewn diwydiant

Bydd y dewis poblogaidd hwn yn rhoi cyfle i chi gael lleoliad blwyddyn o hyd mewn cwmni perthnasol, a hynny mewn swydd gyflogedig rhwng blynyddoedd addysgu dau a thri.

Er bod myfyrwyr yn gyfrifol am ddod o hyd i'w lleoliadau eu hunain, mae gennym swyddog lleoliadau penodedig sy'n gallu gweithio gyda chi i wneud yn siŵr bod ystod eang o gyfleoedd ar gael ar eich cyfer.

Mae'r sgiliau a'r profiad gwerthfawr a gewch yn ystod eich lleoliad yn cael eu ffafrio'n fawr ac mae galw amdanynt gan ddarpar gyflogwyr, gyda rhai myfyrwyr yn cael cynnig rôl barhaol ar ôl cwblhau eu gradd yn llwyddiannus.

### Blwyddyn astudio dramor

Bydd ein rhaglen blwyddyn dramor yn mynd â chi i un o'n prifysgolion cymeradwy ym mhedwar ban byd i astudio cyfrifiadureg neu bwnc tebyg rhwng blynyddoedd addysgu dau a thri.

Bydd treulio blwyddyn yn astudio dramor yn rhoi'r cyfle i chi brofi eich pwnc mewn amgylchedd a diwylliant newydd a dysgu sut i fyw'n annibynnol y tu allan i'r DU. Byddwch hefyd yn cael cyfle i astudio modiwlau nad ydynt ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd.

Byddwch yn gallu dewis o blith gwahanol brifysgolion y mae gan Brifysgol Caerdydd gytundeb cyfnewid myfyrwyr â nhw.

## BSc Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol

Lleolir y radd arloesol hon yn yr Academi Meddalwedd Genedlaethol yng Nghasnewydd. Ei nod yw cynhyrchu peirianwyr meddalwedd sy'n barod am waith, y bydd ganddynt fantais gystadleuol dros eu cymheiriaid, ac a fydd yn uchel eu parch ymhlith darpar gyflogwyr. Byddwch chi'n dylunio, yn codio, yn profi ac yn cynnal meddalwedd ansawdd uchel o'ch eiddo eich hun, a gyflwynir i gwsmeriaid busnes go iawn, gan ddatblygu sgiliau rhaglennydd proffesiynol.

Un o'r nodweddion allweddol sy'n gwneud y radd hon yn unigryw yw'r ffaith y darperir theori, addysgu a dysgu drwy brosiectau datblygu meddalwedd go iawn.

Ym **mlwyddyn 1**, byddwch yn dysgu meddwl fel rhaglennydd, a chodio fel rhaglennydd, gan weithio'n bennaf gyda Java™ a Python. Byddwch yn dysgu am systemau cronfa ddata SQL ac NoSQL, a sut i ddefnyddio offer safonol y diwydiant a ddefnyddir gan ddatblygwyr go iawn, gan ddilyn arferion gorau i ddatblygu meddalwedd o safon.

Ym **mlwyddyn 2**, byddwch yn ehangu eich gwybodaeth dechnegol mewn meysydd megis profion, seiberddiogelwch, diogelwch a DevOps, a hynny er mwyn cynnal graddfa, gwytnwch ac anghenion diogelwch eich atebion menter seiliedig ar gwmwl. Byddwch yn datblygu ac yn lansio pecynnau gwirioneddol ar gyfer y we a dyfeisiau symudol, yn unol ag anghenion eich cwsmeriaid. Erbyn hyn, byddwch yn arwain cyfarfodydd tîm i gynllunio a rheoli'r gwaith datblygu ar gyfer eich tîm, ac yn cwrdd yn rheolaidd â'ch cwsmeriaid yn uniongyrchol.

Ym **mlwyddyn 3**, byddwch yn dysgu am dueddiadau newydd, ac yn eu defnyddio i ddatblygu cynnyrch gyda gwerthfawrogiad o'r ieithoedd, fframweithiau ac offer diweddaraf. Gallech fod yn cydweithio gyda thimau datblygu eraill ac yn arwain cyfarfodydd â chwsmeriaid fel rhan o'r Prosiect Tîm Mawr.

Mae'r flwyddyn olaf yn ychwanegu at eich profiadau ym mlynyddoedd un a dau, ac yn dod â'r holl elfennau sydd eu hangen arnoch ynghyd er mwyn i chi allu meddwl a gweithio fel peiriannydd meddalwedd masnachol.

## MSci Cyfrifiadureg

Mae'r cwrs pedair blynedd hwn yn rhoi sylw manwl i'r pwnc y tu hwnt i gwrs BSc tair blynedd traddodiadol. Yn ystod y bedwaredd flwyddyn, byddwch yn astudio modiwlau cyfrifiadureg uwch ac yn ymgymryd â phrosiect tîm newydd ar lefel 7. Bydd hyn yn arwain at ennill cymhwyster Meistr mewn Cyfrifiadureg (MSci).

Bydd y modiwlau ym **mlwyddyn 1** yn cyflwyno sgiliau a chysyniadau cyfrifiadureg hanfodol a fydd yn sylfaen i'ch gradd. Mae hyn yn cynnwys eich cyflwyno i waith rhaglennu algorithmau drwy ddefnyddio ieithoedd fel Python a Java™ a datblygu eich dealltwriaeth o'r rhyngrwyd a thechnolegau'r we, saernïaeth gyfrifiadurol a systemau gweithredu, egwyddorion peirianneg meddalwedd a mathemateg ar gyfer cyfrifiadureg.

Bydd y modiwlau ym **mlwyddyn 2** yn eich galluogi i ddechrau arbenigo eich sgiliau, gan ganolbwyntio ar naill ai llwybr 'cyfrifiadureg ddamcaniaethol', llwybr 'dadansoddi data/cymhwysol', neu lwybr 'systemau'.

Bydd **blwyddyn 3** yn canolbwyntio ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a phynciau cyfrifiadureg uwch. Byddwch yn parhau ar hyd y llwybr a ddewiswyd gennych yn ystod blwyddyn 2 a bydd yn cael ei fireinio'n unol â'ch diddordebau penodol, ochr yn ochr â dewis o fodiwlau opsiynol ychwanegol sydd wedi'u llywio gan ymchwil.

Yn ogystal â chyfrannu at brosiect tîm gorfodol o dan oruchwyliaeth aelod o'r staff academaidd ym **mlwyddyn 4**, byddwch yn dewis o blith ystod o fodiwlau a ddewiswyd yn ofalus. Bydd y rhain wedi'u llywio gan ymchwil ac yn canolbwyntio ar bynciau cyfoes a pherthnasol sy'n dod i'r amlwg yn y ddisgyblaeth.

# Deintyddiaeth

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Lleoliad proffesiynol





## Pam dewis **Deintyddiaeth** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Fel rhan o'n cynnig i chi, os byddwch yn ein dewis ni fel eich dewis prifysgol cadarn rydym yn addo arbed eich lle ar gyfer mynediad y flwyddyn ganlynol os byddwch yn methu graddau eich cynnig, er mwyn caniatáu ichi ailsefyll eich arholiadau.

Mae **bwrsariaeth lawn gan y GIG** ar gael ar gyfer myfyrwyr BSc Therapi Deintyddol a Hylendid Deintyddol a myfyrwyr DipHE Hylendid Deintyddol. Mae'n cynnwys ffioedd dysgu a bwrsariaeth nad yw'n ad-daladwy ar gyfer costau byw.

Mae'r **ystafell efelychu yn yr Ysgol Deintyddiaeth, sy'n werth £2.2 miliwn,** o'r radd flaenaf, a bydd y profiad dysgu rydych yn ei gael yn eich paratoi'n berffaith ar gyfer rhoi gofal deintyddol i gleifion mewn clinigau modern.

Yn rhan o'n cynnig i chi, os byddwch yn ein dewis ni fel eich dewis cadarn, rydym yn addo cadw eich lle ar gyfer y flwyddyn ganlynol os byddwch yn methu â chael graddau eich cynnig, er mwyn eich galluogi i ailsefyll eich arholiadau.

Mae gennym un o'r cofnodion cyflogadwyedd BDS **cryfaf** ymhlith yr ysgolion deintyddol yn y DU sy'n cystadlu â ni – yn 2019, sicrhaodd **100%** o'n myfyrwyr BDS leoliad Hyfforddiant Sylfaenol Deintyddol.

**100%**
o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym o **'safon ryngwladol'**, gyda **94%** ohoni'n **'rhyngwladol-ragorol'** neu'n '**arwain y byd**'.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

**Deintyddiaeth (BDS)** (Pum mlynedd) A200

**Hylendid Deintyddol (Diploma)** (Dwy flynedd) B750

**Therapi Deintyddol a Hylendid Deintyddol (BSc)** (Tair blynedd) B752

**Achrediad**
Mae ein rhaglenni gradd a diploma wedi'u dilysu gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

## Diwrnodau Agored

Rydym yn trefnu Diwrnodau Agored i israddedigion bob blwyddyn. Mae ein Diwrnodau Agored yn rhoi cyfle i chi glywed gan fyfyrwyr a staff am astudio yng Nghaerdydd. Yn 2021, cynhaliwyd y rhain yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Datblygwyd taith fideo o amgylch Ysbyty Deintyddol y Brifysgol i roi taith rithwir i chi o amgylch yr adeilad. Os yw'r pandemig yn caniatáu, gall teithiau wyneb yn wyneb ail-ddechrau yn ystod Diwrnodau Agored yn ystod yr wythnos.

**Noder:** Unwaith y bydd teithiau wyneb yn wyneb yn gallu ailddechrau, dim ond yn ystod Diwrnodau Agored yn ystod yr wythnos oherwydd rheoliadau iechyd a diogelwch y GIG y byddant yn bosibl. Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/deintyddiaeth**

**Bydd gennych fynediad i ystafell TG israddedig a chyfleusterau gwerth £1.5 miliwn wedi'u hailddatblygu gan gynnwys darlithfeydd a mannau cymdeithasol i fyfyrwyr.**

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lyfryn yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:

Ffôn: **(029) 2074 6917/2468**
**+44 (0) 29 2074 6917/2468**

Ebost: **DentalUGAdmissions@caerdydd.ac.uk**

**@CardiffDental**

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod proffesiynau deintyddol yn hygyrch. Datblygwyd nifer o raglenni i helpu gyda'r broses ymgeisio a'r cyfnod pontio i'r brifysgol. Cewch wybodaeth am ein rhaglen ni yma: https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/teachers-and-careers-advisers/widening-participation/post-16-activities.

Mae ein meini prawf derbyn cyd-destunol a'u defnydd yn y broses ymgeisio ar gael yn rhad ac am ddim yn: https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/applying/contextual-data.

Canllaw yn unig yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS)**
**TGAU/IGCSE:** Ewch i'n gwefan.

**Safon Uwch:** Graddau AAA gan gynnwys Cemeg a Bioleg.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 36 o bwyntiau gydag isafswm sgôr o 6 ar y Lefel Uwch mewn Cemeg a Bioleg.

**BTEC:** Ni dderbynnir.
**UCAT:** Mae gofyn bod pawb sy'n gwneud cais i ddilyn y rhaglen BDS yn sefyll prawf tueddfryd UCAT cyn gwneud cais: **www.ukcat.ac.uk.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr rhyngwladol.**

**Therapi Deintyddol a Hylendid Deintyddol (BSc)**
O leiaf pum TGAU/IGCSE ar radd C/gradd 4 neu uwch.
Rhaid i'r TGAU gynnwys TGAU/IGCSE Cymraeg Iaith (Gyntaf)/Saesneg Iaith, ar Radd C/gradd 4 neu uwch.

Rhaid i bob ymgeisydd fod wedi ennill un o'r rhain hefyd:

- O leiaf tair Safon Uwch ar radd B neu uwch mewn Bioleg neu Fioleg Ddynol
- Cymhwyster nyrs ddeintyddol cydnabyddedig ar Lefel 3 PASS ynghyd â dwy Safon Uwch gydag un mewn Bioleg neu Fioleg Ddynol, gradd B o leiaf.

**BTEC:** Diploma Estynedig Lefel 3: DDM mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol (Meddygol), sy'n cynnwys Bioleg a Bioleg Ddynol.

**Nid yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys i wneud cais am y cwrs hwn.**

**Hylendid Deintyddol (Diploma)**
O leiaf pum TGAU/IGCSE ar Radd C/Gradd 4 neu uwch.
Rhaid i'r TGAU gynnwys TGAU/IGCSE Cymraeg Iaith (Gyntaf)/Saesneg Iaith, ar Radd C/Gradd 4 neu uwch.

Rhaid i bob ymgeisydd fod wedi ennill un o'r rhain hefyd:

- O leiaf dwy Safon Uwch ar radd C neu uwch mewn Bioleg neu Fioleg Ddynol
- Cymhwyster nyrs ddeintyddol cydnabyddedig ar Lefel 3 PASS ynghyd ag un Safon Uwch mewn Bioleg neu Fioleg Ddynol, gradd C o leiaf.

**BTEC:** Diploma Estynedig Lefel 3: DDM mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol (Meddygol), sy'n cynnwys Bioleg a Bioleg Ddynol.

**Nid yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys i wneud cais am y cwrs hwn.**

## Gwybodaeth am geisiadau

| | | |
|---|---|---|
| **BDS** | **Nifer y lleoedd fel arfer:** 74 | **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1000 |
| **Hylendid a Therapi** | **Nifer y lleoedd fel arfer:** 31 | **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 550 |

## Nod ein rhaglenni yw eich addysgu i ymarfer fel gweithiwr gofal iechyd deintyddol proffesiynol mewn amgylchedd hyfforddi sy’n cyd-fynd â’ch dyheadau proffesiynol. Byddwn yn eich addysgu i gyfuno a defnyddio eich gwybodaeth, eich sgiliau a’ch barn, ac i feithrin agweddau priodol er mwyn i chi allu darparu gofal o safon uchel yn y proffesiwn deintyddol.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Ysbyty Deintyddol y Brifysgol, lle darperir rhan fwyaf yr addysgu clinigol. Fel yr unig ysbyty deintyddol yng Nghymru, cewch y cyfle i drin pobl o bob lliw a llun a chyfrannu at eu hiechyd yn gyffredinol.

## Polisi dethol

Rydym yn awyddus i dderbyn myfyrwyr o bob cefndir sy’n gallu dangos y nodweddion canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol sy'n gallu cyfleu syniadau'n effeithiol.
- Deallusrwydd emosiynol.
- Gonestrwydd a gwytnwch.
- Tosturi a deall urddas.
- Egwyddorion moesegol a dealltwriaeth foesol.
- Agwedd ofalgar ac ymroddedig tuag at gleifion a'r proffesiwn.
- Yn llawn cymhelliant ac yn barod i dderbyn cyfrifoldeb.
- Y gallu i feddwl ar eu traed ac i werthuso gwybodaeth yn feirniadol.
- Dealltwriaeth o ofynion hyfforddiant ac ymarfer deintyddol.
- Tystiolaeth o gyflawniad academaidd uchel a photensial yn hynny o beth

Ochr yn ochr â’ch cais UCAS, mae’r polisi dethol yn cynnwys gwneud penderfyniad ynghylch faint o’r nodweddion a restrir uchod rydych yn eu bodloni. Os byddwch yn cyrraedd y trothwy cyfweld, bydd eich addasrwydd ar gyfer y proffesiwn yn cael ei asesu trwy gyfres o gyfweliadau byr (MMIs).

## Deintyddiaeth BDS: Y radd

Gyda rhyw 70 o fyfyrwyr y flwyddyn, rydym ni'n ysgol deintyddiaeth gymharol fach o hyd. Yn ein barn ni, mae hynny’n helpu i hwyluso ymdeimlad cyfeillgar a chefnogol o gymuned sy'n helpu i sicrhau bod ein myfyrwyr yn llwyddo.

## Addysgu

Mae’r addysgu yn integredig, felly byddwch yn dysgu am brosesau gwyddonol a phatholegol gwaelodol clefydau deintyddol a’r geg ar yr un pryd â chaffael y sgiliau i reoli cleifion yn briodol. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfoethogi eich profiad dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys darlithoedd, seminarau grŵp bach a sesiynau tiwtorial, addysgu unigol ar glinigau ac e-ddysgu. Fe'ch cefnogir gydag adborth ar unwaith wrth y gadair mewn clinig trwy Ddatblygu ar iPad.

Mae'r gwaith prosiect yn caniatáu i chi weithio mewn grwpiau neu yn unigol, a byddwch yn cael eich annog i ymchwilio i bynciau a chyflwyno gwaith i’ch cymheiriaid.

## Strwythur y rhaglen

Yn ystod blwyddyn 1, byddwch yn treulio llawer o'ch amser yn Ysgol y Biowyddorau. Yma, byddwch yn astudio anatomeg corff marw, yn dysgu am y corff dynol yn ogystal â chlefydau sy'n effeithio ar ddannedd a'r meinweoedd ategol. Fel arfer, byddwch yn treulio dydd Gwener yn yr Ysgol Deintyddiaeth, lle cewch eich cyflwyno i ddeintyddiaeth glinigol.

Byddwch yn profi ein hystafell efelychu clinigol gwerth £2.2m o'r radd flaenaf lle gallwch ddatblygu eich sgiliau ymarferol.

Wrth i chi symud ymlaen, byddwch yn dysgu sgiliau ymarferol mwy datblygedig o ran rheoli cleifion, pwysigrwydd gofal am y claf cyfan a’u rheoli yn yr hirdymor – yn union fel petaech yn llawfeddyg deintyddol cymwysedig.

O flwyddyn 2 ymlaen, byddwch yn gweithio yn yr Ysgol Deintyddiaeth. I ddechrau, ym mlynyddoedd dau a thri, byddwch yn datblygu eich sgiliau clinigol a’ch gwybodaeth drwy amrywiaeth o ddarlithoedd, seminarau a gweithgareddau clinigol sy’n cael eu hefelychu.



**Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfoethogi eich profiad dysgu**

O dan oruchwyliaeth agos, byddwch yn gweld eich claf cyntaf ym mlwyddyn 2, ac wedi hynny bydd gennych gleifion i’w rheoli a’u trin. Bydd angen eich bod yn deall elfennau sylfaenol clefydau, gan gynnwys y rhai sy’n effeithio ar ardal y dannedd a’r wyneb, a sut mae eu rheoli a’u hatal, ynghyd â’r adnoddau diagnostig sydd eu hangen ar gyfer ymarfer clinigol. Elfen hanfodol o ymarfer clinigol yw’r gofyniad i weithio'n broffesiynol ac yn foesegol a gallu cyfathrebu'n effeithiol â chleifion a staff. Ystyrir y sgiliau hyn yn fanwl drwy sesiynau rhyngweithiol arloesol a chyffrous.

Ym mlynyddoedd pedwar a phump mae’r pwyslais ar ddatblygu sgiliau clinigol mewn amrywiaeth o amgylcheddau clinigol, gan gynnwys Ysbyty Deintyddol y Brifysgol, clinigau deintyddol cymunedol, ysbytai cyffredinol dosbarth a chyfleusterau addysgu penodedig ar gyfer estyn allan yng Nghaerdydd a’r cyffiniau.

Datblygir dealltwriaeth ddyfnach o broses cynllunio triniaeth, yr opsiynau rheoli, gan gynnwys gofal cleifion sy'n canolbwyntio ar ataliaeth, fel eich bod yn cael addysg eang iawn i'ch paratoi ar gyfer eich gyrfaoedd cyffrous.

> Yr hyn sy’n arbennig am Gaerdydd yw’r cyfuniad prin o gyfleusterau ardderchog a staff gwybodus a chyfeillgar. Ceir ymdeimlad teuluol go iawn, sy’n ein helpu i roi profiad dysgu heb ei ail i fyfyrwyr, sydd yn ei dro yn ein galluogi ni i gyd i fwynhau’r hyn rydym yn ei wneud.
>
> **Emyr**, Deintyddiaeth (BDS)




Mae'r myfyrwyr yn elwa ar weithgareddau clinigol efelychedig.

## Lleoliadau gwaith

Wrth i chi ddod yn fwy profiadol yn eich pedwaredd a'ch pumed flwyddyn, byddwch yn treulio amser allan o'r Ysgol Deintyddiaeth mewn lleoliadau gofal sylfaenol am oddeutu pum wythnos. Bydd y lleoliadau hyn yn rhoi cyfle i chi arsylwi a thrin ystod o gleifion. Ar ben hynny, mae gennym ddwy ganolfan estyn allan ddynodedig, un yng nghanol y ddinas ac un yng Nghwm Cynon, lle byddwch yn rheoli eich cleifion eich hun mewn lleoliad gofal sylfaenol, a hynny'n rheolaidd yn ystod dwy flynedd olaf eich cwrs.

## Rhaglenni Hylendid Deintyddol a Therapi a Hylendid Deintyddol

Rydym yn cynnig dwy raglen sydd â chysylltiad agos â'i gilydd: Diploma mewn Hylendid Deintyddol (rhaglen ddwy flynedd) a BSc mewn Therapi a Hylendid Deintyddol (rhaglen tair blynedd), ac mae'r ddwy yn fodiwlaidd, ac yn cael eu cynnal ochr yn ochr ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf.

Ein nod yw eich addysgu i fod yn Hylenwyr Deintyddol sy'n ymarfer ac yn Therapyddion a Hylenwyr Deintyddol sy'n gymwys ar gyfer ymarfer clinigol heb oruchwyliaeth (o dan bresgripsiwn deintydd) a chynnig y posibilrwydd o fynediad uniongyrchol dan ganllawiau presennol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC).

Rhaid i chi feddu ar lefel uchel o fedrusrwydd corfforol a dangos sylw i fanylion. Mae sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig a'r gallu i weithio fel tîm yn hanfodol. Rhaid bod gennych chi hefyd ddiddordeb gwirioneddol mewn rhoi gofal a thriniaeth llawn empathi i gleifion.

## Addysgu

Cewch eich addysgu gan dîm ymroddedig o staff deintyddol, hylendid a therapi, a bydd rhyngweithio pellach dan oruchwyliaeth ymgynghorwyr a goruchwylwyr gofal sylfaenol. O drydydd tymor blwyddyn 1, byddwch mewn cysylltiad â'ch rhestr cleifion eich hun ac mae mynediad at gyfrifiadur ar gael.

## Strwythur y rhaglen

Mae cyrsiau modiwlaidd yn gwneud defnydd integredig o addysgu yn null darlithoedd, seminarau rhyngweithiol, efelychu clinigol ac ymarfer clinigol.

Ym **mlwyddyn 1** (y ddau gwrs), byddwch yn treulio eich amser yn dysgu am y gwyddorau biofeddygol, pynciau clefyd dynol a chlefydau'r geg a'u hatal. Bydd modiwl rhagarweiniol ar ymarfer clinigol yn cael ei gynnal yn ystod tymor dau, gyda'r nod o'ch paratoi ar gyfer eich cyswllt cyntaf â chleifion yn nhymor tri.

Mae pynciau'r cwrs ym mlwyddyn (y ddau gwrs) yn cynnwys radioleg ddeintyddol, meddygaeth y geg ac iechyd cyhoeddus deintyddol, a addysgir cyn bod y ffocws yn troi at beriodontoleg (clefyd y deintgig) a'r driniaeth glinigol ar ei chyfer. Yn ystod y flwyddyn hon byddwch hefyd yn rheoli eich cleifion eich hun o dan oruchwyliaeth.

Mae pwyslais **blwyddyn 3** (Therapi yn unig) yn parhau gydag ymarfer clinigol pediatrig ac oedolion yn ogystal â phrosiect ymchwil diwedd blwyddyn.

Mae blynyddoedd dau a thri yn cynnig cyfleoedd i chi fynychu lleoliadau clinigol mewn clinigau deintyddol 'allgymorth' lleol, gan ddarparu triniaeth i'r cyhoedd deintyddol mewn sefyllfaoedd sy'n debyg iawn i faes ymarfer cyffredinol. Yn rhai o'r meysydd hyn byddwch yn gweithio ochr yn ochr â myfyrwyr deintyddol gan ddefnyddio dull gweithio mewn tîm o ofalu am gleifion.

Trwy gydol y rhaglenni, mae addysgu a gweithredu proffesiynoldeb yn hollbwysig.

Cewch eich dysgu am agweddau ar y gyfraith a moeseg mewn deintyddiaeth yn ogystal â materion ymarferol sy'n ymwneud â thriniaethau deintyddol, ac i gydnabod pwysigrwydd a rheidrwydd eich datblygiad gydol oes a phroffesiynol. Mae eich cyfle i ymgysylltu a chymell cleifion a darparu triniaethau clinigol cyfoes yn golygu bod therapi a hylendid deintyddol yn yrfa a fydd yn eich ysgogi.

## Eich gyrfa fel gweithiwr deintyddol proffesiynol

Ar ôl cymhwyso'n weithiwr deintyddol proffesiynol, bydd nifer o opsiynau ar gael i chi o ran gyrfa. Wrth gymhwyso, gallwch gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gweithio mewn meysydd amrywiol yn y sector deintyddol, gan gynnwys ymarfer deintyddol cyffredinol, clinigau deintyddol cymunedol, ysbytai cyffredinol ac ysgolion deintyddol. Mae yna hefyd gyfleoedd yn y lluoedd arfog, yn ogystal ag amrywiaeth o raglenni lefel meistr os oes gennych ddiddordeb mewn astudiaethau ôl-raddedig.

Mae mwyafrif y graddedigion Deintyddiaeth (BDS) yn ymgymryd â chyfnod o hyfforddiant sylfaenol am flwyddyn ar ôl cymhwyso.

# Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**

**Blwyddyn dramor**

**Lleoliad proffesiynol**



## Pam dewis **Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae ein **cysylltiadau rhagorol** â chynfyfyrwyr, rheoleiddwyr amgylcheddol a sefydliadau lleol yn helpu ein myfyrwyr i ddod o hyd i brosiectau a lleoliadau haf.

Rydym yn yr **20 uchaf** ar gyfer Daearyddiaeth a Gwyddorau Amgylcheddol.

Ffynhonnell: The Times and Sunday Times Good University Guide 2021.

Rydym yn darparu cyfleusterau rhagorol i **gefnogi** eich astudiaethau, gan gynnwys labordai TG dynodedig, cyfarpar dadansoddi o'r radd flaenaf, ynghyd â'n cwch ymchwil ein hun, y **Guiding Light**.

Mae ein hymchwil a'n haddysg yn **helpu i gael effaith gadarnhaol** ar y byd rydym yn byw ynddo.

**Digon o gyfleoedd i wneud gwaith maes ymarferol** yn y DU a thramor.

Byddwch yn cael **addysg o'r ansawdd uchaf**, wedi'i darparu gan ddarlithwyr sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil ryngwladol.

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Daearyddiaeth Ffisegol (BSc)**
(Tair blynedd) F843
(Pedair blynedd)
(Blwyddyn astudio dramor) F849

**Daearyddiaeth Ffisegol (MSci)**
(Pedair blynedd) F844

**Daearyddiaeth Amgylcheddol (BSc)**
(Tair blynedd) K32K
(Pedair blynedd)
(Blwyddyn astudio dramor) K32L

**Daearyddiaeth Amgylcheddol (MSci)**
(Pedair blynedd) Y32N

**Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol (BSc)**
(Tair blynedd) F651

**Daeareg Archwilio (BSc)**
(Tair blynedd) F625

**Daeareg Fforio gyda Blwyddyn Astudio Dramor (BSc)**
(Pedair blynedd) F627

**Daeareg Archwilio (MSci)**
(Pedair blynedd) F626

**Geowyddorau Amgylcheddol (BSc)**
(Tair blynedd) F648
(Pedair blynedd)
(Blwyddyn astudio dramor) F643

**Geowyddorau Amgylcheddol (MSci)**
(Pedair blynedd) F649

**Daeareg (BSc)** (Tair blynedd) F603
(Pedair blynedd)
(Blwyddyn astudio dramor) F607

**Daeareg (MSci)**
(Pedair blynedd) **F604**

**Daearyddiaeth Forol (BSc)**
(Tair blynedd) F845
(Pedair blynedd)
(Blwyddyn astudio dramor) F848

**Daearyddiaeth Forol (MSci)**
(Pedair blynedd) 1D78

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 190

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 800

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** ABB os ydych yn astudio un pwnc gwyddonol a BBB os ydych yn astudio dau bwnc gwyddonol (Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Daeareg, Bioleg, Daearyddiaeth, Cyfrifiadureg, TGCh a Gwyddor Amgylcheddol).

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 32-31 yn gyffredinol neu 665 mewn 3 phwnc Lefel Uwch (gydag 1 pwnc gwyddoniaeth Lefel Uwch) neu 31-30 yn gyffredinol neu 665-655 mewn 3 phwnc Lefel Uwch (gyda dau bwnc gwyddonol Lefel Uwch). Pynciau gwyddoniaeth derbyniol: Bioleg, Cemeg, Cyfrifiadureg, Gwyddorau Amgylcheddol, Daearyddiaeth, Daeareg, Mathemateg, Ffiseg.

**BTEC:** DDM-DMM mewn Diploma Estynedig BTEC mewn Gwyddor Anifeiliaid, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Gwyddor Iechyd, TGCh, neu'r Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Gofynion**

**TGAU pob gradd** (neu gyfwerth):

- Gradd C/4 mewn TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Os ydych chi'n gwneud Mathemateg Safon Uwch (neu gyfwerth), nid oes angen TGAU Mathemateg. Gellir derbyn Mathemateg Craidd hefyd yn lle TGAU Mathemateg.
- TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg gradd C/4 neu gyfwerth (fel Safon Uwch). Os oes angen fisa Haen 4 arnoch, rhaid i chi sicrhau bod eich cymhwyster iaith yn cydymffurfio â gofynion UKVI.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:
**Dr Andrew Kerr**

Ffôn: **(029) 2087 4830**
**+44 (0)29 2087 4830**

Ebost: **earth-ug@caerdydd.ac.uk**

**CaerdyddUniEarth**

**@CU_Earth**

**@cu_earth**

## Gyrfaoedd

**Swyddi**

Daearegydd peirianegol, ymgynghorydd amgylcheddol, hydroddaearegydd, peiriannydd geodechnegol, daearegydd fforio, syrfëwr hydrograffeg a deifiwr gwyddonol.

**Cyflogwyr**

Cynghorau lleol, asiantaethau'r llywodraeth fel Arolwg Daearegol Prydain ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ynghyd â chwmnïau fel Gardline Geosurvey, Anglo American, Geolog International, Sirius Resources ac ExCAL.

**Mae ein hadeilad yn gartref i'r Llyfrgell Gwyddoniaeth** ac mae wedi'i leoli yn yr un adeilad â swyddfa Arolwg Daearegol Prydain Cymru, a drws nesaf i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, gyda'i chasgliadau daearegol gwych. Cewch hefyd ddefnyddio dau labordy cyfrifiadura sydd â 100 o weithfannau cyfrifiadurol a chyfleusterau taflunio digidol. Yno, cewch hyfforddiant TG i ddefnyddio amrywiaeth fawr o feddalwedd daearegol a daearyddol, a chewch weithio ar brosiectau yn eich amser eich hun.

"Roedd astudio Daeareg Fforio ym Mhrifysgol Caerdydd yn brofiad gwych. Mae'r staff yn wybodus iawn ac yn angerddol am eu pynciau, ac roedd yn bleser dysgu mewn awyrgylch mor ysgogol. Ar ben addysg ardderchog roeddent hefyd yn gallu rhoi cysylltiadau i mi yn y diwydiant a sbardunodd fy ngyrfa. Mae Caerdydd ei hun yn ddinas wych mewn lleoliad ardderchog: mae daeareg yn cynnig llawer o gyfleoedd i deithio, ond mae'n braf bob amser cael traethau a mynyddoedd ar garreg eich drws hefyd."

**Charlie**, Daeareg Fforio



## Mae'r Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd yn gymuned ryngddisgyblaethol a chydweithredol sy'n rhagori mewn addysgu ac ymchwil. Rydym yn cynnig lle cefnogol ac ysbrydoledig i ddysgu am esblygiad y Ddaear, ei bywyd, sut mae'n gweithio a'i rhyngweithio â'r gymdeithas.

Mae ein staff brwdfrydig yn hawdd mynd atynt ac yn arbenigwyr yn eu meysydd. Maen nhw'n frwd dros addysgu ar draws yr amrywiaeth o ddisgyblaethau sydd yn ein cyrsiau. Mae dosbarthiadau maes, sesiynau ymarferol, gwaith labordy a sesiynau tiwtorial i gyd yn rhan o'n profiad dysgu ysgogol sy'n seiliedig ar ymchwil.

Rydym yn gweithio gyda'n myfyrwyr i sicrhau eu bod yn cael y profiad gorau posibl.



## Blwyddyn 1

Nod y flwyddyn gyntaf yw rhoi sylfaen gadarn i chi yng ngwyddorau'r Ddaear a gwyddorau daearyddol y gallwch adeiladu arni gyda modiwlau arbenigol wrth i'r cwrs fynd rhagddo.

Nid yw llawer o'n myfyrwyr blwyddyn gyntaf wedi gallu astudio daeareg na phynciau eraill gwyddorau'r Ddaear, er enghraifft geowyddorau amgylcheddol a daearyddiaeth forol, yn yr ysgol. Dyma pam mae ein semester cyntaf yn gyffredin ar draws y rhan fwyaf o'n rhaglenni (ac eithrio Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol, gweler isod). Byddwch yn cael eich cyflwyno i'r arfer o astudio'r Ddaear a'r cefnforoedd fel system, ac yn meithrin sgiliau gwyddonol allweddol. Bydd sgiliau cyffredinol megis arsylwi, rhifedd, cyflwyno a chyfathrebu, yn amhrisiadwy yn eich astudiaethau a'ch gyrfaoedd yn y dyfodol. Rydym yn cyflwyno'r sgiliau hyn ac yn eich galluogi i'w meithrin yng nghwricwlwm blwyddyn 1.

Yn ystod yr wythnosau cyntaf, byddwch yn mynd ar deithiau maes cyflwyniadol yn ne Cymru. Byddant yn rhoi blas i chi o'r hyn y byddwch yn ei ddysgu yn y flwyddyn gyntaf, yn gyfle i ymgyfarwyddo â chyflymder bywyd prifysgol, ac yn rhoi cyfleoedd i chi ddod i adnabod y myfyrwyr newydd eraill a'r staff. Mae gwaith maes yn y flwyddyn gyntaf yn cynnwys teithiau diwrnod a hanner diwrnod yn rhan o'r modiwlau craidd, lle byddwch yn dysgu sgiliau maes hanfodol, er enghraifft defnyddio eich cwmpawd a nodi prosesau daearegol a daearyddol yn y dirwedd.

Yn y gwanwyn, byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn taith maes breswyl ac, yn dibynnu ar y rhaglen, gallech gael cyfle i wneud gwaith ar y môr. Mae rhai o'n modiwlau blwyddyn gyntaf yn ymestyn dros y ddau semester, ac mae pob modiwl yn cynnwys darlithoedd a ategir gan waith labordy ymarferol er mwyn helpu i feithrin sgiliau ac atgyfnerthu cysyniadau allweddol. Mae nifer o'r modiwlau yn cynnwys prosiectau astudio unigol a grŵp a allai ei gwneud yn ofynnol i chi ddefnyddio ffotograffau neu ddata arall rydych wedi'i gofnodi yn y maes.

Mae mwyafrif y modiwlau yn cael eu hasesu drwy gyfuniad o arholiadau a mathau amrywiol o asesu parhaus, gan gynnwys traethodau, adroddiadau, posteri a chyflwyniadau. Bydd natur a phwysiad yr asesu parhaus yn amrywio yn ôl gofynion y modiwlau gwahanol. Bydd angen i chi gyrraedd safon foddhaol yn y 120 o gredydau a astudir cyn i chi symud ymlaen i'r ail flwyddyn.

Mae gweithdai atodol ar gael i chi os oes arnoch angen cymorth ychwanegol. Bydd tiwtor personol yn cael ei neilltuo ar eich cyfer yn ystod wythnos gyntaf eich cwrs, a bydd y tiwtor hwn yn eich cynghori ynglŷn â'r ffordd orau o drefnu eich astudiaethau i fanteisio ar yr hyn rydych eisoes wedi ei gyflawni. Gan fod y semester cyntaf yn gyffredin i'n holl raglenni gradd israddedig, cewch drosglwyddo rhwng unrhyw un o'n rhaglenni gradd hyd at ddechrau'r ail semester yng nghanol mis Ionawr.

## Blwyddyn 2 a 3

Mae'r graddau yn ymwahanu ar ôl y semester cyntaf i ddarparu deunydd craidd ar gyfer eich rhaglen ddewisol. Felly, mae set wahanol o fodiwlau yn orfodol ar gyfer pob rhaglen ym mlwyddyn 2. Ym mlwyddyn 3 (a blwyddyn 4, os yw'n briodol), ceir dewisiadau ym mhob rhaglen er mwyn i chi allu astudio'n fanylach bynciau a phrosiectau yn y meysydd sydd o'r diddordeb mwyaf i chi.

Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau'n rhoi'r cyfle i dreulio blwyddyn yn astudio yn un o'n prifysgolion partner dramor neu i gwblhau lleoliad proffesiynol mewn sefydliad yn y DU neu dramor. Bydd lleoliad proffesiynol neu brofiad astudio dramor yn digwydd yn ystod blwyddyn 3 gradd BSc pedair blynedd.

### MSci/BSc Daearyddiaeth Ffisegol

Dyma gyfle i archwilio tirweddau'r Ddaear, yr hinsawdd a'r prosesau ffisegol deinamig sy'n siapio wyneb y Ddaear. Byddwch yn dysgu sut mae tirweddau wedi esblygu, y prosesau cyfredol, yr effeithiau a'r dylanwadau ar ein planed, a sut gallwn ragfynegi newidiadau yn y dyfodol.

Byddwch yn datblygu sgiliau mewn mapio, ymchwil, dadansoddi a datrys problemau gan ddefnyddio offer maes a labordy o'r safon uchaf. Hefyd byddwch yn defnyddio rhaglenni meddalwedd proffesiynol o safon uchel i fodelu newidiadau tirlun yn y dyfodol. Byddwch yn gadael gyda'r sgiliau i ddatrys ystod o broblemau cymhleth bywyd go iawn sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ffisegol a byddwch wedi cael profiad o waith maes ymarferol ac ymchwil gyfoes gyda gwyddonwyr blaenllaw.

Byddwch yn gwneud cwrs maes preswyl mewn parc cenedlaethol arfordirol yng Nghymru lle byddwch yn dysgu sgiliau maes allweddol gan gynnwys technegau mapio ac arolygu. Bydd cyfleoedd hefyd i gwblhau teithiau tramor. Yn y gorffennol, rydym wedi ymweld â'r Swistir a Tenerife.

Dewiswch rhwng gradd BSc tair blynedd, gradd MSci pedair blynedd, neu radd BSc pedair blynedd gyda Blwyddyn Dramor. Mae cyfleoedd hefyd i gwblhau lleoliad proffesiynol fel rhan o'ch cwrs gyda sefydliadau fel y Swyddfa Feterolegol, cwmnïau ymgynghori peirianneg ac asiantaethau'r llywodraeth fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

## MSci/BSc Daeareg

Darganfyddwch sut mae creigiau a mwynau'n cael eu ffurfio, sut mae anifeiliaid yn esblygu dros amser daearegol, beth sy'n achosi daeargrynfeydd a llosgfynyddoedd, a sut mae gwyddor Daeareg yn effeithio ar ein bywydau heddiw.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol, sef y corff proffesiynol ar gyfer y geowyddorau yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i ddylunio ein gradd fel eich bod yn graddio gyda'r sgiliau arbenigol y mae arnoch eu hangen i fod yn ddaearegydd proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys gwaith maes, profiad o gasglu data trwy ddefnyddio meddalwedd Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), dadansoddi data mewn modd beirniadol, a'r hyder i wneud penderfyniadau allweddol o wybodaeth gyfyngedig.

Manteisiwn i'r eithaf ar ein lleoliad gan ystyried sut mae daeareg yn effeithio ar dirweddau a diwydiant y rhanbarth leol drwy deithiau dydd rheolaidd a theithiau preswyl hirach. Bydd yna hefyd gyfleoedd i fynd ar daith fapio dramor. Yn y gorffennol, rydym wedi bod i Sbaen a Cyprus.

Nid oes angen eich bod wedi astudio Daeareg eisoes gan y byddwch yn dechrau'r flwyddyn gyntaf gyda'r egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod pawb ar yr un lefel. Dewiswch rhwng gradd BSc tair blynedd, gradd MSci pedair blynedd, neu radd BSc pedair blynedd gyda Blwyddyn Dramor. Mae cyfleoedd hefyd i gwblhau lleoliad proffesiynol fel rhan o'ch cwrs.

## MSci/BSc Geowyddorau Amgylcheddol

Archwiliwch y prosesau gwahanol sy'n digwydd ar ein planed, er enghraifft daeargrynfeydd, glaw asid a chynhesu byd-eang. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatrys problemau go iawn lle mae'r agweddau daearegol ar beirianneg sifil, monitro ac unioni amgylcheddol, a newid yn yr hinsawdd yn berthnasol yn y DU a ledled y byd.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol, sef y corff proffesiynol ar gyfer y geowyddorau yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i ddylunio ein gradd fel eich bod yn graddio gyda'r sgiliau ymarferol sy'n ofynnol i fod yn geowyddonydd amgylcheddol proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn cwmpasu gwaith maes, defnyddio offer ar gyfer monitro'r amgylchedd, casglu a chyflwyno data gan ddefnyddio meddalwedd Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), yn ogystal ag ysgrifennu adroddiadau technegol.

Rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein lleoliad ac yn mynd yn rheolaidd ar deithiau dydd a theithiau preswyl hirach i ardaloedd o brydferthwch naturiol, yn ogystal ag i hen safleoedd diwydiannol a safleoedd cloddio yn Ne Cymru. Bydd cyfleoedd hefyd i fynd ar deithiau tramor. Yn y gorffennol, rydym wedi bod i Tenerife ac i Cyprus.

Nid oes angen eich bod wedi astudio Daeareg, gan y byddwn yn dechrau ym mlwyddyn un gyda'r egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod pawb ar yr un lefel.

Dewiswch rhwng gradd BSc tair blynedd, gradd MSci pedair blynedd, neu radd BSc pedair blynedd gyda Blwyddyn Dramor. Mae cyfleoedd hefyd i gwblhau lleoliad proffesiynol fel rhan o'ch cwrs gyda chwmnïau dŵr, cwmnïau peirianneg sifil a chwmnïau ymgynghori amgylcheddol.

## MSci/BSc Daearyddiaeth Amgylcheddol

Mae meddu ar ddealltwriaeth wyddonol ddofn o'r amgylchedd naturiol yn allweddol i ddod o hyd i broblemau a mynd i'r afael â nhw, megis newid yn yr hinsawdd, llygredd dŵr, diraddiad pridd ac erydu. Os ydych yn poeni am iechyd y blaned ac am wneud gwahaniaeth cadarnhaol, gallai ein cwrs Daearyddiaeth Amgylcheddol fod yn ddelfrydol i chi.

Archwiliwch brosesau arwyneb amgylcheddol ac ewch ati i feithrin dealltwriaeth wyddonol o'r effaith y mae pobl wedi ei chael ar gemeg ac ecoleg amgylchedd ein planed dros amser. Byddwch yn astudio amgylcheddau gwahanol ledled y byd, a hynny ar y tir a'r môr, o amgylcheddau pegynol eithafol i riffiau cwrel trofannol. Bydd y cwrs hefyd yn trafod y pwysau ar ein hamgylcheddau heddiw ac yn y dyfodol, gan gwmpasu pynciau megis cemeg ansawdd dŵr a mapio llystyfiant a phriddoedd. Byddwch yn cael profiad ymarferol o fapio a monitro ac yn llunio eich mapiau eich hun gan ddefnyddio meddalwedd mapio broffesiynol, o'r radd flaenaf.

Rydym yn mynd ar deithiau dydd rheolaidd i'r Gŵyr, Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Bannau Brycheiniog yn ne Cymru. Bydd cyfleoedd hefyd i fynd ar deithiau tramor. Yn y gorffennol, rydym ni wedi bod i'r Iseldiroedd a'r Swistir.

Dewiswch rhwng gradd BSc tair blynedd, gradd MSci pedair blynedd, neu radd BSc pedair blynedd gyda Blwyddyn Dramor. Mae cyfleoedd hefyd i gwblhau lleoliad proffesiynol fel rhan o'ch cwrs.

## MSci/BSc Daearyddiaeth Forol

Mae cynaliadwyedd cefnforoedd yn ennill momentwm ar y llwyfan byd-eang. Ar unig radd Daearyddiaeth Forol y DU, byddwch yn archwilio'r wyddoniaeth y tu ôl i gadwraeth a chynaliadwyedd morol, a heriau cysylltiedig. Yn rhan o hyn, byddwch yn archwilio dylanwad newid yn yr hinsawdd, erydu morol a llifogydd cynyddol, yn ogystal â'r angen i addasu i ddyfodol arfordirol o'r fath. Mae graddedigion yn gadael gyda'r sgiliau i ddatrys ystod o broblemau morol ac arfordirol go iawn a chymhleth, a hynny gyda phrofiad o waith maes ymarferol ac ymchwil gyfoes gyda gwyddonwyr blaenllaw a gweithwyr proffesiynol allanol.

Mae gan dde Cymru amgylchedd morol cyfoethog ac amrywiol, sy'n cynnwys aberoedd ag amrediadau llanw mawr, ynysoedd lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu, a thraethau heb eu hail ar hyd Penrhyn Gŵyr. Byddwch yn cael digon o gyfle i feithrin eich sgiliau o ran gwaith maes a gwaith cwch, gyda theithiau dydd rheolaidd a theithiau preswyl ar hyd Aber Afon Hafren ac i safleoedd megis Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Gŵyr, de Cymru. Bydd cyfleoedd hefyd i fynd ar deithiau tramor. Yn y gorffennol, rydym wedi bod i Malta, Jersey, a Samos yng Ngwlad Groeg.

Dewiswch rhwng gradd BSc tair blynedd, gradd MSci pedair blynedd, neu radd BSc pedair blynedd gyda Blwyddyn Dramor. Mae cyfleoedd hefyd i gwblhau lleoliad proffesiynol fel rhan o'ch cwrs.

## MSci/BSc Daeareg Fforio

Dysgwch sut i archwilio trysorau naturiol y Ddaear ar y radd unigryw hon, yr unig gwrs israddedig yn y DU i ganolbwyntio ar hyfforddiant arbenigol ym maes archwilio adnoddau. Bydd daearegwyr fforio'n ganolog i gyflawni dyfodol carbon isel drwy helpu i ateb y galw cynyddol am fetelau i gyflenwi'r diwydiant ynni adnewyddadwy sy'n hanfodol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Dysgwch sut mae prosesau'r Ddaear wedi creu adnoddau naturiol y blaned a sut i chwilota amdanynt er mwyn ateb y galw yn y dyfodol.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol, sef y corff proffesiynol ar gyfer y geowyddorau yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i gynllunio ein cwrs fel eich bod yn graddio gyda'r sgiliau arbenigol sy'n ofynnol i fod yn ddaearegwr fforio proffesiynol. Mae'r sgiliau hyn yn cwmpasu gwaith maes (ar wyneb y ddaear ac yn danddaearol), profiad o feddalwedd archwilio gyfoes, dadansoddi data mewn modd beirniadol, a'r hyder i wneud penderfyniadau allweddol o wybodaeth gyfyngedig.

Mae ein graddedigion wedi bod yn arweinwyr yn y diwydiannau mwynol ac ynni ers dros ganrif, a gallwch fod yn rhan o'r stori barhaus hon.



Mae gwaith maes yn rhan bwysig o'n cyrsiau

Rydym yn cynnal teithiau dydd a theithiau preswyl hirach rheolaidd i safleoedd mwyngloddio ledled Cymru. Bydd cyfleoedd hefyd i fynd ar deithiau tramor. Yn y gorffennol, rydym wedi bod i Sbaen a Cyprus.

Nid oes angen eich bod wedi astudio Daeareg eisoes gan y byddwch yn dechrau'r flwyddyn gyntaf gyda'r egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod pawb ar yr un lefel.

Dewiswch rhwng gradd BSc tair blynedd, gradd MSci pedair blynedd, neu radd BSc pedair blynedd gyda Blwyddyn Dramor. Mae cyfleoedd hefyd i gwblhau lleoliad proffesiynol fel rhan o'ch cwrs.

## BSc Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn un o heriau mwyaf a thargedau pwysicaf heddiw. Mae angen i ni weithredu ar frys er budd ein planed a datblygu strategaethau i weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy.

Ar ein cwrs Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol, byddwch yn archwilio tri maes allweddol: dŵr glân, diraddiad tir a chamau er budd yr hinsawdd. Rydym yn integreiddio gwaith maes, sgiliau a theori gan ddefnyddio dysgu seiliedig ar broblemau gyda sefyllfaoedd o'r byd go iawn i'ch helpu chi i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy y mae galw amdanynt. Gan weithio ar draws sawl disgyblaeth, byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi, trafod a dadlau problemau cynaliadwyedd amgylcheddol yn feirniadol a chynnig atebion ymarferol i broblemau byd-eang cymhleth.

Manteisiwn i'r eithaf ar ein lleoliad ac rydym yn mynd ar deithiau maes rheolaidd yn y DU a thramor; mae'r gost wedi'i chynnwys ym mhris y cwrs. Byddwch yn cael cyfle i gynnal eich prosiect ymchwil eich hun, a fydd yn cynnig sgiliau a gwybodaeth werthfawr mewn maes sy'n ddiddorol ac yn bwysig i chi. Er mwyn cefnogi'r camau nesaf yn eich gyrfa, byddwch yn cynhyrchu portffolio yn dangos eich cynnydd a'ch cyflawniadau.

Mae'r cwrs hwn, sydd â ffocws penodol, yn archwilio meysydd amgylcheddol amserol sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn yn sicrhau bod ein graddedigion yn datblygu sgiliau a gwybodaeth y mae galw mawr amdanynt mewn meysydd sylw mawr ar gyfer ymchwilwyr, llywodraethau a sefydliadau anllywodraethol. Mae'r cwrs hwn ar gael fel gradd BSc tair blynedd.

## Meistr yng Ngwyddorau'r Ddaear – MSci

Mae'r rhaglenni gradd israddedig MSci pedair blynedd hyn wedi'u llunio ar gyfer ymgeiswyr disglair sy'n gobeithio dilyn gyrfa ymchwil mewn unrhyw agwedd ar wyddorau'r ddaear yn y byd academaidd, y llywodraeth neu ddiwydiant.

Maent yn cynnwys dysgu am broses a ffrwyth ymchwil, gan eich galluogi i arbenigo mewn meysydd o'ch dewis.
Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, byddwch yn astudio'r un modiwlau â myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglenni BSc cysylltiedig, ond cewch eich addysgu mewn grwpiau bach o hyd at chwe myfyriwr mewn sesiynau tiwtorial ymchwil. Bydd y rhain yn fodd i chi ystyried eich diddordebau ymchwil tymor hir ac maent yn cynnig cyfleoedd helaethach na'r rhaglenni tair blynedd.

Yn ystod y ddwy flynedd olaf, byddwch yn canolbwyntio ar bynciau creiddiol yn llif eich pwnc, yn ogystal â modiwlau sy'n dysgu sgiliau gwyddoniaeth ac ymchwil mewn maes o'ch dewis.

Yr elfen bwysig yn y bedwaredd flwyddyn yw prosiect ymchwil a fydd yn fodd i chi feistroli a dangos y sgiliau y bydd eu hangen arnoch yn eich gyrfa ddilynol. Mae hefyd yn gyfle i astudio pwnc penodol i'r lefel uchaf bosibl fel myfyriwr israddedig.

## Rhaglenni BSc Blwyddyn Dramor

Ar y rhaglenni hyn, gallwch dreulio blwyddyn academaidd yn astudio yn un o'n prifysgolion partner dramor. Gallwch ddysgu'r gwahanol arddulliau ac ymagweddau at eich pwnc mewn gwlad arall ac archwilio amgylcheddau ffisegol, tirweddau ac arfordiroedd newydd.

Mae ein partneriaethau niferus gyda'r prifysgolion gorau yn golygu y gallwch astudio yn rhai o'r dinasoedd mwyaf eiconig ac ysbrydoledig yn y byd.

Mae Prosiect Aildyfu Borneo Prifysgol Caerdydd yn eich galluogi i wrthbwyso'r carbon a gaiff ei allyrru wrth hedfan drwy wneud rhodd ffordiadwy i gefnogi ein prosiect plannu coed.

## Lleoliadau proffesiynol

Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau'n rhoi cyfle i gwblhau lleoliad proffesiynol yn y DU neu dramor, lle gallwch gael profiad gwaith gwerthfawr fel rhan o'ch gradd. Mae rhai o'n myfyrwyr wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau swyddi parhaol gyda'r cwmnïau aethant ar leoliad iddynt ar ôl graddio.

# Peirianneg

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Peirianneg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

**1af yn y DU** am effaith ein hymchwil Peirianneg Sifil ac **yn 7fed yn y DU** am effaith ein hymchwil Peirianneg Gyffredinol (REF 2014)

Rydym ni wedi buddsoddi yn **ein cyfleusterau astudio, cymorth** a **chymdeithasol** sy'n golygu y byddwch yn elwa ar yr amgylchedd gorau posibl i ddysgu a llwyddo ynddo.

Mae pob un o'n rhaglenni gradd wedi cael eu hachredu gan y sefydliadau peirianneg proffesiynol perthnasol.

Mae ein cyrsiau'n cynnwys cyfleoedd i **astudio dramor** neu dreulio blwyddyn â thâl yn gweithio mewn diwydiant.

Roedd **97%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

**14eg** ar gyfer Peirianneg Sifil, **17eg** ar gyfer Peirianneg Gyffredinol, **25ain** ar gyfer Peirianneg Fecanyddol
(The Complete University Guide, 2021)



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

# Rhaglenni Gradd/Codau UCAS

**Peirianneg Bensaernïol (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H294 |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H298 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H295 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | H299 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Ffrainc) | H291 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn yr Almaen) | H992 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Sbaen) | H990 |

**Peirianneg Bensaernïol (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H292 |
| (Pedair blynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H293 |

**Peirianneg Sifil (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H207 |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H205 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H208 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | K3G1 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Ffrainc) | H209 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn yr Almaen) | H203 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Sbaen) | H204 |

**Peirianneg Sifil (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H200 |
| (Pedair blynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H201 |

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H226 |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H230 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H224 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | T1N9 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Ffrainc) | H225 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn yr Almaen) | H296 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Sbaen) | H297 |

**Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H221 |
| (Pedair mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H222 |

**Peirianneg Drydanol ac Electronig (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H601 |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H607 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H600 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | A7N3 |

**Peirianneg Drydanol ac Electronig (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H605 |
| (Pedair blynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H606 |

**Peirianneg Integredig (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H113 |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H118 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H114 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | 5A7D |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Ffrainc) | H115 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn yr Almaen) | H116 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Sbaen) | H117 |

**Peirianneg Integredig (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H110 |
| (Pedair blynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H111 |

**Peirianneg Fecanyddol (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H302 |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H309 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H307 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | U8A6 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Ffrainc) | H308 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn yr Almaen) | H303 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn yn Sbaen) | H305 |

**Peirianneg Fecanyddol (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H300 |
| (Pedair blynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | H301 |

**Peirianneg Feddygol (MEng)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | H1BV |
| (Pedair blynedd) (Rhyngwladol) | H2BV |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) (Rhyngwladol) | P2R4 |
| (Pum mlynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | HB99 |

**Peirianneg Feddygol (BEng)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | H1B8 |
| (Pedair blynedd) (Blwyddyn mewn Diwydiant) | BH99 |

**Peirianneg Blwyddyn Sylfaen**

| | |
|---|---|
| (Rhaglen Sylfaen) | H101 |

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch: BEng**: AAB - BBB, **MEng**: AAA-AAB. Rhaid cynnwys Mathemateg Safon Uwch.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol**: 36-34 yn gyffredinol neu 666 mewn 3 phwnc Lefel Uwch. Rhaid cynnwys gradd 6 mewn Bioleg Lefel Uwch.

**BTEC:** DD mewn Diploma BTEC mewn unrhyw bwnc a gradd A mewn Mathemateg Safon Uwch.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

### Pynciau penodol

Mathemateg Safon Uwch (neu gyfwerth). Hefyd gradd C/4 neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg TGAU (neu gyfwerth). Mae gofyn hefyd i ymgeiswyr y rhaglenni 'Blwyddyn yn Ffrainc/yr Almaen/Sbaen' fod â gradd C/4 neu uwch yn yr iaith briodol ar lefel TGAU (neu gymhwyster cyfwerth).

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

### Blwyddyn sylfaen

Os oes gennych raddau da mewn Mathemateg TGAU, ond nid Mathemateg Safon Uwch (neu gyfwerth) yna gall y flwyddyn sylfaen fod yn addas i chi. Mae wedi'i chynllunio i'ch paratoi i wneud unrhyw un o'r rhaglenni gradd mewn peirianneg. Os hoffech chi gyflwyno cais i wneud y flwyddyn sylfaen, rhowch H101 yn adran ddewisiadau eich cais UCAS, ynghyd â chod rhaglen y radd y dymunwch ei dilyn ar ôl y flwyddyn sylfaen. Rhaglen radd integredig yw hon (sef y flwyddyn sylfaen ynghyd â rhaglen radd o'ch dewis).

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 350
**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,850

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lyfryn yr Ysgol:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Cyfarwyddwr Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr:
**Dr Michael Harbottle**

**cardiffuniversityschoolof engineering**

**@EngineeringCU**

## Rydym yn addysgu arloeswyr y dyfodol, gan weithio gyda diwydiant, y byd academaidd, a'r llywodraeth i fynd i'r afael â heriau cymdeithas a gwneud ein byd yn lle gwell i fyw ynddo.

Os ydych yn dewis astudio yn yr Ysgol Peirianneg, byddwch yn graddio gyda llawer mwy na gradd. Ein nod yw cynhyrchu peirianwyr medrus iawn sy'n arweinwyr, yn gynllunwyr, yn chwaraewyr tîm ac yn gyfathrebwyr eithriadol.

Mae ein rhaglenni gradd achrededig yn cynnig dyfnder, ehangder a hyblygrwydd gyda chwricwlwm sy'n seiliedig ar ddiwydiant sy'n cynnwys dysgu ymarferol, wedi'i seilio ar broject i'ch helpu chi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi ar gyfer gyrfa a dyfodol llwyddiannus.

Mae ein holl raddau peirianneg yn cynnwys elfen prosiect unigol lle byddwch chi'n defnyddio'ch gwybodaeth a'ch sgiliau i ymchwilio i broblem beirianyddol heriol.

Rydym yn cynnig rhaglenni gyda Blwyddyn mewn Diwydiant sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr, a'r cyfle i wella'ch sgiliau iaith gyda Blwyddyn yn Ewrop. Mae ein rhaglenni MEng Rhyngwladol yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr astudio gydag un o'n prifysgolion partner y tu allan i Ewrop am un semester. Bydd gennych diwtor personol a fydd ar gael i gynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth fugeiliol i'ch helpu chi i fyfyrio ar eich datblygiad academaidd a phersonol trwy gydol eich astudiaethau. At hynny, byddwch chi'n gallu ymuno â'n hystod eang o gymdeithasau i fyfyrwyr a phrosiectau allgymorth ar gyfer myfyrwyr peirianneg.

## Mathau o raglenni gradd

**MEng**
Mae gradd uwch pedair blynedd o hyd mewn peirianneg wedi'i strwythuro fel bod y ddwy flynedd gyntaf yr un fath â'r rhaglen BEng berthnasol, tra bod y ddwy flynedd olaf yn rhoi i chi wybodaeth ehangach a dyfnach o'ch pwnc peirianneg dewisol, gan gynnwys disgyblaethau sy'n gysylltiedig â rheolaeth bellach.

**BEng**
Y llwybr tair blynedd traddodiadol o astudio peirianneg sy'n rhoi addysg sylfaenol a da yn eich disgyblaeth benodol. Bydd llawer o fyfyrwyr, hyd yn oed os ydynt yn gymwys i ddilyn y rhaglen MEng, yn dal i ddewis astudio'r cwrs am fod hynny'n cyd-fynd â'u llwybr gyrfa hwy.

**BEng/MEng Blwyddyn mewn Diwydiant**
Mae'r rhaglen hon yn gwella gradd BEng neu MEng am ei bod yn cynnwys blwyddyn ychwanegol ar leoliad diwydiannol. Byddwch yn treulio'r ddwy flynedd gyntaf yn y Brifysgol a'r drydedd mewn diwydiant, lle cewch hyfforddiant dan oruchwyliaeth. Byddwch yn dychwelyd i'r Brifysgol am flwyddyn arall (rhaglenni BEng) neu ddwy flynedd (rhaglenni MEng) i gwblhau eich astudiaethau academaidd. Mae gennym bartneriaeth ffurfiol gyda City and Guilds of London Institute sy'n galluogi ein myfyrwyr i ennill Uwch-drwydded ar ôl cwblhau eu lleoliadau rhyngosod yn llwyddiannus. Cymhwyster proffesiynol yw hwn ar gyfer cymhwysedd ac arbenigedd sy'n ymwneud â byd gwaith, ac mae cyflogwyr yn ei gydnabod yn eang. Mae gan ei ddeiliaid yr hawl i ddefnyddio'r llythrennau LCGI ar ôl eu henw.

**MEng Blwyddyn yn Ewrop**
Mae hwn yn dilyn trefn debyg i'r rhaglenni Blwyddyn mewn Diwydiant yn ystod y tair blynedd gyntaf, ac mae modiwlau iaith wedi'u hymgorffori yn eich rhaglen. Yna, byddwch yn treulio eich pedwaredd flwyddyn mewn sefydliad academaidd sy'n cydweithio â ni yn yr Almaen, Ffrainc neu Sbaen cyn dod yn ôl i Gaerdydd i gwblhau eich astudiaethau.

**MEng Rhyngwladol**
Diben y rhaglen hon yw rhoi cyfle i chi fagu'r profiad rhyngwladol y mae cyflogwyr yn rhoi mwy a mwy o bwys arno. Mae'n rhaglen radd pedair blynedd sy'n golygu treulio semester dramor yn y drydedd flwyddyn yn astudio modiwlau sy'n cyfateb i'r rhai sydd ar gael gartref. Caiff y modiwlau hynny eu credydu i'ch gradd MEng yn lle'r semester cartref. Os penderfynwch yr hoffech astudio'r rhaglen hon, cewch ddewis o blith amrywiaeth fawr o brifysgolion rhyngwladol.

## Cysylltiadau diwydiannol

Yn y disgyblaethau peirianneg bensaernïol, sifil ac amgylcheddol, mae sefydliadau blaenllaw fel Arup, Atkins, Knights Brown, Jacobs a Caukin yn cyfrannu'n sylweddol at ein haddysgu.

Mae ystod eang o gwmnïau yn cefnogi ein haddysgu yn y disgyblaethau peirianneg drydanol ac electronig, megis Keysight, Rohde and Schwarz, IQE, National Instruments, Newport Waferfab, Cree Western Power Distribution, National Grid, Babcock International ac Invertek.

Ceir mewnbwn diwydiannol ym meysydd peirianneg fecanyddol a meddygol gan sefydliadau fel Arup, Atkins, Babcock International.

**Mae ein cyfleusterau yn cynnwys** llyfrgell fawr a helaeth ei hoffer, cyfleusterau cyfrifiadura eang, man dysgu hyblyg, caffi a bwyty. Dim ond wyth munud mae'n eu cymryd i gerdded i Undeb y Myfyrwyr, ac mae preswylfeydd myfyrwyr gerllaw.

## Gyrfaoedd

**Swyddi**
Peiriannydd sifil, peiriannydd trydanol, peiriannydd mecanyddol, rheolwr prosiect a dadansoddwr technoleg.

**Cyflogwyr**
Halcrow, Atkins, BP, BAE Systems, National Grid, RWE, Mott McDonald, Airbus, Tata Steel, npower, Network Rail, Ove Arup, Renishaw, Rolls Royce, Ford, Nokia, Bosch, EADS, llywodraethau lleol, banciau a sefydliadau ariannol a chwmnïau cyfleustodau yn y DU ac yn rhyngwladol.

> Cefais lu o gyfleoedd wrth astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ategwyd hyn gan gyngor a mentora gan ddarlithwyr yn fy adran. Mae fy nghwrs yn fy herio, ond hefyd mae'n datblygu fy mrwdfrydedd tuag at beirianneg ymhellach bob blwyddyn, ac mae bod yn fyfyriwr rhyngwladol sy'n astudio mewn dinas mor fywiog ac amrywiol yn ei gwneud yn brofiad gwych.
>
> **Roberto**, Peirianneg Drydanol ac Electronig (BEng)



## Peirianneg Bensaernïol (MEng/BEng)

Mae peirianwyr pensaernïol yn cyfuno creadigrwydd pensaernïaeth â gwyddoniaeth a thechnoleg peirianneg strwythurol i ddylunio a chynhyrchu adeiladau sy'n gwella ein safon byw ac yn gwella ansawdd ein bywyd.

Mae ein graddau peirianneg bensaernïol yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o beirianneg sifil, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beirianneg strwythurol a'r amgylchedd adeiledig. Byddwch yn darganfod elfennau hanfodol peirianneg strwythurol a dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng dylunio peirianneg, gofynion pensaernïol a ffactorau amgylcheddol. Byddwch hefyd yn dysgu mwy am bensaernïaeth, peirianneg ddinesig, gwasanaethau adeiladu, technoleg adeiladu a rheoli gyda phwyslais arbennig ar waith stiwdio, prosiectau dylunio ac astudiaethau achos.

Cyflogir graddedigion o'n cyrsiau peirianneg bensaernïol mewn sefydliadau fel Arup, Atkins, Capita Symonds a Ramboll.

## Peirianneg Sifil (MEng/BEng)

Mae peirianwyr sifil yn ymwneud â chynllunio, dylunio, adeiladu a chynnal a chadw priffyrdd, meysydd awyr, dociau a phorthladdoedd, amddiffynfeydd arfordirol, systemau dyfrhau, gwasanaethau trefol hanfodol (fel y cyflenwad dŵr, draenio, a gwaredu carthion) a gwaith strwythurol, gan gynnwys adeiladau, pontydd, argaeau, cronfeydd dŵr a gorsafoedd pŵer.

Mae ein graddau peirianneg sifil yn darparu dealltwriaeth drylwyr o theori peirianneg sifil, wedi'i hategu gan gymwysiadau ymarferol trwy waith labordy ac ymchwil, cyrsiau maes a dosbarthiadau dylunio.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Aecom, Meinhardt Group, Morgan Sindall, ac Atkins Group.

## Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol (MEng/BEng)

Mae peirianwyr sifil ac amgylcheddol yn cynllunio, yn dylunio ac yn adeiladu rhaglenni i greu atebion cynaliadwy ar gyfer anghenion cymdeithas yn awr ac yn y dyfodol, er enghraifft, byw gydag effeithiau newid yn yr amgylchedd, neu reoli ein gwastraff a'n llygredd.

Mae ein graddau peirianneg sifil ac amgylcheddol yn darparu sgiliau peirianneg dylunio a dadansoddi craidd i chi a dealltwriaeth drylwyr o ffyrdd i integreiddio atebion economaidd ac ymarferol. Byddwch yn dysgu am agweddau cyfreithiol, cymdeithasol a moesegol peirianneg, a rhoddir pwyslais pendant ar gyfrifoldeb a rheolaeth amgylcheddol. Datblygir eich dysgu drwy gyfrwng ymweliadau â safleoedd, cyflwyniadau a siaradwyr arbenigol o fyd diwydiant.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel VolkerWessels UK, Mott Macdonald, a Sir Robert McAlpine.

## Peirianneg Drydanol ac Electronig (MEng/BEng)

Mae peirianwyr trydanol yn delio â chyflenwad a llif pŵer. Mae peirianwyr electronig yn helpu i greu dyfeisiau electronig fel cyfrifiaduron, ffonau symudol a thechnolegau modern eraill. Mae'r ddau yn gweithio ar flaen y gad ym maes technoleg ymarferol, gan wella'r dyfeisiau a'r systemau rydym ni'n eu defnyddio bob dydd.

Mae ein graddau peirianneg electronig a thrydanol yn archwilio gwyddoniaeth a chymwysiadau trydan ar raddfa fach a mawr. Byddwch yn astudio technoleg gwybodaeth ac astudiaethau peirianneg proffesiynol, a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau dadansoddol, cyfrifiadol ac arbrofol, ynghyd â sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig hanfodol.

Byddwch yn gymwys i gyflwyno cais am ysgoloriaethau allanol gan Academi Bŵer y DU a Sefydliad Sgiliau Electronig y DU UKESF.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Tata Steel, Chanel, Network Rail, Rolls Royce, UK AEA, Saudi Airlines, Collins Aerospace, a'r Grid Cenedlaethol.

## Peirianneg Integredig (MEng/BEng)

Mae angen peirianwyr proffesiynol ar lawer o gyflogwyr sydd â dealltwriaeth ehangach o'r amrywiol ddisgyblaethau a sgiliau peirianneg mewn mwy nag un maes.

Mae ein graddau peirianneg integredig yn ymdrin â llawer o agweddau ar beirianneg drydanol, electronig, mecanyddol a gweithgynhyrchu i greu arbenigwyr ym meysydd gweithgynhyrchu, mecatroneg, dylunio gyda chymorth cyfrifiadur ac ynni adnewyddadwy. Bydd eich gwybodaeth eang am wahanol agweddau ar beirianneg yn sicrhau y gallwch ryngweithio â pheirianwyr o'r disgyblaethau peirianneg traddodiadol mewn unrhyw amgylchedd amlddisgyblaethol.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Babcock International, BAE Systems, Eon Energy, AmSafe Bridport ac Arup.

## Peirianneg Fecanyddol (MEng/BEng)

Mae peirianneg fecanyddol yn ddisgyblaeth eang ei chwmpas sy'n cynnwys dylunio, adeiladu a gweithredu amrywiaeth enfawr o nwyddau a phrosesau. Mae peirianwyr mecanyddol yn dylunio, datblygu, adeiladu, profi, gosod a chynnal pob math o ddyfeisiau mecanyddol, offer a pheiriannau.

Mae ein graddau peirianneg fecanyddol yn archwilio meysydd fel thermodynameg, dynameg peirianneg, mecaneg hylif, mecaneg solet, a rheoli busnes. Byddwch hefyd yn ennill sgiliau trosglwyddadwy mewn meysydd fel cyfathrebu, arbrofi, cyfrifiadura, gwaith labordy a dylunio.

Byddwch yn cael cyfle i ymuno â Rasio Caerdydd a chymryd rhan yn y gwaith o ddylunio, datblygu, adeiladu a phrofi ein car rasio Fformiwla Myfyrwyr.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Vantage Power, General Electric, BP, Ricardo, a Triumph Motorcycles.

## Peirianneg Feddygol (MEng/BEng)

Mae ein graddau peirianneg feddygol wedi'u cynllunio i apelio at fyfyrwyr sy'n dymuno cyfuno hyfforddiant peirianegol clasurol â chymhwysiad meddygol. Ein nod yw cynhyrchu peiriannydd hynod fedrus a allai ddilyn gyrfa naill ai mewn meysydd clinigol/biobeirianegol neu feysydd peirianegol y tu allan i feddygaeth.

Byddwch yn caffael hanfodion mewn ystod eang o ddisgyblaethau peirianneg, gan gynnwys peirianneg fecanyddol, drydanol ac electronig, ac anatomeg a ffisioleg. Fe'ch cyflwynir i fodiwlau sydd wedi'u cynllunio i gymhwyso egwyddorion peirianneg i'r maes meddygol, megis biofecaneg, deunyddiau a gweithgynhyrchu. Byddwch yn astudio peirianneg glinigol a biofecaneg ac yn defnyddio sgiliau peirianneg sylfaenol i ddatrys problemau peirianneg feddygol, yn enwedig yn eich prosiect.

Mae myfyrwyr MEng yn dyfnhau ac yn ehangu eu gwybodaeth am beirianneg feddygol trwy gwblhau modiwlau arbenigol gan gynnwys biobeirianneg fforensig, prosesu delweddau meddygol ac ergonomeg.

Cefnogir ein haddysgu drwy gydweithio â Biomet, Simpleware ac Arthritis Research UK. Mae llawer o'r darlithwyr gwadd yn gysylltiedig â darparwyr gofal iechyd, fel Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r Adran Ffiseg Feddygol.

Cyflogir graddedigion mewn sefydliadau fel Biomet, Johnson and Johnson, Huntleigh Medical, a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae graddedigion Caerdydd yn ennill swyddi yn rheolaidd yng nghynllun hyfforddi peiriannydd clinigol/gwyddonydd cystadleuol iawn y Sefydliad Ffiseg a Pheirianneg mewn Meddygaeth.




Mae amrywiaeth eang o offer ar gael i fyfyrwyr.

## Achrediad Proffesiynol

Mae ein graddau MEng Peirianneg Bensaernïol, MEng Peirianneg Sifil ac MEng Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion cyflawni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n llawn fel Peiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau BEng Peirianneg Bensaernïol, BEng Peirianneg Sifil a BEng Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol yn bodloni'n llawn y gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Corfforedig ac yn rhannol yn bodloni'r gofyniad academaidd i gofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig wedi'u hachredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'n llawn y gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau BEng Peirianneg Drydanol ac Electronig yn bodloni'n llawn y gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Corfforedig ac yn rhannol yn bodloni'r gofyniad academaidd i gofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau MEng Peirianneg Integredig wedi'u hachredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig. Mae ein graddau BEng Peirianneg Integredig yn bodloni'n llawn y gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Corfforedig ac yn rhannol yn bodloni'r gofyniad academaidd i gofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau MEng Peirianneg Fecanyddol wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol a'r Sefydliad Ynni ar ran y Cyngor Peirianneg at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau BEng yn bodloni'n llawn y gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Corfforedig ac yn rhannol yn bodloni'r gofyniad academaidd i gofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae ein graddau MEng Peirianneg Feddygol wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianneg Mecanyddol ar ran y Cyngor Peirianwyr at ddibenion bodloni'r gofyniad academaidd ar gyfer cofrestru'n Beiriannydd Siartredig.

Mae Caerdydd yn un o'r ychydig o brifysgolion partner yn y Power Academy nodedig a sefydlwyd i annog myfyrwyr dawnus i ddilyn rhaglenni gradd sydd wedi'u hachredu gan yr IET ac yn cynnwys elfen sylweddol o bŵer.

Mae'r Power Academy yn annog myfyrwyr disglair i gael hyfforddiant i ddilyn gyrfa mewn peirianneg drydanol a bydd yn cynnig cymorth i dalu ffioedd dysgu, bwrsariaethau myfyrwyr, cymorth i dalu am ddeunyddiau'r cwrs a chyfleoedd i gael hyfforddiant galwedigaethol, yn ogystal â gwella gyrfaoedd.

Mae Caerdydd hefyd yn aelod o Sefydliad Sgiliau Electronig y DU, corff sy'n cynnig nawdd, bwrsariaethau, hyfforddiant a lleoliadau gyda chwmnïau i fyfyrwyr israddedig Caerdydd. Gall myfyrwyr y rhaglenni Peirianneg Drydanol ac Electronig, Peirianneg Electronig a Chyfathrebu a Pheirianneg Integredig fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

# Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth




## Pam dewis **Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Rydym yn darparu **addysgu dynamig** a **chefnogol** gyda dewis eang o fodiwlau.

Roedd **94%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

**Yn y 10 uchaf** yn genedlaethol **am ansawdd ein hymchwil** ym maes iaith a llenyddiaeth Saesneg.*

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio rhan o'u cwrs Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael gwybod rhagor: **www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

**Ymhlith y 100 uchaf** yn y byd ar gyfer Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl Pwnc 2021.*

**Yn y pedwerydd safle** yn genedlaethol am **effaith ein hymchwil** mewn Athroniaeth yn y byd ehangach.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Saesneg Iaith (BA)** | Q313 |
| **Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (BA)** | Q300 |
| **Saesneg Iaith ac Ieithyddiaeth (BA)** | 2HS6 |
| **Llenyddiaeth Saesneg (BA)** | Q306 |
| **Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol (BA)** | QW11 |
| **Athroniaeth (BA)** | V500 |

### Cydanrhydedd

**Saesneg Iaith a phwnc arall o blith y dyniaethau**

**Llenyddiaeth Saesneg a phwnc arall o blith y dyniaethau**

**Athroniaeth a phwnc arall**

Cewch ragor o wybodaeth ar dudalen 146.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch: Anrhydedd sengl:**

**Saesneg Iaith:** BBB-BBC

**Saesneg Iaith a Llenyddiaeth:** ABB-BBB gan gynnwys Llenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith, neu Ysgrifennu Creadigol.

**Saesneg Iaith ac Ieithyddiaeth:** BBB-BBC

**Llenyddiaeth Saesneg:** ABB-BBB gan gynnwys Llenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith, neu Ysgrifennu Creadigol.

**Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol:** ABB-BBB gan gynnwys Llenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith, neu Ysgrifennu Creadigol.

**Athroniaeth:** ABB-BBB

**Cydanrhydedd:** Fel rheol, bydd y cynigion ar gyfer graddau cydanrhydedd yr un fath ag ar gyfer anrhydedd sengl, ac eithrio os bydd y naill bwnc yn mynnu gradd uwch na'r llall. Bryd hynny, bydd y cynnig yn gofyn am y graddau uwch. Yn achos graddau Llenyddiaeth Saesneg cydanrhydedd, rhaid cael gradd A neu B mewn Llenyddiaeth Saesneg neu Saesneg Iaith/ Llenyddiaeth Saesneg neu Ysgrifennu Creadigol.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** Ewch i'n gwefan i gael rhagor o fanylion.

**BTEC: Anrhydedd sengl:** DDM-DMM i gynnwys pynciau yn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Ar gyfer Q300, Q306 a QW11 rhaid cynnwys gradd B Safon Uwch mewn Llenyddiaeth Saesneg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg neu Ysgrifennu Creadigol.

**Cydanrhydedd:** Ewch i'n gwefan.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen/tramor a'r rhai a all fod â phrofiad gwaith/bywyd perthnasol arall.

**Pynciau penodol**

**Gofynion TGA** (neu gyfwerth)**:** Dim gofynion penodol heblaw am radd C neu radd 4 o leiaf mewn Saesneg Iaith fel rheol. Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.



Mae'r rhaglen Saesneg Iaith yn cynnwys elfennau o waith ymarferol

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 320 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,500

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:

Ffôn: ( **029) 2087 4819** Ebost: **encap-admissions@caerdydd.ac.uk**

**CardiffUniEnglishCommunicationPhilosophy**

**@CUEngCommPhilos**

## Gyrfaoedd

O'r sector cyhoeddus i'r sector preifat, rydym yn hwyluso gyrfaoedd mewn ystod eang o feysydd. Mae'r ddawn i drin geiriau, profiad o hunanfynegiant a hyder wrth ysgrifennu a dadansoddi geiriau, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i nifer o lwybrau gyrfa amrywiol a diddorol.

Canfu'r dadansoddiad diweddaraf* o'r hyn sy'n gwneud rheolwyr da eu bod yn gallu datblygu a rhannu gweledigaeth, gwrando a chyfathrebu'n dda, meddwl yn feirniadol a datrys problemau. Y rhinweddau hyn sydd wrth wraidd Saesneg, Ysgrifennu Creadigol, Athroniaeth ac Ieithyddiaeth. Os oes gennych ddiddordeb penodol mewn gyrfa ym maes addysgu, mae ein rhaglen anrhydedd sengl Saesneg a Llenyddiaeth wedi'i datblygu gyda'r cyfeiriad hwn mewn golwg.

Mae ein cynfyfyrwyr yn cael effaith ym mhob math o rolau a sectorau. Mae graddedigion y pum mlynedd diwethaf mewn amrywiaeth eang o swyddi erbyn hyn, gan gynnwys y canlynol: Rheolwyr cyfrifon, cydgysylltwyr datblygu busnes, cynllunwyr ymgyrchoedd, ymchwilwyr elusennol, gweision sifil, masnachwyr nwyddau, cydgysylltwyr gwaith achos, swyddogion cyfathrebu, arbenigwyr cynnwys digidol, cynghorwyr polisi'r llywodraeth, newyddiadurwyr, cynghorwyr cyfreithiol, llyfrgellwyr, staff allgymorth a chymunedol, cyhoeddwyr, cyfreithwyr, therapyddion iaith a lleferydd, athrawon, cyfarwyddwyr theatr, fideograffwyr a datblygwyr gwe.

Mae ein graddedigion yn gweithio i sefydliadau fel: Aviva, British Airways, BBC News, Y Llyfrgell Brydeinig, gweinyddiaethau Llywodraeth y DU, Deloitte, Faber and Faber, Financial Times, HSBC, KPMG, McKinsey, Mind, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Gwasg Prifysgol Rhydychen, Palgrave Macmillan, Procter and Gamble, Routledge, Taylor and Francis Group, Y Theatr Genedlaethol Frenhinol, Heddlu De Cymru, Teach First ac Opera Cenedlaethol Cymru.

*Ffynhonnell: Prosiect Oxygen Google, y dadansoddiad seiliedig ar ddata mwyaf erioed o'r hyn sy'n gwneud rheolwyr da.

## Mae ein cyfres ysgogol o raglenni gradd yn eich galluogi i archwilio eich pwnc mewn ffyrdd ysbrydoledig, wrth feithrin sgiliau cyflogadwyedd gwerthfawr.

Cawn ein llywio gan werthoedd sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr a dull gweithredu cyfeillgar, ac rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ddiwylliant a rennir o ddysgu ac addysgu. Bydd tiwtor personol yn cael ei neilltuo ar eich cyfer, a byddwch yn cael adborth academaidd a chyfarfodydd rheolaidd i gefnogi eich cynnydd.

Mae gennym enw da yn rhyngwladol fel canolfan ymchwil mewn meysydd amrywiol: Llenyddiaeth Saesneg, ysgrifennu creadigol, iaith a chyfathrebu ac athroniaeth. Mae ein hymchwil yn bwydo'n uniongyrchol i'n haddysgu ar bob lefel, felly rydych yn cael budd o'r datblygiadau diweddaraf.

### Addysgu

Rydym yn cynnig dewis eang o raglenni a modiwlau a addysgir drwy ddarlithoedd a seminarau, gan gynnwys ein cyfres gyffrous o seminarau, lle gallwch glywed am y datblygiadau diweddaraf yn eich maes, gan gynnwys gan academyddion gwadd. Gallwch hefyd fanteisio'n uniongyrchol ar ein llwyfannau ymgysylltu, lle bydd mentrau deinamig fel BookTalk Caerdydd yn mynd â'n gwaith i ganol ein cymuned leol.

### Gwybodaeth am strwythur y radd

Mae ein blwyddyn gyntaf yn cynnig sylfaen gadarn, gan eich paratoi ar gyfer astudiaeth uwch ym mlynyddoedd dau a thri. Bydd hyn yn eich galluogi i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i wneud dewisiadau hyddysg ar gyfer cam uwch eich gradd. Bydd dosbarthiad terfynol eich gradd yn dibynnu ar eich marciau ym mlwyddyn 2 (sy'n cyfrif am 40%) a blwyddyn 3 (sy'n cyfrif am 60%).

### Anrhydedd sengl

Mae'r rhaglenni hyn yn cwmpasu tair blynedd. Yn gyffredinol, byddwch yn cwblhau eich holl fodiwlau (120 credyd y flwyddyn) yn eich pwnc. Fodd bynnag, yn y flwyddyn gyntaf mewn gradd Saesneg Iaith, bydd gennych yr opsiwn i wneud 40 credyd mewn disgyblaeth arall yn yr Ysgol (yn dibynnu ar eich cymwysterau).

### Rhaglenni gradd cydanrhydedd

Rydym yn cynnig ystod eang o raddau cydanrhydedd sy'n eich galluogi i astudio dwy ddisgyblaeth. Mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni gradd cydanrhydedd yn cwmpasu tair blynedd (pedair blynedd pan fydd ieithoedd yn ei gwneud yn ofynnol i chi astudio blwyddyn dramor). Rydych yn astudio gwerth 120 o gredydau bob blwyddyn (60 o gredydau ym mhob pwnc). Cewch ragor o wybodaeth am gyfuniadau posibl ar dudalen 146.

### Graddau Saesneg Iaith

#### BA Saesneg Iaith: Anrhydedd sengl

Mae ein gradd Saesneg Iaith yn canolbwyntio ar y croestoriad diddorol rhwng iaith a diwylliant, cymdeithas, gwleidyddiaeth a'r meddwl, ac mae'n cynnig sylfaen gadarn ym mhob un o'r agweddau allweddol ar ddadansoddi iaith.

Byddwch yn dysgu offer ieithyddol hanfodol, er enghraifft ffoneteg, gramadeg a dadansoddi disgwrs, a hynny gan y rhai sy'n helpu i ddatblygu'r meysydd hynny. Mae ein hymagwedd yn eang ac yn cynnwys agweddau megis dadansoddi testunau amlfoddol gan gyfuno delwedd geiriau a sain, sydd mor amlwg mewn cynifer o'r cyfryngau cyfoes.

Mae ein gradd wedi'i threfnu i gyd-fynd ag amrywiaeth eang o opsiynau perthnasol o ran gyrfa. Mae modiwlau craidd yn rhoi sylfaen gadarn i chi. Yna, byddwch yn cael eich arwain i adeiladu rhaglen sy'n gweddu i'ch diddordebau ac i feithrin arbenigedd, gan ddewis y modiwlau dewisol gorau i gyd-fynd â'ch cynlluniau.

Mae ein cymuned yn groesawgar, yn rhyngwladol o ran ei safbwynt ac yn gartref i'r Ganolfan Ymchwil Iaith a Chyfathrebu sy'n ennyn parch yn fyd-eang. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn meithrin amgylchedd cyfeillgar, personol a chefnogol, ac yn cynnal cyfarfodydd un-i-un yn rheolaidd.

Byddwch yn astudio chwe modiwl gwerth 20 o gredydau ym mhob un o'r ddwy flynedd nesaf, gan gynnwys dau fodiwl gorfodol ym mlwyddyn 2.

Mae ein rhaglen wedi'i chynllunio i wella amrywiaeth eang o opsiynau o ran gyrfa, yn fwyaf nodedig: addysgu, cyhoeddi, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth, rheoli personél, cwnsela, proffesiynau clinigol/therapiwtig a'r system cyfiawnder troseddol.

#### BA Saesneg Iaith ac Ieithyddiaeth: Anrhydedd sengl

Mae ein gradd Saesneg Iaith ac Ieithyddiaeth yn cyfuno astudiaeth systematig o allu dynol o ran iaith yn ei holl fynegiadau ledled y byd â ffocws ychwanegol ar yr iaith Saesneg.

Byddwch yn dysgu am bob agwedd ar iaith ddynol a sut mae gwybodaeth ieithyddol yn cael ei chaffael, ei chynhyrchu a'i deall mewn gwahanol gyd-destunau. Byddwch yn darganfod yr hyn sy'n gyffredin i bob iaith, yr hyn sy'n ei gwneud yn wahanol, a sut mae'r iaith honno yn newid dros amser. Byddwch hefyd yn dod i werthfawrogi amrywiaethau mewn iaith, gan gynnwys newidiadau hanesyddol, acenion, cyweiriau cymdeithasol penodol, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng iaith lafar ac ysgrifenedig.

Gan feithrin sgiliau gwella gyrfa, byddwch yn dod yn fedrus o ran cynhyrchu testunau amlfoddol (meddyliwch am wefannau, blogiau a chloriau cylchgronau) gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd penodol. Byddwch yn dysgu sgiliau o ddadansoddi data rhifiadol neu leferydd yn ffonetig i ddehongli patrymau mewn casgliadau mawr o iaith ysgrifenedig a/neu lafar a elwir yn gorpora.

Rydym hefyd yn cynnig nifer o fodiwlau sy'n uniongyrchol berthnasol i yrfaoedd mewn addysg, y cyfryngau, iechyd a'r broses gyfreithiol.

#### BA Saesneg Iaith a Llenyddiaeth: Anrhydedd sengl

Yn y radd werth chweil hon, byddwch yn dod i werthfawrogi llenyddiaeth Saesneg yn well ac yn meithrin sgiliau dadansoddi wedi'u hymarfer yn fanwl.

Bydd rhychwant cronolegol llawn llenyddiaeth Saesneg yn agored i chi, o'r cyfnod canoloesol cynnar i'r unfed ganrif ar hugain. Ni chyfyngir ein cwricwlwm i'r gair printiedig gan ein bod yn ymddiddori yn y cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a ffilm, celf, cerddoriaeth, hanes, iaith a diwylliant poblogaidd. Mae'r amrywiaeth hon yn eich galluogi i deilwra eich gradd, pa un a oes gennych ddiddordeb mewn cyfnodau a genres neu astudiaethau llenyddol wrth ddadansoddi ffurfiau diwylliannol eraill.

> Mae Caerdydd yn ticio pob bocs – addysg arbennig, ymchwil o'r radd flaenaf, pobl gyfeillgar a lleoliad gwych ar gyfer popeth rydych chi'n ei fwynhau. Mae'r addysgu'n teimlo'n bersonol ac unigryw. Mae'r darlithwyr yn gwybod eich enw a bob amser yn gyfeillgar a chefnogol. Mae'r modiwlau'n ddiddorol ac amrywiol. Mae yna gyfle i ehangu ar unrhyw feysydd drwy brosiectau ymchwil, areithiau a digwyddiadau allgyrsiol a'r opsiwn i ysgrifennu traethawd hir mewn unrhyw faes o'ch dewis. Mae hyblygrwydd y cwrs Saesneg Iaith yn golygu y bydd drysau amrywiol yn agor i chi ar ôl i chi raddio!
>
> **Nancy**, Saesneg Iaith (BA)



Mae ein gradd yn cynnig sylfaen gadarn i chi o ran dadansoddi'r iaith, wedi'i haddysgu gan arbenigwyr sy'n ennyn parch rhyngwladol ac sy'n gweithio ar y croestoriad rhwng iaith, cymdeithas, gwleidyddiaeth a'r meddwl.

Byddwch yn dysgu offer ieithyddol hanfodol, er enghraifft ffoneteg, gramadeg a dadansoddi disgwrs, a hynny gan y rhai sy'n helpu i ddatblygu'r meysydd hynny. Gan fod gennym ymagwedd eang tuag at iaith, byddwch hefyd yn dysgu sut mae dadansoddi'r mathau o destunau amlfoddol sy'n cyfuno gair, delwedd a sain a geir mor aml yn y cyfryngau cyfoes.

### BA Saesneg Iaith: Cydanrhydedd

Mae ein hopsiynau cydanrhydedd yn eich galluogi i gymysgu dau bwnc. Fel arfer, mae'r opsiynau gyda Saesneg Iaith yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Athroniaeth, Sbaeneg a Chymraeg. Yn gyffredinol, gyrfaoedd fel addysgu ieithoedd modern, cyfieithu, cyhoeddi amlieithog, y cyfryngau rhyngwladol, a llwybrau ymchwil perthnasol sy'n cael y budd mwyaf o'r cyfuniadau hyn.

## Graddau Saesneg Llenyddiaeth

### BA Llenyddiaeth Saesneg: Anrhydedd sengl

Archwiliwch amrywiaeth llenyddiaeth Saesneg ar draws rhychwant cronolegol, gan wneud cysylltiadau bywiog â phob ffurf ar ddiwylliant, wedi'i egluro gan arbenigwyr sy'n llywio ffyrdd o feddwl creadigol cyfoes.

Mae ein gradd hynod ddiddorol yn rhoi mynediad i chi at lenyddiaeth Saesneg yn ei chyfanrwydd, o'r cyfnod canoloesol cynnar hyd at yr unfed ganrif ar hugain. Yn hytrach na chael eich cyfyngu i'r gair printiedig, byddwch yn cael eich annog i wneud cysylltiadau rhwng llenyddiaeth, ffilm, celf, cerddoriaeth, hanes, iaith a diwylliant poblogaidd, wedi'ch ysbrydoli gan addysgu sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau diddorol hyn.

Mae gennych rwydd hynt i lywio eich llwybr wrth i chi archwilio'r pwnc. Yn dilyn blociau adeiladu blwyddyn 1, byddwch yn teilwra eich gradd eich hun, gan ddewis eich modiwlau eich hun. Gallwch ymchwilio i sawl cyfnod a genre mewn llwybr mwy traddodiadol, neu gyfuno astudiaethau llenyddol â'r gwaith o ddadansoddi ffurfiau diwylliannol eraill.

#### Chi biau'r dewis

Byddwch yn ymuno ag amgylchedd cyfeillgar a chefnogol sydd ag enw da rhyngwladol am addysgu ac ymchwilio. Gan gynnig cyfoeth o arbenigedd ar draws themâu, cyfnodau a genres, bydd ein darlithwyr yn rhannu'r ffordd ddiweddaraf o feddwl yn eu maes, gan gynnwys eu hymchwil arloesol eu hunain, o hanes llenyddiaeth i'r dyniaethau digidol, astudiaethau rhywedd, yr amgylchedd, gotheg, dadwladychiaeth ac ymhell y tu hwnt. Mae aelodau'r tîm Ysgrifennu Creadigol talentog yn ennill gwobrau cenedlaethol a rhyngwladol yn rheolaidd am eu nofelau a'u barddoniaeth a, gyda'i gilydd, mae ganddynt brofiad ym myd y theatr, teledu a ffilm. Mae ein platfformau cyhoeddus, BookTalk Caerdydd ac Arbrawf Barddoniaeth Caerdydd, yn boblogaidd ac yn ennyn llawer o ddiddordeb.

### BA Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol: Anrhydedd sengl

Cyfunwch y gorau o astudiaethau llenyddol, dadansoddi beirniadol, a phrofiad ymarferol o ran ysgrifennu creadigol, a hynny mewn un rhaglen werth chweil.

Gyda llenyddiaeth Saesneg, byddwch yn meithrin eich sgiliau beirniadol trwy astudio gweithiau clasurol a chyfoes ar draws pob cyfnod o lenyddiaeth, o'r cyfnod canoloesol cynnar hyd at yr unfed ganrif ar hugain, ac yn dysgu am y ddamcaniaeth lenyddol ddiweddaraf ar yr un pryd.

Yn achos Ysgrifennu Creadigol, byddwch yn mireinio eich crefft ac yn dysgu technegau ar draws amrywiaeth o genres, er enghraifft ffuglen, barddoniaeth, gwaith ffeithiol creadigol ac ysgrifennu sgriptiau, gan ddiweddu trwy gynhyrchu casgliad estynedig o waith creadigol. Mae aelodau'r tîm Ysgrifennu Creadigol talentog yn ennill gwobrau cenedlaethol a rhyngwladol yn rheolaidd a, gyda'i gilydd, mae ganddynt brofiad ym myd y theatr, teledu a ffilm.

Trwy gydol y rhaglen, byddwch yn cael eich annog i'ch ymestyn eich hun yn ddeallusol ac yn ddychmygus trwy archwilio llenyddiaeth fel ymarferydd ac fel beirniad. Bydd ein hymagwedd yn eich helpu i feithrin dealltwriaeth o'r broses greadigol, yn ogystal â gwella eich gwybodaeth am genre, hanes llenyddol a'r maes academaidd amrywiol a deinamig sy'n ffurfio llenyddiaeth Saesneg.

### BA Llenyddiaeth Saesneg: Cydanrhydedd

Mae'r opsiwn hwn yn eich galluogi i ddilyn dau bwnc, a all arwain at gyfeiriadau gyrfaoedd amrywiol. Fel arfer, mae'r opsiynau gyda Llenyddiaeth Saesneg yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg, hanes, Eidaleg, newyddiaduraeth, cerddoriaeth, athroniaeth, astudiaethau crefyddol, Sbaeneg neu Gymraeg. Yn fanteisiol, ceir budd penodol o addysgu llenyddiaeth Saesneg ac athroniaeth mewn un Ysgol, sy'n golygu y gellir trosglwyddo'n ddidrafferth o sylfaen blwyddyn 1.

## Graddau mewn athroniaeth

#### Sut dylem weld ein bywydau? Beth ddylem ni ei gredu?

Mae athroniaeth yn ymchwilio i'r materion dwys hyn ac yn ymdrin â chwestiwn byd-eang o bwys heddiw.

Gan mai dyma'r ddisgyblaeth academaidd hynaf, mae athroniaeth wedi datblygu ystod drawiadol o gysyniadau a thechnegau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau cymhleth.




Yn ein gradd, rydym yn eich arfogi i ddadansoddi ac adeiladu cadwyni cymhleth o resymu drosoch eich hun, gan ddatblygu a mireinio eich sgiliau meddwl i ystyried posau athronyddol ddoe a heddiw.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn meithrin amgylchedd cyfeillgar, personol a chefnogol, gan gynnal cyfarfodydd un-i-un ar bwyntiau allweddol ym mhob semester. Yn ogystal, bydd cyfle i chi alw heibio bob wythnos yn ystod y tymor a sgwrsio am eich modiwlau neu'r pwnc yn fwy cyffredinol.

**Y tu allan i'r ystafell ddosbarth**

Rydym yn archwilio materion mawr ein hoes yn ein cyfres o seminarau ymchwil wythnosol a'n digwyddiadau athroniaeth gyhoeddus rheolaidd yng nghanol y ddinas, a gynhyrchir mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Athronyddol Brenhinol. Fe'ch anogir yn fawr i gymryd rhan.

Rydym yn cynnig gradd anrhydedd sengl mewn athroniaeth ac amrywiaeth fawr o raddau cydanrhydedd y mae athroniaeth yn elfen ohonynt, sydd wedi'u hanelu at newydd-ddyfodiaid.

## BA mewn Athroniaeth: anrhydedd sengl a chydanrhydedd

Mae ein rhaglen radd arloesol yn cyfuno ymagweddau dadansoddol, cyfandirol, ac empirig at gwestiynau athronyddol sylfaenol. Rydym yn cynnig rhai modiwlau yn Gymraeg, gyda'r mwyafrif yn Saesneg.

Mae modiwlau blwyddyn 1 yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweddill y radd, gan gynnwys athroniaeth meddwl a realiti, athroniaeth foesol a gwleidyddol, yn ogystal â'n cwrs meddwl yn feirniadol. Mae myfyrwyr anrhydedd sengl yn astudio rhagor o fodiwlau athroniaeth ar gefndir hanesyddol a defnydd cyfoes ein themâu canolog.

Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, mae gennych ddewis rhydd o blith ein hamrywiaeth eang o fodiwlau. Mae modiwlau blwyddyn 2 yn darparu astudiaethau mwy manwl o feysydd penodol athroniaeth, er enghraifft epistemoleg, moeseg, neu ddirfodaeth.

Yn ein modiwlau blwyddyn 3, mae'r myfyrwyr yn gweithio i gyfrannu at ddadleuon cyfredol ym maes athroniaeth. Caiff pob modiwl ei arwain gan athronydd sydd ar hyn o bryd yn ysgrifennu am gwestiynau canolog y modiwl. Mae myfyrwyr blwyddyn 3 hefyd yn datblygu eu prosiectau ymchwil eu hunain ym modiwl y traethawd hir.

Bwriad ein holl addysgu ym maes athroniaeth yw annog y myfyrwyr i ffurfio eu syniadau a'u dadleuon eu hunain, meithrin y sgiliau beirniadol a chreadigol sy'n ofynnol i ddadansoddi a dadlau yn fanwl, a meithrin y gallu i gydweithio wrth fynd i'r afael â chwestiynau anodd a chymhleth.

## Rhagor o wybodaeth

### Dulliau addysgu

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd trafod ac yn pwysleisio cyfranogiad y myfyriwr unigol. Rydym yn cyflwyno amrywiaeth o ddulliau addysgu, yn amrywio o ddarlithoedd mwy ffurfiol i ddosbarthiadau a grwpiau seminar gyda phwyslais cryf ar drafodaeth anffurfiol fywiog. Byddwch hefyd yn cael cyswllt personol â thiwtoriaid.

### Dulliau asesu

Yn ein barn ni, trwy amrywiaeth eang o fodelau asesu y gellir galluogi'r nifer fwyaf o'n myfyrwyr i ddisgleirio. Fel arfer, cynhelir asesiad drwy draethawd a/neu arholiad; caiff cyflwyniadau llafar eu hintegreiddio mewn nifer ddethol o fodiwlau.

Mae rhai modiwlau yn cynnig dulliau asesu 'beirniadol-greadigol' lle cewch eich gwahodd, er enghraifft, i gyfuno dehongliadau/ailddehongliadau creadigol a gwerthusol o destun clasurol. Cynhelir asesiad ar ddiwedd pob semester neu flwyddyn academaidd. Caiff nifer fach o fodiwlau eu hasesu yng nghanol y tymor hefyd.

Gyda'r rhan fwyaf o raglenni gradd, gallwch ddewis ymgymryd â thraethawd hir, gan ymchwilio i bwnc o'ch dewis yn fanwl.

### Cyfleoedd i ôl-raddedigion

Mae ein hamgylchedd i ôl-raddedigion yn fywiog, cefnogol a sefydledig.

Mae ein rhaglenni israddedig wedi'u llunio gan gadw dilyniant mewn cof, a byddant yn paratoi'r rhai sy'n ystyried astudiaethau pellach (naill ai ar lefel MA neu PhD) â'r sgiliau angenrheidiol i bontio i lefel ôl-raddedig.

### Astudiaethau rhan-amser

Rydym yn cynnig graddau rhan amser mewn Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg ac Athroniaeth. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion.

### Ymchwil

Mae ein gwaith ymchwil o'r ansawdd uchaf a chaiff yr effaith fwyaf. Yn asesiad diweddaraf y DU, rhoddwyd Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn y deg uchaf ar gyfer ymchwil, gyda 98% o'r gwaith ymchwil a gyflwynwyd yn cael ei ddosbarthu o safon ryngwladol, ac 87% yn cael ei ddosbarthu fel enghreifftiau rhyngwladol-ragorol neu waith a oedd yn arwain y byd. Cyrhaeddodd athroniaeth y pedwerydd safle o ran effaith ymchwil ar gymdeithas, a dosbarthwyd 100% o'r effaith honno fel enghreifftiau rhyngwladol-ragorol neu rai oedd yn arwain y byd.

Caiff ein hymchwil effaith mewn meysydd fel gofal iechyd, y gyfraith, cyfiawnder cymdeithasol ac addysg, o helpu'r rhai yn eu harddegau sydd ag AIDS/HIV i fynegi eu profiadau drwy gomics, hyd at newid y ffordd y mae'r heddlu'n cyfathrebu â'r rhai sydd yn y ddalfa, â dioddefwyr ac â'r cyhoedd a helpu i ddylanwadu ar y protocolau sy'n rheoli adeiladwaith cronfeydd data DNA.

# Daearyddiaeth a Chynllunio

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Daearyddiaeth a Chynllunio** ym Mhrifysgol Caerdydd?

**Yn y 10 uchaf**
yn y DU am Gynllunio Gwlad a Thref a Thirlunio.

Ffynhonnell: The Times/Sunday Times Good University Guide 2022

Roedd **96%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

**Cyflymu eich gyrfa**
– mae'r holl raglenni ar gael gyda blwyddyn ar leoliad proffesiynol.

**Un o'r 100 uchaf** yn y byd ar gyfer Daearyddiaeth.

Ffynhonnell: Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl Pwnc 2021

**Dysgu seiliedig ar leoliad** – mae gwaith maes a dysgu drwy brofiad yn elfennau allweddol o'n rhaglenni, gan gynnwys ymweliadau maes hanner diwrnod, diwrnod llawn a phreswyl.

Barnwyd bod **85%** o'r holl ymchwil a gyflwynwyd gennym yn '**rhyngwladol-ragorol**'neu'n '**arwain y byd**'.*



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Daearyddiaeth Ddynol (BSc)**
(Tair blynedd) L700
**- gyda Blwyddyn o Leoliad Gwaith Proffesiynol** (Pedair blynedd) L701

**Daearyddiaeth Ddynol a Chynllunio (BSc)**
(Tair blynedd) LK74
**- gyda Blwyddyn o Leoliad Gwaith Proffesiynol** (Pedair blynedd) LK75

**Cynllunio a Datblygu Trefol (BSc)**
(Tair blynedd) K490
**- gyda Blwyddyn o Leoliad Gwaith Proffesiynol** (Pedair blynedd) K446

## Gyrfaoedd

**Swyddi**

Mae cyfleoedd gyrfa cyffrous ac amrywiol yn gyffredin i raddedigion ein rhaglenni, ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Gall llwybrau gyrfa cynllunio gynnwys arolygu, dylunio a datblygu, neu feysydd fel trafnidiaeth, datblygu economaidd ac adfywio trefol – gydag awdurdodau cynllunio lleol, llywodraeth leol a chenedlaethol neu ymgynghoriaethau cynllunio preifat a datblygwyr.

Mae sgiliau daearyddwyr yn agor llawer o gyfleoedd mewn ystod o sectorau sydd â rolau gan gynnwys dadansoddwr economaidd, gweithiwr cymorth, swyddog elusennol, swyddog hawliau dynol, cynghorydd ffoaduriaid a lloches, trefnydd ymgyrchoedd amgylcheddol, gweithiwr cadwraeth, ymgynghorydd amgylcheddol, athro, ymchwilydd polisi cyhoeddus a threftadaeth a rheolwr safle.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch: Daearyddiaeth Ddynol:** AAB-ABB
**Daearyddiaeth Ddynol a Chynllunio:** ABB-BBB
**Cynllunio a Datblygu Trefol:** BBB-BBC

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Bydd Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn cael ei derbyn yn lle un Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod).

**Y Fagloriaeth Ryngwladol: Daearyddiaeth Ddynol:** 666-665 o 3 phwnc Lefel Uwch.
**Daearyddiaeth Ddynol a Chynllunio:** 665 o 3 phwnc Lefel Uwch.
**Cynllunio a Datblygu Trefol:** 665-655 o 3 phwnc Lefel Uwch.

**BTEC:** Pob Diploma Estynedig BTEC yn dderbyniol.
**Daearyddiaeth ddynol**: DDD-DDM
**Daearyddiaeth ddynol a chynllunio**: DDM
**Cynllunio a Datblygu Trefol**: DDM-DMM

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

Pob gradd
**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:**
- Gradd C neu radd 4 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg Iaith.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 180 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 650

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**
Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**
Ffôn: **(029) 2087 4022 +44 (0)29 2087 4022**
Ebost: **gandpenquiries@caerdydd.ac.uk**
**cardiffgeographyandplanning**
**@CUGeogPlan**

**Ydych chi'n angerddol** am y problemau cymdeithasol, amgylcheddol, gwleidyddol, datblygu, cynllunio ac economaidd sy'n ein hwynebu? Ymunwch â ni i helpu i drawsnewid pobl a lleoedd ledled y byd er gwell.

"Fel rhywun sy'n tueddu i feddwl ar raddfa macro a mwy cyfannol, cefais fy nhynnu at gynllunio trefol oherwydd mae wir angen dealltwriaeth o'r darlun ehangach. I mi, mae cynllunio trefol yn ymwneud â newid pethau er gwell. Rydym ni'n dibynnu ar leoedd cymunedol mewn ffyrdd nad ydyn ni'n sylweddoli. Beth rwy'n ei garu am fy ngradd yw ei natur amlddisgyblaethol. Gallwn fod yn astudio cymdeithaseg mewn un modiwl ac yna gynllunio trefol mewn un arall. Mae'n un gyffrous oherwydd mae'n gadael i mi fynd i bob math o gyfeiriadau ar ôl fy ngradd, yn ogystal ag annog ffordd o feddwl na fyddwn i'n dod ar ei thraws mewn llawer o raglenni gradd eraill. Mae'r Ysgol yn hynod gyfeillgar ac yn teimlo fel cymuned groesawgar, rydych chi wir yn teimlo bod y staff a'ch cydfyfyrwyr yno i chi ac yn barod i ymladd eich cornel a'ch helpu chi i gyflawni'ch potensial."

**Tamika**, Cynllunio a Datblygu Trefol (BSc)



## Rydym yn ceisio deall a helpu i ddatrys rhai o'r heriau mawr y mae cymdeithasau dynol, amgylcheddau a lleoedd ledled y byd yn eu hwynebu.

Mae ein gwaith ymchwil blaengar ym maes daearyddiaeth economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol a datblygiad, yn cael ei gydnabod am ei ansawdd, ei berthnasedd a'i effaith. Yr ymchwil hon a'n chwilfrydedd academaidd sy'n ategu ac yn cymell ein haddysgu. Bydd yr addysgu hwn yn eich galluogi chi i wneud defnydd o ddulliau meddwl yn feirniadol a gwybodaeth ymarferol wrth fynd i'r afael ag effeithiau newid economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

Byddwch yn dysgu gan ddarlithwyr ac ymchwilwyr sy'n gweithio ar flaen y gad yn y disgyblaethau daearyddiaeth a chynllunio.

Byddant yn eich herio i feddwl mewn ffordd wahanol, annibynnol a chreadigol am y byd rydym yn byw ynddo, a byddwch yn graddio yn barod ac wedi'ch arfogi i fynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf i chi.

## Ein dull gweithredu

Ni yw un o'r ysgolion blaenllaw yn y DU ar gyfer addysgu ac ymchwil ym maes daearyddiaeth ddynol a chynllunio gofodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a datblygu'r mannau sy'n ein meithrin, gwella'r cymunedau sy'n ein llywio, datblygu'r sefydliadau sy'n ein rhwymo, a dylanwadu'n gadarnhaol ar y bobl sy'n ein harwain.

## Cysylltiadau

Mae gennym berthnasoedd sydd wedi hen ennill eu plwyf â chyrff proffesiynol a phartneriaid mewn diwydiant. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau ein bod yn rhan o'r sgyrsiau sy'n dod i'r amlwg ynghylch problemau sy'n ymwneud â daearyddiaeth a chynllunio.

Mae ein rhaglenni israddedig wedi'u hachredu gan gymdeithasau hyddysg neu gymdeithasau proffesiynol arweiniol y Deyrnas Unedig ym maes daearyddiaeth, cynllunio a thirfesur. Mae ein rhaglenni wedi eu hachredu'n llawn neu'n rhannol gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (RGS), y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Trwy gydnabod pwysigrwydd lleisiau yn y diwydiant a phrofiad ymarferwyr, rydym yn cynnal digwyddiadau yn rheolaidd gyda siaradwyr allanol i roi cipolwg i chi ar y cysylltiadau rhwng syniadau academaidd, polisi ac ymarfer. Dyma ffordd wych i ddatblygu eich gwybodaeth arbenigol a'ch gwybodaeth am y diwydiant, yn ogystal â meithrin eich perthnasoedd proffesiynol.



**Adeilad Morgannwg, cartref yr Ysgol**

## Canolbwyntio ar eich dyfodol

Mae ein holl raglenni bellach ar gael gyda blwyddyn ar leoliad proffesiynol. Byddech yn cwblhau lleoliad cyflogedig yn eich trydedd flwyddyn cyn dychwelyd atom ar gyfer eich pedwaredd flwyddyn astudio, sef eich blwyddyn olaf.

Mae blwyddyn mewn diwydiant yn eich galluogi i feithrin eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth broffesiynol cyn i chi raddio. Byddwch yn gallu cymhwyso'ch dysgu i weithle cyfoes mewn modd ymarferol, gan gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac ymarferion a fydd yn magu eich hyder a'ch gallu.

Mae cyflogwyr lleoliadau yn y gorffennol wedi cynnwys cyflogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn ogystal ag yn y trydydd sector, er enghraifft ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau ymgyrchu.

Royal Geographical Society with IBG Accredited Programme

RICS® Accredited Course

RTPI Accredited Planning Programme

### Astudio yn y maes

Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu pobl a chymunedau. Ymhlith y rhain mae'r argyfwng hinsawdd, ac rydym yn ymwybodol o effaith ein hôl troed teithio a'n dulliau teithio. Wrth symud ymlaen, bydd ein hymweliadau astudio maes yn canolbwyntio ar leoliadau'r DU a chyrchfannau posibl yn Ewrop. Byddant yn adlewyrchu'r ymchwil ragorol a wnaed gan ein staff a'n hangerdd dros astudio maes a lleoliad. Bydd mathau eraill o ddysgu drwy brofiad a dadansoddi maes yn canolbwyntio ar bynciau a chymunedau ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.



**Mae cynllunio yn weithgaredd cyffrous sy'n effeithio ar ein bywydau bob dydd.**

## BSc Daearyddiaeth Ddynol

Ewch i'r afael â'r heriau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol cyfoes a byd-eang sy'n effeithio ar sut a lle rydym yn byw. Astudiaeth o'n byd a'n perthynas â systemau, polisïau, diwylliannau ac ymddygiadau cymdeithasol yw daearyddiaeth ddynol. Mae'n ymwneud â lle rydym yn byw, sut rydym yn byw, a sut rydym am fyw.

Mae ein byd yn ddyrys, a'n bywydau'n gymhleth. Mae materion cymdeithasol a gwleidyddol amlddimensiwn – yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang – yn ffrydio ar draws ein sgriniau teledu a'r cyfryngau cymdeithasol. Os caiff y rhain eu camddeall neu eu cam-gynrychioli, mae ganddynt y pŵer i lygru sgwrs gyhoeddus, creu rhaniadau a thanseilio cydlyniad cymdeithasol.

Mae ein rhaglen yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth gritigol i chi o'r cysylltiadau cymhleth rhwng y byd naturiol a'r byd dynol, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r modd y mae lleoedd sydd y tu hwnt i'ch profiad dyddiol yn cael eu creu. Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio eich gwybodaeth i lywio barn a chamau gweithredu penderfynwyr etholedig, y sector gwirfoddol a diwydiant er mwyn gwella cymdeithas.

Gyda'n gilydd, byddwn yn archwilio syniadau ac ymarfer daearyddol ar amryw raddfeydd gofodol, gan wneud cysylltiadau rhwng y lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang. Er y bydd y rhaglen yn pwysleisio elfennau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, economaidd a datblygiadol daearyddiaeth, bydd hefyd yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau arbenigol a fydd yn eich galluogi i ddilyn eich diddordebau eich hunain.

Daearyddiaeth ddynol sy'n cael ein prif sylw, ond rydym hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar y ffordd y mae bodau dynol yn rhyngweithio â'r amgylchedd ffisegol.

Wedi'i hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (RGS), mae'r rhaglen hon yn caniatáu i chi gymhwyso'ch gwybodaeth ddaearyddol yn ymarferol trwy gynnig modiwl lleoliad gwaith yn yr ail flwyddyn.

Mae blas o fodiwlau a themâu astudio ar gael ar ein gwefan:
**cardiff.ac.uk/geography-planning**

"Cynigiodd yr Ysgol ddetholiad deinamig ac amrywiol o fodiwlau a oedd yn fy ngalluogi i deilwra fy astudiaethau i fy niddordebau, sef cynaliadwyedd a'r amgylchedd. Heriodd nifer o fodiwlau fy ffordd o feddwl a rhoi cipolwg newydd ar y materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gymunedau heddiw."

**Chloe**, BSc Daearyddiaeth (Dynol) 2018

## BSc Daearyddiaeth Ddynol a Chynllunio

Archwiliwch natur newidiol gofod a lle, a helpu i ddatrys y prif broblemau cymdeithasol a datblygiadol sy'n effeithio ar gymunedau yn y DU a ledled y byd.

Mae ein rhaglen yn cyfuno'r dulliau o ddatrys problemau wrth gynllunio â mewnwelediadau amserol daearyddiaeth, gan roi i chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder y mae arnoch eu hangen i fynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar sut a lle rydym yn byw.

Mae'n meithrin dealltwriaeth o'r prif dueddiadau daearyddol yn y byd heddiw, ynghyd â'r sgiliau dadansoddi i astudio newid gofodol. Byddwch yn edrych ar y newid yn natur gofodau a lleoedd, y berthynas rhwng cymdeithas a gofod, a rôl y wladwriaeth.

Gan roi materion lleol a chenedlaethol mewn cyd-destun byd-eang, byddwn yn ymdrin â thestunau o newid amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn y DU, i ddatblygiad rhanbarthol a rhyngwladol.

Byddwch yn magu dealltwriaeth o brosesau newid byd-eang, cenedlaethol a lleol; tueddiadau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd allweddol, a'r rôl y mae cynllunio'n ei chwarae wrth bennu effeithiau'r newid a'r tueddiadau ar leoedd gwahanol. Bydd gwaith astudiaeth achos manwl, trwy ymweliadau astudiaethau maes, diwrnodau i ffwrdd o'r swyddfa a phrosiectau, yn rhoi gwerthfawrogiad i chi o newid gofodol trawsgenedlaethol.

Gallwch ddewis astudio fersiwn wedi'i hachredu neu fersiwn heb ei hachredu o'r rhaglen hon.

Mae'r opsiwn achrededig yn cynnwys achrediad rhannol (gofodol) y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), a bydd angen i chi ddilyn dewis penodol o fodiwlau. I gael achrediad RTPI llawn, ar ôl i chi gwblhau eich gradd israddedig, mae angen i chi gwblhau gradd Meistr achrededig RTPI.

Mae blas o fodiwlau a themâu astudio ar gael ar ein gwefan:
**cardiff.ac.uk/geography-planning**

"Roeddwn wrth fy modd yn astudio daearyddiaeth Safon Uwch, ac roeddwn yn gwybod fy mod am barhau i'w hastudio yn y brifysgol, ond roedd gennyf hefyd ddiddordeb mewn cynllunio, yn enwedig y cyfle y mae'n ei gynnig i archwilio a chymhwyso dysgu i astudiaethau achos gwahanol. Rwyf hefyd yn unigolyn eithaf artistig, ac mae cynllunio wedi fy ngalluogi i fod yn fwy creadigol trwy fodiwlau megis dylunio trefol."

**Sophie,** BSc Daearyddiaeth Ddynol a Chynllunio (2019)

## BSc Cynllunio a Datblygu Trefol

Beth all fod yn fwy cyffrous na'r her a'r cyfrifoldeb o lunio'r lleoedd rydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt?

Mae ein rhaglen yn canolbwyntio ar yr heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ran creu lleoedd gwell i fyw ynddynt, a bydd yn rhoi'r wybodaeth, yr offer a'r hyder i chi drawsnewid polisi ac ymarfer er mwyn goresgyn yr heriau hynny.

Mae gwaith cynllunio yn effeithio ar ein realiti bob dydd mewn sawl ffordd, gan ddylanwadu ar y cartrefi rydym yn byw ynddynt ac ansawdd ac argaeledd cyfleoedd a all hybu ein hiechyd, ein cyfoeth a'n llesiant ar y cyd. Gall effeithio ar ein mannau cyhoeddus a chymunedol a'n mannau proffesiynol a hamdden, yn ogystal â sut rydym yn teithio ac yn symud rhyngddynt. Byddwch yn archwilio sut a pham y mae lleoedd, megis dinasoedd, trefi a chefn gwlad, yn newid, a sut y gellir eu gwella trwy ymarfer cynllunio ac ymchwil.

Mae'r rhaglen hon yn datgelu ystod eang o gyfleoedd cyffrous o ran gyrfaoedd ym maes cynllunio, datblygu a thirfesur. Mae gan ein graddedigion hanes rhagorol o sicrhau cyflogaeth yn y sectorau hyn, yn ogystal ag ym meysydd trafnidiaeth, datblygu economaidd, polisi amgylcheddol, tai, ac adfywio trefi. Gyda modiwlau sy'n cynnwys arweinwyr ac arbenigwyr o'r byd ymarfer, cewch gyfle hefyd i ddeall sut mae'r hyn rydych yn ei ddysgu'n berthnasol i ymarfer cynllunio, ac i ystyried y ffyrdd y gallwch ddatblygu eich cyflogadwyedd a'ch proffil proffesiynol.

Mae gan y radd hon achrediad RTPI rhannol (gofodol). I gael achrediad llawn gan y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI), ar ôl i chi gwblhau eich gradd israddedig, mae angen i chi gwblhau gradd Meistr achrededig RTPI. Mae'r rhaglen hon hefyd yn cynnwys achrediad Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Mae blas o fodiwlau a themâu astudio ar gael ar ein gwefan:
**cardiff.ac.uk/geography-planning**

"Efallai mai cryfder mwyaf y cwrs yw'r amrywiaeth o fodiwlau a gynigir, a oedd yn tynnu ar fy holl ddiddordebau pwnc ac yn fy ngalluogi i brofi'r nifer o wahanol feysydd sy'n rhan o'r proffesiwn cynllunio dinesig. Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig, cefais brofiad o fodiwlau cynllunio yn ymwneud ag economeg, hanes, cymdeithaseg a dylunio trefol."

**Cole**, BSc Cynllunio a Datblygu Trefol gyda Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol (2020)

# Y Gwyddorau Gofal Iechyd

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis y **Gwyddorau Gofal Iechyd** yng Nghaerdydd?

Mae pob un o'n pynciau yn y **safle 1af** yng Nghymru ac yn y **3 uchaf** yn y DU.

Ffynhonnell: The Complete University Guide 2021 / The Times Good University Guide 2020 / Tablau Cynghrair y Guardian 2020

Rydym yn **Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd**. Ein hysgol yw'r unig Ganolfan Gydweithredol ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn y rhanbarth Ewropeaidd.

Mae gennym rwydwaith cydweithio byd-eang cryf sy'n golygu bod ein myfyrwyr yn gallu mwynhau'r cyfle i brofi **gwaith clinigol dramor**.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfleoedd am ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg ar y rhaglen Nyrsio Oedolion a'r rhaglen Ffisiotherapi. I gael gwybod rhagor: **www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Cyfle i gael **bwrsariaeth** a **ffioedd dysgu llawn** wedi'u talu gan Lywodraeth Cymru.+

+Yn amodol ar ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl cymhwyso.
Ewch i: **www.cardiff.ac.uk/adviceandmoney** i gael rhagor o wybodaeth

Barnwyd bod **100%** o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym o **'safon ryngwladol'**, a bod 94% ohoni'n **'rhyngwladol-ragorol'** neu'n 'arwain y byd'.*



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

**Bydwreigiaeth (BMid) (Anrh)**
(Bydwreigiaeth)
(I ddechrau ym mis Medi) B720

**Nyrsio Oedolion (BN) (Anrh)**
(I ddechrau ym mis Hydref) B742
(I ddechrau yn y gwanwyn) B743

**Nyrsio Plant (BN) (Anrh)**
(I ddechrau yn yr hydref) B732

**Nyrsio Iechyd Meddwl (BN) (Anrh)**
(I ddechrau yn yr hydref) B762
(I ddechrau yn y gwanwyn) B763

**Therapi Galwedigaethol (BSc) (Anrh)**
(Tair blynedd, amser llawn) B921

**Ffisiotherapi (BSc) (Anrh)**
(Tair blynedd, amser llawn) B162

**Radiograffeg a Delweddu Diagnostig (BSc) (Anrh)**
(Tair blynedd, amser llawn) B823

**Radiotherapi ac Oncoleg (BSc) (Anrh)**
(Tair blynedd, amser llawn) B824

**Achrediad**
Mae'r corff proffesiynol priodol yn achredu pob un o'n rhaglenni gradd.

Sylwer bod pob pwnc a restrir yn amodol ar ddilysiad terfynol.

## Gwybodaeth am Geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 600

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 5,000

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

I weld manylion y gofynion mynediad a'r cynigion nodweddiadol diweddaraf, ewch i'n gwefan:

**Safon Uwch: Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu:** BBB. Mae Gradd B mewn pwnc Gwyddoniaeth Safon Uwch yn ofynnol.

**Bydwreigiaeth:** ABB (dim pynciau penodol).

**Nyrsio:** BBB (dim pynciau penodol).

**Therapi Galwedigaethol:** ABB (dim pynciau penodol).

**Ffisiotherapi:** AAB. Rhaid cael o leiaf gradd B mewn Bioleg neu Fioleg Ddynol.

**Radiotherapi ac Oncoleg:** BBB. Mae Gradd B mewn pwnc gwyddoniaeth Safon Uwch yn ofynnol.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Mynediad:** Rhaid i'r myfyrwyr gynnig cwrs lefel diploma sy'n seiliedig ar gredydau nyrsio neu iechyd ac wedi'i ddilysu gan Rwydwaith y Coleg Agored.

**Bydwreigiaeth:** Llwyddo mewn 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, gan gynnwys 30 rhagoriaeth a 15 teilyngdod.

**Nyrsio:** Llwyddo mewn 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, gan gynnwys 27 rhagoriaeth a 18 teilyngdod.

**Therapi Galwedigaethol:** Llwyddo mewn 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, gan gynnwys 30 rhagoriaeth a 15 teilyngdod.

**Ffisiotherapi**: Llwyddo mewn 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, i gynnwys 36 credyd gyda Rhagoriaeth (gydag o leiaf 18 mewn bioleg) a 9 credyd gyda Theilyngdod. Mae hyn yn ychwanegol at y gofynion mynediad TGAU.

**Radiotherapi ac Oncoleg**: Llwyddo mewn 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, gan gynnwys 27 rhagoriaeth a 18 teilyngdod. Byddwn yn ystyried diploma mynediad mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol neu'r Gwyddorau Biofeddygol (neu sylfaen academaidd gref) ar sail unigol.

**Radiograffeg Ddiagnostig**: Llwyddo yn y 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, i gynnwys 27 rhagoriaeth a 18 teilyngdod yn ddelfrydol mewn rhaglen sy'n seiliedig ar Wyddoniaeth, NEU byddwn yn ystyried Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond dim ond os oes gan fyfyrwyr y Gwyddorau ar radd C/4 neu uwch.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 24-35 o bwyntiau. Cewch fanylion ar ein gwefan.

**BTEC: Nyrsio:** DDM. Gellir ystyried pob pwnc perthnasol.

**Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu:** DDM mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol neu Wyddoniaeth Feddygol. Gellir ystyried cymwysterau BTEC eraill.

**Therapi Galwedigaethol:** DDM mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gellir ystyried cymwysterau BTEC eraill.

**Ffisiotherapi**: DDD mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol neu Wyddoniaeth Feddygol.

**Bydwreigiaeth**: DDD Diploma Estynedig BTEC. Gellir ystyried cymwysterau BTEC eraill.

**Radiotherapi ac Oncoleg**: DDM mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol neu Wyddoniaeth Feddygol. Gellir ystyried cymwysterau BTEC eraill.

**Eraill:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen. Gellir hefyd ystyried rhai cymwysterau seiliedig ar waith Gofal Iechyd Lefel 3 a 4. Cysylltwch â'r tiwtoriaid derbyn a restrir isod am fanylion.

**Yn ogystal - pob gradd**

**TGAU neu gyfwerth:**

**Nyrsio, bydwreigiaeth, therapi galwedigaethol:** 5 TGAU, gradd A*-C/graddau 9-4, gan gynnwys Saesneg/Mathemateg a Phwnc Gwyddonol.

**Ffisiotherapi:** 7 TGAU, gradd A*-C/graddau 9-4, gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

**Radiotherapi ac Oncoleg, Radiograffeg Ddiagnostig:** 5 TGAU, gradd A*-C/graddau 9-4, gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Ynghyd â dau bwnc gwyddoniaeth arall neu wyddoniaeth dyfarniad dwbl.

Cewch ragor o wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

**Noder: Ni chewch ohirio'ch mynediad i'r rhaglen Bydwreigiaeth a Nyrsio Plant.**

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtoriaid derbyn myfyrwyr: Cyfarwyddwr Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr: **Jill Morgan**

Nyrsio Oedolion: **Sandra Fender**

Nyrsio Plant: **Peter McNee**

Radiograffeg Ddiagnostig: **Gareth Thomas**

Nyrsio Iechyd Meddwl: **Alex Nute, Stephen Scott**

Bydwreigiaeth: **Janet Israel**

Therapi Galwedigaethol: **Heather Hurst, Steve Whitcombe**

Ffisiotherapi: **Stephen Dando**

Radiotherapi ac Oncoleg: **Erica Chivers**

Ffôn: **(029) 2087 7538**
Ffôn: **+44 (0)29 2087 7538**
Ebost: **HCareAdmissions@caerdydd.ac.uk**

**@CUHealthSci**

## Ydych chi am ddewis cwrs sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn? Byddwch yn rhan o rywbeth arbennig ac ymuno â'n Hysgol, sy'n cynnig ystod o raddau gofal iechyd cymwys.

Mae cael un o'n hadeiladau yn Ysbyty Athrofaol Cymru, y trydydd Ysbyty Athrofaol mwyaf yn y DU, yn golygu bod ein Hysgol yn elwa ar naws gymunedol gref sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd.

Fe'ch dysgir gan ddarlithwyr sydd â phrofiad bywyd go iawn yn eu proffesiwn, a byddwch yn dysgu ochr yn ochr â myfyrwyr o raglenni gofal iechyd eraill, sy'n darparu amgylchedd amlddisgyblaethol unigryw i astudio ynddo.

Byddwch yn rhan o rywbeth arbennig, a dechreuwch yrfa y byddwch chi'n teimlo'n falch ohoni heddiw.

## Ar ôl cofrestru

Rydym yn cynnig sawl modiwl a chwrs ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n dymuno parhau â'u haddysg at Lefel 6.

Cewch ragor o wybodaeth am fodiwlau ôl-gofrestru ar y wefan.

### BMid Bydwreigiaeth

Mae ein rhaglen bydwreigiaeth ar y brig yn y DU (*fel sefydliad sy'n cynnig Bydwreigiaeth o dan y categori Nyrsio) yn The Complete University Guide 2021, sy'n golygu y byddwch yn ymuno â rhaglen gydnabyddedig a chefnogol. Byddwch yn ymuno â'r unig brifysgol sydd wedi'i dynodi gan Sefydliad Iechyd y Byd yn Ganolfan Gydweithredol ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth ar gyfer rhanbarth Ewrop, felly byddwch yn cael eich addysgu gan ddarlithwyr gwybodus a chefnogol sy'n dylanwadu ar ofal iechyd ac addysg ledled Cymru a thu hwnt drwy eu hymgysylltiad a'u gwaith ymchwil.

Fel bydwraig, chi yw'r prif weithiwr proffesiynol sy'n gofalu ac yn cefnogi menywod sy'n magu plant, babanod newydd-anedig, a theuluoedd trwy gydol beichiogrwydd, genedigaeth, gofal ôl-enedigol, ac wythnosau cynnar mewn bywyd. Chi sy'n gyfrifol am ofal sy'n fedrus, yn wybodus ac yn dosturiol, waeth beth yw'r cyd-destun cymdeithasol. Gofal sy'n cyfuno cymhwysedd rhyngbersonol a diwylliannol, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau yn y dyfodol.

> "Mae'r cyfle i weithio mewn dau Fwrdd Iechyd Prifysgol yn cyfoethogi eich addysg ac mae'r goruchwylwyr ymarfer pwrpasol yn eich helpu i ddatblygu'n ymarferydd hyderus a medrus."
>
> **Lily**, Bydwreigiaeth

Byddwch yn: creu amgylchedd sy'n ddiogel, yn barchus, yn garedig, yn meithrin ac yn grymuso; yn optimeiddio prosesau biolegol, seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol arferol; gweithio mewn partneriaeth â menywod gan barchu amgylchiadau a safbwyntiau unigol; ymgynghori a chyfeirio â gwasanaethau eraill pan fo angen. Mae angen i chi allu meddwl yn feirniadol, datrys problemau, bod yn fodel rôl cadarnhaol a datblygu galluoedd arweinyddiaeth i sicrhau bod bydwragedd yn parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol at iechyd tymor byr a hirdymor y rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Bydd eich dysgu academaidd yn cael ei wella drwy efelychu. Mae ein cyfleusterau realistig yn cynnwys modelau realistig a fydd, ynghyd â theatr efelychol, yn eich cyflwyno i sefyllfaoedd realistig i ymarfer sgiliau hanfodol a'u datblygu, gan ddatblygu eich hyder a'ch arbenigedd.

Mae dysgu ar leoliad, sef 50% o'r rhaglen, yn cael ei wneud ar draws dau Fwrdd Iechyd Prifysgol: Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro. Mae ein perthynas waith agos yn gwneud y gorau o ddysgu ar leoliad mewn ystod o amgylcheddau (ysbyty a chymuned) wrth gael ei goruchwylio gan Oruchwylwyr Ymarfer ac Aseswr ymroddedig, gan wella eich profiad o ofalu am bob menyw.

Dilysir y radd hon gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), a byddwch yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor yn fydwraig gymwysedig os byddwch yn ei chwblhau'n llwyddiannus. Bydd yn cydymffurfio â Safonau Bydwraig y Dyfodol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2019).

### Baglor mewn Nyrsio (Anrh)

Ymunwch ag un o'n rhaglenni Nyrsio, sydd yn y safle 1af yng Nghymru a Lloegr ac yn 3ydd yn y DU yn ôl The Complete University Guide 2021, ac sydd wedi'u dilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

Ar gyfer Nyrsio Oedolion a Nyrsio Iechyd Meddwl rydym yn cynnig dau ddyddiad cychwyn gwahanol i chi; i ddechrau yn yr hydref ac yn y gwanwyn. Bydd derbyniad yr Hydref (mis Medi) yn ffitio o fewn y cylch academaidd arferol sy'n golygu ei fod yn berffaith os ydych am brofi Wythnos y Glas, darlithoedd mwy a grwpiau astudio a chymryd rhan yn yr holl oriau brig yn y calendr cymdeithasol. Fel arfer, mae'r nifer sy'n dechrau yn y gwanwyn (mis Chwefror) 50% yn llai ac mae adborth gan ein myfyrwyr blaenorol yn dweud wrthym fod hyn yn gweddu i'r rhai ohonoch y mae'n well gennych astudio mewn niferoedd llai. Hefyd, mae'n opsiwn da i'r rhai sydd am gymryd seibiant byr o astudiaethau cyn ymrwymo i radd broffesiynol ac mae'r gystadleuaeth am swyddi a lleoliadau arbenigol yn llai ar gyfer y gwanwyn ledled De Cymru. Mae'r ddau ddyddiad dechrau yn dilyn yr un rhaglen ac yn ategu ei gilydd o ran amser ar leoliad ac astudio damcaniaethol ac mae'r ddau yn cynnig cyflogadwyedd tebyg, sydd, ar gyfer nyrsio, yn rhagorol. Siaradwch â'r tiwtoriaid derbyn myfyrwyr i gael gwybod rhagor.

> "Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig lleoliadau clinigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru – ysbyty sefydledig a fydd yn rhoi profiad gwerthfawr i mi ac yn agor y drysau i mi yn y dyfodol."
>
> **Kayleigh**, Nyrsio Oedolion

## Gyrfaoedd

**Swyddi**

Uwch-ymarferydd nyrsio, ymwelydd iechyd, darlithydd, bydwraig, nyrs, ymarferydd gofal llawdriniaethol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, radiograffydd, nyrs ymchwil a rheolwr ward.

**Cyflogwyr**

Amrywiaeth o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, Gwasanaethau Iechyd Cymunedol, adrannau gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd rhyngwladol, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau fel Age Concern a thîm rygbi Gleision Caerdydd.

**Gyda chyfleusterau neilltuol o ran llyfrgell, TG ac efelychu clinigol,** byddwch hefyd yn cael cyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â'r rhai mewn proffesiynau gofal iechyd eraill a fydd yn gydweithwyr yn y man, a gyda chanolfannau rhanbarthol a chenedlaethol pwysig o ragoriaeth glinigol wrth law.

## BN Nyrsio Oedolion

Mae nyrsio oedolion yn radd broffesiynol, tair blynedd sy'n arwain at yrfa gyffrous, heriol a gwerth chweil fel nyrs oedolion gofrestredig, gan weithio gydag oedolion o bob oed (dros 16 oed). Mae ein rhaglen yn darparu sgiliau a gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i chi i'ch cefnogi i feithrin perthnasoedd ymddiriedus a thosturiol, gydag unigolion yn eich gofal a'u teuluoedd.

Bydd darlithwyr cefnogol yn cyfarwyddo eich dysgu, a byddwch yn ymarfer yn ein hystafell efelychu dysgu llawn cyfarpar. Mae efelychu wardiau ysbyty, cymunedau, cartrefi ac argyfyngau mewn ffordd realistig yn golygu y gallwch ymarfer ystod o sgiliau hanfodol yn ddiogel, gan ddatblygu hyder a gwneud penderfyniadau clinigol. Bydd hyn yn gwella eich arbenigedd clinigol a thechnolegol, yn ogystal ag arweinyddiaeth a gwaith tîm, y gallwch eu rhoi ar waith yn ystod lleoliadau clinigol.

Byddwch yn treulio tua 50% o'ch amser ar leoliad clinigol mewn ysbyty a allai gynnwys unedau a thimau rhanbarthol arbenigol, ac yn y gymuned mae'n cynnwys timau nyrsio cymunedol ac adsefydlu, yn ogystal â lleoliadau cartrefi nyrsio. Yn ystod blwyddyn 2, mae cyfle i chi ymgymryd â dysgu ar leoliad mewn amgylchedd gwahanol, naill ai yn y DU neu dramor, gyda'r nod o feithrin dealltwriaeth o gyd-destun byd-eang gofal iechyd.

Trwy gwblhau'r radd hon, byddwch yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel nyrs oedolion. Wedi i chi gymhwyso, cewch weithio mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd yn y DU a thramor. Rydym yn derbyn myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn, gan dderbyn llawer yn yr hydref a llai yn y gwanwyn.

## BN Nyrsio Plant

Mae ein rhaglen yn rhoi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i chi ddod yn nyrs plant gofrestredig ar ôl tair blynedd. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i chi wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant; gwerth nad oes llawer o weithwyr proffesiynol eraill yn gallu ei gynnig.

Mae nyrsys plant yn rhoi cymorth a gofal i blant, i bobl ifanc a'u teuluoedd.



Cewch y cyfle i ddysgu mewn amrywiaeth o leoliadau

> "Rwyf wedi dwlu ar yr amrywiaeth o gyfleoedd o ran lleoliadau, yn arbennig gyda POLO. Mae fy nghyfleoedd am swyddi'n edrych mor eang nawr!"
>
> **Billie**, Nyrsio Plant

Gall y rôl gynnwys popeth o nyrsio babi sâl newydd-anedig i ofalu am berson ifanc sy'n dioddef ar ôl bod mewn damwain ffordd. Mae angen bod nyrs plant yn dehongli ymddygiad ac ymatebion plant, a bod yn gallu sylwi pan fo iechyd plentyn yn gwaethygu, sydd yn aml yn gallu digwydd yn gyflym iawn. Mae gan blant anghenion iechyd penodol iawn, ac mae nyrsys plant yn defnyddio dull o roi gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu ac sy'n annog ac yn helpu plant, pobl ifanc a'u gofalwyr i fod â rhan mewn penderfyniadau gofal.

Mae pob un o'n darlithwyr yn nyrsys plant cofrestredig sy'n addysgu mewn ffordd gefnogol a diddorol drwy gynnwys eu profiadau a'u gofal seiliedig ar dystiolaeth eu hunain. Mae gennym labordai sgiliau â chyfarpar llawn yn ein hystafell efelychu clinigol, sy'n eich galluogi i ddysgu mewn efelychiadau realistig o achosion brys, ward plant, cymuned, a chartref. Mae'r efelychiadau hynod realistig yn golygu y gallwch ymarfer a datblygu sgiliau hanfodol yn ddiogel, yn ogystal â magu eich hyder a'ch arbenigedd cyn mynd ar leoliad clinigol.

Byddwch yn treulio oddeutu hanner eich amser ar leoliad. Rydym yn cynnig profiad amrywiol a fydd yn eich galluogi i integreiddio damcaniaeth academaidd ag ymarfer, a chael cipolwg ar y cyfleoedd gwaith eang fydd ar gael i chi ar ôl cymhwyso. Yn ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen, byddwch hefyd yn cael y cyfle i weithio mewn meysydd arbenigol megis unedau newyddenedigol; uned gofal dwys pediatrig, uned damweiniau ac achosion brys plant; unedau oncoleg plant a phobl ifanc a hosbis plant.

Yn rhan o'ch lleoliadau, cewch eich lleoli yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa sydd wedi'i leoli yn ein safle ym Mharc y Mynydd Bychan. Trwy gwblhau'r radd hon, byddwch yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel nyrs plant.

## BN Nyrsio Iechyd Meddwl

Mae ein cwrs nyrsio iechyd meddwl gwerthfawr a heriol, sydd wedi'i ddilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn eich paratoi chi at yrfa ysgogol a gwerth chweil.

Mae nyrsys iechyd meddwl yn cynnig cymorth a chefnogaeth i bobl o bob oedran, eu teuluoedd a'u gofalwyr i gefnogi adferiad yn dilyn amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl. Mae'r rôl yn amrywiol; gallwch helpu un unigolyn i ddechrau deall ei brofiad o'r anhwylder, wrth ymgysylltu â rhywun arall am y therapïau perthnasol eraill a allai ei helpu i wella. Gall nyrsys gynnig gofal iechyd meddwl mewn amrywiaeth o gyd-destunau, megis ysbytai arbenigol, lleoliadau cymunedol ac yng nghartrefi pobl eu hunain. Er mai prif rôl nyrsys iechyd meddwl yw ffurfio perthnasoedd therapiwtig ystyrlon, mae'n hanfodol eu

> Mae'r cwrs yn amrywiol iawn. Rydym ni'n mynd i leoliadau ac rydym ni'n dod i adnabod yr holl wahanol feysydd, sydd yn golygu y gallwn gymhwyso'r theori rydym yn ei dysgu yn y dosbarth ar unwaith i ymarfer. Ymhen ychydig fisoedd, rydym yn gwybod beth rydym yn mynd i'w ymarfer ac yn gallu gweld sut olwg sydd ar hynny yn y byd go iawn. Mae lleoliadau'n bwysig gan eu bod yn rhoi'r hyder i chi wybod beth sy'n mynd i ddigwydd pan fyddwch yn gweithio fel nyrs gymwysedig.
>
> **Sylvia**, Nyrsio Iechyd Meddwl



> "Byddwn i'n argymell astudio Nyrsio Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd. Rwy'n gobeithio gweithio mewn meysydd fel cyfleusterau iechyd meddwl acíwt i gleifion mewnol, adsefydlu a'r gymuned."
>
> **Rebecca**,
> Nyrsio Iechyd Meddwl

bod yn gallu cynnig gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar wella, a dyma'r egwyddorion a'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu drwy ein rhaglen.

O'r cychwyn cyntaf, byddwch yn arbenigo mewn nyrsio iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae natur integredig yr addysgu yn golygu y byddwch yn rhannu syniadau ac yn dysgu gyda'r rhai sy'n astudio nyrsio plant a nyrsio oedolion.

Mae ein darlithwyr iechyd meddwl cefnogol yn cynnig cyfleoedd dysgu amrywiol a diddorol, a fydd yn cynnwys ymarfer efelychiadol yn ein bythau cyfathrebu a ddyluniwyd yn bwrpasol. Mae hyn yn eich galluogi chi i gyffwrdd â meysydd emosiynol sy'n adlewyrchu ymarfer nyrsio iechyd meddwl yn y byd go iawn mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Byddwch yn treulio oddeutu hanner eich amser ar leoliad. Mae ein lleoliadau yn cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned ac mewn ysbytai. Byddwch yn profi amrywiaeth eang o gyd-destunau clinigol a allai gynnwys ymyrryd mewn argyfwng, unedau gofal dwys seiciatrig, gwasanaethau dibyniaethau ac iechyd meddwl fforensig.

Trwy gwblhau'r radd hon, cewch gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel nyrs iechyd meddwl. Bydd yn sicrhau eich bod yn addas i ymarfer ar yr adeg cofrestru, a'ch bod wedi eich paratoi i ddatblygu eich gyrfa.

## BSc Therapi Galwedigaethol

Yn gydradd 1af yn y DU yn ôl The Complete University Guide 2021, nod ein rhaglen Therapi Galwedigaethol yw eich cymhwyso fel therapydd galwedigaethol.

A chithau'n therapydd galwedigaethol cymwys, byddwch yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl sy'n wynebu heriau a rhwystrau sy'n eu hatal nhw rhag ymgymryd â'r gweithgareddau (neu'r swyddi) sydd o bwys iddynt. Gall hyn fod oherwydd bod ganddynt salwch, anabledd neu oherwydd eu bod wedi wynebu trawma neu amgylchiadau cymdeithasol gwael. Gallwch fod yn helpu rhywun i addasu i fywyd ar ôl llawdriniaeth fawr un diwrnod, a helpu rhywun sy'n dioddef o salwch meddwl i ymgyfarwyddo â gweithgareddau beunyddiol megis gweithio unwaith eto y diwrnod nesaf.

Mae Ffederasiwn Therapyddion Galwedigaethol y Byd (WFOT) wedi cymeradwyo ein rhaglen, ac mae hyn yn golygu y bydd eich cymhwyster yn cael ei gydnabod mewn oddeutu 60 o wledydd ledled y byd, a fydd yn gwella eich cyfleoedd ar gyfer gweithio'n rhyngwladol. Mae ein rhaglen ysgogol gyda phwyslais ar ddysgu cyfunol yn rhoi'r cyfle i chi ymgymryd ag astudiaeth academaidd ac addysg ar leoliad oherwydd bod gennym dros 50 mlynedd o brofiad mewn darparu addysg therapi galwedigaethol.

Cewch gefnogaeth academaidd gynhwysfawr gan diwtor personol profiadol a chewch eich addysgu a'ch cefnogi gan staff profiadol wrth rannu syniadau.

Cewch ddysgu yn ein fflat efelychol a'n clinig therapi galwedigaethol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi ymarfer damcaniaethau yn ogystal ag arsylwi ar y broses o asesu a thrin cleientiaid go iawn sydd ag anableddau datblygiadol, a chynorthwyo gyda hyn.

Byddwch yn treulio swm pwysig o'ch amser dysgu ar leoliad yng Nghymru, a chewch eich cefnogi gan addysgwyr profiadol ym maes therapi galwedigaethol. Bydd profiad amrywiol ar leoliad yn eich galluogi i integreiddio eich damcaniaeth academaidd ag ymarfer, a chael cipolwg ar ble mae therapyddion galwedigaethol yn gweithio a'r cyfleoedd gwaith eang fydd ar gael i chi ar ôl cymhwyso.

Ar ôl i chi gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus byddwch yn gymwys i gofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a byddwch yn gymwys i fod yn aelod proffesiynol o Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT).

## BSc Ffisiotherapi

Mae dewis ffisiotherapi ym Mhrifysgol Caerdydd yn golygu y byddwch chi'n astudio rhaglen sydd ar y brig yng Nghymru ac yn 3ydd yn y DU yn ôl The Complete University Guide 2021.

Mae ffisiotherapi yn helpu i adfer symudiadau neu swyddogaeth pan mae anaf, salwch neu anabledd wedi effeithio ar rywun. Gwneir hyn drwy wneud symudiadau ac ymarfer corff, rhoi therapi â llaw, addysg a chyngor. Gellir hefyd ei ddefnyddio i leihau'r risg o gael anaf neu salwch yn y dyfodol. Nod y radd hon yw eich cymhwyso'n ffisiotherapydd wedi'ch cofrestru'n ffurfiol, a fydd yn gallu gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol mewn amryw o leoliadau.

> "Dewisais Brifysgol Caerdydd oherwydd bod ganddi gyfleusterau gwych, er enghraifft, yr ystafell bwrpasol ar gyfer gweithgareddau bywyd bob dydd, a'r ystafell efelychu ar gyfer therapi galwedigaethol."
>
> **Liam**, Therapi Galwedigaethol


**Cewch gyfleoedd lu i baratoi ar gyfer ymarfer clinigol**

> "Gan fod y cynnwys ymarferol a chynnwys y darlithoedd mor amrywiol, mae pob dydd yn wahanol! Gall amrywio o dylino, dyrannu, electrotherapi, hydrotherapi, peintio'r corff . . . a chymaint mwy!"
>
> **Lizzie**, Ffisiotherapi

Mae ein cwrs ymarferol yn cynnig y cyfle i chi astudio drwy ddysgu academaidd yn ogystal â dysgu ymarferol. Cefnogir eich dysgu academaidd gan ymchwilwyr ac academyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol. Cynhelir yr addysgu ymarferol mewn labordai ac ystafelloedd efelychu a ddyluniwyd yn bwrpasol sydd ag offer o'r radd flaenaf megis peiriant rhedeg gwrth-ddisgyrchiant a chanolfan recordio symudiadau.

Mae dysgu ar leoliadau ar draws Cymru hefyd yn rhan hanfodol o'r cwrs, a bydd yn rhoi'r hyder a'r sgiliau i chi ymarfer ffisiotherapi'n broffesiynol mewn sefyllfaoedd yn y byd go iawn gyda gweithwyr proffesiynol cymwys.

Rydym bob amser yn ymdrechu i sicrhau eich bod yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Enghraifft o hyn yw rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â ffisiotherapi yn Hanner Marathon Caerdydd a gynhelir bob blwyddyn.

Mae ein cwrs wedi'i ddilysu gan Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a'r Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig (CSP), sy'n golygu eich bod yn gallu cofrestru'n ffisiotherapydd cymwys ar ôl cwblhau eich gradd yn llwyddiannus.

## BSc Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu

Ein rhaglen Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu (BSc) yw'r un orau yn y DU (*fel sefydliad sy'n cynnig Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu o dan y categori Technoleg Feddygol) yn ôl The Complete University Guide 2021.

Mae ein rhaglen amser llawn yn cael ei hachredu gan Gymdeithas a Choleg y



> “Mae mynd ar leoliad yn gyfle gwych i roi’r hyn rwyf wedi’i ddysgu ar waith a magu fy hyder.”
>
> **Lleucu**, Radiograffeg

Radiograffwyr, ac mae’r sgiliau y byddwch yn eu hennill yn drosglwyddadwy i holl Ymddiriedolaethau'r GIG, ac yn cael eu cydnabod dramor.

Mae radiograffyddion diagnostig yn aelodau allweddol o’r tîm gofal iechyd. Maent yn gweithredu amrywiaeth eang o offer delweddu sydd ar gael mewn ymarfer meddygol modern gan gynnwys tomograffeg cyfrifiadurol, delweddu atseiniol magnetig, delweddu uwchsain ac offer pelydr-X. A chithau’n radiograffydd diagnostig, byddwch yn gyfrifol am ddarparu gofal cynhwysfawr i gleifion sy’n amrywio o blant newydd-anedig i’r henoed. Byddwch yn cynhyrchu ac yn dehongli delweddau i’w defnyddio wrth roi diagnosis o anaf ac afiechyd. Erbyn diwedd y cwrs bydd gennych wybodaeth drylwyr o agweddau proffesiynol a chlinigol radiograffeg ddiagnostig, gan gynnwys yr ystod eang o dechnolegau delweddu a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Nod ein cwrs yw eich trochi ym mhob agwedd ar ymarfer Radiograffeg, yn ymarferol ac yn ddamcaniaethol. Cynhelir yr addysgu ymarferol yn ein cyfleusterau diagnostig pwrpasol, sy’n cynnwys ystafell pelydr-x diagnostig swyddogaethol ac ystafell edrych ar ddelweddau. Caiff pob un o’r rhain eu cefnogi gan feddalwedd efelychu y bydd pob un ohonoch yn gallu ei defnyddio. Byddwch yn derbyn cefnogaeth academaidd agos gan diwtoriaid personol profiadol ac yn cael eich addysgu a’ch cefnogi gan staff profiadol.

Mae gennym bartneriaethau gwaith agos â byrddau iechyd lleol ar draws Cymru a byddwch yn elwa ar leoliadau a gefnogir gan addysgwyr profiadol am leoliadau ym maes radiograffeg. Bydd prosiect ymchwil gwreiddiol yn ffrwyth llafur eich tair blynedd o astudio. Mae cydran dulliau ymchwil y maes llafur yn rhoi’r sgiliau angenrheidiol i chi allu datblygu'n broffesiynol yn barhaus ac ymarfer ar sail tystiolaeth. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ymweld ag Academi Delweddu Genedlaethol Cymru a sefydlwyd gyda £3.4m o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae’r Academi yn gyfleuster blaenllaw o'r radd flaenaf a ddyluniwyd yn bwrpasol yng Nghymru i gefnogi hyfforddiant Radiolegwyr.

Ar ôl cwblhau’r cwrs yn llwyddiannus, bydd modd i chi wneud cais i Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) i gofrestru’n radiograffydd diagnostig.

> “Rwy’n dwlu ar astudio radiograffeg yng Nghaerdydd oherwydd bod y cwrs yn gyfuniad o ddysgu academaidd a dysgu clinigol. Gallwch fod yn astudio oncoleg organ un wythnos, a’r wythnos nesaf, byddwch yn rhoi’r ddealltwriaeth sydd gennych ar waith mewn adran.”
>
> **Sophie**, Radiotherapi

## BSc Radiotherapi ac Oncoleg

Ein rhaglen Radiotherapi ac Oncoleg yw’r un orau yn y DU (*fel sefydliad sy’n cynnig Radiotherapi ac Oncoleg o dan y categori Technoleg Feddygol) yn ôl The Complete University Guide 2021. Mae Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a Chymdeithas a Choleg y Radiograffyddion yn ein hachredu.

Mae gan radiograffyddion therapiwtig rôl allweddol wrth drin a gofalu am bobl â chanser. Mae'r proffesiwn heriol ond gwerth chweil hwn yn defnyddio pelydriadau ïoneiddio ynni uchel wrth drin afiechyd malaen a diniwed.

Byddwch yn cael eich cyflwyno i wyddorau ymddygiadol, delweddu ac ymbelydredd a chewch eich cefnogi i feithrin dealltwriaeth gadarn o anatomeg ddynol, ffisioleg a chanser fel proses afiechyd a sefyllfa ddynol.

Fel radiograffydd therapiwtig, byddwch yn gweithio'n agos gyda meddygon, ffisegwyr meddygol ac aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd, i ddarparu gofal personol a chefnogol i bob oedran. Yn aml mae gan y bobl hyn glefyd sy’n bygwth eu bywyd. Byddwch yn cydweithio’n agos ym mhob cam o driniaeth unigolyn gan gynnwys cefnogaeth cyn y driniaeth, cynllunio’r radiotherapi, darparu a gwerthuso triniaeth, rheoli sgîl-effeithiau, a chefnogaeth ar ôl rhoi triniaeth.

Rydym yn cynnig cymysgedd integredig o astudio yn y Brifysgol a lleoliadau ymarfer mewn sefyllfa glinigol. Byddwch hefyd yn dysgu ochr yn ochr â darlithwyr cefnogol mewn cyfleusterau efelychu pwrpasol. Dyna pam y mae 100% o'n myfyrwyr yn fodlon ar ein cwrs (Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2018, 2019 a 2020). Defnyddir ein hystafell radiotherapi mewn amgylchedd rhithwir (VERT) i wella eich dysgu am anatomeg mewn modd 3-dimensiwn, yn ogystal â dysgu sgiliau i chi sy’n ymwneud â radiotherapi yn benodol. Yn ogystal, mae ein hystafell mowld a ddyluniwyd yn bwrpasol yn eich galluogi i ymarfer a datblygu sgiliau nad ydynt bob amser ar gael i fyfyrwyr yn y lleoliad clinigol.

Rydym yn cydweithio â sefydliadau’r GIG ar draws Cymru i gynnig lleoliadau ymarfer amrywiol i chi fel eich bod yn gystadleuol yn y farchnad gyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Byddwch yn cael y cyfle i gynnal prosiect ymchwil gwreiddiol a fydd yn ffrwyth llafur eich tair blynedd o astudio.  Nod yr astudiaeth ymchwil hon yw rhoi’r sgiliau angenrheidiol i chi allu datblygu'n broffesiynol yn barhaus ac ymarfer ar sail tystiolaeth.

Ar ôl cwblhau’r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn gymwys i wneud cais i gofrestru’n Radiograffydd Therapiwtig gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal.

# Hanes, Archaeoleg a Chrefydd

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Hanes, Archaeoleg a Chrefydd** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Rydym ni'n darparu **addysgu dynamig a chefnogol** ar draws ystod gyffrous o bynciau ategol.

Roedd **97%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Gallwch wneud cais i dreulio **blwyddyn dramor** ar un o'n hamrywiaeth fawr o raglenni.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfle i astudio rhan o'ch gradd mewn Hanes a Hanes Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Mae ein **cwricwlwm hyblyg** yn caniatáu i chi deilwra'ch gradd i'ch diddordebau.

Barnwyd bod mwy na **70%** o'r holl ymchwil a gyflwynwyd gennym yn waith oedd yn "**rhyngwladol-ragorol**" neu'n "**arwain y byd**".*



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Hanes yr Henfyd (BA)** (Tair blynedd) | V110 |
| **Archaeoleg (BA)** (Tair blynedd) | F400 |
| **Archaeoleg (BSc)** (Tair blynedd) | F402 |
| **Archaeoleg a Hanes yr Henfyd (BA) (Rhaglen integredig)** (Tair blynedd) | VVC4 |
| **Cadwraeth Gwrthrychau mewn Amgueddfeydd ac Archaeoleg (BSc)** (Tair blynedd) | F482 |
| **Hanes (BA)** (Tair blynedd) | V100 |
| **Crefydd a Diwinyddiaeth (BA)** (Tair blynedd) | V6V6 |

### Cydanrhydedd

| | |
|---|---|
| **Hanes yr Henfyd a Hanes (BA)** (Tair blynedd) | V117 |
| **Hanes ac Archaeoleg (BA)** (Tair blynedd) | VV14 |
| **Gwleidyddiaeth a Hanes Modern (BScEcon)** (Tair blynedd) | LV21 |

**Gweler tudalen 146 am raglenni cydanrhydedd eraill neu ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.**

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**

**Hanes yr Henfyd:** ABB-BBB
**Archaeoleg BA a BSc:** BBB-BBC
**Cadwraeth:** BBB-BBC
**Hanes (anrhydedd sengl):** ABB
**Hanes Modern a Gwleidyddiaeth:** ABB
**Crefydd a Diwinyddiaeth:** BBB-BBC
**Rhaglenni cydanrhydedd gyda Hanes:** yn amrywio o AAB i ABB (gweler y wybodaeth am y rhaglenni gradd unigol).
**Yr holl raglenni gradd eraill yn yr Ysgol:** yn amrywio o AAB i BBB.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 28-36 o bwyntiau gan gynnwys sgoriau o 5/4 ar Lefel Uwch.
**Cydanrhydedd gyda Hanes:** 30-34 o bwyntiau i gynnwys 6 mewn hanes ar Lefel Uwch.
**Hanes:** 30-34 o bwyntiau, gan gynnwys 6 mewn Hanes ar Lefel Uwch a 6 mewn pwnc arall ar Lefel Uwch.

**BTEC:** Anrhydedd sengl: DDM-DMM Y Dyniaethau neu'r Gwyddorau Cymdeithasol. Unrhyw bwnc BTEC arall os yw wedi'i gyfuno â Safon Uwch.
Cydanrhydedd: Ewch i'n gwefan.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiadau perthnasol arall o waith/bywyd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni. Derbynnir A mewn Cymhwyster Prosiect Estynedig ar y cyd â'r graddau Safon Uwch a restrir uchod. Gwiriwch feini prawf unigol graddau ar ein gwefan i gael rhagor o fanylion.

**Pob gradd**

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:** Gradd C neu radd 4 mewn TGAU Saesneg Iaith.
Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gyrfaoedd

Mae gradd yn y dyniaethau yn berthnasol ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd, yn enwedig diwydiant a busnes, y Gwasanaeth Sifil a llywodraeth leol, y gyfraith, newyddiaduraeth a'r cyfryngau, lle mae cyflogwyr yn chwilio am bobl sy'n gallu mynegi eu hunain yn glir, meddwl drostynt eu hunain a datrys problemau mewn modd deallus. Mae ein graddedigion hefyd yn dewis gyrfaoedd mewn meysydd perthnasol fel archaeolegwyr proffesiynol, arbenigwyr amgueddfa neu archifau, athrawon a darlithwyr. Mae'r rhan fwyaf o raddedigion Cadwraeth yn aros yn eu meysydd dewisol.

### Swyddi

Archaeolegydd, newyddiadurwr darlledu, cadwraethwr, swyddog gwasanaeth diplomyddol, swyddog treftadaeth, cyfreithiwr, swyddog heddlu ac athro.

### Cyflogwyr

Adrannau llywodraeth leol, prifysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus ynghyd â sefydliadau fel yr Eglwys yng Nghymru, yr Amgueddfa Brydeinig, Historic England a Cadw a'r Adran Addysg.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 300
**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,650

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lyfryn yr Ysgol:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwyr:
Ffôn: **(029) 2087 4929**
**+44 (0)29 2087 4929**
Ebost: **share-admissions@caerdydd.ac.uk**

**CardiffUniHistoryArchaeology Religion**

**@CUHistArchRel**

## A ninnau'n chwilfrydig am y profiad dynol ar draws milenia a diwylliannau, rydym am ddeall ein gorffennol yn well er mwyn taflu goleuni ar y presennol er budd ein dyfodol.

Rydym yn cynnig cyfle i fyfyrwyr anrhydedd sengl dreulio blwyddyn yn astudio dramor mewn amrywiaeth gyffrous o wledydd ledled y byd.

Rydym yn Ysgol helaeth ein hadnoddau ac mae gennym hanes cryf o addysgu rhagorol a ysbrydolir gan ymchwil mewn amgylchedd dysgu cefnogol, a adlewyrchir yn yr holl arolygon o fodlonrwydd ein myfyrwyr.

### BA Hanes

Ymchwiliwch i'r gorffennol ac ehangwch eich gorwelion gyda gradd ysbrydoledig a gynlluniwyd ar gyfer haneswyr y dyfodol.

Mae ein gradd gyffrous, a addysgir gan arbenigwyr yn eu maes, yn rhoi'r cyfle i chi siapio eich angerdd am hanes yn ôl eich diddordebau, gan ddefnyddio'r dulliau diweddaraf i astudio'r gorffennol gyda llygad beirniadol a gwneud cysylltiadau â thrafodaethau ar bynciau llosg.

Mae ein harbenigedd yn cyrraedd ehangder rhyfeddol o gymdeithasau, cyfnodau a lleoliadau, yn rhychwantu Ynysoedd Prydain, Ewrop (dwyrain a gorllewin), Affrica, Asia a Chyfandiroedd America. Gan adlewyrchu ein lleoliad mewn prifddinas, rydym yn ganolfan flaenllaw ar gyfer hanes Cymru ac yn cynnig ystod o fodiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein cyrsiau'n archwilio themâu sydd wedi hen ennill eu plwyf, megis hanes gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol a rhywedd, a dulliau rhyngddisgyblaethol blaengar, gydag opsiynau mewn hanes amgylcheddol, digidol a meddygol.

### Crefydd a Chred

"Fe wnaeth fy ngradd fy ngalluogi i gysylltu'n llawn â'm diddordeb yn y byd o'm cwmpas, ac mae wedi fy helpu i ddilyn gradd Meistr mewn Anthropoleg Gymdeithasol. Ro'n i'n teimlo cefnogaeth anhygoel ac yn rhan o gymuned go iawn. Roedd fy nhiwtoriaid bob amser wrth law gydag unrhyw help yr oedd ei angen arnaf. Fe ddysgais i gymaint o sgiliau ar fy nghwrs, gan gynnwys meddwl beirniadol a dadansoddi. Ro'n i hefyd yn gallu archwilio opsiynau gyrfa, gan gynnwys y maes addysgu, drwy wirfoddoli, cyfleoedd lleoliad a theithiau."

**Cate**,
BA Crefydd a Diwinyddiaeth, Dosbarth 2021

Gan gris-croesi'r ystod eang hon o gyfnodau amser a safbwyntiau, bydd ein rhaglen uchel-ei-pharch yn eich hyfforddi i ddadansoddi pynciau o bob cwr o'r byd, gan eich galluogi i roi eich sgiliau fel hanesydd ar waith. At hynny, mae Casgliadau Arbennig ac Archifau'r Brifysgol yn rhoi mynediad i chi i ystod eang o destunau gwreiddiol a ffynonellau gweledol, gan gynnwys rhai o lyfrau print hynaf y byd.

Wrth rannu ein hymchwil arloesol ein hunain yn ein holl fodiwlau, rydym yn eich annog i ail-werthuso dealltwriaeth o'r gorffennol ac i greu eich dehongliadau newydd a gwreiddiol eich hun. Byddwch yn dod yn fedrus wrth archwilio dadleuon, gan dynnu'n greadigol ar ein sylfaen gadarn i ymchwilio i hanes o bob math. Ar hyd y ffordd, byddwch yn datblygu set sgiliau yn y dyniaethau sydd mor fanteisiol yn ein hoes ddigidol: creadigrwydd, empathi, meddwl beirniadol, sgiliau cyfathrebu darbwyllol a'r gallu i herio a chwestiynu.

Ar ddiwedd eich gradd, byddwch yn ysgrifennu hanes gwreiddiol, gan ymchwilio i bwnc o ddiddordeb academaidd personol yn eich traethawd hir annibynnol. Mae astudio yng Nghaerdydd yn golygu cymryd rhan mewn trafodaethau hanesyddol a chyhoeddus — a dod yn hanesydd yn eich rhinwedd eich hun.

### BA Hanes yr Henfyd

Byddwch yn archwilio gwareiddiadau hynafol dros gyfnod o ddwy fil o flynyddoedd, o'r Oes Efydd i dwf Islam, yn ymestyn o Roeg a Rhufain yr Henfyd i Fesopotamia, Iran a'r Ffordd Sidan.

Mae'r radd gyffrous hon, sy'n ymroddedig i ddeall cymdeithasau'r gorffennol trwy ddehongli tystiolaeth hynafol, yn agor drws i archwilio deunydd gweledol, epigraffig ac archeolegol allweddol. Yn anarferol yn y DU, mae ein rhaglen hefyd yn eich galluogi i ddarganfod y Lefant a'r Aifft, Persia a'r Ymerodraeth Fysantaidd, yn ogystal â'r bydoedd Groegaidd a Rhufeinig.

### Archaeoleg a Hanes yr Henfyd

"Astudio Archaeoleg a Hanes yr Henfyd yng Nghaerdydd oedd y penderfyniad gorau y gallwn i fod wedi'i wneud! Roedd y staff bob amser wrth law i gynnig cyngor a chefnogaeth ac fe wnes i ffrindiau gydol oes yn ystod fy ngradd. Roedd y lleoliadau archeolegol yn ased gwirioneddol wrth ddatblygu fy sgiliau ymarferol, a chefais deilwra fy astudiaethau i'm diddordebau academaidd yn y modiwlau hanesyddol hynafol. Ers hynny rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ddod o hyd i waith yn y sector archeolegol masnachol."

**Kezia**,
BA Archaeoleg a Hanes yr Henfyd, Dosbarth 2021

Bydd ein rhaglen amlweddog yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth feirniadol o'r cymdeithasau hynafol diddorol hyn, gan archwilio mewn tro eu strwythurau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

I ni, mae pynciau cymdeithasol a diwylliannol yr un mor bwysig â chyfnod hanesyddol a hanes gwleidyddol. Byddwch yn dod ar draws themâu diddorol sydd â pherthnasedd cyfoes, o ryfela, rhywedd, crefydd, celfyddyd a llenyddiaeth i feddygaeth a gwyddoniaeth. Byddwch hefyd yn darganfod sut mae hynafiaeth yn parhau i ysbrydoli ein byd modern.

Yn angerddol am hanes hynafol, bydd ein harbenigwyr yn eich ysbrydoli gyda'r syniadau diweddaraf. Gan rannu ein hymchwil arloesol yn y dosbarth, dros y tonfeddi ac ar sgrin, rydym yn gwneud cysylltiadau hanesyddol â thrafodaeth bynciol, gan oleuo trafodaeth gyfoes gyda mewnwelediad profiad hynafol. Mae'r radd yn cynnig yr hyfforddiant sy'n hanfodol ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol, gan ddatblygu set o sgiliau trosglwyddadwy allweddol a fydd yn eich paratoi ar gyfer ystod eang o rolau cyflogaeth proffesiynol neu gyfleoedd astudio pellach.

### BA/BSc Archaeoleg

Ymchwiliwch i weddillion materol cymdeithasau a diwylliannau'r gorffennol, o'r bodau dynol cynharaf hyd heddiw, ac archwiliwch archaeoleg Ynysoedd Prydain, Ewrop, Môr y Canoldir a'r Aifft.

Mae ein cyrsiau BA a BSc uchel-eu-parch yn enwog am feithrin sgiliau ymarferol ac academaidd, gan eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd yn y sector treftadaeth a thu hwnt. Mae'r ddwy radd yn cyflwyno hyfforddiant arbenigol yn holl elfennau craidd archaeoleg.

### Gwleidyddiaeth a Hanes Modern

"Wrth astudio Hanes Modern a Gwleidyddiaeth yng Nghaerdydd, fe ges i rai o brofiadau gorau fy mywyd. Drwy gydol y cwrs ro'n i'n teimlo 'mod i'n cael fy nghefnogi i gyrraedd fy mhotensial. Roeddwn i bob amser yn dysgu am bethau roeddwn i'n angerddol yn eu cylch: roedd yr ystod o fodiwlau dewisol yn fy ngalluogi i astudio meysydd nad oeddwn erioed wedi cael y cyfle i'w hastudio o'r blaen. Diolch i'r sgiliau y gwnes i eu meithrin yn ystod fy ngradd, rydw i bellach yn gweithio yn Senedd San Steffan, yn helpu i gyflawni newid go iawn. A hynny o achos y cyfnod buddiol iawn ym Mhrifysgol Caerdydd - alla i ddim ei argymell ddigon!"

**Callum**,
BScEcon Gwleidyddiaeth a Hanes Modern, Dosbarth 2019

Mae ein BSc yn cynnig ffocws gwyddonol cryfach ar ddulliau ac ymagweddau, er enghraifft mewn bioarchaeoleg, ond nid oes angen astudiaeth flaenorol sy'n seiliedig ar wyddoniaeth.

Mae ein harbenigeddau ymchwil yn agoriad i ystod gyffrous o bynciau a lleoliadau daearyddol, gyda modiwlau eang sy'n archwilio'r Brydain ganoloesol, y Llychlynwyr, archaeoleg Aifft, Groeg a Rhufain yr henfyd, a gwreiddiau cynhanesyddol amaethyddiaeth.

Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar hyfforddiant sgiliau, gan eich cyflwyno i fioarchaeoleg, dadansoddi arteffactau, darlunio, gwaith fforensig, ac arolygu. Yn hanfodol, byddwch yn ennill profiad sylweddol o gloddio neu mewn amgueddfeydd trwy ddau leoliad haf wedi'u hariannu, gan gynnwys opsiynau tramor fel arfer. Drwy gydol eich gradd, byddwch yn cynnal eich ymchwil annibynnol eich hun, gan arwain at draethawd hir yn eich blwyddyn olaf.

Yn allweddol i hybu ein cymuned archaeoleg glos mae ein cyfleusterau arbenigol, gyda darlithfeydd pwrpasol ochr yn ochr â labordai addysgu sy'n cynnwys yr holl adnoddau angenrheidiol ar gyfer bioarchaeoleg a dadansoddi deunyddiau, gan gynnwys Microsgop Sganio Electronau.

Yn sylfaenol, rydym yn eich annog i ddatblygu agwedd feirniadol, wedi'i seilio ar brofiad ymarferol cadarn. Byddwch yn dod yn archeolegydd drwy wneud archaeoleg ac yn ennill sgiliau eang a throsglwyddadwy a werthfawrogir gan gyflogwyr y tu mewn i'r proffesiwn a thu hwnt.

## BSc Cadwraeth Gwrthrychau mewn Amgueddfeydd ac Archaeoleg

Mae ein rhaglen alwedigaethol yn cynnig cyfuniad o wyddoniaeth a chelf, gan ganolbwyntio ar astudio a gwarchod gwrthrychau diwylliannol.

Arweinir ein rhaglen gan dîm arbenigol sydd ag enw da yn fyd-eang, a bydd yn cyflwyno eich cam cyntaf i gadwraeth. Byddwch yn dysgu sut i gyd-drefnu ymchwiliad gwyddonol o arteffactau ac yn dod i ddeall mwy am eu cyfansoddiad a thechnoleg.

Byddwch yn astudio strwythur, pydredd a chadwraeth deunyddiau diwylliannol, gan ddatblygu i wneud gwaith ymarferol yn trin amrywiaeth eang o arteffactau archaeolegol a hanesyddol o amgueddfeydd, cloddfeydd a thai hanesyddol ledled y DU, yn amrywio o wrthrychau bob dydd o'r 20fed ganrif i arteffactau a grëwyd filoedd o flynyddoedd yn ôl. Byddwch yn gallu manteisio ar gyfres o gyfleusterau dadansoddol yn cynnwys microsgop electron a microsgopeg trawsffurfio Fourier isgoch.

Un o agweddau mwyaf buddiol ein rhaglen yw'r cyfle i ennill profiad trwy leoliadau mewn amgueddfeydd neu unedau archeolegol, yn y DU neu dramor.



## BA Archaeoleg a Hanes yr Henfyd

Bydd y radd gyffrous hon yn eich galluogi i astudio Môr y Canoldir, yr Aifft, a Dwyrain Agos yr henfyd, gan dynnu ar safbwyntiau a dulliau o ddwy ddisgyblaeth ategol. Wedi'i haddysgu gan grŵp blaenllaw o ysgolheigion, cewch gyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â byd materol ac ieithoedd yr henfyd. Byddwch yn ymgymryd â lleoliad proffesiynol, a fydd yn rhoi sgiliau a phrofiad archeolegol ymarferol i chi, a chewch gyfle i fyfyrio ar sut mae byd bywiog yr henuriaid wedi siapio'r un rydyn ni'n byw ynddo heddiw.

## BA Crefydd a Diwinyddiaeth

Yn ein gradd hynod werth chweil, byddwch yn archwilio ymhell y tu hwnt i hanesion, diwylliannau a chredoau prif grefyddau'r byd - Bwdhaeth, Cristnogaeth, Hindŵaeth ac Islam - i ganfod traddodiadau brodorol llai cyfarwydd.

Byddwch yn ystyried systemau hanes a chred traddodiadau crefyddol, gan ymchwilio i gwestiynau amrywiol sy'n parhau i fod yn bynciau trafod llosg hyd heddiw. Mae ein modiwlau wedi'u cynllunio i agor y themâu cyfoes hyn, o hunaniaeth grefyddol mewn cymdeithasau a chrefyddau modern a'r cyfryngau i'r foeseg sy'n llunio ein barn ar bynciau, o'r amgylchedd i rywioldeb a hawliau atgenhedlu.

## BScEcon Gwleidyddiaeth a Hanes Modern

Byddwch yn ymchwilio i broblemau gwleidyddol mawr y gorffennol a'r presennol wedi'u llywio gan eu cyd-destun hanesyddol.

Mae'r radd boblogaidd hon yn eich galluogi i astudio amrywiaeth eang o feysydd pwnc o'r byd modern drwy ddewis helaeth o fodiwlau dewisol ar themâu hanesyddol a gwleidyddol. Caiff ein rhaglen amrywiol ei haddysgu ar y cyd ag Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, ac mae wedi'i chynllunio i feithrin dealltwriaeth feirniadol o faterion difrifol mewn bywyd cyhoeddus modern.

Mae gennych y rhyddid i deilwra eich rhaglen, gan gyfuno ymagweddau thematig, cymdeithasegol, anthropolegol, ieithyddol a hanesyddol i arsylwi arferion crefyddol yn sensitif a chraffu ar ffynonellau diddorol, o wrthrychau materol a chyfryngau print a gweledol i ffilmiau a grëwyd gan grwpiau crefyddol brodorol.

Yn anarferol, gallwch hefyd ddewis astudio ieithoedd hynafol fel Arabeg, Sansgrit, a Groeg Hynafol i ymchwilio i ddarnau sylweddol o destunau crefyddol gwreiddiol fel y Quran, y Bhagavad Gita neu'r Beibl. Beth bynnag fo'ch diddordebau penodol, bydd ein hacademyddion blaenllaw - pob un yn heintus o angerddol am eu pynciau - yn dod â meddwl ac ymchwil gyfoes i bob modiwl.

## Rhagor o wybodaeth

### Rhaglenni gradd cydanrhydedd

I gael gwybod rhagor am yr amrywiaeth o raglenni gradd cydanrhydedd sydd gennym, ewch i dudalen 146.

### Astudiaethau rhan-amser

Rydym yn cynnig llwybrau rhan-amser yn ein graddau anrhydedd sengl.

### Astudio dramor

Gallwch wneud cais i dreulio blwyddyn ychwanegol yn astudio dramor ar bob gradd a addysgir yn llwyr o fewn yr Ysgol, gan dreulio'r drydedd flwyddyn mewn gradd pedair blynedd mewn ystod eang o leoliadau yn Ewrop, Gogledd America, a thu hwnt. Mae opsiynau astudio dramor yn amrywio ar gyfer rhaglenni cydanrhydedd. Edrychwch ar y wefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

### Derbyn Myfyrwyr

Seiliwn y mwyafrif o'n penderfyniadau derbyn ar geisiadau UCAS yn unig.

Efallai y byddwn yn cynnig cyfweliad i rai ymgeiswyr sydd ag amgylchiadau unigryw.

Os byddwch yn gwneud cais, ac yn cael cynnig, cewch eich gwahodd i un o'n Diwrnodau Agored yn y gwanwyn a fydd yn rhoi cyfle i chi gwrdd ag aelodau o'n cymuned.

# Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant



## Pam dewis **Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Rydym yn yr **2il safle yn y DU** am ansawdd rhagorol ac effaith ein hymchwil ym meysydd cyfathrebu, diwylliant ac astudiaethau cyfryngau.*

Ffynhonnell: REF 2014.

**92%**
Canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs*

Barnwyd bod **89%** o'n holl ymchwil ar gyfer REF 2014 yn '**rhyngwladol-ragorol**' neu'n '**arwain y byd**'.*

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Rydym yn y **28ain** safle yn fyd-eang am Astudiaethau Cyfathrebu a'r Cyfryngau.*

Ffynhonnell: Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl Pwnc 2021.

Rydym wedi ein lleoli yng nghanol ardal ffyniannus o ran y cyfryngau, ochr yn ochr â **BBC Cymru** a **Media Wales**.



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant (BA)** | R5V2 |
| **Newyddiaduraeth a Chyfathrebu (BA)** | 0N3D |
| **Y Cyfryngau a Chyfathrebu (BA)** | 3M7D |

### Cydanrhydedd

| | |
|---|---|
| **Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a Gwleidyddiaeth (BA)** | J323 |
| **Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg (BA)** | PQ53 |
| **Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Chymdeithaseg (BA)** | LP35 |
| **Cymraeg a Newyddiaduraeth (BA)** | PQ55 |

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**

**Anrhydedd sengl:**

ABB: Dim pynciau penodol.

**Cydanrhydedd:**

Fel rheol, bydd y cynigion ar gyfer graddau cydanrhydedd yr un fath ag ar gyfer anrhydedd sengl, ac eithrio os bydd y naill bwnc yn mynnu gradd uwch na'r llall.

Rhaid cael graddau AAB i astudio ar gyfer BA mewn Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg, gan gynnwys A mewn Llenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith neu Ysgrifennu Creadigol.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 33 pwynt (gan gynnwys 6 phwynt yn Saesneg) neu 665 ar Lefel Uwch.

**BTEC:** DDM ym mhob pwnc yn y Celfyddydau, Gwyddoniaeth, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

Dylai myfyrwyr rhyngwladol fod wedi cael sgôr IELTS o 7 (gan gynnwys is-sgôr o 6.5 mewn ysgrifennu a 6 ym mhob is-sgôr arall), neu fod â thystiolaeth debyg o'u hyfedredd yn y Saesneg.



Bydd eich astudiaethau gyda ni yn darparu addysg y mae galw mawr amdani

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 180 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,000

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtor derbyn: **Dr Andy Williams**

Ffôn: **(029) 2087 0088 / (029) 2087 4156**
**+44 (0)29 2087 0088 / +44 (0)29 2087 4156**

Ebost: **jomecstudentsupport@caerdydd.ac.uk**

Tiwtor derbyn cyfrwng Cymraeg: **Sian Morgan Lloyd**

Ffôn: **(029) 2087 6843 / (029) 2087 4156**
**+44 (0)29 2087 6843 / +44 (0)29 2087 4156**

**cardiffjomec** **@CardiffJomec**

## Gyrfaoedd

Ymhlith enghreifftiau diweddar o swyddi lefel mynediad mae: awdur cynnwys, gweithredwr cyfryngau digidol, cynghorydd polisi cyfryngau cymdeithasol, intern ymchwil, intern golygyddol, gohebydd, cynorthwyydd cysylltiadau cyhoeddus, intern polisi, gweithredwr ymgyrchoedd, ysgrifennwr sgriptiau, unigolyn creadigol YouTube ac ysgrifennwr copi SEO.

### Swyddi

Ar ôl symud ymlaen o'u swyddi cychwynnol, mae gan ein cynfyfyrwyr amryw rolau erbyn hyn yn y cyfryngau a byd gweinyddiaeth. Dyma rai enghreifftiau o'r swyddi: Cynhyrchydd teledu, entrepreneur busnes, dylunydd ffasiwn, ysgrifennwr copi, gweithredwr cysylltiadau cyhoeddus, blogiwr, athro a newyddiadurwr. Mae llawer o'n graddedigion yn symud ymlaen i raddau newyddiaduraeth a chyfathrebu ôl-raddedig, sydd ar gael yn y Brifysgol ac mewn mannau eraill, ac oddi yno i amrywiol swyddi yn y cyfryngau.

> Roedd dod i adnabod cynifer o ddarlithwyr angerddol wedi fy ngalluogi i gael mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau, ac mae amrywiaeth y modiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i weddu i'ch diddordebau eich hun. Cefais gyfle i ddysgu a gwneud gwaith ymchwil i bynciau sy'n bwysig i mi, a hynny mewn amgylchedd sy'n ysgogol yn ddeallusol.
>
> **Sofia**, Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant (BA)



## Mae ein rhaglenni gradd yn astudio'r agweddau niferus ar newyddiaduraeth, y cyfryngau, diwylliant a chyfathrebu, a hynny mewn cyfnod o globaleiddio. Mae safon ragorol ein haddysgu, ein hymchwil a'n hysgolheictod, ynghyd â'n gwerth i'n graddedigion, yn cael eu cydnabod ledled y byd.

Mae Caerdydd yn ganolfan ffyniannus o ran y cyfryngau, tra bod y diwydiannau creadigol yn ffynnu ac yn profi buddsoddiad sylweddol.

Mae ein cartref, adeilad newydd o'r radd flaenaf yn natblygiad Sgwâr Canolog Caerdydd, wedi'i leoli wrth y darlledwr cenedlaethol, BBC Cymru, ac yn agos at sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r cyfryngau. Mae ei gyfleusterau blaenllaw yn gwella ein rhyngwyneb diwydiant/academaidd, ac yn ein rhoi wrth galon amgylchedd cyfryngau bywiog a datblygol.

## Eich profiad astudio

Rydym yn falch bod ein staff yn cynnwys rhai o awduron, ymchwilwyr a meddylwyr blaenllaw'r byd ym meysydd newyddiaduraeth, y cyfryngau a chyfathrebu. Bydd y cyfuniad hwn o ymchwil a gwybodaeth ymarferwyr yn gwella eich astudiaethau, gan sicrhau eich bod yn ennill dealltwriaeth gadarn o theori ac ymarfer ar draws ein meysydd pwnc.

Rydym wedi ymrwymo i'ch helpu i gyflawni eich uchelgeisiau a gwneud y mwyaf o'ch amser gyda ni. Bydd gennych Diwtor Personol trwy gydol cyfnod eich gradd. Defnyddir y cyfarfodydd gyda'ch tiwtor i drafod eich cynnydd academaidd, i roi adborth a chyngor, ac i wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Cefnogi eich dyheadau gyrfaol

Mae ein henw da am hyfforddiant newyddiaduraeth o ansawdd uchel ac ymchwil effeithiol o'r radd flaenaf yn golygu y bydd eich CV chi, fel un o'n graddedigion, yn creu argraff.

Byddwch yn derbyn addysg drylwyr yn y cyfryngau a chyfathrebu a fydd yn eich helpu i ennill ystod o sgiliau hyblyg a throsglwyddadwy gan gynnwys sgiliau ymchwil a dadansoddi; sgiliau ysgrifennu beirniadol; galluoedd cyflwyno deinamig; a sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm cryf.

Fel myfyriwr israddedig gyda ni, byddwch yn elwa o:
- Radd academaidd sy'n eich paratoi ar gyfer gwaith mewn amrywiaeth eang o sectorau yn y cyfryngau a thu hwnt.
- Modiwl cyflogadwyedd ail flwyddyn dewisol, sy'n gorffen gyda lleoliad pythefnos o hyd.
- Amrywiaeth o fodiwlau cyflogadwyedd ymarferol sy'n seiliedig ar sgiliau.
- Dinas sy'n llawn asiantaethau cyfryngau cymdeithasol a marchnata, cwmnïau cynhyrchu, sefydliadau newyddion a gorsafoedd radio.

### BA Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant

Ein nod yw gwneud yn siŵr, ar ôl astudio gyda ni, eich bod chi'n ddinesydd sy'n feirniadol ymwybodol ac yn ddefnyddiwr gwybodus mewn cymdeithas sy'n gyforiog o gyfryngau.

Er mwyn deall cymdeithas fodern, mae angen i ni ddeall rôl ganolog y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol y tu mewn iddi. Byddwch yn astudio cynhyrchu, cynnwys a derbyniad y cyfryngau (annewyddiadurol yn bennaf) a'r diwydiannau diwylliannol gan roi pwyslais arbennig ar ddeall cynhyrchu a chylchredeg ystyron a syniadau'n gymdeithasol.

Byddwch yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy wrth ddadansoddi gwahanol destunau cyfryngau yn agos, gan gynnwys deunyddiau print, gweledol, clywedol a symudol a gwybodaeth fanwl am ystod o sectorau'r cyfryngau. Er y gallwch gymryd nifer o fodiwlau mwy ymarferol, mae'r radd yn rhoi pwyslais ar yr elfennau academaidd a dadansoddol.

### BA Newyddiaduraeth a Chyfathrebu

Nod y radd yw cynnig dealltwriaeth ddadansoddol ac ymarferol o newyddiaduraeth a chyfathrebu a'u rôl hanfodol mewn cyd-destunau hanesyddol a chyfredol.

Byddwch yn datblygu llythrennedd academaidd, proffesiynol a digidol sy'n amhrisiadwy yn y gweithle yn ogystal â gwybodaeth a fydd yn eich helpu i fod yn ddinesydd mwy gwybodus. Er y gallwch gymryd nifer o fodiwlau ymarferol, mae'r radd yn rhoi pwyslais ar yr elfennau academaidd a dadansoddol.

Byddwch yn meithrin dealltwriaeth fanwl o newyddiaduraeth a sectorau cyfathrebu cysylltiedig, fel cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfathrebu gwleidyddol, yn ogystal â sgiliau gwerthfawr ar gyfer gweithredu oddi mewn iddynt. Byddwn yn disgwyl i chi gynhyrchu traethodau, portffolios digidol a gwahanol fathau o newyddiaduraeth ar draws nifer o lwyfannau.

### BA Cyfryngau a Chyfathrebu

Bydd y radd hon yn eich helpu i ddeall pwysigrwydd y cyfryngau i gymdeithas fodern, gan gynnwys sylw i newyddiaduraeth, cyfathrebu a'r ystod lawn o ddiwydiannau creadigol a diwylliannol.

Byddwch yn dysgu sut mae mynediad cyfranogol i safleoedd diwylliant cyhoeddus a chyfathrebu yn cael ei ddosbarthu ar hyd echelinau rhaniadau cymdeithasol, megis anabledd, dosbarth, ethnigrwydd, rhyw, cenedligrwydd a rhywioldeb trwy ymgysylltu â meddylwyr blaenllaw, dadleuon a pharadeimau deallusol o fewn y maes.

Gan mai gradd academaidd yw hon yn bennaf, byddwch yn datblygu sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddol trosglwyddadwy, ond byddwch hefyd yn cael cyfle i astudio modiwlau mwy ymarferol.

### BA Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a Gwleidyddiaeth

Cyflwynir y radd gydanrhydedd hon mewn partneriaeth ag Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth.

Mae'n rhoi cyfle i chi astudio'r dadleuon presennol yn astudiaethau'r cyfryngau a gwyddor gwleidyddiaeth. Mae'r radd hon yn dadansoddi ac yn myfyrio ar newidiadau gwleidyddiaeth a pholisi sy'n cael eu sbarduno gan dwf y cyfryngau cymdeithasol, y diwydiant cyfathrebu a'r cylch newyddion 24/7. Byddwch yn elwa o addysgu a arweinir gan arbenigwyr ym meysydd astudiaethau newyddiaduraeth a'r cyfryngau ar y naill law a gwyddor gwleidyddiaeth a llywodraethu ar y llall.

### BA Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg

Cyflwynir y radd gydanrhydedd hon mewn partneriaeth â'r Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth. Mae'n archwilio'r cyfryngau, eu twf, a'u harwyddocâd hanesyddol a diwylliannol wrth lunio ein bywydau. Mae hefyd yn cynnig dadansoddiad beirniadol o ystod o destunau o wahanol gyfnodau, ynghyd ag archwilio syniadau cymhleth.

### BA Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Chymdeithaseg

Cyflwynir y radd gydanrhydedd hon mewn partneriaeth ag Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol. Mae'n cynnig cyfle i chi astudio'r dadleuon presennol o ran cysyniadau a dulliau cymdeithasegol, cyfathrebu ac astudiaethau cyfryngau. Mae'r radd fodern hon yn eich galluogi i wneud synnwyr o gymdeithas a rôl cyfathrebu torfol mewn oes o globaleiddio a newid cymdeithasol.

### BA Cymraeg a Newyddiaduraeth

Cynlluniwyd y radd hon mewn ymateb i'r galw mawr am raddedigion sydd â sgiliau Cymraeg a newyddiadurol, ac fe'i cyflwynir ar y cyd ag Ysgol y Gymraeg. Bydd y cwrs yn cyfuno trylwyredd a dadansoddiad academaidd â'r cyfle i gael profiad gwaith a chyflawni gweithgareddau allgyrsiol ymarferol. Nod y cwrs yw cynhyrchu graddedigion sydd â dealltwriaeth academaidd ac ymarferol drylwyr o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, lefel uchel o sgiliau ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg, a sgiliau cyflogadwyedd a chreadigol datblygedig sy'n berthnasol i'r Gymru fodern.

**Mae gennym hanes cryf o gynhyrchu graddedigion sy'n dod o hyd i gartref yn sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru. Os oes gennych ddiddordeb mewn astudio agweddau ar eich gradd yn Gymraeg, mae ein holl raddau'n cynnig modiwlau dewisol a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.**

# Y Gyfraith

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor



## Pam dewis **y Gyfraith** ym Mhrifysgol Caerdydd?

**Dewch yn aelod o'n Cymdeithas y Gyfraith glodwiw.** Myfyrwyr sydd wrth y llyw yn y gymdeithas, ac mae'n gyfrifol am gynnig cyfleoedd a digwyddiadau allgyrsiol i'w 400 o aelodau sy'n mynd y tu hwnt i'w maes llafur academaidd.

**97%**
Canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Gallwch ymarfer a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd drwy ein **partneriaethau pro bono** gydag elusennau, cyfreithwyr a chyrff gwirfoddol.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau cyfrwng Cymraeg ar eu cwrs gradd.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Rydym yn cynnig cyfle i fyfyrwyr LLB y Gyfraith **dreulio blwyddyn yn gweithio fel paragyfreithwyr**. Mae'r flwyddyn ar leoliad yn cynnig cyflog, ond mae hefyd yn cynnig credydau ac yn darparu cyfle rhagorol i wella sgiliau cyflogadwyedd, meithrin gwybodaeth gyfreithiol ymarferol, a rhwydweithio gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol.

Barnwyd bod **100%** o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym o 'safon ryngwladol', a bod **84%** ohoni'n **'rhyngwladol-ragorol'** neu'n **arwain y byd'**.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

| | |
|---|---|
| **Y Gyfraith (LLB)** | M100 |
| **Y Gyfraith a Ffrangeg (LLB)** | RM11 |
| **Y Gyfraith a Throseddeg (LLB)** | M190 |
| **Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth (LLB)** | ML12 |
| **Y Gyfraith a'r Gymraeg (LLB)** | MQ15 |

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 300

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 2,400

**Rydym yn cynnig cyfle i fyfyrwyr y Gyfraith LLB (M100) wneud cais i astudio dramor.**
Ar hyn o bryd, cwblheir yr astudiaeth ym Madrid a Prague yn un o'n sefydliadau partner Ewropeaidd trwy gyfrwng y Saesneg.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**

**Y Gyfraith:** AAA.

**Y Gyfraith a Ffrangeg:** AAA (i gynnwys gradd A mewn Ffrangeg)

**Y Gyfraith a'r Gymraeg:** AAA (i gynnwys gradd A Cymraeg iaith gyntaf)

**Y Gyfraith a Throseddeg/Gwleidyddiaeth:** AAA

Nid oes unrhyw bynciau penodol yn ofynnol. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Bagloriaeth Ryngwladol:** 36-34 neu 666 mewn 3 phwnc Lefel Uwch

**BTEC:** DDD-DDM. Ar gyfer y Gyfraith gyda Ffrangeg, DD ynghyd â gradd A mewn Ffrangeg Safon Uwch. Ar gyfer y Gyfraith gyda'r Gymraeg, DD a gradd A mewn Cymraeg iaith gyntaf Safon Uwch.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau amgen. Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

**Pob gradd**

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth):
Gradd B neu radd 6 mewn TGAU Saesneg Iaith.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio data cyd-destunol i sicrhau mynediad teg i fyfyrwyr o bob cefndir. Bydd ceisiadau cymwys yn arwain at gynnig ar un radd yn is na'r cynnig safonol. Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/contextual-data**

## Rhagor o wybodaeth


**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwyr: Ffôn: **(029) 2087 6102 +44 (0)29 2087 6102**

Ebost: **lawpladmissions@caerdydd.ac.uk**

**cardifflawschool** **@CardiffLaw**


## Ein gwaith Pro Bono

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chyfreithwyr, elusennau a sefydliadau gwirfoddol i roi'r cyfle i chi ymarfer ac ehangu eich sgiliau drwy amrywiaeth o gynlluniau pro bono.

Yn 2019, cafodd ein gwaith, sy'n darparu cymorth cyfreithiol hanfodol i'r rhai mewn angen, ei gydnabod yng Ngwobrau Pro Bono blynyddol LawWorks lle dyfarnwyd 'Cyfraniad Gorau gan Glinig Pro Bono' i ni.

Mae ein myfyrwyr wedi gwneud y canlynol:

- helpu i wrthdroi dwy euogfarn yn y Llys Apêl drwy eu gwaith fel rhan o Brosiect Dieuogrwydd Caerdydd
- adennill miloedd o bunnoedd ar gyfer unigolion a/neu deuluoedd sydd wedi talu ffioedd cartrefi nyrsio preifat
- darparu cefnogaeth gyfreithiol i glybiau a chwaraewyr rygbi
- cefnogi oedolion agored i niwed sydd wedi cael eu harestio.

## Gyrfaoedd

Mae ein graddedigion yn llanw swyddi allweddol ym mhroffesiwn y gyfraith, busnes, diwydiant a'r llywodraeth yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd a'r tu hwnt. I'ch helpu i gynllunio'ch gyrfa, mae gennym gynghorydd gyrfaoedd pwrpasol ac rydym yn darparu rhaglen yrfaoedd gynhwysfawr.

Dewisais i Gaerdydd gan ei bod yn brifysgol Grŵp Russell gyda chyfleoedd gwych i ddatblygu a dysgu, gydag addysgu o ansawdd uchel. Mae'n cynnig amrywiaeth o gefnogaeth a gwasanaethau i fodloni'ch anghenion. Dewisais i'r Gyfraith a Gwleidyddiaeth gan ei fod yn bwnc sy'n effeithio arnom ni fel unigolion o ddydd i ddydd ac ar gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

**Nirushan**, Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth (LLB)



## Mae gan Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth enw rhagorol am addysgu o'r radd flaenaf ar sail ymchwil sy'n rhyngwladol ei bri.

Byddwch yn cael eich addysgu gan arbenigwyr sy'n arwain y byd, a chewch gyfle i gael profiad ymarferol o'r gyfraith trwy amrywiaeth eang o fodiwlau addysg gyfreithiol glinigol a gweithgareddau pro bono, lle byddwch yn dod wyneb yn wyneb â heriau yn y byd go iawn. Mae gennym gyfraddau rhagorol o fodlonrwydd ymysg ein myfyrwyr ac mae'n lle deallusol ysgogol, cefnogol a chyfeillgar i astudio ynddo.

Yn ogystal â'r radd LLB draddodiadol, cynigiwn raddau LLB yn y Gyfraith a Throseddeg, y Gyfraith a Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith a'r Gymraeg, a gradd LLB pedair blynedd yn y Gyfraith a Ffrangeg.

Mae'r rhaglenni amlddisgyblaeth hyn yn cynnwys cydweithio agos rhwng y gyfraith a'r ddisgyblaeth bartner, ac maent yn tynnu ar gryfderau ac arbenigeddau'r Brifysgol yn ei chyfanrwydd.

## Gradd LLB yn y Gyfraith

Mae hon yn rhaglen radd anrhydedd llawn amser, tair blynedd o hyd. Mae Blwyddyn 1 yn cynnwys 120 credyd o fodiwlau gorfodol. Ym mlynyddoedd dau a thri, cewch ddewis gwerth 120 o gredydau o restr o bynciau dewisol. Seilir dosbarth terfynol y radd anrhydedd ar arholiadau blwyddyn 2 a'r flwyddyn olaf.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu yn y gwahanol fodiwlau, o ateb papurau arholiad ysgrifenedig i asesu gwaith cwrs. Dyma strwythur y cwrs presennol:

### Blwyddyn 1

Modiwlau sy'n ymdrin â chyfraith contractau, sylfeini cyfreithiol, y gyfraith gyhoeddus, a chyfraith trosedd.

### Blwyddyn 2 a 3

Ym mlynyddoedd dau a thri, byddwch yn astudio gwerth 120 credyd o fodiwlau bob blwyddyn, a ddewisir o'r rhestr o bynciau dewisol sydd ar gael fel rheol yn y flwyddyn dan sylw. Ar hyn o bryd mae'r modiwlau ar gyfer y rhaglen hon yn cynnwys y canlynol, ond bydd rhestr lawn o fodiwlau ar gyfer mynediad 2022 ar gael ar ein gwefan.

**Blwyddyn 2**

- Trosedd, y Gyfraith a Chymdeithas
- Gwahaniaethu a'r Gyfraith
- Tystiolaeth
- Cyfraith Ffrainc
- Cyfraith Tir
- Ymarfer Cyfreithiol: Sgiliau Sylfaen
- Cyfraith y Cyfryngau
- Camweinyddiad
- Cyfiawnder: Prosiect Dieuogrwydd Caerdydd
- Cymdeithaseg y Gyfraith
- Cyfraith Gamweddau
- Datganoli yng Nghymru

**Blwyddyn 3**

- Cyfraith Masnach
- Cyfraith Cwmnïau
- Traethawd hir
- Cyfraith yr Amgylchedd a Chyfiawnder
- Ecwiti ac Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Teulu
- Problemau Byd-eang a Theori Gyfreithiol
- Gofal Iechyd, Moeseg a'r Gyfraith
- Cyfraith Hawliau Dynol
- Eiddo Deallusol
- Y Gyfraith a Llywodraethu Ar Waith: Modiwl Lleoliad Gwaith
- Y Gyfraith a Llenyddiaeth
- Y Gyfraith yn y Gymuned: Prosiectau Addysg Gyfreithiol Glinigol
- Cyfraith yr UE
- Hanes y Gyfraith
- Cyfraith Chwaraeon

Os ydych chi'n ystyried cymhwyso fel bargyfreithiwr bydd angen i chi astudio'r Gyfraith Gamweddau, Cyfraith Tir, Cyfraith yr UE ac Ecwiti ac Ymddiriedolaethau. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn cael eu hargymell yn gryf ar gyfer y rhai sy'n bwriadu ymarfer fel cyfreithiwr. Yn ystod eich blwyddyn gyntaf, byddwch yn gallu gofyn am gyngor ar ba fodiwlau i'w dewis.

## LLB y Gyfraith a Ffrangeg

Ni oedd un o'r prifysgolion cyntaf yn y DU i gynnig cyfle i gyfuno astudiaeth o Gyfraith Lloegr nid yn unig â'r Ffrangeg, ond hefyd â Chyfraith a system gyfreithiol Ffrainc.

Mae'r cyfuniad, dros raglen pedair blynedd, yn baratoad gwych ar gyfer gweithio mewn cyd-destun rhyngwladol, boed hynny ym myd diwydiant, masnach, diplomyddiaeth neu ymarfer cyfreithiol. Yn academaidd, mae cymharu traddodiadau cyfreithiol gwahanol yn ehangu gorwelion deallusol ac yn dyfnhau eich gwerthfawrogiad o gysyniadau ac arferion cyfreithiol sylfaenol. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys blwyddyn dramor, pan fyddwch yn astudio Cyfraith Ffrainc gyda chyfle i gael *Licence en Droit* – sef gradd genedlaethol Ffrainc yn y Gyfraith.

### Blwyddyn 1

Byddwch yn astudio 120 o gredydau: Mae 40 o'r rhain yn fodiwlau Ffrangeg ac mae 80 yn fodiwlau ynghylch y gyfraith (Cyfraith Contractau, Sylfeini Cyfreithiol, Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith Trosedd).

### Blwyddyn 2

Mae eleni'n cynnwys modiwlau Ffrangeg a chyfraith Ffrainc uwch, a modiwlau cyfraith sylfaenol pellach (Camweddau, Tir a Throsedd).

### Blwyddyn dramor

Byddwch yn treulio eich blwyddyn dramor yn astudio cyfraith Ffrainc yng nghyfadran y gyfraith mewn prifysgol bartner (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Amiens, Nantes, Rennes neu Toulouse). Yn Amiens a Nantes, mae cyfle i astudio ar gyfer y *Licence en Droit* (gradd genedlaethol Ffrainc yn y Gyfraith) a chyflawni diploma ddwbl (un yn Ffrainc ac un ym Mhrydain) mewn pedair blynedd. Pe na fyddech yn dymuno cymryd y *Licence en Droit*, byddwch yn cyfuno astudio rhai o fodiwlau Cyfraith Ffrainc â chwblhau traethawd hir Ffrangeg yn cymharu agwedd ar gyfraith Lloegr a Ffrainc.

### Blwyddyn olaf

Wedi i chi ddychwelyd i Brifysgol Caerdydd, byddwch yn parhau i astudio Ffrangeg, yn ogystal ag o leiaf un modiwl ar gyfraith Lloegr. Fel arall, bydd gennych ddewis o blith rhagor o fodiwlau ar gyfraith Lloegr a/neu ddiwylliant a chymdeithas Ffrainc.

> Dyfarnwyd Gwobr Academaidd y DU Cymdeithas Cyfreithwyr Prydain Franco (FBLS) yn 2021 i'n rhaglen y Gyfraith a Ffrangeg am hyrwyddo dealltwriaeth gyfreithiol Franco-Brydeinig.

## LLB y Gyfraith a'r Gymraeg

Mae'r radd LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg yn fodd i chi gyfuno astudio'r Gyfraith a'r Gymraeg ac ystyried materion cyfreithiol sy'n arbennig o berthnasol i system gyfreithiol fodern Cymru. Byddwch yn astudio 120 o gredydau bob blwyddyn, 80 o gredydau yn y gyfraith a 40 o gredydau o Ysgol y Gymraeg.

### Blwyddyn 1

Byddwch yn astudio 120 o gredydau: 40 o Ysgol y Gymraeg ac 80 sy'n ymdrin â chyfraith contractau, sylfeini cyfreithiol, cyfraith gyhoeddus, a chyfraith trosedd.

### Blwyddyn 2 a 3

Mae pynciau gorfodol ym mlwyddyn dau; ar hyn o bryd y rhain yw Datganoli yng Nghymru ac Yr Iaith ar Waith. Ym mlwyddyn 3, byddwch yn dewis gweddill eich modiwlau o blith amrywiaeth fawr o opsiynau yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ac Ysgol y Gymraeg.



## LLB Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth
## LLB Y Gyfraith a Throseddeg

Ym mhob blwyddyn o’r radd, byddwch yn astudio modiwlau hyd at werth 120 o gredydau. Bydd 80 o'r credydau yn y gyfraith a bydd y 40 arall naill ai mewn modiwlau cymdeithaseg, troseddeg neu wleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol gan ddibynnu ar y pwnc rydych wedi'i ddewis.

Caiff y modiwlau dewisol yn y gyfraith ym mlynyddoedd dau a thri eu dewis o’r rhestr o bynciau sydd ar gael yn y flwyddyn dan sylw. Dewisir y modiwlau nad ydynt yn ymwneud â'r gyfraith o blith y rhai a gynigir gan Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a’r Adran Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol.

### Blwyddyn un
Byddwch yn astudio 120 o gredydau: Mae 40 yn ymwneud â throseddeg neu wleidyddiaeth, ac mae 80 yn ymwneud â modiwlau sylfaenol yn y gyfraith.

### Blynyddoedd dau a thri
Bydd 120 o gredydau bob blwyddyn. Bydd 80 o'r rhain mewn modiwlau'r gyfraith a bydd gweddill y modiwlau mewn troseddeg, neu wleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol.

## Newidiadau i'r rhaglen
Ym mhob un o’r rhaglenni gradd, adolygir y rhestr o fodiwlau sydd ar gael yn barhaus. Cadwn yr hawl i ychwanegu a dileu pynciau pan fo angen.

## Sylfaen ar gyfer ymarfer proffesiynol
Mae'r llwybrau at gymhwyster proffesiynol fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr wedi gweld newidiadau sylweddol yn ddiweddar.

Bydd angen i'r rhai sy'n dymuno cymhwyso fel cyfreithiwr gael gradd (neu gymhwyster cyfatebol) ond ni fydd angen iddynt ennill gradd yn y gyfraith mwyach. Yn hytrach, rhaid i ddarpar gyfreithwyr sefyll yr arholiad ar-lein canolog newydd, yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE), a gyflwynwyd ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, mae'r modiwlau sylfaenol a astudir fel rhan o radd yn y gyfraith yn cwmpasu rhai o'r pynciau a gaiff eu harholi yn yr SQE. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o fyfyrwyr yn parhau i ddewis gradd yn y gyfraith fel y cam cyntaf i ddod yn gyfreithiwr.

Hefyd, mae Bwrdd Safonau'r Bar (y corff rheoleiddio ar gyfer bargyfreithwyr) yn parhau i'w gwneud yn ofynnol astudio'r modiwlau sylfaenol cyn symud ymlaen i hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer y Bar.

Mae pob Rhaglen LLB yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth yn eich galluogi i astudio'r modiwlau sylfaenol hyn a thrwy hynny roi cychwyn cadarn i chi i'ch gyrfa yn y gyfraith.

## Astudiaethau ôl-raddedig
Gellir gwneud un o dri math o astudio ôl-raddedig yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:

### Astudiaethau ôl-raddedig a addysgir
Cynigiwn raglen LLM eang sy’n arwain at radd Meistr yn y Cyfreithiau (LLM). Gallwch ddewis astudio’r gyfraith heb arbenigo neu ddilyn un o’n rhaglenni arbenigol canlynol:

- Cyfraith Eglwysig
- Llywodraethiant a Datganoli
- Cyfraith Hawliau Dynol
- Cyfraith Eiddo Deallusol
- Cyfraith Masnach Gydwladol
- Agweddau Cyfreithiol ar Ymarfer Meddygol
- Cyfraith Llongau
- Cyfraith Gofal Cymdeithasol

### Hyfforddiant cyfreithiol proffesiynol
Ni yw'r unig Brifysgol Grŵp Russell sydd hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau i'ch paratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol. Rydym wedi ennill enw da dros nifer o flynyddoedd am gynnig darpariaeth o safon, sy'n uchel ei pharch yn y proffesiwn cyfreithiol.

Ar gyfer graddedigion sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y Bar rydym yn cynnig Cwrs Hyfforddiant y Bar (BTC). Cynigir hwn ar lefel LLM neu Pg Dip i roi hyblygrwydd i chi.

Ar hyn o bryd rydym hefyd yn darparu'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) ar lefelau LLM a Pg Dip ar gyfer graddedigion sy'n dymuno bod yn gyfreithwyr. (Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r llwybr at gymhwyso fel cyfreithiwr wedi newid, a bydd LPCau yn cael eu disodli maes o law gan gyrsiau newydd a gynlluniwyd i'ch paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE).)

Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi graddio mewn pwnc nad yw'n gysylltiedig â'r gyfraith, rydym yn cynnig y Diploma Graddedig yn y Gyfraith (GDL), cwrs trosi sy'n eich galluogi i astudio'r modiwlau sylfaenol a gwmpesir fel arfer mewn gradd yn y gyfraith.

### Darpariaeth Gymraeg
Rydym yn cynnig modiwlau craidd a dewisol trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob rhaglen LLB. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i chi weithio yn y byd cyfreithiol yng Nghymru, gwella eich gwybodaeth gyfreithiol, a meithrin sgiliau cyfathrebu y gellir eu cymhwyso i amgylcheddau dwyieithog ac amlieithog.


### Astudiaeth ymchwil ôl-raddedig
Cynigwn gyfleoedd i astudio’n amser llawn neu’n rhan amser ar gyfer graddau MPhil/PhD.

# Mathemateg

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**

**Blwyddyn dramor**

**Lleoliad proffesiynol**



## Pam dewis **Mathemateg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae ein rhaglenni wedi'u **hachredu** i fodloni gofynion addysgol y dyfarniad **Mathemategydd Siartredig** a gynigir gan y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau.

Rydym ni'n cynnig rhaglen **blwyddyn dramor** a rhaglen **lleoliadau proffesiynol** fel y gallwch ddatblygu gwybodaeth fathemategol mewn amgylcheddau gwahanol.

Mae ein rhaglenni'n **hyblyg**, ac yn eich galluogi i arbenigo yn eich maes o ddiddordeb wrth i chi symud ymlaen drwy'r cwrs.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael gwybod rhagor: **www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Mae ein graddau deallusol a chyffrous yn cynhyrchu graddedigion â **sgiliau cyflogadwyedd allweddol** y mae galw amdanynt yn y sector cyhoeddus yn ogystal â'r sector preifat.

Roedd **100%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Mathemateg (MMath)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | G101 |
| (Pum mlynedd) (gyda Blwyddyn Dramor) | G104 |
| (Pum mlynedd) (gyda Blwyddyn ar Leoliad) | G112 |

**Mathemateg (BSc)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | G100 |
| (Pedair blynedd) (gyda Blwyddyn ar Leoliad) | G105 |
| (Pedair blynedd) (gyda Blwyddyn Dramor) | G103 |

**Mathemateg, Ymchwil Weithrediadol ac Ystadegaeth (BSc)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | G991 |
| (Pedair blynedd) (gyda Blwyddyn ar Leoliad) | G990 |
| (Pedair blynedd) (gyda Blwyddyn Dramor) | GG23 |

**Mathemateg, Ymchwil Weithrediadol ac Ystadegaeth (MMORS)**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | 252D |
| (Pum mlynedd) (gyda Blwyddyn ar Leoliad) | G901 |
| (Pum blynedd) (gyda Blwyddyn Dramor) | 252F |

**Mathemateg Ariannol (BSc)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | I5R4 |
| (Pedair blynedd) (gyda Blwyddyn ar Leoliad) | I5R6 |
| (Pedair blynedd) (gyda Blwyddyn Dramor) | I5R5 |

### Cydanrhydedd

**Mathemateg a Cherddoriaeth (BA)**

| | |
|---|---|
| (Tair blynedd) | GW13 |
| (Pum mlynedd) (gyda Blwyddyn Dramor) | GW31 |

**Achrediad**

Mae ein cyrsiau wedi'u hachredu gan y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau (IMA).

**Yn ddiweddar, mae'r Ysgol Mathemateg** wedi symud i Abacws, cyfleuster newydd o'r radd flaenaf sy'n cael ei rannu gyda'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg.

Gyda darlithfeydd hyblyg ac ystafelloedd seminar â chynlluniau arloesol i annog rhyngweithio, mannau penodol ar gyfer gwaith prosiect myfyrwyr, ac Ystafell Fasnachu efelychiadol newydd ar gyfer Mathemateg Ariannol, mae ein cartref newydd yn dal i fod yn agos at Undeb y Myfyrwyr, preswylfeydd myfyrwyr a chanol y ddinas.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch**

**Holl raglenni anrhydedd sengl:** AAB-ABB gan gynnwys o leiaf gradd A mewn Mathemateg.

**BA (cydanrhydedd cerddoriaeth):** ABB gyda gradd A, o leiaf, mewn Mathemateg a gradd B, o leiaf, mewn Cerddoriaeth. Disgwylir i bob ymgeisydd cydanrhydedd gyda cherddoriaeth fod wedi cyrraedd neu wedi dangos tystiolaeth o weithio tuag at radd 8 mewn un offeryn neu lais. Gellir derbyn Gradd 8 Ymarferol a Gradd 8 Theori yn lle Safon Uwch mewn cerddoriaeth.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 36-34 pwynt neu 666-665 mewn 3 phwnc Lefel Uwch, i gynnwys 6 mewn Mathemateg Lefel Uwch neu Ddadansoddiad a Dulliau Mathemateg Lefel Uwch. Bydd Ceisiadau a Dehongliadau Mathemateg Lefel Uwch yn cael eu hystyried fesul achos ond ni chânt eu derbyn fel safon mynediad.

**BTEC:** DD yn ogystal â gradd A mewn Mathemateg Safon Uwch.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Pob gradd**

**Uwch Gyfrannol:** Ar wahân i Fathemateg, gellir ystyried dau bwnc UG yn lle trydydd pwnc Safon Uwch.

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth):
Gradd C neu radd 4 mewn TGAU Saesneg Iaith.
Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 200 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 800

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Cyfarwyddwr Derbyn Myfyrwyr: **Dr Matthew Lettington**

Ebost: **lettingtonmc@caerdydd.ac.uk**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr: **Caroline Frame**

Ffôn: **(029) 2087 4811 +44 (0)29 2087 4811**

Ebost: **framec@caerdydd.ac.uk**

**MathsCU** **@MathsCU**

## Gyrfaoedd

Mae gan yr Ysgol Mathemateg gysylltiadau rhagorol â diwydiant, ac mae'n mwynhau rhaglen weithredol wedi'i thargedu o ddigwyddiadau gyrfaoedd trwy gydol y flwyddyn academaidd. Rydym yn trefnu Gweithdai Lleoliadau rheolaidd i'ch helpu i sicrhau eich lleoliad delfrydol, yn ogystal â sesiynau "Work@1" yn ystod amser cinio, lle rydym yn gwahodd enwau mawr o'r byd diwydiant, er enghraifft Lloyds Banking Group, Network Rail, Admiral a Llywodraeth Cymru, i roi anerchiadau a chwrdd â'r myfyrwyr. Mae galw mawr am ein graddedigion yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, fel ei gilydd, nid yn unig oherwydd eu gallu mathemategol, ond hefyd oherwydd eu sgiliau cyfathrebu rhagorol a'u ffordd resymegol o feddwl. Mae nifer o'n graddedigion yn mynd i weithio mewn meysydd megis cyllid, ymgynghori busnes, addysg, llywodraeth, gofal iechyd ac amddiffyn, tra bo eraill yn dewis parhau â'u hastudiaethau mathemategol trwy ddilyn rhaglen MSc neu PhD.

## Astudio Mathemateg yw un o'r gweithgareddau deallusol hynaf. Mae'n treiddio i bob cangen o wyddoniaeth, ac mae'n berthnasol iawn i'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Bydd ein rhaglenni gradd yn rhoi sgiliau rhifiadol arbenigol i chi ac yn datblygu eich gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn ddadansoddol. Mae'r rhain yn nodweddion y mae galw amdanynt ar draws amrywiaeth eang o yrfaoedd ysgogol a gwerth chweil.

Mae blwyddyn un yn debyg i'n holl raglenni gradd er mwyn darparu sylfaen gadarn mewn hanfodion mathemateg, cyn i chi gael cyfle i astudio ystod eang o fodiwlau yn y blynyddoedd dilynol. Mae hyn yn adlewyrchu ehangder yr arbenigedd ymchwil yn yr Ysgol.

Mae ein hymchwil yn wirioneddol ryngddisgyblaethol ac rydym wedi darparu atebion i broblemau cyfoes megis diogelwch data ac amserau aros mewn ysbytai. Mae gennym hefyd gysylltiadau agos â byd diwydiant, masnach a chanolfannau ymchwil allanol drwy waith contract ac ymgyngoriaethau.

Rydym yn cynnig amgylchedd arloesol a chyfeillgar, a bydd gennych chi diwtor personol i gynnig cyngor bugeiliol, arweiniad a chymorth a'ch helpu i fyfyrio ar eich datblygiad academaidd a phersonol.

Mae ein sesiynau cymorth Mathemateg poblogaidd yn cynnig cymorth a chefnogaeth ychwanegol i unrhyw fyfyrwyr sydd eu hangen mewn naill ai sesiynau galw heibio un-i-un neu grwpiau bach.

Bydd ein gwefan yn cynnwys y rhestr ddiweddaraf o fodiwlau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob rhaglen radd.

### MMath Mathemateg

Mae'r rhaglen yn cynnig lefel uwch o hyfforddiant mathemategol nag sydd ar gael mewn rhaglen tair blynedd. Mae'r modiwlau a gynigir yn ystod y tair blynedd gyntaf yn gyffredin i'r rhaglenni gradd tair blynedd mewn Mathemateg. Yn eich blwyddyn olaf, bydd y cwrs yn datblygu hyfforddiant mewn ymchwil a sgiliau mathemategol uwch, yn enwedig mewn meysydd megis dadansoddi mathemategol a dynameg hylifol.

Byddwch hefyd yn gwneud darn pwysig o waith prosiect lle byddwch yn gwneud gwaith ymchwil newydd. Mae'r cwrs yn ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr sy'n awyddus i gael dealltwriaeth ddyfnach o fathemateg, yn enwedig os ydych yn ystyried gyrfa ymchwil neu am weithio i gwmni technolegol.

### BSc Mathemateg

Rhaglen y radd BSc mewn Mathemateg yw ein rhaglen fwyaf hyblyg, gan fod modd i chi ddewis pynciau o holl ystod y meysydd mathemategol: mathemateg bur, mathemateg gymhwysol, ystadegaeth, ymchwil weithrediadol a chyfrifiadura.

Bydd yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich diddordebau. Mae amrywiaeth eang o fodiwlau arbenigol ar gael mewn pynciau megis theori codio a chywasgu data, clymau, rhaglennu mathemategol, cloddio data, dynameg hylifol, ystadegaeth swyddogol ac ymchwil weithrediadol.

### MMORS Mathemateg, Ymchwil Weithrediadol ac Ystadegaeth

Mae ein cwrs MMORS Mathemateg, Ymchwil Weithrediadol ac Ystadegaeth, sy'n bedair blynedd o hyd, yn cynnig y cyfle i gloddio yn ddyfnach i feysydd mathemateg bur a chymhwysol, ystadegaeth ac ymchwil weithrediadol nag sy'n bosibl ar gwrs BSc ac yn cynnig sylfaen gref mewn theori a thechnegau mathemategol cyffredinol.

Wedi'i chynllunio ar gyfer y rheini sydd â meddwl ymchwilgar, mae'r radd hon yn cynnig ystod o fodiwlau mathemateg sydd wedi'u dylunio i herio ac ysgogi eich chwilfrydedd academaidd. Byddwch yn astudio modiwlau mathemateg bur, ystadegaeth ac ymchwil weithrediadol sy'n gysylltiedig â modiwlau dewisol o feysydd mathemateg gymhwysol a chyfrifiadureg. Mewn blynyddoedd diweddarach, bydd y pwyslais ar ffyrdd uwch o roi theori ystadegaeth ac ymchwil weithrediadol fodern ar waith. Trwy gydol eich astudiaethau, rydym yn eich cefnogi i ddod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gallu mynd i'r afael â phroblemau anweledig yn effeithiol.

### BSc Mathemateg, Ymchwil Weithrediadol ac Ystadegaeth

Mae'r rhaglen radd BSc hon yn cyplysu arbenigedd ar ystadegaeth ac ymchwil weithrediadol ag astudiaeth o egwyddorion mathemateg. Mae ymchwil weithrediadol yn arwain ymlaen o fathemateg penderfyniadau, ac mae wedi'i seilio ar y cysyniad o ddefnyddio mathemateg i gael hyd i atebion ansawdd uchel i broblem go iawn neu gyfres o broblemau a'u mesur.

Bydd y pwyslais yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf ar gymhwyso ystadegaeth ac ymchwil weithrediadol, yn enwedig mewn diwydiant a masnach. Mae gennym gysylltiadau cryf â sefydliadau lleol megis y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyfleoedd am leoliadau cystadleuol ar gyfer myfyrwyr ar y rhaglen lleoliadau proffesiynol.



Mae Abacws, ein hadeilad newydd hardd, yng nghanol ein campws yng Nghaerdydd

> Mae Mathemateg Ariannol ym Mhrifysgol Caerdydd yn unigryw; llwyddais i gymryd modiwlau mathemateg bur yn ogystal â chanolbwyntio ar ystadegaeth, cyllid, rhaglennu a masnachu. Dewisais astudio yng Nghaerdydd oherwydd y diwylliant y mae'r ddinas yn ei ddarparu a mynediad at ymchwilwyr a darlithwyr gorau Grŵp Russell mewn mathemateg.
>
> **Ben**, Mathemateg Ariannol (BSc)






## BSc Mathemateg Ariannol

Yn ogystal â dealltwriaeth dda o'r marchnadoedd a'r sefydliadau ariannol, mae astudiaethau cyllid modern yn mynnu cymhwysedd mewn technegau modelu cymhleth a dadansoddi mathemategol ac ystadegol yn ogystal â gwybodaeth am gynhyrchion ariannol arloesol, rheoliadau a strategaethau.

Mae'r rhaglen hon yn defnyddio damcaniaethau ac offerynnau mathemateg, ystadegaeth a chyllid i ganolbwyntio ar faterion a phynciau sy'n berthnasol i ochr gyfrifiadurol a dylunio marchnad cyllid cyfoes. Mae'r rhaglen wedi'i theilwra i ymateb i anghenion y rhai sydd â diddordeb mewn systemau cymhleth, masnachu (yn arbennig masnachu amledd uchel), rheoli cronfeydd, dadansoddeg a phynciau eraill pellgyrhaeddol yn y byd ariannol.

Byddwch yn cael cyfleoedd gyrfa ardderchog mewn llawer o feysydd ariannol gan gynnwys rheoli asedau, rhagfantoli, masnachu, dadansoddi a bancio buddsoddi.

## Rhaglenni gradd cydanrhydedd

### BA Mathemateg a Cherddoriaeth

Mae gwybodaeth am Gerddoriaeth ar gael ar dudalen 118.

## Lleoliad proffesiynol

Gallwch dreulio eich trydedd flwyddyn i ffwrdd o'r Brifysgol ar leoliad proffesiynol cyflogedig drwy gofrestru ar fersiynau pedair blynedd o'n rhaglenni gradd. Byddwch yn cael cymorth yn ystod eich ail flwyddyn i gyflwyno cais a pharatoi ar gyfer lleoliadau. Gellir cyflawni'r rhain gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr ar draws y diwydiant a'r llywodraeth, gan gynnwys llawer yn y gwasanaethau ariannol, y diwydiant fferyllol, manwerthu a sefydliadau megis y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Fel gweithiwr, bydd eich gwaith yn cael ei oruchwylio'n uniongyrchol gan ddarparwr y lleoliad, a byddwn yn monitro eich cynnydd academaidd. Yn ddiweddar mae myfyrwyr wedi cwblhau lleoliadau mewn sefydliadau megis Grŵp Bancio Lloyds, Rolls-Royce, y Weinyddiaeth Amddiffyn, GlaxoSmithKline, Llywodraeth Cymru, Deloitte, a Rheolaeth Traffig Awyr.


Fel un a raddiodd gyda blwyddyn o brofiad ar leoliad, bydd gennych sgiliau personol a phroffesiynol sylweddol yn barod ar gyfer marchnad swyddi gystadleuol.

## Blwyddyn dramor

Fel rhan o'n rhaglenni gradd pedair blynedd gallech dreulio'ch trydedd flwyddyn yn astudio mathemateg mewn prifysgol dramor. Mae gennym gytundebau gyda nifer o sefydliadau ar draws Ewrop, yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia. Cewch gymorth i wneud cais i dreulio eich trydedd flwyddyn dramor ac, mewn rhai achosion, mae arian ar gael ar gyfer costau teithio a byw. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion.

## Gwaith prosiect

Ym mlwyddyn olaf unrhyw un o'n rhaglenni gradd BSc anrhydedd sengl, gall prosiect gymryd lle un neu ddau fodiwl. Mae gwneud gwaith prosiect dan oruchwyliaeth yn gyfle gwych i chi gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgoch yn eich cyrsiau ffurfiol at ymchwilio i broblem mewn mathemateg, ystadegaeth neu gyfrifiadura.



# Meddygaeth

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Meddygaeth** neu **Ffarmacoleg Feddygol** ym Mhrifysgol Caerdydd?

"Cefais fy ngoruchwylio gan y bobl orau yn eu maes!"

**Dr Poorya Moghbel,**
**myfyriwr graddedig Ffarmacoleg Feddygol**

Roedd **99%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl i'w cwrs orffen.*

**95%**
o'n myfyrwyr Meddygaeth yn dweud bod eu cwrs yn ddeallusol ysgogol. (NSS 2021)

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfle i astudio rhan o'ch gradd mewn Meddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae ysgoloriaethau ar gael hefyd.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

**Dysgwch sgiliau iaith trosglwyddadwy** - gall dysgu sut i gyfathrebu â chleifion sy'n siarad iaith gyntaf sy'n wahanol i'ch iaith gyntaf chi fynd â chi i unrhyw le yn y byd fel meddyg.

Rydych yn dod i **gysylltiad cynnar â chleifion** ac yn gweithio gyda nhw o flwyddyn gyntaf eich gradd Meddygaeth.

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

**Meddygaeth MBBCh**

| | |
|---|---|
| (Pedair blynedd) | A101 |
| (Pedair blynedd) | A102 |
| (Pum mlynedd) | A100 |

**Achrediad**

Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu hachredu gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer: A100**: 265 o'r DU a hyd at 25 o fyfyrwyr rhyngwladol.
**A101** ac **A102** Ffrwd cyflenwi Mynediad i Raddedigion Meddygaeth: hyd at 40 lle.
**Nifer y ceisiadau fel arfer:** Mae nifer y ceisiadau fesul lle A100 fel arfer oddeutu 10:1. Mae'r gymhareb yn amrywio ar gyfer cyrsiau eraill.

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:

Ffôn: **(029) 2068 8113**
**+44 (0)29 2068 8113/8037**
Ebost: **medadmissions@caerdydd.ac.uk**

**CardiffC21** **@CardiffMBBChC21**

## Gofynion mynediad Meddygaeth nodweddiadol

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig gennym bob amser wedi cael cyfweliad yn gyntaf.

### A100 Rhaglen pum mlynedd

**GCSE (a chyfwerth):** Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** Graddau AAA. Rhaid i'r rhain gynnwys Cemeg a Bioleg.

Bydd angen i ymgeiswyr sy'n cyflawni cymhwyster Safon Uwch mewn Gwyddoniaeth basio'r elfen hon lle nodir ardystiad ymarferol ar wahân.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** Bydd angen cyfanswm o 36 pwynt i gyd (ac eithrio gwybodaeth theori a'r traethawd estynedig) ar ymgeiswyr er mwyn cael eu derbyn. Rhaid sicrhau o leiaf 19 pwynt yn y pynciau Lefel Uwch, sy'n cynnwys sgôr o 7, 6, 6. Rhaid cynnig dwy wyddoniaeth (o blith Cemeg, Bioleg, Ffiseg, a naill ai Mathemateg neu Ystadegaeth) ar Lefel Uwch.

**Mynediad i raddedigion:** Bydd mynediad i raddedigion (ar gyfer rhaglen A100) yn cael ei ystyried yn achos ymgeiswyr sydd yn rhagweld (neu sydd wedi cyflawni) gradd anrhydedd dosbarth 1af neu 2:1 ac sydd hefyd wedi cyflawni isafswm o BBB mewn pynciau safon uwch a B mewn Saesneg Iaith a B mewn Mathemateg ar lefel TGAU. Rhaid bod gan raddedigion naill ai Cemeg a Bioleg/Bioleg Ddynol Safon A2, neu fod wedi astudio cwrs gradd sy'n rhoi digon o sylfaen yn y gwyddorau hynny.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor. Gweler: www.cardiff.ac.uk/cy/medicine/courses i gael mwy o wybodaeth.

### Rhaglenni Mynediad i Raddedigion pedair blynedd A101 ac A102

**Dyma raglen bedair blynedd benodol ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi ymrestru ar hyn o bryd ar un o'n pedair rhaglen ffrwd fwydo gydnabyddedig.** Cewch fanylion y cyrsiau hyn ar dudalen 109. Gall nifer fach o fyfyrwyr eithriadol sy'n graddio o'r rhaglenni Ffrwd Fwydo â gradd dosbarth cyntaf neu 2:1 (Anrh), gyflwyno cais i A101 neu A102, gan fynd i ail flwyddyn y rhaglen MBBCh A100 bum mlynedd. Gall pobl nad ydynt wedi graddio wneud ceisiadau mewnol i A102 yn ystod blwyddyn gyntaf ein gradd A100.

**TGAU (a chyfwerth)**: Ewch i'n gwefan.

**Safon Uwch**: Graddau BBB/ABC Safon Uwch mewn unrhyw bynciau sy'n dderbyniol gan y cwrs bwydo y bwriadwch ei ddilyn gyntaf. Cyfeiriwch at ein polisi derbyn, sydd i'w weld ar ein gwefan, i gael gwybodaeth lawn.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

### Gofynion ychwanegol

**Prawf Tueddfryd Clinigol Prifysgolion (UCAT):**
Ar gyfer y rhaglenni A100, A101 ac A102, bydd gofyn i chi sefyll Prawf Tueddfryd Clinigol y Brifysgol ar unrhyw adeg rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref yn yr un flwyddyn ag y byddwch yn gwneud cais, oni bai eich bod wedi cwblhau gradd neu wedi ymrwymo i radd.

Nid oes gennym sgôr ofynnol ar gyfer yr UCAT, fodd bynnag, gellir defnyddio'r sgôr yn rhan o'r broses ddethol.

Rhagor o wybodaeth am UCAT yn **www.ucat.ac.uk.**

**Gofynion anacademaidd:** Asesir ymgeiswyr ar feini prawf anacademaidd gan ddefnyddio'r wybodaeth yn eu Datganiad Personol UCAS ac Adroddiad y Dyfarnwr.

Rydym yn chwilio am:

- gipolwg ar yrfa mewn Meddygaeth
- tystiolaeth o brofiad a myfyrio mewn amgylchedd gofal
- tystiolaeth a myfyrio ar gyfrifoldeb personol
- tystiolaeth o agwedd gytbwys at fywyd
- tystiolaeth o ddysgu hunangyfeiriedig.

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn yr asesiadau academaidd ac anacademaidd, fel ei gilydd, yn cael eu gwahodd i gyfres o gyfweliadau byr.



## Mae'r Ysgol Meddygaeth yn un o'r ysgolion meddygol mwyaf yn y DU, gydag enw da rhyngwladol am ei haddysgu a'i hymchwil.

Mae ein rhaglen Meddygaeth MBBCh, rydym yn ei galw yn C21, yn cynnwys y technegau dysgu ac addysgu diweddaraf, i ddiwallu anghenion iechyd y cyhoedd. A chithau'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, bydd eich dysgu yn canolbwyntio ar achosion clinigol. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall anghenion eich cleifion wrth feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar feddyg.

## Rhaglenni gradd

Mae tair ffordd o ennill MBBCh ar UCAS:

- **A100** y rhaglen israddedig pum mlynedd safonol
- **A101** cynllun mynediad pedair blynedd i raddedigion (drwy ein ffrydiau bwydo penodol yn unig)
- **A102** cynllun Mynediad Graddedigion pedair blynedd (trwy ein ffrydiau cyflenwi arbenigol neu drwy ddilyn un flwyddyn o A100 yn unig), gyda phob un o'r pedair blynedd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru (C21 Gogledd Cymru)

Er bod pwyntiau mynediad gwahanol i'n rhaglenni, mae eu cwricwlwm craidd cyffredin yn cynnig:

- ymagwedd integredig sy'n addysgu'r wyddoniaeth ddiweddaraf yng nghyd-destun ymarfer clinigol
- y claf a'r profiad clinigol yw canolbwynt eich dysgu
- lleoliadau clinigol cynnar a helaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gofal iechyd
- dysgu sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr gyda rhaglen strwythuredig, gan gynnwys gwaith grŵp bach, ymgynghoriadau â chleifion, darlithoedd, seminarau, e-ddysgu hunangyfeiriedig a chymorth
- addysgu gan ymchwilwyr a chlinigwyr rhyngwladol eu bri
- cyfleusterau addysgu helaeth gydag ystod eang o sgiliau clinigol ac adnoddau dysgu gwyddorau bywyd
- blwyddyn olaf, rydym yn ei galw'n Flwyddyn Bontio, a ddatblygwyd yn benodol i'ch helpu i drosglwyddo'n llyfn i ddod yn feddyg
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu anatomeg, gan gynnwys dyrannu, difynu a delweddu digidol.

Rydym yn cynnig dau gyfle arloesol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru:

- mae Llwybr Addysg Gymunedol a Gwledig (CARER) yn rhoi cyfle i nifer o fyfyrwyr dreulio blwyddyn o'u haddysg mewn meddygfeydd teulu ac ysbytai yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr ar y cynllun hwn wedi'u lleoli yn Aberystwyth a Bangor
- C21 Gogledd Cymru yw ein cwricwlwm ar gyfer myfyrwyr A102, a fydd â Phrifysgol Bangor yn ganolfan iddynt. Mae eu ffocws clinigol yng ngogledd Cymru ac maent yn graddio gyda MBBCh Prifysgol Caerdydd.

### Rhaglen MBBCh pum mlynedd (A100)

Dyma'r rhaglen bum mlynedd safonol sy'n arwain at y radd MBBCh. Mae ar gael i fyfyrwyr sydd â Safon Uwch mewn gwyddoniaeth briodol (neu gyfwerth).

### Rhaglen MBBCh pedair blynedd i raddedigion drwy ffrwd fwydo (A101 a A102)

Mae nifer gyfyngedig o leoedd ar gael ar y rhaglen hon i fyfyrwyr sydd wedi llwyddo i gwblhau un o'r pedair rhaglen radd tair blynedd cydnabyddedig.

- Gradd BSc (Anrh) Ffarmacoleg Feddygol o Brifysgol Caerdydd (B210)
- Gradd BSc (Anrh) yn y Gwyddorau Biofeddygol o Brifysgol Caerdydd (BC97)
- BMedSci (Anrh) Gwyddorau Meddygol, Prifysgol Bangor (B100)
- Gradd BSc (Anrh) yn y Gwyddorau Meddygol, o Brifysgol De Cymru (B901).

Byddwch yn cwblhau cwrs paratoadol tair wythnos ac yna'n ymuno â blwyddyn 2 o'r rhaglen A100 yng Nghaerdydd (A101) neu ogledd Cymru (A102). (Caiff y rhain eu disgrifio'n fanylach yn y wybodaeth am flynyddoedd 2, 3, 4 a 5 yn ddiweddarach yn y prosbectws hwn).

Mae'r ysgol haf wedi'i chynllunio i gyflwyno Dysgu ar Sail Achosion (CBL) a dechrau datblygu eich sgiliau clinigol.

## Gyrfaoedd

**Swyddi:**

Gofal acíwt, anaestheteg, cardioleg, academia glinigol, dermatoleg, meddygaeth frys, practis cyffredinol, gofal dwys, meddygaeth, niwroleg, meddygaeth alwedigaethol, obstetreg a gynaecoleg, offthalmoleg, orthopaedeg, pediatreg, patholeg, seiciatreg, iechyd y cyhoedd, llawfeddygaeth, radioleg a mwy – mae gyrfaoedd mewn dros 60 o arbenigeddau meddygol yn agored i'n graddedigion.

**Cyflogwyr**

Y GIG, meddygfeydd teulu, y Lluoedd Arfog, y sector iechyd preifat neu'r sector gwirfoddol, prifysgolion yn y DU a ledled y byd, gydag amrywiaeth eang o rolau ar draws cymdeithas lle mae angen gwybodaeth feddygol neu sgiliau clinigol.

**Mae'r Ysgol yn Adeilad Cochrane** – datblygiad gwerth miliynau lawer o bunnoedd ar Gampws Parc y Mynydd Bychan ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru, ac un o ysbytai athrofaol mwyaf y DU.

> Mae astudio meddygaeth yng Nghymru wedi bod yn brofiad gwych i mi. O addysgu anatomeg ymarferol a chael profiad clinigol cynnar i addysgu gwych mewn ystod enfawr o gyfleusterau, mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig y cyfan! Mae astudio mewn prifysgol ymchwil flaenllaw yn golygu digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil arloesol. Rydym hefyd yn treulio llawer o amser gyda chleifion ac mae'r ysgol feddygaeth yn ein cefnogi fel ein bod yn gallu gwneud beth bynnag a wnawn yn dda.
>
> Ar ôl pedair blynedd, gallaf wir alw Cymru'n ail gartref i mi. Gyda digwyddiadau cymdeithasol a chymdeithasau diddiwedd (chwaraeon, diwylliannol, celfyddydol – mae digon o ddewis!) a phopeth o draethau a mynyddoedd i gyngherddau a chlybiau nos, mae yna rywbeth i bawb. Mae costau byw yma yn eithaf isel felly gallwn fwynhau mwy am lai! Petawn i'n cael y dewis eto i astudio Meddygaeth, byddai Prifysgol Caerdydd ar frig fy rhestr yn bendant.
>
> **Ritty**, Meddygaeth (MBBCh)



## Gwybodaeth am ein rhaglenni

Dysgu gyda chleifion, er budd y cleifion – dyna hanfod ein cwrs MBBCh. O'r flwyddyn gyntaf, bydd hyn yn cael ei roi mewn cyd-destun wrth i chi dreulio amser gyda chleifion mewn lleoliadau clinigol. Wrth i chi ddatblygu eich sgiliau, byddwch yn gweld mwy o gleifion â chyflyrau mwy cymhleth, ac yn chwarae rhan gynyddol amlwg yng ngofal eich cleifion. Rydym yn addysgu mewn lleoliadau clinigol ledled Cymru, yn ein hysbytai addysgu a chymunedol yn ogystal â mewn dros 200 o feddygfeydd a chanolfannau meddygol cymunedol eraill. Byddwch yn datblygu eich sgiliau a'ch ymddygiadau proffesiynol drwy gydol y cwricwlwm. Felly, pan fyddwch yn graddio, byddwch yn gwbl barod i wynebu'ch gyrfa fel meddyg.

Dyma strwythur ein cwrs C21:

### Blynyddoedd 1 a 2 (Cam 1 C21) – Gwyddoniaeth Greiddiol ac Ymarfer Clinigol

Yng Ngham 1, rydych chi'n dysgu gwyddoniaeth greiddiol a sut i'w chymhwyso i'ch ymarfer clinigol wrth drin cleifion.

#### Llwyfan ar gyfer y gwyddorau clinigol

I'ch paratoi i wynebu'r rhaglen heriol a chyffrous o astudio sydd o'ch blaen, o ddechrau blwyddyn 1 byddwn yn eich cyflwyno i'r wybodaeth greiddiol, y sgiliau a'r ymddygiad y disgwylir i feddyg eu dangos.

- Bydd eich 12 wythnos gyntaf yn ymdrin â hanfodion anatomeg, biocemeg, ffisioleg, bioleg y gell a'r moleciwl, imiwnoleg, microbioleg a phatholeg. Byddwch hefyd yn dechrau datblygu'r sgiliau cyfathrebu, y sgiliau clinigol sylfaenol a'r proffesiynoldeb sy'n ofynnol mewn meddyg
- Rhoddir pwyslais ar gynnal sesiynau mewn grwpiau bach, ond cewch hefyd ddarlithoedd, gwaith labordy a sesiynau yn y Ganolfan Anatomeg.

#### Achosion clinigol

Mae gweddill blynyddoedd 1 a 2 yn seiliedig ar gyfres o senarios clinigol sy'n cysylltu'r gwyddorau sylfaenol â chyflyrau clinigol cyffredin.

- Byddwch yn dysgu sut i drin problemau meddygol ar sail egwyddorion sylfaenol a datblygu eich sgiliau rhesymu gwyddonol
- Cefnogir y sesiynau grŵp bach â hwyluswyr gan ddarlithoedd rhyngweithiol, gyda mynediad at adnoddau gwyddor bywyd a sgiliau clinigol
- Mae moeseg, proffesiynoldeb a datblygiad personol a chyswllt â chleifion i gyd yn gysylltiedig â'r achosion rydych yn gweithio arnynt
- Er mwyn rhoi profiad go iawn i chi o achosion o'r fath, bydd cyfleoedd profiad clinigol cynnar yn ne-ddwyrain Cymru yn eich galluogi i gwrdd â chleifion a staff y GIG sy'n briodol i'r achos i ategu eich elfen Dysgu ar Sail Achosion
- Cewch eich addysgu yn ein cyfleusterau pwrpasol yn Adeilad Cochrane (ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd) ac yn Ysgol y Biowyddorau, a chewch fynd yn eich tro i'r Canolfannau Dysgu ac Addysgu Clinigol rhanbarthol yn y Fenni, Caerdydd, Merthyr Tudful a Chasnewydd.

### Blynyddoedd 3 a 4 (Cam 2 C21) – Dysgu Gofalu

Yn ystod y ddwy flynedd yma, byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o'r system gofal iechyd ac o 'lwybrau' cleifion. Byddwch yn treulio rhan fwyaf eich amser ar leoliadau clinigol.

- Dros y ddwy flynedd hyn, bydd chwe lleoliad 8 wythnos o hyd ledled Cymru yn rhoi profiadau dysgu clinigol niferus i chi a phrofiad gwerthfawr o fywyd fel meddyg rheng flaen
- Mae'r lleoliadau clinigol ym mlwyddyn 3 yn cynnwys gofal acíwt ('Cyntedd yr Ysbyty'), gofalu am bobl â chyflyrau cronig megis diabetes, ynghyd â lleoliad Oncoleg lle byddwch yn dysgu am ofal a thriniaeth ar gyfer cleifion â chanser
- Yn eich pedwaredd flwyddyn, byddwch yn canolbwyntio ar ofal arbenigol a chymhleth. Mae pwyslais arbennig ar y claf oedrannus ac anghenion meddygol penodol plant, menywod a'r teulu ynghyd â Niwrowyddoniaeth Glinigol, Offthalmoleg a Meddygaeth Seicolegol
- Gan weithio'n rhan o dîm clinigol, byddwch yn dysgu hanfodion gofal rhagorol, yn magu hyfedredd wrth asesu, ac yn dod yn fwyfwy cymwys o ran ymchwilio i glefydau cyffredin, eu rheoli a'u trin
- Rhwng lleoliadau, byddwch yn dysgu hanfodion ymarfer meddygol da a'r wyddoniaeth y bydd arnoch ei hangen fel meddyg cymwys. Cewch hefyd eich addysgu gan arbenigwyr ar batholeg, therapiwteg, y gwyddorau cymdeithasol, moeseg a sgiliau clinigol a chyfathrebu.

#### Rhowch gynnig ar rywbeth gwahanol

Mae C21 yn rhoi cyfle i rai myfyrwyr dreulio blwyddyn 3 wedi'u hymsefydlu mewn cymuned wledig yn Aberystwyth neu Fangor. Mae gan y myfyrwyr hyn gyfle i astudio'r un cwricwlwm â'u cyfoedion yng Nghaerdydd ond mewn lleoliad gwahanol. Mae eu dysgu yn cael ei hwyluso gan dîm bach o glinigwyr ymroddedig, wedi'u cefnogi'n llawn gan Brifysgol Caerdydd a goruchwyliwr addysg glinigol leol. Mae adborth myfyrwyr ar y rhaglen hon yn gadarnhaol iawn.

### Blwyddyn pump, y 'Flwyddyn Bontio' (Cam 3 C21) – Paratoi ar gyfer Ymarfer

Mae blwyddyn 5, sy'n cael ei galw'n flwyddyn 'Bontio,' yn eich paratoi i fod yn F1 (Meddyg sylfaenol) hyderus a chymwys.

- Yn y flwyddyn hon, bydd mwy o amser yn cael ei dreulio ar leoliad nag ar y campws. Byddwch yn dysgu ac yn cael eich asesu yn y gweithle yn bennaf, a chewch sesiynau efelychu ychwanegol a sesiynau mewn grwpiau bach i fireinio'ch meddwl clinigol a'ch sgiliau gwneud penderfyniadau
- Mae dysgu craidd ar y campws yn cwmpasu agweddau uwch ar broffesiynoldeb, cyfathrebu, gweithio mewn tîm, rhoi presgripsiynau mewn modd diogel a rheoli cleifion sy'n sâl iawn mewn modd ymarferol fel eich bod yn barod i fod yn feddyg F1. Cewch gyfle i ymarfer y sgiliau uwch hyn ar leoliad.
- Bydd gennych dri lleoliad clinigol saith i wyth wythnos o hyd mewn lleoliadau yn y gymuned ac yn yr ysbyty ledled Cymru. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i feithrin eich hyder, i ganiatáu i chi ymarfer sgiliau clinigol a rhoi presgripsiynau, ac i wella eich gallu i weithio yn rhan o'ch tîm clinigol. Wrth i flwyddyn 5 fynd rhagddi, byddwch yn ysgwyddo cyfrifoldeb cynyddol am asesu, archwilio a thrin eich cleifion.
- Mae gennych hefyd gyfnod dewisol wyth wythnos o hyd mewn cyrchfan o'ch dewis, bron unrhyw le yn y byd, i astudio'r agweddau ar Feddygaeth sy'n apelio at eich dychymyg
- Byddwch yn gorffen eich cwrs Meddygaeth yn Uwch-gynorthwyydd dan Hyfforddiant (SSA), yn cysgodi F1 ac yn cael eich annog i reoli'n uniongyrchol gleifion sydd o dan eich tîm goruchwylio. Os ydych yn bwriadu gweithio yng Nghymru, byddwch yn SSA yn yr ysbyty lle byddwch yn ymgymryd â'ch swydd F1 gyntaf; os bydd eich swydd F1 yn rhywle arall, byddwn yn gwneud ein gorau i ddod o hyd i leoliad addas ar eich cyfer.

Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar y pryd, efallai y bydd angen gwneud newidiadau logistaidd weithiau, ond byddwch yn dal i fodloni canlyniadau gofynnol y Cyngor Meddygol Cyffredinol erbyn i chi raddio.




Caiff eich sgiliau a'ch ymddygiad proffesiynol eu datblygu drwy gydol y cwricwlwm

## Teilwra eich astudiaethau

Cynigiwn amrywiaeth o gyfleoedd yn ein rhaglenni i chi deilwra'ch gwaith dysgu ac astudio agweddau penodol ar feddygaeth yn fanwl.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

### Cydrannau a Ddewisir gan Fyfyrwyr (SSCs)

Cydrannau a Ddewisir gan Fyfyrwyr yw ein rhaglen Meddygaeth sy'n gadael i chi ystyried meysydd o ddiddordeb penodol. Trwy ddewis eich arbenigedd, eich lleoliad a'ch tiwtor, cewch ddylunio prosiect pwrpasol sydd wedi'i deilwra at eich nodau.

### Cyfleoedd i astudio dramor

**Dewisol**

Yn eich blwyddyn astudio olaf, cewch wneud cais am leoliad yn y DU neu bron unrhyw le arall yn y byd. Mae eich elfen ddewisol yn rhan o raglen Cydrannau a Ddewisir gan Fyfyrwyr (SSC), ac mae wedi'i chynllunio i ddatblygu eich gwybodaeth, sgiliau ac agweddau y tu hwnt i'r maes dysgu craidd. Cewch ddewis y wlad, y sefydliad, yr arbenigedd a'ch tiwtor. Cewch dreulio peth amser mewn ysbyty modern yn Awstralia neu brofi'r cyflyrau meddygol heriol yn Ethiopia... chi sydd i ddewis.

### Rhaglen Cyfnewid Ewropeaidd

Rydym yn falch o ddweud y bydd y Rhaglen Cyfnewid Ewropeaidd ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 4 ar gael fel o'r blaen, ond bydd y trefniadau ariannu'n wahanol ar ôl i'r DU dynnu'n ôl o Gynllun Erasmus yn 2020.

**Gradd ymsang**

Mae gradd ymsang yn eich galluogi i ganolbwyntio ar faes Meddygaeth sydd o ddiddordeb i chi ac ennill cymhwyster ychwanegol yn ogystal â'ch MBBCh.

Bob blwyddyn, mae tua 120 o fyfyrwyr meddygol yn ymgymryd â blwyddyn 'ymsang' rhwng blynyddoedd 3 a 4 neu 4 a 5, gan ennill BSc o safon academaidd ryngwladol. Rydym yn cynnig graddau lluosog yng Nghymru ac mae gan rai myfyrwyr hefyd yr opsiwn i gyflawni'r elfen ymsang mewn prifysgolion eraill yn y DU.

Nod ein rhaglen gradd ymsang boblogaidd, yn enwedig os ydych yn ymddiddori mewn ymchwil feddygol, yw cyfoethogi'ch sgiliau dysgu gydol oes, eich helpu i ddatblygu'ch ymarfer ar sail ymchwil, a hwyluso eich datblygiad gyrfaol.

## Asesu

Cynllunnir ein hasesiadau i fod yn briodol, yn realistig, yn deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy. Mae ein rhaglen asesu yn gadael i ni, a chi, weld faint o gynnydd rydych chi'n ei wneud, ac yn ein helpu i adnabod unrhyw fyfyrwyr sy'n dechrau cael trafferthion academaidd, fel bod modd i ni roi cefnogaeth briodol ar waith ar eu cyfer. Mae profion ffurfiannol ac adborth adeiladol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i fesur eich cynnydd a gweld sut rydych yn dod yn eich blaen.

Bydd eich asesiadau yn cefnogi eich dysgu a byddwn yn eich annog i'w defnyddio fel cyfrwng dysgu. Mae'r holl ddulliau asesu a ddefnyddiwn yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n golygu eu bod wedi ennill eu plwyf mewn ysgolion meddygol blaenllaw eraill o amgylch y byd. Rydym yn defnyddio ystod eang o fethodolegau i ganiatáu ar gyfer cryfderau academaidd amrywiol a dulliau dysgu gwahanol i fyfyrwyr mewn grŵp blwyddyn; mae hyn yn cynnwys cwestiynau ysgrifenedig dull amlddewis, gwaith cwrs a phrosiectau, archwiliadau clinigol a phrofion yn y gweithle.

Lle bo modd, bydd eich arholiadau clinigol yn defnyddio cleifion go iawn sydd â phroblemau clinigol gwirioneddol. Rydym hefyd yn defnyddio asesiad yn y gweithle i asesu eich sgiliau clinigol a'ch perfformiad clinigol, e.e. trwy bortffolios a llyfrau log clinigol sy'n dangos eich proffesiynoldeb a'ch dysgu adfyfyriol.

## Siaradwr Cymraeg? Croeso i C21

Gallwch ddewis astudio sawl elfen o'ch gradd yn Gymraeg, gan gynnwys gwaith grŵp bach Dysgu ar Sail Achosion, llawer o leoliadau gwaith, asesiadau a rhai darlithoedd, gyda nifer y cyfleoedd yn cynyddu'n gyson.

## Hyfforddiant sylfaenol ôl-raddedig a thu hwnt

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cyflwyno Asesiad Trwyddedu Meddygol – yr MLA.

Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn: **www.gmc-uk.org/registration-and-licensing** yn ogystal ag yn ein pamffled ac ar ein gwefan.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

| | |
|---|---|
| **Ffarmacoleg Feddygol (BSc)** | B210 |

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAB gan gynnwys Cemeg ac o leiaf un wyddor arall (Bioleg yn ddelfrydol) neu un pwnc mathemategol. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n cyflawni Safon Uwch mewn gwyddoniaeth sydd ag asesiad ymarferol ar wahân basio'r elfen hon.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 665 pwynt i gynnwys 3 o bynciau Lefel Uwch gan gynnwys 6 mewn Cemeg ac ail bwnc gwyddonol (o blith Bioleg, Ffiseg, Mathemateg neu Ystadegaeth).

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen.

### Gofynion eraill

**TGAU (a chyfwerth):** Saesneg neu Gymraeg (fel sy'n berthnasol) a Mathemateg ar radd B neu radd 6. Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

### Mynediad diweddarach i'r Rhaglen Meddygaeth bedair blynedd (A101 Caerdydd/A102 Gogledd Cymru):

I gael eich ystyried i astudio Meddygaeth, rhaid i chi berfformio'n gyson foddhaol a chael cyfartaledd sgôr terfynol o 60% neu uwch ym mhob blwyddyn. Ym mlwyddyn dau'r radd BSc, bydd disgwyl i fyfyrwyr sy'n gymwys i wneud cais am A101/A102 gwblhau a phasio modiwl Anatomeg Glinigol 20 credyd (lleoedd yn gyfyngedig). Mae mynediad i A101/A102 yn amodol ar gais UCAS (i gynnwys datganiad personol newydd a geirda gan y tiwtor personol Ffarmacoleg Feddygol). Rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni'r meini prawf i gael mynediad i'r cynlluniau mewn perthynas ag iechyd, cofrestru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Cenedlaethol, yr UCAT a dod i gyfweliad.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 32

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 250

## BSc Ffarmacoleg Feddygol

Nod ffarmacoleg feddygol yw astudio cyffuriau a'u heffaith ar systemau byw. Felly, mae ffarmacoleg feddygol wrth galon Meddygaeth fodern. Mae'r Adran Ffarmacoleg, Therapiwteg a Thocsicoleg yn dysgu yn yr Ysgol Meddygaeth.

Rhaglen fodiwlaidd tair blynedd amser llawn (pedair blynedd opsiynol) yw'r cwrs gradd BSc (Anrh) hwn, ac mae'n cynnig archwiliad dwfn ac o safon uchel o ffarmacoleg feddygol fodern ac yn darparu hyfforddiant gwyddonol arbenigol mewn labordai ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol. Ei nod yw hybu a datblygu'ch chwilfrydedd naturiol, eich gallu i gyfathrebu, eich sgiliau trefnu a datrys problemau, a'ch paratoi i weithio'n annibynnol ac mewn tîm. Bydd y rhaglen yn cynhyrchu graddedigion sydd â dealltwriaeth fanwl a chynhwysfawr o effeithiau biolegol a mecanweithiau gweithredu amrywiaeth fawr o sylweddau ac, yn arbennig, y rhai a ddefnyddir i drin clefydau pobl.

Gall myfyrwyr sydd â chymwysterau priodol hefyd fod yn gymwys i ymuno â'n rhaglen Meddygaeth (A101/A102) 4 blynedd, yn syth ar ôl iddynt gwblhau eu gradd mewn Ffarmacoleg Feddygol. Mae hyd at 10 o leoedd ar gael bob blwyddyn. (**Noder:** ni allwch drosglwyddo i Feddygaeth ar ôl blwyddyn yn unig o'r cwrs BSc).

### Blwyddyn 1

Byddwch yn astudio ochr yn ochr â myfyrwyr Ysgol y Biowyddorau sy'n dilyn graddau biofeddygol. Cewch ddealltwriaeth gadarn o'r gwyddorau cemegol a biolegol: bydd biocemeg, ffisioleg a geneteg, yn arbennig, yn eich helpu i ddeall sut mae cyffuriau'n gweithio ar lefel foleciwlaidd. O ran ffarmacoleg, byddwn yn eich cyflwyno i'r egwyddorion gwyddonol sy'n sail i'r modd y caiff cyffuriau effaith yn y corff.

Mae addysgu blaenllaw ym meysydd therapiwteg, tocsicoleg ac anhwylderau cam-drin cyffuriau yn cyflwyno pwysigrwydd astudiaethau hunan-gyfeiriedig, gwyddoniaeth ac arferion meddygol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dadansoddi beirniadol a'r cysylltiad rhwng ffarmacoleg moleciwlaidd a chellog, a'r claf fel unigolyn.

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Ymholiadau ynghylch Derbyn Myfyrwyr:

Ffôn: **44 (0) 29 2251 2037**

Ebost: **langd@caerdydd.ac.uk**

### Blwyddyn 2

Mae modiwlau'n ymdrin yn eang â chyffuriau ym meysydd niwrodrosglwyddo, signalu celloedd endocrinaidd a pharacrinaidd, haematoleg, y brif system nerfol, ffarmacoleg gardiofasgwlaidd a chemotherapi.

Mae modiwlau ymchwil ac ymarferol yn rhoi hyfforddiant ymarferol mewn technegau labordy uwch i chi. Mae myfyrwyr sydd â diddordeb mewn Meddygaeth i Raddedigion yn astudio modiwl unigryw am Anatomeg Glinigol. Yn y modiwl, ystyrir ymarfer dyrannu celaneddol er mwyn lleoli gosodiad a swyddogaeth y corff dynol.

### Blwyddyn 3 - blwyddyn ddewisol ar leoliad proffesiynol (PPY)

Cyfnod estynedig mewn amgylchedd gwaith academaidd/diwydiannol yn meithrin sgiliau cyflogadwyedd gwerthfawr. Cynigir mynediad i'r PPY unwaith y byddwch ar y cwrs BSc ac nid yn uniongyrchol drwy UCAS.

### Blwyddyn olaf

Byddwch yn astudio mewn amgylchedd meddygol dwys a arweinir gan ymchwil. Bydd y modiwlau'n datblygu sawl maes dethol yn fanwl, megis ffarmacogeneteg, niwroffarmacoleg, datblygu cyffuriau a therapiwteg, imiwnoleg, canser a bioleg gardiofasgwlaidd, ac yn cynnig rhagor o brofiad ymarferol mewn technegau arbenigol. Mae un modiwl wedi'i lunio i ddatblygu sgiliau dadansoddi beirniadol o ran darllen papurau gwyddonol a hyrwyddo'r gallu i gyflwyno data mewn ffyrdd cywir a diamwys. Un o brif nodweddion y flwyddyn yw prosiect ymchwil biofeddygol sylweddol. Mae'n seiliedig ar arbrofion neu ddadansoddi data, ac mae'n datblygu uwch-sgiliau cymhwysol a sgiliau dadansoddi hollbwysig.

Cyfunir myfyrwyr y flwyddyn olaf, hefyd, ag amryw o fyfyrwyr meddygol sy'n gwneud gradd BSc Ymsang mewn Ffarmacoleg. Bydd hyn yn cynnig llwyfan gwerthfawr i gydfyfyrwyr ryngweithio'n rhyngddisgyblaethol.

## Dulliau asesu

Cewch eich asesu'n ffurfiol ar ôl i chi gwblhau pob modiwl unigol ac, os yw'n briodol, drwy elfen o asesu parhaus megis adroddiadau ymarferol, traethodau a chyflwyniadau.

## Cyfleoedd gyrfa

Mae galw mawr am ffarmacolegwyr graddedig yn y diwydiant fferyllol i lenwi swyddi ymchwil a datblygu cynhyrchion; yn y cyrff rheoleiddio sydd gan lywodraethau; ac mewn sefydliadau academaidd lle cânt wneud ymchwil a chael eu hyfforddi.

Mae llwybrau cyflogaeth eraill yn cynnwys cyfraith patent, Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr y GIG, biowybodeg a llawer mwy.

# Ieithoedd Modern

Blwyddyn dramor



## Pam dewis **Ieithoedd Modern** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Gyda thros 800 o fyfyrwyr a 60 o staff academaidd, mae'r Ysgol yn cynnig **amgylchedd cyfeillgar ac amrywiol.** Mae tiwtoriaid personol yn sicrhau cymorth drwy gydol y rhaglen radd.

Roedd **94%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Mae ein cynllun Myfyriwr sy'n Llysgennad Iaith yn cynnig **cyfle** i weithio mewn ysgolion ar draws de Cymru.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfleoedd i ddewis modiwlau a addysgir yn Gymraeg fel rhan o'ch gradd.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

**Mae gan Lysgenhadaeth Sbaen a Sefydliad Goethe swyddfeydd lloeren yn ein Hysgol.** Rydym yn gartref i Sefydliad Confucius ac mae gennym gysylltiadau agos â'r ddirprwyaeth Diwylliant Eidalaidd, Sefydliad Japan, Sefydliad Camões a Sefydliad Ramon Lull.

Cafodd **100%** o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym ei meincnodi fel ymchwil sy'n bwysig yn rhyngwladol yn REF 2014, gyda **94%** ohoni'n **'rhyngwladol-ragorol'** neu'n **'arwain y byd'.***

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Ffrangeg (BA)** | (Pedair blynedd) R100 |
| **Almaeneg (BA)** | (Pedair blynedd) R200 |
| **Eidaleg (BA)** | (Pedair blynedd) R300 |
| **Tsieinëeg Fodern (BA)** | (Pedair blynedd) RC12 |
| **Tsieinëeg (BA)** | (Pedair blynedd) RC13 |
| **Sbaeneg (BA)** | (Pedair blynedd) R400 |
| **Cyfieithu (BA)** | (Tair blynedd) Q910 |
| **Ieithoedd Modern a Chyfieithu (BA)** | (Pedair blynedd) 76D3 |
| **Y Gyfraith a Ffrangeg (LLB)** (Pedair blynedd) | RM11 |

### BSc Cydanrhydedd

**Astudiaethau Busnes a Japaneeg** NT12

### BA Cydanrhydedd

**Japaneeg ac iaith arall**

**Portiwgaleg ac iaith arall**

**Unrhyw ddwy iaith a addysgir yn yr Ysgol**

**Ffrangeg a phwnc arall o'r dyniaethau**

**Almaeneg a phwnc arall o'r dyniaethau**

**Eidaleg a phwnc arall o'r dyniaethau**

**Sbaeneg a phwnc arall o'r dyniaethau**

**Gweler tudalen 146.**

**Rydym yn rhan o fenter lwyddiannus Bili**, sy'n cysylltu ein myfyrwyr â chyfoedion yn Senegal ar gyfer cyfnewid ieithyddol a diwylliannol trwy'r cyfryngau digidol.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch**
**BA:** ABB
**BSc (cyfuniadau â'r Ysgol Busnes - gweler tudalen 53):** AAB
**Y Gyfraith a Ffrangeg (tudalen 101):** AAA-AAB neu AABB-ABBB (gan gynnwys gradd B mewn Ffrangeg)
**Rhaglenni cydanrhydedd:** amrywio o AAB i ABB (edrychwch ar ein tudalennau gwe ar gyfer rhaglenni penodol)

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol**: Cewch fanylion ar ein gwefan.

**BTEC**: Anrhydedd sengl: DDM-DMM yn y Gwyddorau Cymdeithasol, y Dyniaethau, y Celfyddydau a phynciau gwyddonol. Cydanrhydedd: ewch i'n gwefan.

**Arall**: Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Pob gradd**
**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth):
Mae angen gradd C neu radd 4 mewn TGAU Saesneg iaith.
Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

**Pynciau penodol**
Ar gyfer cyfuniadau â'r Ysgol Busnes, gradd B/gradd 6 mewn TGAU Mathemateg (gweler tudalen 53).

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 150 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 900

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**
Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**
Ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwyr: **Dr Kate Griffiths**
Ffôn: **(029) 2087 4889 +44 (0)29 2087 4889**
Ebost: **languages-ug-admissions@caerdydd.ac.uk**
**cardiffmlang** **@cardiffmlang**

## Gyrfaoedd

Mae ein graddedigion yn ffynnu yn y farchnad swyddi, fel y gwelir yn ein hystadegau cyflogaeth. Mae eu graddau iaith yn eu harwain at ystod amrywiol a chyffrous o yrfaoedd ym meysydd cyllid, rolau cyswllt rhyngwladol ym maes chwaraeon, ymgynghoriaeth busnes, addysg, iechyd, y cyfryngau, gwleidyddiaeth, diplomyddiaeth, cyfieithu ar y pryd, cyfieithu, y gyfraith ac addysgu, ymhlith meysydd eraill.

Ar ôl graddio, fe es yn syth i weithio yng Nghlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd fel Swyddog Cyswllt Chwaraewyr, lle defnyddiais fy sgiliau iaith bob dydd. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau fel cyfieithu sgyrsiau tîm ar gyfer ein chwaraewyr tîm cyntaf i gynllunio teithiau i'n sgowtiaid fynd i ddod o hyd i'r chwaraewyr mawr nesaf. Yn y bôn, roeddwn i yno i ofalu am les y chwaraewyr a sicrhau eu bod yn gallu canolbwyntio eu hegni i gyd ar chwarae pêl-droed.

Ers hynny, rydw i wedi symud i rôl gyda'r Cyngor Criced Rhyngwladol, gan ddatblygu fy ngyrfa yn niwydiant fy mreuddwydion, sef chwaraeon. Pe na bawn i wedi astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, ni fyddwn wedi cael y cyfleoedd hyn. Heb amheuaeth, mae fy amser yng Nghaerdydd wedi bod yn allweddol wrth fy helpu ar hyd fy llwybr gyrfa.

**Callum**, Ffrangeg a Chymraeg (BA)



## Rydym yn gartref i un o ganolfannau ieithoedd modern mwyaf a mwyaf dynamig y DU.

Mae gan yr Ysgol Ieithoedd Modern enw rhagorol am ymchwil ac addysgu, a bydd yn rhoi cyfle i chi ddilyn eich diddordeb mewn ieithoedd a diwylliannau mewn amgylchedd cyffrous, rhyngddisgyblaethol.

Rydym yn cynnig pob un o'n hieithoedd ar lefelau dechreuwyr ac uwch sy'n golygu, os nad oes gennych Safon Uwch yn eich dewis iaith, gallwch ymuno â ni a dechrau o'r dechrau. Os oes gennych Safon Uwch mewn iaith berthnasol, gallwch ymuno â ni a gweithio ar lefel uwch. Rydym yn asesu pawb fesul achos i sicrhau eich bod yn cael eich rhoi ar y llwybr sy'n addas i chi a'ch gallu.

Gyda hanes profedig mewn addysgu ac ymchwil rhagorol, rydym ni'n rhoi cyfle i chi ddatblygu'ch cariad at ieithoedd mewn cyd-destun byd-eang.

Rydym wedi dylunio ein cwricwlwm yn benodol i'ch paratoi ar gyfer y cyd-destun byd-eang hwn, ac rydym yn cynnig modiwlau rhyngwladol arloesol ym mlynyddoedd un a dau fydd yn eich galluogi i ddarganfod pa mor bwerus ac eang mae'r iaith (neu ieithoedd) o'ch dewis ar lwyfan y byd.

Gallwch hefyd ddewis ein gradd unigryw mewn Cyfieithu, sy'n cynnig sylfaen mewn un neu ddwy iaith (yn dibynnu ar eich dewis iaith), a sgiliau ymarferol hanfodol sy'n cynnwys defnyddio meddalwedd cyfieithu. Ar ben hynny, mae ein graddau cydanrhydedd yn gyfle i gyfuno diddordeb mewn ieithoedd â nifer o bynciau eraill sy'n cynnwys gwleidyddiaeth, busnes a'r gyfraith.

Mae ein cysylltiadau byd-eang yn ein galluogi i gynnig ystod gyffrous o gyfleoedd ar gyfer eich blwyddyn dramor. Gallwch ddewis gweithio, astudio neu addysgu ledled y byd, ac ennill profiad gwerthfawr a sgiliau trosglwyddadwy iawn.

Mae sgiliau lefel-uchel yn dod yn fwyfwy angenrheidiol, ac yn fwy gwerthfawr yn y byd newidiol sydd ohoni. Mae ein graddedigion, felly, mewn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer llu o yrfaoedd cyffrous ac uchelgeisiol.

> Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen cyfnewid rhyngwladol, Taith, a fydd yn galluogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru i wirfoddoli, gweithio ac astudio ym mhob cwr o'r byd. Bydd Taith yn creu cyfleoedd i ehangu gorwelion, profi ffyrdd newydd o fyw a dod â gwersi adref i'w lledaenu ymhlith pobl y wlad hon.

## Tsieinëeg

Mae Tsieinëeg yn iaith fyd-eang ac mae 1.4 biliwn o bobl ledled y byd yn ei siarad. Wrth i Tsieina ennill ei phlwyf mewn diwydiannau megis cludiant, bancio a thelathrebu, mae Mandarin erbyn hyn yn iaith a ffefrir gan gyflogwyr sy'n gweithio'n rhyngwladol. Y tu allan i Tsieina, siaredir Tsieinëeg gan gymunedau mawr o amgylch y byd, o Singapore i Lundain i Vancouver, sy'n golygu ei bod yn iaith hynod ddymunol i'w dysgu ar lefel gradd. Rydym yn cynnig dwy raglen gradd sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar yr iaith fywiog, ddeinamig hon.

Mae'r rhaglen BA Tsieinëeg Fodern yn gyfle unigryw i chi astudio yng Nghaerdydd, prifddinas amlddiwylliannol a ffyniannus Cymru, ac yn Beijing, canolbwynt gwleidyddol, diwylliannol ac addysgol Tsieina, dros gyfnod o bedair blynedd. Byddwch yn treulio dwy flynedd dramor yn Tsieina yn eich ail a'ch trydedd flwyddyn, gan ymdrochi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd Tsieineaidd wrth astudio ym Mhrifysgol Normal Beijing (BNU). Byddwch yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod blynyddoedd un a phedwar.

Oherwydd strwythur unigryw'r rhaglen, gallwch ddilyn gradd ddeuol ac ennill BA mewn Tsieinëeg Fodern ym Mhrifysgol Caerdydd yn ogystal â BA mewn Astudiaethau Iaith a Diwylliant Tsieina yn BNU ar ddiwedd eich pedair blynedd. Mae cyflogadwyedd wedi'i ymgorffori yn y cwrs. Byddwch yn cael y cyfle i wneud lleoliad neu interniaeth tra byddwch yn Tsieina lle byddwch yn ennill sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd hanfodol mewn sefydliadau sydd wedi cynnwys cwmnïau cyfryngau, sefydliadau diwylliannol a rhaglenni addysgol yn Beijing. Byddwch yn ysgrifennu traethawd hir yn eich blwyddyn olaf, gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth gan Brifysgol Caerdydd a BNU.

Rhaglen bedair blynedd yw ein BA Tsieinëeg (anrhydedd sengl) gydag un flwyddyn yn cael ei threulio dramor yn gweithio, yn dysgu neu'n astudio yn Tsieina. Bydd modiwlau ar gael sy'n ymdrin â hanes Tsieineaidd a diwylliant Tsieineaidd modern. Mae'r modiwlau hyn yn canolbwyntio ar roi dealltwriaeth wych o Tsieina fodern, ei diwylliant, ei gwleidyddiaeth a'i heconomeg i chi.

## Ffrangeg

Mae Ffrangeg yn iaith fusnes allweddol ac yn iaith fyd-eang o ran diwylliant a diplomyddiaeth. Gallwch astudio Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd ar ôl gwneud Safon Uwch neu o lefel dechreuwr.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen bedair blynedd hon, bydd gennych hyfedredd tebyg i siaradwr Ffrangeg brodorol, yn ogystal â dealltwriaeth feirniadol o agweddau allweddol ar ddiwylliant, gwleidyddiaeth a chymdeithas Ffrengig gyfoes.

Cynlluniwyd y rhaglen hon i fireinio eich sgiliau iaith Ffrangeg i lefel uchel iawn. Gydag awydd i gynhyrchu graddedigion sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o gyrchfannau gyrfa, mae ein modiwlau'n cynnwys sgiliau llafar, gwrando, ysgrifennu a gramadegol, ac yn asesu cynnydd myfyrwyr gydag aseiniadau arloesol. Rydym ni'n defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys ffilm, radio, gwefannau yn ogystal ag offerynnau dysgu rhyngweithiol. Caiff ein dosbarthiadau iaith eu haddysgu mewn grwpiau i wella hyder a dysgu gweithredol. Addysgir y dosbarthiadau iaith yn Ffrangeg, sy'n eich galluogi i drochi eich hun yn yr iaith. Rydym ni'n cynnig cyfle i chi ddewis modiwlau arbenigol mewn Ffrangeg busnes, cyfieithu technegol arbenigol a modiwlau iaith eraill sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd.

Caiff modiwlau iaith craidd eu hategu gydag amrywiaeth o fodiwlau diwylliannol sy'n gweithio i ddatblygu ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol. Mae gan staff academaidd arbenigedd mewn diwylliant Ffrengig modern a chyfoes, gwleidyddiaeth ac economeg, llenyddiaeth Ffrangeg a Ffrengig fodern, Affrica Ffrengig, sinema, teledu a radio Ffrengig. Rydym ni wedi cynllunio ein modiwlau i adlewyrchu a chysylltu myfyrwyr â'r arbenigedd honno.

Mae trydedd flwyddyn y cwrs yn rhoi cyfle i fyw mewn amgylchedd Ffrangeg ei iaith. Gan ddibynnu ar raglen eich gradd, gallwch naill ai benderfynu gweithio fel cynorthwyydd iaith Saesneg drwy'r British Council ac addysgu mewn ysgolion cyfrwng Ffrangeg, ymgymryd â lleoliad gwaith neu fynychu prifysgol mewn gwlad sy'n siarad Ffrangeg.

Mae ein rhaglenni cyfnewid sefydledig yn darparu cyfleoedd i astudio mewn sefydliadau mewn dinasoedd sydd wedi cynnwys Paris, Toulouse, Chambéry, Montpellier a Nantes yn Ffrainc a Brwsel yng Ngwlad Belg.

Bydd y flwyddyn olaf yn eich galluogi i adeiladu ar eich blwyddyn dramor ac yn canolbwyntio ar eich sgiliau cyflogadwyedd er mwyn eich paratoi ar gyfer y farchnad swyddi.





Gall y cyfle i deithio dramor yn eich trydedd flwyddyn fod yn brofiad trawsnewidiol

## Almaeneg

Almaeneg yw mamiaith bron can miliwn o bobl. Trwy allu siarad Almaeneg rydych yn rhan o fyd gwleidyddol, economaidd a diwylliannol hynod bwysig.

Dangosodd arolwg diweddar gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), sefydliad mwyaf blaenllaw cyflogwyr y Deyrnas Unedig, mai Almaeneg yw'r iaith a werthfawrogir fwyaf gan reolwyr yn y DU.

Bydd y sgiliau ieithyddol a ddatblygwch yn rhoi mynediad uniongyrchol i chi i hanes, llenyddiaeth, diwylliant, drama, cerddoriaeth a ffilm yr Almaen. Bydd eich dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant yn cael ei mireinio ymhellach yn ystod eich blwyddyn dramor, pan fyddwch yn cael profiad uniongyrchol o fywyd mewn gwlad Almaeneg ei hiaith.

Rydym yn cynnig Almaeneg i fyfyrwyr lefel uwch a dechreuwyr, fel ei gilydd. Mae'r modiwlau a gynigiwn yn adlewyrchu ein harbenigedd addysgu mewn llenyddiaeth, diwylliant, gwleidyddiaeth a ffilm Almaenig modern. Yn y flwyddyn olaf, byddwch yn ysgrifennu traethawd hir, a fydd yn ysgogi menter a gall fod yn baratoad defnyddiol ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig.

## Eidaleg

Mae gan yr Eidal hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i oes y Rhufeiniaid, ac mae wedi dylanwadu'n sylweddol ar ddatblygiad Ewrop.

Mae'r rhaglen arloesol hon yn gyfle i chi ddysgu Eidaleg hyd at lefel uchel o hyfedredd, yn ogystal ag archwilio'r diwylliant sydd wedi ffurfio tirlun cymdeithasol y wlad hon, sy'n gymaint o ysbrydoliaeth.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail, byddwch yn magu dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o'r iaith Eidaleg a'i gramadeg ac o gyfieithu.

Rydym yn defnyddio methodolegau arloesol yn ein haddysgu, gan gynnwys gweithgareddau grwpiau bach a thrafodaeth barhaus, gyda chefnogaeth athrawon brodorol o'r Eidal a myfyrwyr cyfnewid.

Ochr yn ochr â'r sgiliau iaith ceir cyrsiau sy'n ymchwilio i lawer agwedd ar ddiwylliant yr Eidal, gan gynnwys ei strwythurau cymdeithasol a'i sefydliadau, hanes celf, hanes, llenyddiaeth a sinema.

Un o elfennau mwyaf cyffrous y cwrs hwn yw'r cyfle i astudio neu weithio yn yr Eidal yn ystod y drydedd flwyddyn. Dewis llawer myfyriwr yw astudio yn rhai o ddinasoedd hyfrytaf yr Eidal, gan gynnwys Milano, Pavia, Venezia, Parma, Pisa, Catania, Verona neu Firenze a Ferarra. Caiff myfyrwyr anrhydedd sengl eu hannog i gael profiad addysgu trwy'r British Council yn yr Eidal. Mae lleoliad gwaith newydd yn Sardinia bellach ar gael, yn amodol ar argaeledd.

## Japaneeg

Mae Japan yn y cyfnod cyfoes wedi'i seilio ar hanes diwylliannol cyfoethog, diddorol, sy'n ymestyn yn ôl filoedd o flynyddoedd. Mae'n parhau i fod yn bŵer economaidd pwysig yn ogystal ag yn arloeswr yn y diwydiannau moduron ac electronig, sy'n symud mor gyflym.

Gellir astudio Japaneeg fel rhan o radd gydanrhydedd, a gellir ei chyfuno ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys astudiaethau busnes ac ieithoedd eraill.

Erbyn diwedd eich cwrs, bydd gennych hyfedredd mewn Japaneeg, yn ogystal â dealltwriaeth ragorol o fywyd a diwylliant Japan.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail, byddwch yn canolbwyntio ar adeiladu a datblygu eich sgiliau cyfathrebu mewn Japaneeg, a hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae nifer o'n haelodau staff yn siaradwyr brodorol. Cewch eich addysgu gan y rhain a'u cydweithwyr eraill a byddant yn defnyddio adnoddau amlgyfrwng rhyngweithiol i alluogi eich dysgu.

Cewch gyfle i astudio yn Japan yn ystod eich trydedd flwyddyn, ac i drochi'ch hun yn iaith a diwylliant Japan. Yn ystod y flwyddyn hon, byddwch yn datblygu lefel uchel o sgiliau iaith er mwyn cwblhau cwrs iaith uwch yn ystod eich blwyddyn olaf yng Nghaerdydd.

Un o'n rhaglenni cydanrhydedd mwyaf poblogaidd yw Astudiaethau Busnes a Japaneeg. Lluniwyd y rhaglen i roi gwybodaeth gadarn i chi ynghylch busnes, eich galluogi i ddatblygu hyfedredd yn yr iaith Japaneeg, a datblygu dealltwriaeth glir o Japan ei hun. Gradd pedair blynedd yw hon, a threulir y drydedd flwyddyn yn Japan.

Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, byddwch yn astudio modiwlau o'r radd mewn Rheoli Busnes ac yn dechrau astudio Japaneeg a Japan.

Yn ystod eich blwyddyn yn Japan, byddwch yn astudio yn un o brifysgolion y wlad. Erbyn hyn, dylech fod yn ddigon rhugl yn yr iaith lafar i weithredu'n gyfforddus yn Japan ac elwa i'r eithaf o'ch cyfnod yno. Yn y flwyddyn olaf, byddwch yn dychwelyd i Gaerdydd i barhau â'ch Astudiaethau Busnes yn ogystal â datblygu eich sgiliau Japaneeg.

## Portiwgaleg

Portiwgaleg yw un o'r ieithoedd pwysicaf ar gyfer busnes a gwleidyddiaeth rhyngwladol, ac mae'n cael ei siarad gan fwy na 260 miliwn o bobl ledled y byd. Yn ôl y British Council, Portiwgaleg yw un o'r ieithoedd mwyaf hanfodol ar gyfer dyfodol y DU. Mae'n iaith swyddogol mewn naw o wledydd mewn pedwar cyfandir, yn ogystal â bod yn iaith gymunedol gyffredin yn y DU, UDA, Ewrop ac Awstralasia. Mae galw mawr am Bortiwgaleg ymhlith cyflogwyr. Ar y rhaglen gyffrous hon, byddwch yn caffael hyfedredd ieithyddol a dealltwriaeth ddiwylliannol fanwl o'r byd Portiwgaleg ei iaith ac yn ennill sgiliau a fydd yn eich helpu i sefyll allan yn y dorf.

P'un a fyddwch yn cychwyn fel dechreuwr llwyr, neu o safon uwch, byddwn yn eich cefnogi i ddod yn rhugl mewn Portiwgaleg erbyn diwedd eich gradd. Mae'r gwersi iaith yn cael eu darparu gan nifer o siaradwyr brodorol, gyda chefnogaeth Asiantaeth Llywodraeth Portiwgal, sefydliad Camões. Rydym hefyd yn cynnig rhaglen fywiog o ddigwyddiadau diwylliannol i ategu eich dysgu.

Grwpiau bach yw'r dosbarthiadau iaith ac maent yn canolbwyntio ar siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu a chyfieithu. Rydym yn ymdrin â phynciau cyfoes a deunyddiau bywyd go iawn, felly byddwch yn dysgu am faterion perthnasol yn y byd Portiwgaleg ei iaith.

Rydym hefyd yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau ar-lein i gefnogi eich astudiaethau y tu allan i'r dosbarth a datblygu eich rhuglder.

Ategir y rhaglen iaith yn y flwyddyn gyntaf gan gyflwyniad i hanes a diwylliannau cyfoes bywiog gwledydd fel Portiwgal, Brasil, Angola a Mozambique. Yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf, byddwch yn edrych ar bynciau megis cerddoriaeth, ffilm, llenyddiaeth, chwaraeon, gwleidyddiaeth a hanes y byd Portiwgaleg ei iaith. Trwy gydol eich astudiaethau, cewch bersbectif eang ar ddiwylliannau cyfoes amrywiol.

Fel rhan annatod o'r rhaglen, byddwch yn astudio neu'n gweithio mewn gwlad Portiwgaleg ei hiaith yn ystod eich trydedd flwyddyn. Mae llawer o fyfyrwyr yn astudio ym Mhortiwgal (Lisbon, Braga, Coimbra), neu gallwch ddewis lleoliad astudio neu waith ym Mrasil neu mewn gwlad arall Portiwgaleg ei hiaith. Yn ystod y flwyddyn dramor, byddwch yn datblygu rhuglder ieithyddol ac yn dyfnhau eich dealltwriaeth o'r diwylliannau y buoch yn eu hastudio.



## Sbaeneg

Gyda tua 400 miliwn o siaradwyr brodorol mewn mwy na 20 o wledydd lle mae Sbaeneg yn iaith swyddogol, Español yw un o'r tair prif iaith yn y byd. Mae siarad Sbaeneg yn allweddol i ddeall y diwylliannau Sbaenaidd bywiog ar draws y byd.

P'un a oes gennych Safon Uwch mewn Sbaeneg neu ddim profiad yn yr iaith o gwbl, mae ein rhaglen Sbaeneg yn agored i chi o ganlyniad i'w llwybrau mynediad i ddechreuwyr a mynediad uwch. Erbyn diwedd y cwrs, bydd gennych ddealltwriaeth ragorol o'r iaith Sbaeneg, gan gynnwys ei gramadeg, siarad, gwrando a chyfieithu.

Mae gan ein staff addysgu arbenigedd ym meysydd llenyddiaeth fodern Sbaen ac America Ladin, sinema Sbaen ac America Ladin, gwleidyddiaeth a hanes y byd Sbaenaidd, yr iaith Gatalaneg a'i diwylliant.

Yn ystod y drydedd flwyddyn, cewch gyfle arbennig i wella eich iaith lafar ac ysgrifenedig, i drochi eich hun mewn diwylliant arall, neu gael profiad gwaith mewn gwlad Sbaeneg ei hiaith. Mae llawer yn dewis astudio yn un o'n prifysgolion partner niferus yn Sbaen (Barcelona, Cáceres, Ciudad Real, Granada, Lleida, Santiago de Compostela, Sevilla, Valencia, Vic) neu America Ladin (Lima, Peru, neu Guadalejara, Mecsico).

Mae'r posibilrwydd o weithio fel cynorthwyydd addysgu mewn ysgol yn Sbaen hefyd yn boblogaidd ymhlith myfyrwyr anrhydedd sengl.

Mae graddedigion Sbaeneg yn cael eu hunain yn gweithio mewn amrywiaeth eang o feysydd cyffrous, gan gynnwys gwleidyddiaeth neu fusnes rhyngwladol, ymgynghoriaeth, gwerthiant a marchnata, y cyfryngau a chyhoeddi, cyllid, y celfyddydau, y Gwasanaeth Sifil, addysgu a chyfieithu/cyfieithu ar y pryd.

## Cyfieithu

### Cyfieithu (tair blynedd)
### Ieithoedd Modern a Chyfieithu (pedair blynedd)

Mae'r sefyllfa economaidd-gymdeithasol sydd ohoni wedi creu galw cynyddol am sgiliau cyfieithu. Rydym yn cynnig un o'r rhaglenni cyfieithu arbenigol prin yn y DU, gan ddarparu llwybr amgen wrth astudio iaith, gyda ffocws ar gyflogadwyedd.

Rydym yn cynnig dwy raglen gyfieithu, BA mewn Cyfieithu (tair blynedd, heb flwyddyn dramor) a BA mewn Ieithoedd Modern a Chyfieithu (pedair blynedd, gyda blwyddyn dramor). Mae'r ddwy raglen yn caniatáu i chi astudio methodolegau cyfieithu ochr yn ochr ag un neu ddwy iaith (sylwer, efallai na ellir astudio Japaneeg a Tsieinëeg gyda'i gilydd ar y cynlluniau gradd hyn), gan ennill sgiliau ieithyddol rhagorol, yn ogystal ag arbenigedd hanfodol mewn cyfieithu o'ch dewis iaith/ieithoedd i'r Saesneg.

Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio'n sylweddol ar sgiliau cyfieithu proffesiynol, drwy gyfuno damcaniaeth a methodoleg i sicrhau sgiliau proffesiynol trosglwyddadwy yn uniongyrchol i chi.

Yn ystod eich blwyddyn olaf, gallwch barhau i astudio dwy iaith, ond cewch gyfle i ganolbwyntio ar un iaith er mwyn datblygu eich lefel hyfedredd ymhellach.

## Rhaglenni gradd cydanrhydedd

Mae graddau cydanrhydedd yn rhoi cyfle i chi gyfuno eich diddordeb mewn dau faes gwahanol. Mae llawer o'n myfyrwyr yn dewis cyfuno dwy o'r ieithoedd a addysgir yn yr Ysgol ei hun. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfuniadau gan gynnwys Saesneg iaith, llenyddiaeth Saesneg, hanes, y gyfraith, cerddoriaeth, athroniaeth, a gwleidyddiaeth (gweler ein gwefan am fanylion). Bydd angen i chi gwblhau blwyddyn dramor lle mae iaith yn un o'r ddau bwnc rydych chi'n eu dewis fel rhan o raglen gydanrhydedd.

## Dulliau addysgu

Mae cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau, gweithdai a sesiynau tiwtorial yn creu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae ein holl raglenni'n annog y myfyrwyr unigol i gymryd rhan a thrafod mewn grwpiau bach. Lluniwyd ein cyrsiau iaith i gynnig dysgu effeithiol fel bod gennych lefel uchel o hyfedredd yn eich dewis iaith erbyn diwedd y rhaglen. Mae rhyngweithio â siaradwyr brodorol yn caniatáu profiad dysgu mwy dilys.

Rydym yn cynnig amgylchedd cefnogol sy'n galluogi ieithyddion brwdfrydig a thalentog i ennill sgiliau hynod werthfawr er mwyn paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd yn y DU a thu hwnt.

## Dulliau asesu

Mae arholiadau ffurfiol yn cael eu cyfuno ag asesiadau parhaus megis prosiectau, portffolios dysgu, gwaith cwrs a phrofion dosbarth sy'n caniatáu datblygiad cynyddol sgiliau iaith ar hyd pob un o'r rhaglenni.

# Cerddoriaeth

**Blwyddyn dramor**

**Lleoliad proffesiynol**



## Pam dewis **Cerddoriaeth** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Canolfan gerddorol gyfoethog ac amrywiol - **10 ensemble** wedi'u cyfarwyddo gan gerddorion proffesiynol ac ystod eang o gymdeithasau cerddorol dan arweiniad myfyrwyr.

**96%**
Canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Mae gennym un o'r **cyfadrannau mwyaf yn y wlad**, gyda chyfanswm o 20 o staff academaidd amser llawn gyda phrofiad eang.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfleoedd i ddewis modiwlau a addysgir yn Gymraeg fel rhan o'r cyrsiau Mathemateg.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

**Adeilad pwrpasol** gyda'r holl gyfleusterau sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn eich astudiaethau gan gynnwys **neuadd gyngerdd 250 sedd**, mwy na **25 o ystafelloedd ymarfer**, ystafelloedd ensemble a stiwdios electro-acwstig.

Bernir bod **100%** o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym, gan gynnwys cyfansoddiadau a recordiadau, o safon ryngwladol, a bod **95%** ohoni'n '**rhyngwladol-ragorol**' neu'n '**arwain y byd**'.*



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Cerddoriaeth (BMus)** | W302 |
| **Cerddoriaeth (BA)** | W300 |
| **Cerddoriaeth gyda Blwyddyn Astudio Dramor (BA)** | G84D |
| **Cerddoriaeth gyda Blwyddyn Astudio Dramor (BMus)** | G85D |

### Cydanrhydedd

**Cerddoriaeth a phwnc arall (BA)**
Gweler tudalen 146

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 70
**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 400

## Gyrfaoedd

**Swyddi**
Perfformiwr, athro, darlithydd, ysgrifennydd, llyfrgellydd cerddoriaeth, cynhyrchydd radio, cyflwynydd teledu, newyddiadurwr cerddoriaeth, peiriannydd sain, dylunydd sain, dramodydd, rheolwr artistiaid, swyddog gweithredol marchnata, a rheolwr trwyddedu.

**Cyflogwyr**
Y BBC, S4C, Opera Cenedlaethol Cymru, Cynghorau Celfyddydau, prifysgolion, Gwasg Prifysgol Rhydychen, Sony Music, y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol, ac amrywiaeth o sefydliadau artistig, diwylliannol, diwydiannol, masnachol ac elusennol eraill. Mae rhai o'n graddedigion yn mynd ymlaen i gael gyrfa mewn meysydd eraill gan gynnwys gwleidyddiaeth, bancio, cyfrifeg, y gwasanaeth sifil, TG, y gyfraith, a rheoli.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**

**Anrhydedd BMus a BA:** AAB-BBB (gydag A neu B mewn Cerddoriaeth).

**Rhaglenni BA cydanrhydedd:** yn amrywio o AAB i BBB (gydag A neu B mewn Cerddoriaeth). Edrychwch ar ein tudalennau gwe ar gyfer rhaglenni penodol.

Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr nad ydynt yn astudio Cerddoriaeth Safon Uwch ond sy'n gweithio tuag at radd 7 neu 8 theori a gradd 8 ymarferol.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 32 o bwyntiau, gan gynnwys 6 mewn Cerddoriaeth ar Lefel Uwch. Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr nad ydynt yn astudio Cerddoriaeth ar Lefel Uwch ond sy'n gweithio tuag at radd 7 neu 8 theori a gradd 8 ymarferol.

**BTEC: Anrhydedd sengl:** DDM - DMM ym mhwnc Cerddoriaeth. Gweler hefyd y gofynion penodol isod. **Cydanrhydedd:** ewch i'n gwefan.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Gofynion penodol**
Mae disgwyl i bob ymgeisydd fod wedi cyrraedd neu fod wedi dangos tystiolaeth o weithio tuag at radd 8 mewn un offeryn, neu lais, adeg gwneud y cais.

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:**
- Gradd C neu radd 4 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg Iaith.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtoriaid derbyn myfyrwyr:
**Dr Monika Hennemann** Ffôn: **(029) 2087 4236 / +44 (0)29 2087 4236**
**Dr Rachel Moore** Ffôn: **(029) 2087 5978 / +44 (0)29 2087 5978**

Ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwyr:
**Helen Lock** Ffôn: **(029) 2087 4392 / +44 (0)29 2087 4392**

Ebost: **musicschool@caerdydd.ac.uk**

**CUSchoolMusic** **@cardiffunimusic** **cardiffunimusic**

**Mae ein neuadd gyngerdd fewnol** yn cynnal cyfres o berfformiadau proffesiynol ar draws pob genre yn ogystal â chyngherddau gan gerddorfeydd, corau ac ensemblau eraill o'n myfyrwyr ein hunain.

"Un o'm penderfyniadau gorau oedd dod i Brifysgol Caerdydd. Rwy'n ei hargymell yn fawr o safbwynt ansawdd yr addysgu, y gefnogaeth ragorol, a'r profiad gwych yn gyffredinol.

Ro'n i wrth fy modd yn astudio rhai modiwlau fel Ethnogerddoleg, Hanes Pop ac Elfennau o Gerddoriaeth Donyddol. Mae Ethnogerddoleg wedi agor fy llygaid i faes astudio cwbl newydd ac rwy'n awyddus iawn i ddatblygu fy ngwybodaeth ynddo.

**Rebecca**, (BMus) Cerddoriaeth gyda Blwyddyn o Astudio Dramor"



## Mae ein rhaglenni israddedig yn rhoi cyfle i chi arbenigo a datblygu'ch diddordebau cerddorol eich hun, ochr yn ochr â chaffael addysg eang a chadarn mewn perfformio, hanes cerddoriaeth, theori a dadansoddi cerddoriaeth, cyfansoddi, ethnogerddoleg, ac estheteg cerddoriaeth.

Pan fyddwch yn ymuno â'n cymuned gerddorol, cewch eich addysgu gan ymchwilwyr academaidd blaenllaw a chreadigol, a chewch hyfforddiant ymarferol gyda pherfformwyr proffesiynol.

Yn yr Ysgol Cerddoriaeth, ein nod yw sicrhau cymysgedd iach o astudiaethau ymarferol, academaidd, a chreadigol. Mae ein rhaglenni yn hyblyg ac yn heriol, gan ganiatáu i chi arbenigo a datblygu eich diddordebau cerddorol eich hun. Bydd pob rhaglen yn cynnwys elfen sylweddol o waith prosiect annibynnol dan oruchwyliaeth, er mwyn i chi allu gwneud eich ymchwil eich hun gyda chymorth ac arweiniad awdurdodau cydnabyddedig yn y ddisgyblaeth.

Mae ein cyfleusterau unigryw yn cynnwys neuadd gyngerdd, darlithfeydd ac ystafelloedd seminar, canolfan adnoddau cyfrifiadurol, dros 25 o ystafelloedd ymarfer, tair ystafell ensemble, a phedair stiwdio electroacwstig. Mae offer y brif stiwdio recordio gystal â safon y diwydiant. Mae ein casgliad llyfrgell yn un da, gyda llyfrau, sgoriau a recordiadau.

At hynny, ceir daliadau helaeth yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Rydym hefyd yn berchen ar amryw o offerynnau cerddorfaol, offerynnau taro Affricanaidd, casgliad o allweddellau hanesyddol a chasgliad o offerynnau sy'n atgynyrchiadau o'r cyfnod Baróc ac offerynnau clasurol cynnar a chonsort o feiolau, ac mae'r cyfan ohonynt ar gael i chi eu defnyddio.

Yng Nghaerdydd, rydym yn elwa ar gwmni opera proffesiynol (Opera Cenedlaethol Cymru), cerddorfa broffesiynol (Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC) a llawer o sefydliadau eraill ym maes y celfyddydau perfformio.

Gwahoddir myfyrwyr yn aml i fynychu ymarferion gwisgoedd a phrynu tocynnau cyngherddau am bris gostyngol. Mae gan y ddinas hefyd ddau leoliad o'r radd flaenaf, Canolfan Mileniwm Cymru a Neuadd Dewi Sant, ac mae'r ddau yn cael eu defnyddio'n aml ar gyfer perfformiadau'r Ysgol Cerddoriaeth ei hun.

Mae bywyd cerddorol yr Ysgol wedi'i gydblethu'n dda â bywyd cerddorol y ddinas. Mae ein neuadd gyngerdd fewnol, sydd â 250 o seddi, yn cynnal cyngherddau proffesiynol a chyngherddau myfyrwyr. Mae nifer o'n hensembles myfyrwyr wedi teithio'n eang, gan gynnwys i Ewrop, Tsieina a De-ddwyrain Asia, tra bod ein Cerddorfa Symffoni wedi rhyddhau nifer o CDs masnachol a dderbyniodd adolygiadau da.

## Derbyn Myfyrwyr

Gofynnir i ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni anrhydedd sengl mewn Cerddoriaeth ddod yma ar gyfer clyweliad/cyfweliad byr ac i gymryd rhan mewn gweithdy. Bydd hyn yn digwydd rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth.

## Rhaglenni gradd

Mae'r rhaglenni a gynigiwn yn fodd i chi ddewis faint yn union yr hoffech chi ganolbwyntio ar gerddoriaeth fel rhan o'ch astudiaethau prifysgol.

Y cwrs BMus sy'n cynnig yr astudiaeth fwyaf manwl, gan ganiatáu i chi dreulio eich amser i gyd yn arbenigo mewn cerddoriaeth. Byddwch yn cyfuno modiwlau craidd – sy'n cynnig addysg drylwyr, eang mewn cerddoriaeth – ochr yn ochr â modiwlau opsiynol ychwanegol mewn meysydd o'ch dewis chi. Mae ein rhaglen BA Cerddoriaeth anrhydedd sengl yn hyblyg ac yn heriol, gan roi'r cyfle i chi deilwra'r rhaglen i'ch diddordebau cerddorol eich hun, ac i astudio nifer bach o fodiwlau o Ysgolion eraill. Cewch ddewis mwy rhydd o fodiwlau, ond ni chewch gymryd modiwlau Prosiect Datganiad neu Gyfansoddi Mawr y flwyddyn olaf. Mae myfyrwyr BA cydanrhydedd yn astudio 60 credyd y flwyddyn mewn modiwlau cerddoriaeth. Mae holl fodiwlau'r Ysgol ar gael i fyfyrwyr cydanrhydedd, ac eithrio modiwlau Prosiect Datganiad neu Gyfansoddi Mawr y flwyddyn olaf.

Manylir ar dudalen 146 ar y cyfuniadau o bynciau a ganiateir.

## Modiwlau mewn cerddoriaeth

Yn y flwyddyn gyntaf, mae'r cyfarwyddyd craidd yn canolbwyntio ar gyflwyniadau i theori cerddoriaeth, hanes a diwylliant cerddoriaeth, ac ysgrifennu am gerddoriaeth. Ategir hyn gan fodiwlau dewisol mewn dawn gerddorol ymarferol, cyfansoddi, a Thechnegau Jazz a Cherddoriaeth Boblogaidd. Ar gyfer myfyrwyr BMus, mae dau fodiwl yn orfodol, a gellir dewis pedwar yn unol â diddordebau personol. A chithau'n fyfyriwr BA, byddwch yn rhydd i ddewis o blith yr holl fodiwlau sydd ar gael, ond mae rhai modiwlau'n rhagofynnol ar gyfer modiwlau eraill mewn astudiaethau dilynol.

Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, byddwch yn dewis o blith grwpiau o fodiwlau sy'n edrych ar elfennau dadansoddol, arddull, ethnogerddol a hanesyddol, ynghyd â gallu cerddorol ymarferol.

## Dulliau addysgu ac asesu

Cewch eich addysgu drwy gyfuniad o hyfforddiant unigol, darlithoedd, gweithdai a seminarau, gyda phwyslais penodol ar waith grŵp yn y flwyddyn gyntaf ac addysgu unigol yn y drydedd flwyddyn. Mae llawer o'n haddysgu yn yr ystafell ddosbarth yn digwydd mewn grwpiau bach. Os byddwch chi'n cymryd y modiwlau ymarferol, cewch wers breifat wythnosol o 30 munud ar eich prif offeryn neu lais. Mae hyn yn cynyddu i un awr yr wythnos os byddwch yn cymryd y modiwl Datganiad yn y drydedd flwyddyn (ar gael ar y rhaglen BMus yn unig).

## Creu cerddoriaeth ymarferol

Un o nodweddion deniadol astudio yng Nghaerdydd yw cyfoeth ac amrywiaeth y cyfleoedd i greu cerddoriaeth. Mae ein deg ensemble a arweinir yn broffesiynol yn cynnig cyfleoedd o gerddoriaeth symffonig i gerddoriaeth siambr, o gyfnod y Dadeni i'r Cyfoes, o genres lleisiol i offerynnol, o'r clasurol i jazz i arddulliau poblogaidd, ac ar draws diwylliannau'r byd.

Mae yna hefyd amrywiaeth o gymdeithasau sy'n cael eu rhedeg gan fyfyrwyr, gan gynnwys Cymdeithas Jazz, Band Pres, Cymdeithas Operatig ac amrywiaeth o ensembles eraill sy'n adlewyrchu angerdd myfyrwyr.

Bydd llawer o repertoire ein cyfres o gyngherddau cyhoeddus yn cysylltu'n uniongyrchol â'n rhaglenni israddedig, ac yn fynych bydd amrywiaeth o berfformwyr proffesiynol yn ymweld i gynnal dosbarthiadau meistr a gweithdai mewn cyfansoddi a pherfformio.

## Mwy na gradd yn unig

Rydym wedi ymrwymo i'ch datblygu chi'n academaidd yn ogystal ag yn bersonol ac yn broffesiynol. Mae sgiliau cyflogadwyedd wedi'u gwreiddio yn y modiwlau fel eich bod yn dysgu sgiliau cerddorol, deallusol ac ymarferol y mae modd eu trosglwyddo i feysydd eraill, yn enwedig yn y gweithle.

Mae ein modiwlau Busnes Cerddoriaeth ail flwyddyn wedi'u cynllunio i'ch helpu i ddeall gwahanol ganghennau o'r proffesiwn cerddoriaeth yn well. Maent hefyd yn rhoi cyfle i ymgymryd â lleoliad byr mewn maes sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth neu'r celfyddydau. Mae ein cyfres flynyddol o sgyrsiau ar Yrfaoedd mewn Cerddoriaeth yn gyfle gwych i chi gwrdd â phobl broffesiynol mewn amryw feysydd fel perfformio, addysg cerddoriaeth, newyddiaduraeth cerddoriaeth, rheoli'r celfyddydau ac artistiaid, cynhyrchu a thrwyddedu, a chyfansoddi ar gyfer y cyfryngau.

## Astudio dramor


Rydym yn falch o'n cysylltiadau niferus ag adrannau cerdd prifysgolion a conservatoires ledled Ewrop, Gogledd America, Awstralia ac Asia. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein myfyrwyr wedi dewis astudio gyda sefydliadau partner yn UDA, yr Almaen, Gwlad Pwyl, Ffrainc, yr Eidal, y Ffindir, Slofenia, Canada, Gwlad Thai, Hong Kong ac Awstralia.

Mae ein rhaglenni Astudio Dramor yn caniatáu i chi gwblhau dwy flynedd gyntaf eich astudiaethau yng Nghaerdydd cyn treulio eich trydedd flwyddyn dramor. Yna byddwch yn dychwelyd i Gaerdydd i gwblhau blwyddyn olaf eich gradd.

Mae semester o astudio dewisol dramor ym Mlwyddyn 2 hefyd ar gael i fyfyrwyr ar ein rhaglenni BMus a BA.

# Optometreg

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**



## Pam dewis **Optometreg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

**Yn y safle 1af**
ar gyfer optometreg.
Ffynhonnell: CUG 2022.

Roedd **98%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Cyfleuster optometreg pwrpasol gyda chlinig llygaid ar y safle gwerth **£22 miliwn.**

Mae'r gyfradd pasio Arholiadau Proffesiynol yn gyson **15-20% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.**
Ffynhonnell: Coleg yr Optometryddion 2013-2019.

**Achredir** gan y GOC.

General Optical Council

Mae **100%** o'r ymchwil a gyflwynir gennym o **'safon ryngwladol'**, ac mae **94%** ohoni'n **'rhyngwladol-ragorol'** neu'n **'arwain y byd'**.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

**Mae pob rhaglen yn amodol ar gadarnhad terfynol. Edrychwch ar y wefan i gael y manylion diweddaraf.**

### Anrhydedd sengl

**Optometreg (MOptom)**
(Pedair blynedd) B510

**Optometreg gyda blwyddyn Ragarweiniol (MOptom)**
(Pum mlynedd) B511

**Achrediad**
Yn ddiweddar mae ein rhaglenni gradd wedi cael achrediad pum mlynedd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 90

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 650

## Gyrfaoedd

**Swyddi**
Gall optometryddion cymwys ddewis gyrfa ym maes ymarfer preifat, gwasanaeth llygaid mewn ysbyty, prifysgolion sy'n cynnal ymchwil ac addysgu neu amryw ddewisiadau ym myd diwydiant.

**Cyflogwyr**
Prifysgolion, amrywiol ymddiriedolaethau'r GIG, optometryddion annibynnol a lluosog, a chwmnïau fel AstraZeneca a Johnson and Johnson.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**
**Rhaglen bedair blynedd:** AAA-ABB gan gynnwys dau bwnc gwyddonol o blith Bioleg, Cemeg, Mathemateg neu Ffiseg. Cymhwyster Prosiect Estynedig: Fel arfer, bydd ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd A yn y Cymhwyster Prosiect Estynedig (EPQ) yn cael cynnig un radd yn is na'r cynnig safonol ar gyfer Safon Uwch.
**Rhaglen bum mlynedd:** ABB-BBB i gynnwys uchafswm o un pwnc gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg, Mathemateg, neu Ffiseg). Cymhwyster Prosiect Estynedig: Fel arfer, bydd ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd A yn y Cymhwyster Prosiect Estynedig (EPQ) yn cael cynnig un radd yn is na'r cynnig safonol ar gyfer Safon Uwch.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod), ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol: Rhaglen bedair blynedd:** 36-32 neu 665 mewn tri phwnc ar Lefel Uwch. Rhaid i bynciau Lefel Uwch gynnwys dau bwnc gwyddoniaeth o blith Bioleg, Cemeg, Mathemateg neu Ffiseg (isafswm gradd 5 ar Lefel Uwch).

**Rhaglen bum mlynedd:** 32-31 pwynt gan gynnwys un pwnc Lefel Uwch ar radd 6 neu 665 mewn 3 phwnc Lefel Uwch. Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt â phwnc gwyddoniaeth neu gydag un pwnc gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg, Mathemateg neu Ffiseg).

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Gofynion eraill**
**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:**
- Gradd C neu radd 4 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg Iaith.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

**Addasrwydd i Ymarfer:** Mae gweithdrefnau'r Cyngor Optegol Cyffredinol o ran Côd Ymarfer ac Addasrwydd Myfyrwyr i Ymarfer yn pennu bod rhaid i fyfyrwyr ddangos tystiolaeth o'u cymeriad da. Bydd hynny'n golygu gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cewch ragor o wybodaeth yn:
**www.optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/**

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwyr: **Dr Jennifer Acton / Judith Colwill**

Ffôn: **(029) 2087 4374 +44 (0)29 2087 4374**

Ebost: **optomadmissions@caerdydd.ac.uk**

**SchoolOfOptometryAndVisionSciences** **@SchoolOfOptom**

**Mae ein Hysgol wedi'i lleoli mewn cyfleuster optometreg pwrpasol,** lle cynhelir ei holl weithgareddau addysgu, ymchwilio ac allgymorth. Byddwch yn elwa ar gyfleusterau rhagorol, sy'n cynnwys clinigau, labordai a mannau dysgu.

"Mae astudio optometreg yng Nghaerdydd wedi bod yn brofiad gwych i mi. Ochr yn ochr â defnyddio technolegau optometrig uwch a gweithio gyda chleifion go iawn, yr elfen orau i mi yw'r ymdeimlad o gymuned ymysg y myfyrwyr, y darlithwyr a'r goruchwylwyr."

**Elicia**, Optometreg (BSc)



## Golwg yw un o'n synhwyrau mwyaf gwerthfawr – ac mae optometryddion yn helpu i wella golwg. Os ydych chi wrth eich bodd yn gweithio gyda phobl, eisiau gwella ansawdd bywyd pobl, a'ch bod chi'n meddwl yn wyddonol, yna mae optometreg ar eich cyfer chi.

Mae optometryddion yn arbenigwyr gofal iechyd sydd wedi'u hyfforddi i archwilio llygaid cleifion a phresgripsiynu sbectol a lensys cyffwrdd i gywiro golwg cleifion. Mae rôl yr optometrydd yn ehangu, gydag optometryddion bellach yn gymwys i ganfod clefydau llygaid, fel glawcoma, a hyd yn oed ganfod arwyddion yn y llygad sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd cyffredinol fel diabetes.

Rydym yn cynnig rhaglenni gradd pedair a phum mlynedd sy'n arwain at radd Meistr mewn Optometreg (MOptom). Bydd y rhaglenni hyn yn rhoi'r sgiliau clinigol a gwyddonol i chi symud ymlaen ar hyd y llwybr i ddod yn optometrydd cofrestredig.

Nod y cwrs yw darparu'r sgiliau clinigol gofynnol i sicrhau bod anghenion gofal sylfaenol y cyhoedd yn cael eu diwallu i'r safon uchaf. Byddwch yn ymgyfarwyddo â sawl agwedd ar ofal optometrig, gan gynnwys archwiliadau llygaid cyffredinol, dosbarthu sbectol, ffitio lensys cyffwrdd, anhwylderau golwg deulygadol, golwg gwan, cyflyrau ocwlar annormal, ac optometreg bediatrig.

## **Optometreg** (Pedair blynedd) (B510)

Dyluniwyd y rhaglen hon i fod yn ysgogol, yn hyblyg ac yn berthnasol i anghenion gyrfa mewn optometreg. Rhoddir pwyslais sylweddol ar agweddau ymarferol y pwnc a bydd ein clinig llygaid pwrpasol yn darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen arnoch i berffeithio'ch sgiliau clinigol.

Bydd yr agweddau clinigol ar y cwrs yn chwarae rhan allweddol ym mhob un o bedair blynedd eich astudiaeth, ac maent wedi'u cynllunio i fod mor amrywiol â phosibl. O'r flwyddyn gyntaf, byddwch yn dechrau profi cyswllt clinigol uniongyrchol, gan ddechrau gydag arsylwi ar leoliadau gwaith. Wrth i chi symud ymlaen, byddwch yn dod ar draws ystod eang o gleifion arferol a'r rhai sy'n mynychu clinigau arbenigol (e.e. glawcoma, golwg gwan, retina meddygol, gofal llygad acíwt). Ymgymerir â lleoliadau mewn safleoedd allanol mewn practis cymunedol ac mewn ysbytai, tra bod ein lleoliadau ar y safle yn digwydd yng Nghlinig Llygaid Prifysgol Caerdydd a chlinigau'r GIG yn yr adeilad Optometreg. Bydd lleoliadau allanol yn cael eu cynnal ar y cyd â Choleg yr Optometryddion, dros gyfnod o tua 44 wythnos, yn bennaf yn ystod dwy flynedd olaf y rhaglen.

Datblygir eich dysgu trwy gwricwlwm troellog, lle caiff pynciau eu datblygu a'u hailystyried gyda chymhlethdod cynyddol dros y 4 blynedd o astudio - dull sy'n annog dysgu hydredol.

Mae ein staff yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgol i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol, gan gynnwys amrywiaeth o becynnau e-ddysgu.

### Blwyddyn gyntaf

Yn y flwyddyn gyntaf, byddwch yn dysgu hanfodion optometreg, ac ni ddisgwylir i chi wybod dim am y llygad na'r system weld ymlaen llaw.

Bydd eich dysgu yn cynnwys hanfodion archwiliad llygaid, dosbarthu, offeryniaeth offthalmig a chyflwyniad i lensys cyffwrdd. Bydd gwybodaeth am anatomeg a ffisioleg systemig a chyflyrau systemig a phathoffisioleg yn cael ei hennill, gyda phwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf, ochr yn ochr ag anatomeg ocwlar a chyflyrau ocwlar cyffredin. Bydd sgiliau'n cael eu datblygu mewn perthynas ag ymarfer optometrig cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys sgiliau ymchwil a dadansoddi data mewn perthynas ag astudio annibynnol, meddwl yn feirniadol ac ymarfer clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, byddwch yn gallu cynnal technegau cyn-sgrinio a thechnegau optometrig eraill yn annibynnol, ac archwilio a rheoli rhai elfennau o ofal cleifion o dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Bydd yr addysgu yn y flwyddyn gyntaf yn cynnwys dysgu ar sail achosion, datblygu sgiliau clinigol a labordy, a lleoliad mewnol arsylwadol. Bydd y dysgu yn y flwyddyn gyntaf yn cynnig y profiad ymarferol hanfodol sy'n allweddol i ddatblygiad gweithiwr proffesiynol clinigol.

### Ail flwyddyn

Yn yr ail flwyddyn, byddwch yn dysgu sut i gynnal archwiliadau llygaid, gyda phwyslais ar sut i addasu'r technegau clinigol i allu profi plant ac oedolion hŷn, yn ogystal ag unigolion â golwg gwan. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau a gwybodaeth bellach mewn ymarfer a dosbarthu lensys cyffwrdd. Bydd gwybodaeth am ymchwilio i'r llwybr gweledol a deall y system weledol fel mecanwaith canfyddiadol yn cael ei datblygu. Byddwch yn dysgu am ffarmacoleg ocwlar ac offthalmoleg i ddysgu i ganfod a diagnosio cyflyrau ocwlar cyffredin a rheoli mân gyflyrau blaen y llygad. Mae meysydd eraill yn cynnwys dulliau ymchwil, iechyd y cyhoedd a gwella ansawdd gofal iechyd. Hefyd, bydd lleoliad arsylwadol mewnol yn cael ei gwblhau.

Erbyn diwedd yr ail flwyddyn, byddwch yn gallu dosbarthu'n annibynnol i gleifion arferol, ac archwilio a rheoli elfennau pellach o ofal cleifion o dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

### Trydedd flwyddyn

Caiff dulliau a galluoedd clinigol eu meithrin hyd at lefel broffesiynol trwy gydol y flwyddyn. Byddwch yn cynnal archwiliadau llygaid rheolaidd ac yn dosbarthu atgyweiriadau optegol priodol, yn ogystal â pharhau i ddatblygu sgiliau archwilio cleifion pediatrig, anghenion arbennig a golwg gwan. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael eu cyflwyno i agweddau ar ymarfer lens cyffwrdd uwch. Er mwyn datblygu sgiliau clinigol a rheoli ymhellach, byddwch yn ymgymryd â lleoliadau (22 wythnos) fel rhan o lwybr Coleg yr Optometryddion, mewn ystod o glinigau optometreg ac offthalmoleg mewn tro, ar feysydd pwnc fel glawcoma, ocwloplastigion, a gofal llygad acíwt. Wrth gwblhau'r lleoliad allanol hwn, cewch eich cefnogi i ddysgu o bell mewn gofal llygad acíwt a glawcoma gan staff ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd eich profiad Clinigol yn cael ei gefnogi gan ystod o gyfleoedd dysgu a datblygu sgiliau clinigol, astudiaethau achos ac asesu ffurfiannol. Byddwch yn parhau i ddatblygu eich gwybodaeth am gyflyrau ocwlar annormal a phresgripsiynu therapiwtig.

Erbyn diwedd y drydedd flwyddyn, byddwch yn gallu archwilio a rheoli cleifion arferol yn annibynnol a chleifion mwy cymhleth o dan oruchwyliaeth anuniongyrchol ac uniongyrchol.

### Y bedwaredd flwyddyn

Yn y bedwaredd flwyddyn, byddwch yn dysgu sut i reoli cleifion o bob oed yn annibynnol, yn amrywio o ran cymhlethdod. Bydd hyn yn cynnwys cleifion â dementia, anableddau dysgu, golwg gwan, a glawcoma a chlefydau eraill y llygaid. Bydd profiad clinigol gweithredol yn cael ei gyflawni yng nghlinigau GIG arbenigol yr Ysgol, sy'n delio'n uniongyrchol â chleifion, a hynny mewn retina meddygol, gofal llygad acíwt ac ocwloplastigion, yn ogystal ag mewn lleoliad allanol (22 wythnos) fel rhan o lwybr Coleg yr Optometryddion. Bydd y lleoliad allanol yn cael ei gefnogi gyda dysgu o bell ar olwg gwan a retina meddygol gan staff ym Mhrifysgol Caerdydd. Byddwch yn parhau i ddatblygu eich gwybodaeth am gyflyrau systemig sy'n effeithio ar y llygad, theori presgripsiynu annibynnol a'r gyfraith, arweinyddiaeth a rheolaeth. Bydd opsiynau i ymgymryd â thystysgrifau proffesiynol a gweithio tuag at gymwysterau arbenigol.

Mewn cydran arall a ddewisir gan fyfyrwyr, mae'r opsiynau'n cynnwys prosiect ymchwil, adolygiad systematig, archwiliad clinigol, modiwl gofal llygad pediatrig neu fodiwl gwyddoniaeth golwg uwch mewn seicoffiseg a chanfyddiad neu niwroanatomeg a datblygiad y system weledol.

Ar ôl cwblhau'r bedwaredd flwyddyn yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn hyderus ac yn gymwys i reoli ystod eang o gleifion a byddant yn cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol fel optometryddion cymwys.

# Fferylliaeth

**Wedi'i achredu'n broffesiynol**



## Pam dewis **Fferylliaeth** ym Mhrifysgol Caerdydd?

**Rydym yn ysgol glos sydd wedi hen ennill ei phlwyf** ac sydd â dros 100 mlynedd o ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil.

**100%**
Ers blynyddoedd lawer, mae 100% o'n graddedigion sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant fferylliaeth cyn cofrestru wedi llwyddo i gael lle yn yr hyfforddiant.

Gwnaeth **95.7%** o'n myfyrwyr a safodd arholiad cyn-cofrestru'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn 2021 lwyddo y tro cyntaf, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol cyffredinol o 89.7%.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae gennym amrywiaeth o weithgareddau addysgu a fwriedir i gefnogi myfyrwyr a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Rydym yn **Gydradd Gyntaf o blith Ysgolion Fferylliaeth** y DU.

Ffynhonnell:
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

Gwnaethom **sgorio 92%** am foddhad cyffredinol yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr.



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Fferylliaeth (MPharm)** B230

**Achrediad**
Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 130

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 650

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Tiwtor derbyn myfyrwyr:
**Dr Allan Cosslett**
Ffôn: **(029) 2087 4080**
**+44 (0)29 2087 4080**
Ebost: **pharmacy-ug@caerdydd.ac.uk**

**CardiffSchoolofPharmacy**

**@PharmacyCU**

**cardiffpharmacy**

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.
**Safon Uwch:** AAB-ABB i gynnwys Cemeg neu Fioleg wedi'i ddilyn gan Gemeg/Bioleg, Ffiseg neu Fathemateg, yna unrhyw drydydd pwnc Safon Uwch.
**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.
**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 34 o bwyntiau, gan gynnwys sgorau o 6 mewn Cemeg, a Bioleg, Mathemateg neu Ffiseg ar Lefel Uwch.
**BTEC:** DD mewn Gwyddoniaeth Fferyllol neu Wyddoniaeth Gymhwysol a gradd B mewn Cemeg NEU Fioleg Safon Uwch.
**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad gwaith perthnasol.

**Gofynion eraill**

Rhaid i bob ymgeisydd fod yn 18 oed wrth ddechrau ar y cwrs oherwydd natur gweithgareddau lleoliad gwaith y GIG a mannau eraill, a fydd yn dechrau yn ystod wythnosau cyntaf y rhaglen addysgu.
**TGAU:** Gwyddoniaeth Ddwbl neu Fioleg, Mathemateg a Saesneg Iaith.
**Addasrwydd i Ymarfer:** Mae gan y corff sy'n rheoleiddio fferylliaeth, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, set o Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, sy'n golygu bod yn rhaid i bob myfyriwr arddangos cymeriad da ac ymddygiad proffesiynol. Bydd hynny'n golygu gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ymgymryd ag asesiad Iechyd Galwedigaethol. Disgwylir hefyd i'r myfyrwyr ddilyn Côd Gwisg Cymru Gyfan y GIG yn ystod lleoliadau gwaith gyda'r GIG.

Cewch ragor o wybodaeth yn:
**www.pharmacyregulation.org**
**www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service**
**www.llyw.cymru/cod-gwisg-y-gig**

Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol ddarparu tystysgrif wreiddiol o ymddygiad da, neu ddogfen gyfatebol, o'u mamwlad. Rhaid iddi gael ei chyfieithu i'r Saesneg gan gyfieithydd cymeradwy.

Os na fydd myfyriwr yn cael gwiriad o'r fath, neu os gwelir iddo/iddi ymddwyn yn amhriodol, efallai na chaiff ymuno â'r cwrs neu na chaiff ei gwblhau.

Mae ein rhaglen MPharm yn cael ei adolygu yn rhan o'n hymrwymiad parhaol i wella ein cwrs er mwyn iddo adlewyrchu'r newidiadau mewn ymarfer fferylliaeth a sicrhau bod gan ein graddedigion y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt ar eu cam nesaf yn eu gyrfaoedd ym maes fferylliaeth.

## Gyrfaoedd

Mae'r dewisiadau o ran gyrfa yn amrywiol ac yn doreithiog ar gyfer fferyllwyr, gan amrywio o leoliadau ysbyty, gofal sylfaenol neu gymunedol – sy'n cynnwys cael eich lleoli mewn meddygfeydd teulu – i ddiwydiant neu ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol, gan olygu bod y radd hon yn ddewis cyffrous.

Mae fferyllwyr yn arbenigwyr ym maes cyffuriau a meddyginiaethau. Maent yn ymgynghori â chleifion yn effeithiol, mae rhai yn rhoi meddyginiaethau heb fod angen meddyg ac mae nifer ar reng flaen y ddarpariaeth gofal iechyd.

Mewn ysbytai, mae fferyllwyr yn rhan allweddol o'r tîm gofal iechyd, ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ar wardiau neu mewn clinigau i sicrhau y caiff anghenion cleifion eu diwallu. Yn ogystal â chyflenwi meddyginiaethau, mae fferyllwyr cymunedol hefyd yn cynghori'r cyhoedd ar faterion iechyd ac yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol eraill ynghylch meddyginiaethau. At hynny, maent yn rhoi brechlynnau ac yn cymryd mesuriadau pwysedd gwaed, yn ogystal â chyflawni tasgau eraill sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae fferyllwyr mewn lleoliad gofal sylfaenol yn addasu meddyginiaethau cleifion i sicrhau eu bod mor fuddiol â phosibl ac i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gwahanol. Maent hefyd yn helpu i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi'r boblogaeth leol â'u hanghenion iechyd. Mae fferyllwyr diwydiannol yn cymryd rhan yn y gwaith o ymchwilio, dylunio, datblygu, profi a marchnata meddyginiaethau a thriniaethau newydd, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac o safon dda ar gyfer cleifion.

Tua diwedd eich cwrs gradd, cewch gymorth i ddod o hyd i rôl hyfforddiant sylfaen.

> Rydw i wedi mwynhau mas draw wrth astudio yn yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol. Mae wedi'i gosod ymhlith y gorau am ansawdd ei haddysgu a'i hymchwil – a nawr rwy'n gwybod pam. Mae'r cwrs wedi bod yn heriol ac yn ysgogol, ac yn cynnwys pynciau sy'n amrywio o wyddor llunio i gemeg feddygol ac, wrth gwrs, fferylliaeth glinigol. Mae'r ffordd y caiff y cwrs ei addysgu'n amrywio o ddarlithoedd, i weithdai, i sesiynau ymarferol a hyd yn oed sesiynau rhyngbroffesiynol gyda myfyrwyr o broffesiynau eraill, megis meddygaeth. Rydym yn cael ein haddysgu gan ddarlithwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes, ond sydd bob amser yn fodlon rhoi help llaw, ac mae teimlad teuluol ymhlith y staff a'r myfyrwyr.
>
> **Gwenno**, Gradd mewn fferylliaeth



## Rydym yn falch o fod yn hyfforddi fferyllwyr y dyfodol. Ein cenhadaeth yw rhoi i'n myfyrwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i lwyddo yn eu dewis o yrfa.

Mae'r israddedigion yn astudio i gyflawni gradd Meistr mewn Fferylliaeth, a achredir gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

## Cyflwyniad

Mae fferyllwyr heddiw yn arbenigwyr wrth ddarganfod a chyflwyno cyffuriau a hefyd yn chwarae rôl uniongyrchol wrth wella iechyd a lles cleifion. Mae nifer hefyd bellach yn rhoi meddyginiaethau heb fod angen meddyg.

Gan fod rôl y fferyllydd yn cymryd camau breision ymlaen i gynnwys rhagor o gyfleoedd i drin cleifion wyneb yn wyneb, mae ein rhaglen MPharm yn adlewyrchu'r datblygiadau cyffrous hyn.

Ar y rhaglen bedair blynedd hon, sy'n ennyn parch rhyngwladol, byddwch yn dysgu am y broses o ddarganfod a datblygu cyffuriau newydd ac yn archwilio eu priodweddau cemegol, ffisicogemegol, ffarmacolegol a gwenwynegol. Byddwch hefyd yn astudio defnydd clinigol meddyginiaethau a rôl y fferyllydd wrth wella canlyniadau i gleifion yn rhan o dimau gofal iechyd rhyngbroffesiynol.

Byddwch yn dysgu am y bathoffisioleg sydd wrth wraidd llawer o glefydau dynol, a sut y gall defnyddio meddyginiaethau atal clefydau, arafu eu datblygiad neu wyrdroi eu prosesau. Byddwch yn cael eich addysgu gan ein tîm o staff academaidd o'r radd flaenaf, yn ogystal ag ymarferwyr fferylliaeth sydd ag ystod helaeth o arbenigedd.

Mae ymgymryd â'r MPharm ym Mhrifysgol Caerdydd yn golygu astudio yn un o ysgolion fferylliaeth gorau'r DU ac, fel ysgol gyfeillgar ac agos atoch, byddwn yn eich helpu i fwynhau profiad academaidd cyfoethog a boddhaus trwy gydol eich cyfnod yma.

## Gradd

Bydd yn cymryd pedair blynedd o astudio'n amser llawn i chi gael gradd MPharm. Mae'r rhaglen yn un fodiwlaidd sy'n seiliedig ar gredydau. Gan fod y cwrs gradd yn rhan o'r daith at gofrestru fel gweithiwr proffesiynol, mae pob modiwl yn orfodol. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o ddewis o ran eich astudiaethau yn y flwyddyn olaf, sy'n golygu ymchwiliad uwch mewn maes ymchwil arbenigol, gan gynnwys prosiect ymchwil.

Mae amcanion y radd MPharm fel a ganlyn:

- darparu gwybodaeth gadarn am y gwyddorau fferyllol a'r sgiliau proffesiynol angenrheidiol, ynghyd â dealltwriaeth gadarn ohonynt, fel eich bod yn gallu symud ymlaen yn hyderus i hyfforddiant fferyllol cyn-cofrestru
- cynnig profiad o weithio'n agos gydag ymarferwyr fferylliaeth ac ymarferwyr gofal iechyd eraill, gyda lleoliadau ymarfer drwy gydol y cwrs
- cynhyrchu graddedigion sydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer cyfleoedd o ran gyrfa ym maes fferylliaeth mewn ysbyty, yn y gymuned, mewn gofal sylfaenol, ym myd diwydiant ac yn y byd academaidd.

**Blwyddyn 1:** Bwriad y flwyddyn hon yw rhoi sylfaen i chi yn yr agweddau ar fferylliaeth sy'n ymwneud â gwyddoniaeth a chyfathrebu. Byddwch yn ymchwilio i'r 'bod dynol iach' a chewch gyflwyniad i ymarfer clinigol fferylliaeth a rôl y fferyllydd proffesiynol.

**Blwyddyn 2:** Byddwch yn cynyddu eich gwybodaeth am gemeg fferyllol, llunio meddyginiaethau, a'r modd y mae meddyginiaethau therapiwtig yn gweithio. Mewn fferylliaeth broffesiynol, rhoddir pwyslais ar ddosbarthu presgripsiynau.

**Blwyddyn 3:** Caiff agweddau clinigol ar fferylliaeth eu datblygu, ynghyd â gwyddor llunio a dadansoddi fferyllol. Mae therapiwteg ym mlwyddyn tri yn canolbwyntio ar gyflyrau heriol cleifion megis clefyd niwroddirywiol a chanser. Byddwch yn dysgu sgiliau ymchwil cyffredinol o ran gwerthuso llenyddiaeth a chyflwyno ymchwil.

**Blwyddyn 4:** Yn ystod semester un, byddwch yn canolbwyntio'n bennaf ar eich prosiect ymchwil pwrpasol eich hun. Cewch wneud y prosiect yn yr Ysgol neu mewn cydweithrediad â lleoliad yn y gymuned, mewn ysbyty neu ym myd diwydiant. Yn semester dau, cewch eich paratoi'n ddwys i ymuno â phractis proffesiynol. Byddwch yn cymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau a gawsoch o ran gwyddor fferyllol a fferylliaeth broffesiynol at amrywiaeth o broblemau fferyllol cymhleth. Canolbwynt y problemau hynny fydd i chi gymryd cyfrifoldeb, ymdrin â chymhlethdod a rheoli newid.

## Derbyn Myfyrwyr

Dewisir ymgeiswyr ar sail y cymwysterau gofynnol, geirda academaidd, datganiad personol a chyfweliad. Yn ystod y cyfweliad, anogir yr ymgeiswyr i arddangos ymrwymiadau a sgiliau anacademaidd perthnasol, gan gynnwys dealltwriaeth sylfaenol o fferylliaeth glinigol. Mae hwn hefyd yn gyfle gwych i holi staff am yr Ysgol a bywyd yng Nghaerdydd.

## Dulliau addysgu ac asesu

Byddwch yn elwa ar fod mewn amgylchedd dysgu modern ac ar gael profiad ymarferol o weithio gyda chleifion, y cyhoedd, fferyllwyr, staff fferyllfeydd a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd. Er mwyn eich paratoi ar gyfer darparu gofal iechyd amlddisgyblaethol, byddwch yn dysgu gyda myfyrwyr o ddisgyblaethau meddygol a gofal iechyd eraill trwy ein sesiynau addysg ryngbroffesiynol arloesol.

Mae lleoliadau gwaith yn rhan annatod o'r rhaglen, lle byddwch yn magu profiad amhrisiadwy ar reng flaen y ddarpariaeth gofal iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys mewn ysbytai, practisau meddyg teulu, ac mewn fferyllfeydd cymunedol a lleoliadau gofal cymdeithasol eraill. Ategir y darlithoedd ffurfiol a'r dosbarthiadau labordy gan e-ddysgu a gweithdai datrys problemau sy'n seiliedig ar achosion a chyfathrebu effeithiol. Gyda'i gilydd, bydd y gweithgareddau hyn yn sicrhau eich bod yn meithrin diwylliant o broffesiynoldeb ac ymrwymiad i ddysgu gydol oes.

## Cymhwyster proffesiynol

Bydd y radd mewn Fferylliaeth yn eich galluogi i gofrestru fel fferyllydd ar ôl cwblhau'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen yn llwyddiannus.

Rhaid treulio'r flwyddyn hon o hyfforddiant yn cael eich cyflogi a'ch goruchwylio gan diwtor fferylliaeth cydnabyddedig. Mae yna amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd lle gallwch gwblhau'r hyfforddiant hwn, gan gynnwys gofal sylfaenol, lleoliadau cymunedol, ysbytai neu fyd diwydiant.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn hyfforddiant sylfaen, mae'n rhaid i chi sefyll a phasio asesiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Cofrestru gyda'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yw'r cymhwyster statudol sy'n fodd i chi ymarfer fel fferyllydd yn y DU a'r UE; fe'i cydnabyddir mewn llu o wledydd eraill ar hyd a lled y byd.

## Astudiaethau ôl-raddedig

Rydym yn cynnig amrywiaeth o raglenni ôl-raddedig arbenigol.

Rhaglenni a addysgir ar gyfer fferyllwyr cymwys:
Fferylliaeth Glinigol (MSc, PgDip, PgCert)
Presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr (lefel 7)
Rhaglenni a addysgir ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwyddonwyr biofeddygol eraill:
Bioleg a therapiwteg canser (MSc)
Ymchwil Glinigol (MSc)

## Ymchwil ôl-raddedig

Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli i fyfyrwyr weithio tuag at raddau ymchwil MPhil/PhD gan ganolbwyntio ar ddarganfod, datblygu a defnyddio meddyginiaethau a therapiwteg i fynd i'r afael â rhai o glefydau mwyaf gwanychol a pheryglus y byd.

## Defnyddio organebau byw wrth addysgu israddedigion

Gweler tudalen 151.

# Ffiseg a Seryddiaeth

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Lleoliad proffesiynol





## Pam dewis **Ffiseg a Seryddiaeth** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Cefnogir ein graddau sydd wedi'u hachredu gan y Sefydliad Ffiseg gan **ymchwil arloesol**; mae ein datblygiadau diweddar yn cynnwys darganfod arwyddion posib o fywyd ar Fenws.

**1af** ar gyfer seryddiaeth ac **2il** ar gyfer ffiseg o ran bodlonrwydd myfyrwyr yng Nghrŵp Russell.

(*Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2020)

**Hyblygrwydd:** mae blwyddyn gyntaf gyffredin yn caniatáu i chi newid eich gradd, gwneud eich astudiaeth yn un eich hun, a'i haddasu i fodloni'ch diddordebau.

Rydym yn **hyrwyddo** gyrfaoedd menywod mewn gwyddoniaeth ac yn **hyrwyddo** cydraddoldeb rhywiol mewn ffiseg (Gwobr Arian Athena Swan a Statws Hyrwyddwr Juno IOP).

Roedd **100%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

**99%** o'n hymchwil yn '**rhyngwladol-ragorol**' ac yn '**arwain y byd**', yn **6ed** yn y DU ac yn **2il** am effaith

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Astroffiseg (BSc)** | (Tair blynedd) F511 |
| **Astroffiseg (MPhys)** (Pedair blynedd) | F510 |
| **Ffiseg (BSc)** | (Tair blynedd) F300 |
| **Ffiseg (MPhys)** | (Pedair blynedd) F303 |
| **Ffiseg gyda Seryddiaeth (BSc)** | (Tair blynedd) F3F5 |
| **Ffiseg gyda Seryddiaeth a Lleoliad Proffesiynol (BSc)** | (Pedair blynedd) F3FN |
| **Ffiseg gyda Seryddiaeth (MPhys)** | (Pedair blynedd) F3FM |
| **Ffiseg gyda Ffiseg Feddygol (BSc)** | (Tair blynedd) F350 |
| **Ffiseg gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc)** | (Pedair blynedd) F302 |
| **Ffiseg gyda Lleoliad Proffesiynol (MPhys)** | (Pum mlynedd) F304 |
| **Ffiseg a Seryddiaeth gyda Lleoliad Proffesiynol (MPhys)** | (Pum mlynedd) F5F3 |

**Achrediad**

Caiff ein holl raglenni gradd sefydledig eu hachredu gan y Sefydliad Ffiseg.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 130

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 500

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAA-ABB ar gyfer yr holl gyrsiau, a rhaid iddo gynnwys Mathemateg a Ffiseg.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 32-36 pwynt, gyda 665-766 ar Lefel Uwch a 6 mewn Ffiseg a Mathemateg Lefel Uwch.

**BTEC:** DD-DM mewn BTEC cysylltiedig â Gwyddoniaeth/Peirianneg a hefyd gradd A Mathemateg Safon Uwch. Neu, D mewn unrhyw BTEC a hefyd graddau BB mewn Mathemateg a Ffiseg Safon Uwch.

**Eraill:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen neu brofiad gwaith perthnasol. Cysylltwch â ni i gael gwybod rhagor, gan fod pob achos yn cael ei asesu'n unigol. Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn astudio Ffiseg Safon Uwch, ond sydd â sgoriau uchel mewn Mathemateg, yn cael eu hystyried yn unigol. Gall myfyrwyr nad oes ganddynt Safon Uwch Mathemateg symud ymlaen trwy'r Flwyddyn Sylfaen mewn Peirianneg.

### Gofynion eraill

**Uwch Gyfrannol:** Nid yw cymwysterau UG yn ddigonol ar gyfer mynediad i'r rhaglenni BSc/MPhys.

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:**
Gradd C neu radd 4 o leiaf mewn Saesneg Iaith neu IELTS 6.5 (yn gyffredinol) gydag o leiaf 5.5 ym mhob is-grŵp i siaradwyr Saesneg anfrodorol.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtor derbyn myfyrwyr: **Dr Chris North**

Ffôn: **(029) 2087 0537/6457**

**+44 (0)29 2087 0537/6457**

Ebost: **physics-admissions@caerdydd.ac.uk**

**CardiffSchoolofPhysics**

**@cardiffPHYSX**

**Ffiseg a Seryddiaeth Prifysgol Caerdydd**

## Gyrfaoedd

**Rolau swydd** Mae'r opsiynau'n helaeth o ran rolau swydd e.e. gwyddonydd ymchwil, addysgu, ffiseg feddygol, bancio, eiddo deallusol, ymchwil weithrediadol, cyfrifyddiaeth, peilot awyrennau, gwasanaethau cudd-wybodaeth llywodraethau, TG, yr heddlu, y lluoedd arfog, dosbarthu pŵer a rolau o fyd ymchwil a datblygu i reoli ym myd diwydiant, fel pŵer niwclear, optoelectroneg, cerbydau, awyrofod, cyfleustodau a gemau cyfrifiadur.

**Cyflogwyr** Prifysgolion yn y DU a thramor, a sefydliadau fel Rolls Royce, Banc Lloegr ac EDF Energy.

**Ar ôl cael buddsoddiad o dros £300 miliwn**, mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnig amgylchedd gwych. Byddwch yn elwa ar fannau addysgu â chyfarpar da, darlithfeydd a adnewyddwyd yn ddiweddar, a'r labordai ymchwil diweddaraf. Y tu hwnt i hyn, mae adeilad cyfagos Trevithick yn cynnig gofod dysgu arloesol, gan gynnwys llyfrgell wyddoniaeth fathemategol bwrpasol, cyfleusterau cyfrifiadurol ychwanegol, a bwyty ac ystafell gyffredin i fyfyrwyr. Rydym hefyd o fewn tafliad carreg i Undeb y Myfyrwyr, canol y ddinas, a mannau agored gwyrdd hardd.

> Mae'r Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth yn adran hynod o ddiddorol sydd â llawer iawn yn digwydd, er enghraifft, mae Canolfan Ymchwil Lled-ddargludyddion Cyfansawdd i'w chael yma. Mae Caerdydd yn ddinas wych. Mae canol y dref yn agos i'r adran ac mae'n cynnwys parciau hyfryd sy'n hawdd eu cyrraedd. Un o'r pethau gorau ynghylch astudio yma yw'r bobl. Mae'r staff academaidd yn hyfryd ac yn gyfeillgar iawn, ac rwyf wedi gwneud ffrindiau da. Pan fyddaf yn graddio, rwy'n bwriadu gweithio ym maes datblygu meddalwedd.
>
> **Daniel**, Ffiseg (MPhys)





Mae hyfforddiant ymarferol yn elfen bwysig o'ch gradd

## Mae ffiseg yn bwnc hynod ddiddorol, sy'n sylfaenol i ddatblygiad y gymdeithas fodern. Mae'n ymwneud â deall deddfau natur a chymhwyso'r wybodaeth honno at ddatgloi cyfrinachau'r bydysawd, er mwyn deall y byd o'n hamgylch ac esgor ar dechnolegau newydd.

Mae gradd sy'n seiliedig ar ffiseg yn ysgogi chwilfrydedd deallusol yn ogystal â rhoi i chi sgiliau ymarferol a'r gallu i ddatrys problemau bywyd go iawn. Bydd yr hyfforddiant eang yn fodd i chi gadw eich dewis o yrfa'n agored tan i chi raddio, a hefyd i ymaddasu i'r cyfleoedd cyfredol i gael gwaith. Oherwydd ymroddiad graddedigion ffiseg i'w gwaith a'u gallu i ymaddasu, maent yn boblogaidd iawn i'w cyflogi mewn sectorau amrywiol fel byd diwydiant, ymchwil, addysg, masnach a chyllid.

Mae ein rhaglenni gradd sydd wedi'u hachredu gan y Sefydliad Ffiseg yn cyfleu cyffro ffiseg a seryddiaeth, yn darparu dealltwriaeth fanwl, ac yn datblygu sgiliau datrys problemau rhagorol. Mae ein graddau'n darparu dewis rhwng cyrsiau mwy ymarferol neu fwy damcaniaethol, yn dibynnu ar eich dewis.

Ffiseg ac Astroffiseg yw ein rhaglenni gradd mwyaf poblogaidd. Yn y pynciau hynny cewch ddewis rhwng y BSc tair blynedd safonol a'r MPhys ar lefel uwch. Gradd pedair blynedd, amser llawn yw'r olaf ar gyfer myfyrwyr a hoffai fynd ymlaen i wneud ymchwil neu i fod yn ffisegwyr proffesiynol yn bennaf.

Mae pob un o'n rhaglenni gradd yn cynnwys modiwlau ffiseg a mathemateg craidd a fydd yn helpu i lunio sylfaen eich addysg ffiseg.

Mae'r ystod o raglenni gradd a gynigir yn rhoi cyfle i ddilyn pwnc ychwanegol yn fwy manwl, fel seryddiaeth neu ffiseg feddygol.

Mae'r dulliau addysgu yn cynnwys darlithoedd, sesiynau tiwtorial a dosbarthiadau datrys problemau. Asesir trwy gyfuniad o arholiadau a gwaith cwrs, ac mae'r asesiadau'n gyfuniad o waith ysgrifenedig, wedi'i deipio ar-lein.

Ar hyn o bryd mae 16-18 awr o addysgu ffurfiol yr wythnos, ac mae tua'r un nifer o oriau'n ddisgwyliedig gan fyfyrwyr ar ffurf gwaith cwrs ac addysgu hunangyfeiriedig.

Cewch sesiynau tiwtorial rheolaidd mewn grŵp, sy'n cynnwys dau neu dri myfyriwr arall ac aelod o staff academaidd, ac ynddynt cewch drafod eich gwaith mewn awyrgylch anffurfiol a hamddenol. Bydd gennych hefyd diwtor personol a fydd ar gael i'ch helpu gyda phroblemau anacademaidd os byddant yn codi, ac a fydd yn parhau'n diwtor i chi ar hyd cyfnod eich gradd.

Yn y flwyddyn olaf, byddwch yn cyflawni prosiect sylweddol. Mae mwyafrif y rhain yn digwydd mewn labordai ymchwil, a fydd yn rhoi cyfle i chi wneud gwaith ymchwil a rhannu yng nghyffro darganfyddiadau newydd.

Rydym ni'n ymfalchïo yn yr awyrgylch cyfeillgar rydym ni'n ei feithrin, ac rydym ni'n siŵr y byddwch yn credu ein bod yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn groesawgar.

## Y flwyddyn gyntaf

Sylweddolwn nad yw'n hawdd i chi ymrwymo i raglen radd benodol hyd at flwyddyn cyn dod i'r brifysgol. Oherwydd hyn, mae gan y flwyddyn gyntaf strwythur hyblyg sydd, heb lawer o eithriadau, yn caniatáu i chi newid eich gradd cyn dechrau'ch ail flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu i chi ddilyn eich diddordebau sy'n datblygu.

Byddwch yn derbyn eich holl waith cwrs o'r flwyddyn gyntaf yn ôl gydag adborth o fewn wythnos i'w gyflwyno. Bydd llawer o hynny'n digwydd drwy eich tiwtor academaidd, fel bod modd i ni ac i chi gadw golwg amserol ar eich cynnydd.

Cyflwynir rhaglennu cyfrifiadurol yn y flwyddyn gyntaf, ac fe'i addysgir drwy fodiwlau penodol a'i integreiddio i'r addysgu ar hyd y radd. Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadura helaeth sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith y Brifysgol, ac mae WiFi ym mhob rhan o'r adeilad ar gyfer gliniaduron a dyfeisiau eraill. Cyflwynir myfyrwyr i'r feddalwedd berthnasol ar gyfer prosesu geiriau, dadansoddi data ac ymchwil ar y we.

Y tu allan i sesiynau wedi'u hamserlennu, mae'r cyfleusterau cyfrifiadura ar gael i israddedigion.



Yn y llun, Nathan Cooper, sydd â gradd MPhys Ffiseg gyda Seryddiaeth, yn ei gyflogwr, y Llu Awyr Brenhinol

## MPhys/BSc Ffiseg

Ar y radd hon, byddwch yn archwilio'r damcaniaethau corfforol cyfareddol sy'n ein helpu i ddeall ein bydysawd. Trwy ddatblygu sgiliau dadansoddi, mathemategol a chyfrifiadol uwch, bydd gennych ddealltwriaeth ragorol o ffiseg, gan agor y drws i ystod eang o yrfaoedd.

Mae hyfforddiant ymarferol yn elfen bwysig o raglen y radd hon. Byddwch yn gweithio gyda'r offer diweddaraf, ac yn defnyddio laserau, ffynonellau pelydr-x, cyfarpar cryogenig, electroneg fodern a meddalwedd gyfrifiadurol.

Cyflwynir arbrofion yn null prosiect ar ddiwedd yr ail flwyddyn i baratoi ar gyfer prosiect y flwyddyn olaf, a fydd yn cynnwys gweithio ryw ddeuddydd yr wythnos mewn labordai ymchwil neu ochr yn ochr â thimau ymchwil.

Cewch ddewis prosiectau ymarferol neu ddamcaniaethol o bob agwedd ar ein gweithgareddau, a chewch hyd yn oed y cyfle i gynllunio'ch prosiect eich hun.

## MPhys/BSc Astroffiseg

Mae gennym un o'r grwpiau mwyaf o seryddwyr yn y DU, gyda staff yn weithredol yn y rhan fwyaf o agweddau ar ymchwil ym meysydd Seryddiaeth ac Astroffiseg, gan ddarparu cyrsiau o'r safon uchaf un. Byddwch yn astudio cyrsiau ar bynciau astroffiseg a hefyd bynciau ffiseg a mathemateg craidd. Y nod yw rhoi i chi sylfaen gadarn mewn egwyddorion ffisegol, dulliau mathemategol, cyfrifiadura a thechnegau arsylwi. Byddwch yn ymarfer ac yn atgyfnerthu'r sgiliau hyn trwy eu cymhwyso i ystod eang o broblemau astroffiseg.

Fel hyn, cewch addysg eang a hyblyg iawn sy'n agor drysau i yrfaoedd mewn diwydiannau uwch-dechnoleg yn ogystal ag mewn ymchwil astroffiseg bur. Yn eich blwyddyn olaf hefyd, byddwch yn cwblhau prosiect ymchwil dan oruchwyliaeth.

## MPhys/BSc Ffiseg gyda Seryddiaeth

Mae'r rhaglen hon yn darparu ar gyfer myfyrwyr a hoffai gadw at y prif graidd ffiseg ond sy'n awyddus i astudio cyfuniad o fodiwlau dethol o'r dewisiadau seryddiaeth ac astroffiseg. Mae'r aseiniadau a'r prosiectau dan oruchwyliaeth yn defnyddio data seryddol o arsyllfeydd ar draws y byd ac yn y gofod, gan ddefnyddio meddalwedd a thechnegau prosesu delweddau a dadansoddi data helaeth.

## MPhys/BSc Ffiseg gyda Ffiseg Feddygol

Mae'r elfen Ffiseg Feddygol yn cynnwys astudio amrywiol dechnegau diagnostig a therapiwtig, gyda phwyslais arbennig ar yr egwyddorion ffisegol a mathemategol gwaelodol. Mae gwaith ymarferol yn cynnwys prosiect mawr yn y flwyddyn olaf, y gellir ei wneud yng Nghanolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC) neu yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Darperir y cwrs hwn ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd yn eich paratoi chi ar gyfer ystod eang o yrfaoedd, gan gynnwys Ffiseg Feddygol, lle mae galw profedig am raddedigion sydd newydd raddio â gradd Ffiseg. Mae llawer o'n graddedigion wedi symud ymlaen yn llwyddiannus i gynllun y GIG ar gyfer Ffisegwyr Meddygol.

## MPhys

Rydym yn cynnig graddau MPhys mewn Ffiseg, Astroffiseg a Ffiseg gyda Seryddiaeth, sy'n estyniad naturiol i'n graddau tair blynedd, gan ganiatáu i bynciau gael eu dilyn yn fwy manwl. Maen nhw'n cymryd pedair blynedd (neu bum mlynedd gyda lleoliad diwydiannol neu leoliad gwaith arall).

Mae'r bedwaredd flwyddyn yn cynnwys gwaith prosiect mawr annibynnol lle gallwch ymgymryd ag ymchwil newydd ac arloesol.

## Asesu

Cynhelir arholiadau ym mis Ionawr ac ym mis Mai. Yn eich blwyddyn gyntaf, mae gofyn i chi lwyddo yn y rhain er mwyn symud ymlaen i'r ail flwyddyn. Seilir marc terfynol eich gradd, sy'n pennu dosbarthiad eich gradd, yn rhannol ar arholiadau'r ail flwyddyn a'r drydedd (a'r bedwaredd yn achos MPhys), ac yn rhannol ar asesiad parhaus, megis prosiectau a gwaith cwrs.

## Modiwlau annibynnol

Mae rhai o'n cyrsiau yn eich galluogi i gymryd modiwl ar ei ben ei hun yn y flwyddyn gyntaf neu'r ail. Gellir dilyn y modiwl hwn o ysgolion academaidd eraill yn y Brifysgol, sy'n rhoi llawer o ddewis i chi. Er enghraifft, efallai yr hoffech astudio iaith ar lefel dechreuwr, ganolradd neu uwch, cychwyn cwrs Cerddoriaeth neu ddewis modiwl ym maes Busnes neu'r Gyfraith.

## Astudiaethau ôl-raddedig

Mae gennym grwpiau ymchwil llewyrchus a nifer fawr o fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer PhD neu MSc. Y prif grwpiau ymchwil yw Mater Cyddwysedig a Ffotoneg, Seryddiaeth ac Astroffiseg, Ffiseg Tonnau Disgyrchol, Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a Delweddu'r Ymennydd. Rydym yn cynnig rhaglenni MSc a arweinir gan ymchwil mewn Astroffiseg, Ffiseg Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, Astroffiseg Data Dwys, Ffiseg Data Dwys, a Ffiseg, sy'n adeiladu ar eich gradd israddedig ac sy'n gallu arwain at nifer o gyfleoedd yn eich gyrfa.

# Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Lleoliad proffesiynol**




## Pam dewis **Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae **Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol** yn bwnc cyffrous ac amrywiol sy'n trin a thrafod ystod o gwestiynau sy'n hanfodol yn ein byd cyfoes.

**97%**
Canran ein graddedigion oedd mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.

Mae gennym **gysylltiadau** â Llywodraeth Cymru, San Steffan, y G7, y Cenhedloedd Unedig a NATO, cyrff anllywodraethol, llunwyr polisïau a newyddiadurwyr.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfleoedd i ddewis modiwlau a addysgir yn Gymraeg fel rhan o'r cwrs Gwleidyddiaeth.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Mae ein **tîm rhyngwladol adnabyddus** yn cynnig arbenigedd mewn damcaniaeth wleidyddol, polisïau cyhoeddus a gwleidyddiaeth etholiadol, seiberddiogelwch, ffeminyddiaeth, hanes y Rhyfel Oer, gwleidyddiaeth amgylcheddol, diogelwch, astudiaethau gwybodaeth a gwleidyddiaeth ôl-drefedigaethol.

Barnwyd bod **95%** o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym o safon ryngwladol, a bod **81%** ohoni'n **'rhyngwladol-ragorol'** neu'n **'arwain y byd'**.*

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Gwleidyddiaeth (BScEcon)** | L200 |
| **Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth (BScEcon)** | L290 |
| **Cysylltiadau Rhyngwladol (BScEcon)** | 305Q |

### Anrhydeddau integredig

| | |
|---|---|
| **Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth LLB** | ML12 |

### Cydanrhydedd

| | |
|---|---|
| **Gwleidyddiaeth ac Economeg (BScEcon)** | LL12 |
| **Gwleidyddiaeth a Hanes Modern (BScEcon)** | LV21 |
| **Gwleidyddiaeth ac Athroniaeth (BA)** | LV25 |
| **Gwleidyddiaeth a Chymdeithaseg (BScEcon)** | LL32 |
| **Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a Gwleidyddiaeth (BA)** | J323 |
| **Gwleidyddiaeth ac iaith a addysgir yn yr Ysgol Ieithoedd Modern** | |

## Gyrfaoedd

Gall ein graddau ddarparu sylfaen ar gyfer ystod eang o yrfaoedd sy'n cynnwys:

- sefydliadau anllywodraethol
- datblygiad byd-eang
- diplomyddiaeth a deallusrwydd
- newyddiaduraeth
- busnes
- ymchwil polisi
- y gwasanaeth sifil
- asiantaethau llywodraeth leol, ranbarthol a chenedlaethol.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**

**Gwleidyddiaeth:** ABB-BBB

**Cysylltiadau Rhyngwladol:** ABB-BBB

**Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth:** ABB-BBB

**Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:** AAA

**Gwleidyddiaeth ac Athroniaeth:** ABB-BBB

**Gwleidyddiaeth a Hanes Modern:** ABB-BBB

**Gwleidyddiaeth ac Economeg:** ABB-BBB mewn TGAU Mathemateg a gradd C/gradd 4 ar lefel TGAU Saesneg Iaith, os na chynigir y pynciau hyn ar lefel UG neu Safon Uwch.

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** Cyfanswm o 32-31 o bwyntiau, neu 665 mewn tri phwnc Lefel Uwch.

**BTEC:** Anrhydedd sengl: DDM-DMM. Cydanrhydedd: ewch i'n gwefan.

**Pob gradd**

**Gofynion TGAU** (neu gyfwerth)**:** Gradd B neu radd 6 mewn Saesneg Iaith.
Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 280 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,500

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Ffôn: **(029) 2087 6102 +44 (0)29 2087 6102**

Ebost: **lawpladmissions@caerdydd.ac.uk**

**cardiffpolitics** **CardiffPolitics**

**Os byddwch yn dewis astudio Cysylltiadau Rhyngwladol neu Wleidyddiaeth**, efallai y cewch hefyd y cyfle i gwblhau lleoliad gwaith mewn sefydliad sydd â rôl allweddol yn y gwaith o lywodraethu Cymru.

> Fe ddewisais i'r cwrs Cysylltiadau Rhyngwladol yng Nghaerdydd gan fy mod i eisiau astudio'r byd o'm cynefin i, yn fy mamwlad.
>
> Y peth wnes i ei fwynhau fwyaf am fy astudiaethau, heb unrhyw amheuaeth, oedd y cyfle i ddysgu drwy'r Gymraeg. Rwy'n siaradwr Cymraeg rhugl ac fe wnes i fwynhau gwneud y gorau o bob cyfle a gynigiwyd i mi ymgysylltu ac astudio drwy'r Gymraeg.
>
> **Emily**, Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth (BScEcon)



## Wedi'u seilio ar ymchwil o'r radd flaenaf a bri rhyngwladol am ragoriaeth, bydd ein rhaglenni gradd yn eich herio ac yn eich ysbrydoli.

Mae bod yn gyfarwydd â materion canolog Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol yn hanfodol er mwyn deall ein byd dynamig ac integredig.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o raglenni gradd i'r rhai sy'n ymddiddori mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol. Gallwch ddewis astudio un o'n tair gradd anrhydedd sengl, neu gyfuno astudio Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol â phynciau eraill yn y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Dyniaethau, gan gynnwys ieithoedd, yn ein rhaglenni cydanrhydedd.

Mae ein harbenigedd ymchwil ac addysgu yn cynnwys theori wleidyddol, polisi cyhoeddus, gwleidyddiaeth datganoli, gwleidyddiaeth amgylcheddol, hanes y Rhyfel Oer, gwleidyddiaeth niwclear, llywodraethu byd-eang, theori ffeministaidd, gwleidyddiaeth ôl-drefedigaethol, economi wleidyddol, seiberddiogelwch ac astudiaethau milwrol beirniadol. Trwy astudio gwleidyddiaeth yng Nghaerdydd, byddwch yn meithrin y sgiliau hanfodol i ddilyn gyrfa gyffrous mewn meysydd fel newyddiaduraeth, llywodraeth, rheoli, addysgu, ymgynghori, y gyfraith, dadansoddi polisi ac addysg.

Byddwch yn manteisio ar amrywiaeth o gyfleusterau ardderchog yn ein lleoliad gwych ar ganol y campws. Bydd ystafelloedd cyfrifiaduron a'r offer e-ddysgu diweddaraf yn cyfoethogi'r broses ddysgu ac mae casgliadau'r llyfrgell yn fodd i chi gael gafael ar filoedd o lyfrau a chyhoeddiadau.

## Gwleidyddiaeth

Drwy astudio maes gwleidyddiaeth, cewch weld sut mae seneddau a llywodraethau'n gweithredu a dysgu gwerthuso syniadau gwleidyddol megis grym, rhyddid, democratiaeth, gwrthdaro, dilysrwydd ac atebolrwydd.

Mae ein rhaglenni yn gyfle i chi fagu dealltwriaeth fanwl o'r maes yn ogystal â dilyn eich diddordebau drwy ddewis o blith amrywiaeth o fodiwlau.

Yn ystod blwyddyn gyntaf eich cwrs, bydd y modiwlau gorfodol yn astudio sylfeini meddwl gwleidyddol y Gorllewin, yn dadansoddi gwleidyddiaeth fodern, globaleiddio a chysylltiadau rhyngwladol ac integreiddio Ewropeaidd.

Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, byddwch yn dyfnhau eich dealltwriaeth o wleidyddiaeth, theori a syniadau gwleidyddol, er mwyn gloywi eich mewnwelediad i'r hyn sy'n ysgogi gweithredwyr yn y maes gwleidyddol. Archwilir themâu mawr fel dadansoddiad gwleidyddol a llunio polisïau ynghyd â chwestiynau amserol megis datganoli a system bleidiol Prydain. Cynigir cyfleoedd i astudio dramor hefyd i'r rhai sy'n dymuno cael blas ar ddiwylliannau newydd.

Rydym hefyd yn cynnig arbenigedd ym maes seneddau a llywodraethu gan i ni gael ein dewis gan San Steffan i addysgu ar y cyd â Thai'r Senedd. Rydym hefyd yn cynnig modiwl sy'n caniatáu i chi ymgymryd â lleoliad mewn sefydliad sy'n chwarae rôl allweddol o ran llywodraethu Cymru.

## Chysylltiadau Rhyngwladol

Mae ein gradd mewn Cysylltiadau Rhyngwladol yn cynnig cyfle i ganolbwyntio ar wleidyddiaeth fyd-eang. Addysgir y rhaglen gan dîm amrywiol o ysgolheigion domestig a rhyngwladol sydd â'r arbenigedd i'n galluogi i gynnig amrywiaeth o fodiwlau cyffrous.

Yn draddodiadol, y berthynas rhwng gwladwriaethau ac achosion rhyfel sydd wedi cael y prif sylw yn nisgyblaeth Cysylltiadau Rhyngwladol. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae wedi datblygu i fod yn faes amlweddog sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o gwestiynau hollbwysig yn y byd sydd ohoni. Mae'r rhain yn cynnwys pynciau fel rhyfel, diogelwch a therfysgaeth, gwleidyddiaeth niwclear, hanes rhyngwladol, technolegau a seiberddiogelwch, gwleidyddiaeth amgylcheddol fyd-eang a newid yn yr hinsawdd.

Nod y radd anrhydedd sengl hon yw rhoi'r cyfle i chi astudio'r pwnc pwysig a chyffrous hwn yn eang ac mewn dyfnder. Mae'r radd yn ceisio cynnwys meysydd traddodiadol a newydd y ddisgyblaeth fel ei gilydd, a hynny mewn modd sydd wedi'i gyfeirio gan drafodaethau ysgolheigaidd cyfoes yn ogystal â phroblemau a datblygiadau gwleidyddol. Byddwch yn cael sylfaen gadarn mewn damcaniaethau a safbwyntiau craidd ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol ac yn dysgu sut mae'r system ryngwladol wedi datblygu'n hanesyddol. Bydd hyn yn rhoi'r sylfaen ddamcaniaethol a hanesyddol ar gyfer astudio amrywiaeth gyfoethog o bynciau yn fanylach yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Cewch eich addysgu gan academyddion sy'n ymchwilwyr blaenllaw yn eu maes, a byddwch yn manteisio ar addysgu a arweinir gan ymchwil mewn meysydd ar draws y ddisgyblaeth.

## Rhaglenni cydanrhydedd ac integredig mewn gwleidyddiaeth

Mae'r rhaglenni hyn yn fodd i chi gyfuno'ch diddordeb mewn gwleidyddiaeth â meysydd eraill mewn amgylchedd rhyngddisgyblaethol. Mae'r dewisiadau sydd ar gael fel rhan o'r radd BScEcon yn cynnwys astudio Gwleidyddiaeth gyda Hanes Modern, Economeg, Cymdeithaseg, neu Gysylltiadau Rhyngwladol.

Os ydych chi'n dewis gradd BA ar y cyd, gallwch astudio Gwleidyddiaeth gydag Athroniaeth, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu ac amrywiaeth o ieithoedd modern (gweler tudalen 146).

Mae'r LLB yn y Gyfraith a Gwleidyddiaeth yn rhaglen integredig sy'n fodd i chi sicrhau sylfaen gadarn mewn gwleidyddiaeth ac yn y gyfraith.

Byddwch yn cwblhau'r cyrsiau mewn astudiaethau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i'ch eithrio rhag rhan gyntaf yr arholiadau proffesiynol i ddilyn gyrfa fel bargyfreithiwr neu gyfreithiwr.

## Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth

Methu penderfynu rhwng Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth? Mae ein gradd gyfun yn rhoi cyfle i chi ganolbwyntio ar y ddau is-faes, ac archwilio integreiddio a chysylltiadau rhwng y domestig a'r rhyngwladol. Byddwch yn ymchwilio i gwestiynau cysyniadol a damcaniaethol ehangach yn ymwneud â gwleidyddiaeth gartref a thramor, ac yn cymharu methodolegau gwyddoniaeth wleidyddol a chysylltiadau rhyngwladol.

Yn eich blwyddyn olaf, cewch gyfle i lunio traethawd hir ar bwnc o'ch dewis yn y maes, a fydd yn gyfle gwych i ymchwilio ac arbenigo'n annibynnol.



**Gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol yw sylfaen deall bron pob agwedd ar y byd cyfnewidiol rydym yn byw ynddo.**

# Seicoleg

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **Seicoleg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Yn y **7fed safle** yn y DU am seicoleg.

Ffynhonnell: Complete University Guide 2022

Cewch **brofiad proffesiynol** fel rhan o'ch gradd.

Mae'n cyrsiau ni **wedi'u hachredu** gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS).

**Cyfle i astudio** yn Florida neu Hong Kong am semester.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi sgorio dros **86%** ar gyfer bodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS).

Yn yr **2il safle** yn y fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diweddaraf - y system ar gyfer asesu ansawdd staff ymchwil-weithredol sy'n ymwneud â chynllunio a darparu cyrsiau.



*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

**Seicoleg (BSc)**
(Tair blynedd) C800

**Seicoleg gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc)**
(Pedair blynedd) C810

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 210 (190 cartref ac 20 dramor)

**Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,200

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** A*AA - AAB (Fel arfer, bydd ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd A yn y Cymhwyster Prosiect Estynedig (EPQ)/Cymhwyster Prosiect Rhyngwladol (IPQ) yn cael cynnig un radd yn is na'r cynnig safonol ar gyfer Safon Uwch.)

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 37-34 yn gyffredinol gan gynnwys 6 mewn un pwnc Lefel Uwch neu 766-666 mewn 3 phwnc Lefel Uwch.

**BTEC:** D*DD-DDD mewn Diploma Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol neu Fforensig. Byddwn yn ystyried cymwysterau BTEC mewn pynciau amgen ochr yn ochr â chymwysterau academaidd eraill ac unrhyw brofiad gwaith neu wirfoddoli perthnasol.

**TGAU Mathemateg:** TGAU Mathemateg gradd B/6 neu gymhwyster cyfatebol (pwnc a gradd).

**TGAU Iaith Saesneg:** TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ar radd B/6.

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtoriaid derbyn myfyrwyr:
**Yr Athro Marc Buehner, Dr Lewis Bott, Dr Christoph Teufel**

Ffôn: **(029) 2087 9999 +44 (0)29 2087 9999**

**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/contact-us**

**SeicCaerdydd** **@psychcardiffuni**

**Rydym yn un o lond dwrn o Ysgolion Seicoleg sy'n rhoi'r cyfle i chi gael profiad proffesiynol wrth astudio ar gyfer eich gradd.** Mae seicoleg glinigol, seicoleg fforensig, seicoleg iechyd, chwaraeon, niwroseicoleg a seicoleg addysgol yn rhai enghreifftiau o leoliadau y mae ein myfyrwyr wedi ymgymryd â hwy.



## Gyrfaoedd

Bydd gradd mewn seicoleg yn apelio at lawer o ddarpar gyflogwyr am ei bod yn adlewyrchu addysg prifysgol sy'n meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd, fel ei gilydd. Caiff seicolegwyr hefyd eu cyflogi'n fwyfwy eang yn y gwasanaethau addysg, cymdeithasol ac iechyd, lle mae hyfforddiant ôl-raddedig yn hanfodol. Dyma pam y mae llawer o'n graddedigion yn mynd ymlaen i barhau â'u hastudiaethau a hefyd pam ei bod yn bwysig bod dwy raglen ein Hysgol yn cael eu cydnabod gan Gymdeithas Seicolegol Prydain.

### Swyddi

Seicolegydd clinigol, seicolegydd fforensig, seicolegydd iechyd, seicolegydd galwedigaethol, seicolegydd chwaraeon, niwro neu addysgol, cwnselydd, ymchwilydd neu academydd.

### Cyflogwyr

Ymddiriedolaethau'r GIG, adrannau llywodraeth leol, ysgolion uwchradd, yn ogystal â sefydliadau megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Relate a Chymorth i Ddioddefwyr.

## Os ydych chi â diddordeb ynglŷn â beth sy'n peri i bobl wneud pethau, sut mae ein synhwyrau'n gweithio, beth sy'n penderfynu a ydym yn cofio neu'n anghofio enw rhywun, pam mae rhai pethau'n haws eu dysgu na rhai eraill, a yw pobl yn fwy deallus nag anifeiliaid, sut a beth mae babanod yn ei ddysgu gan y bobl sy'n gofalu amdanynt, beth allwn ni ei wneud i fynd i'r afael â rhagfarn a stereoteipiau – yn fyr, os ydych chi'n chwilfrydig am sut mae'r meddwl yn gweithio, yna mae seicoleg i chi!

Yma ym Mhrifysgol Caerdydd, byddwch yn astudio seicoleg o safbwynt gwyddonol gyda phwyslais ar ei hagweddau cymdeithasol, gwybyddol a biolegol. Trwy gydol eich amser gyda ni, byddwn yn gweithio gyda chi ar raglen heriol a chynhwysfawr, i'ch helpu i ddeall ymddygiad a'r meddwl dynol – creadigaeth fwyaf cymhleth a diddorol natur.

## Ein cyrsiau

Rydym yn cynnig gradd tair blynedd mewn Seicoleg a gradd pedair blynedd mewn Seicoleg gyda Lleoliad Proffesiynol. Mae'r ddwy raglen yn dilyn yr un cwricwlwm academaidd, ond mae'r rhaglen bedair blynedd yn cynnwys blwyddyn rhwng eich ail flwyddyn a'ch blwyddyn olaf, pan fyddwch yn ymgymryd â lleoliad proffesiynol.

Bydd grwpiau tiwtorial bach, darlithoedd a sesiynau ymarferol rheolaidd, er enghraifft cyf-weld, cynnal arolygon, profion seicometrig a sgiliau arbrofi, yn sail i'r dysgu ar y rhaglen. Mae seicolegwyr blaenllaw ym Mhrydain a thramor hefyd yn ymweld â ni'n gyson, ac mae ein holl ddysgu yn cael ei lywio gan ein hymchwil sy'n arwain y byd.

Mae seicoleg gymhwysol wedi'i chynnwys fel rhan annatod o'n cyrsiau, ac mae digon o gyfleoedd ar gael i ymgymryd â phrosiectau ymchwil mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, diwydiant ac ysbytai. Cewch eich annog i feithrin eich meysydd diddordeb eich hun trwy brosiect dan oruchwyliaeth a modiwlau dewisol yn y flwyddyn olaf, a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i swydd neu i gael hyfforddiant proffesiynol pellach.

Mae Rhaglen Interniaethau Ymchwil yr Ysgol Seicoleg (SPRInt) yn gyfle i chi gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil â thâl dros wyliau'r haf yn dilyn eich ail flwyddyn.

## Y flwyddyn gyntaf a'r ail

Mae **Lefel 4** yn cwmpasu semester cyntaf y cwrs, ac mae wedi'i llunio i roi sylfaen gadarn i chi mewn ymchwil seicolegol a meddwl yn seicolegol.

Byddwch yn astudio tri modiwl: Cyflwyniad i Seicoleg, Ymchwil Seicolegol, a Dulliau Ymchwil mewn Seicoleg. Trwy'r rhain, byddwch yn cael cyflwyniad cynhwysfawr i ymchwil seicolegol mewn meysydd sy'n cynnwys seicoleg gymdeithasol, wybyddol, fiolegol ac annormal, yn ogystal ag ymchwil i wahaniaethau rhwng unigolion.

Bydd Ymchwil Seicolegol yn cyflwyno egwyddorion dylunio ymchwil.

Mae **Lefel 5** yn cwmpasu tri semester nesaf y cwrs. Mae'n rhoi pwyslais ar feddwl yn feirniadol, yn ogystal â'r gallu i ddehongli a chyfuno ffrwyth ymchwil a damcaniaethau seicolegol. Byddwch yn astudio naw modiwl, gyda phob un yn canolbwyntio ar faes arbennig, gan gynnwys seicoleg ddatblygol, wybyddol, fiolegol, annormal, gymdeithasol a chanfyddiadol. Bydd hyfforddiant mewn dylunio ymchwil, ystadegaeth a chyfrifiadura yn parhau yn ystod Lefel 5.

## Lleoliad Proffesiynol
### (Gradd pedair blynedd)

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys blwyddyn ar leoliad rhwng eich ail flwyddyn a'ch blwyddyn olaf, lle gallwch ddarganfod sut y caiff seicoleg ei chymhwyso mewn lleoliad proffesiynol.

Mae yna amrywiaeth fawr o leoliadau mewn meysydd sy'n cynnwys seicoleg glinigol, seicoleg fforensig, seicoleg alwedigaethol, ac mewn lleoliadau eraill lle mae seicoleg yn bwysig, er enghraifft yr heddlu a'r gwasanaethau carchardai a phrawf. Gall y flwyddyn ar leoliad gynnig profiad amhrisiadwy, a gall eich rhoi mewn sefyllfa fwy cystadleuol pan fyddwch yn ceisio am swyddi neu gyrsiau astudio pellach. Dewisir y lleoliadau'n bennaf o blith y cyfleoedd rydym yn eu cynnig, ond, o gael cymeradwyaeth yr Ysgol, gallwch hefyd ddod o hyd i'ch lleoliad eich hun.

## Blwyddyn olaf

Byddwch yn dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar y pwnc neu'r ymagweddau damcaniaethol cyfredol, ac maent yn debygol o newid o flwyddyn i flwyddyn. Bydd rhestr lawn o fodiwlau dewisol y flwyddyn olaf ar gael i chi yn eich ail flwyddyn.

Enghreifftiau y gellir eu cynnig yw Datblygu Seicopatholeg mewn Plant a'r Glasoed, Dysgu a Gwybyddiaeth Anifeiliaid, Gwneud Penderfyniadau, Agweddau a Newid Agweddau, Golwg Gweithredol, Geneteg Ymddygiadol, Seicoleg Iaith a Lleferydd, Emosiwn: Safbwyntiau Cymdeithasol a Niwrowyddoniaeth, Niwrowyddoniaeth Dysgu a'r Cof, Seicoleg Ffactorau Dynol, Seicoleg Iechyd ar Sail Tystiolaeth, Seicoleg Amgylcheddol, Seicoleg Fforensig: Trais a Throsedd, Prosesau Cof ac Anhwylderau Cof. Trwy gydol eich blwyddyn olaf, byddwch hefyd yn gweithio ar brosiect ymchwil lle byddwch yn cynllunio ac yn cyflawni ymchwiliad empirig. Goruchwylir eich prosiect ymchwil gan aelod o staff sydd ag arbenigedd ym maes eich prosiect.

## Asesu

Ceir cyfuniad o waith cwrs ac arholiadau dibaratoad. Dyfernir gwobrau i'r myfyrwyr sy'n perfformio orau.

## Cyfleoedd i astudio dramor

Rydym ni'n cynnig cyfle i chi dreulio semester ym Mhrifysgol Florida neu Brifysgol Hong Kong fel rhan o'ch gradd. Yn ystod semester cyntaf eich ail flwyddyn, byddwch yn gallu dilyn cyrsiau yn Florida neu Hong Kong sy'n cyfateb i'r cynnwys a gynigir yng Nghaerdydd. Does dim ffioedd ychwanegol i'w talu, a chynorthwyir y cyfnewid â bwrsariaeth i dalu am gostau teithio ar awyren. Mae'r cyfnewid hefyd yn bosibl i fyfyrwyr sy'n dilyn Seicoleg BSc neu Seicoleg BSc gyda Lleoliad Proffesiynol.

## Astudiaethau ôl-raddedig

Mae llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i wneud astudiaeth ôl-raddedig ar ôl iddynt gwblhau eu BSc. Rydym yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu ac ymchwil ôl-raddedig a gafodd eu cynllunio i'ch paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd yn y dyfodol. Mae rhai o'r rhaglenni rydym ni'n eu cynnig yn cynnwys MSc Niwroddelweddu: Dulliau a Chymwysiadau, MSc mewn Anhwylderau Seicolegol Plant ac MSc mewn Seicoleg.

> Mae'r cwrs yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau – gan roi cyfle i bob myfyriwr archwilio ei ddiddordebau. Yn benodol, roeddwn yn gweld bod blwyddyn y Lleoliad opsiynol o fudd; roedd wedi fy helpu i weld cynnwys y cwrs o safbwynt mwy cymhwysol, yn ogystal â rhoi'r hyder a'r sgiliau i mi ddilyn fy llwybr gyrfaol dewisol!
>
> **Chloe**, Seicoleg gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc)



# Y Gwyddorau Cymdeithasol

Wedi'i achredu'n broffesiynol

Blwyddyn dramor

Lleoliad proffesiynol



## Pam dewis **y Gwyddorau Cymdeithasol** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Mae ein myfyrwyr yn elwa o'n **cysylltiadau cryf** â llywodraeth leol, llunwyr polisïau, yr heddlu a sefydliadau trydydd sector eraill.

Roedd **95%** o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.*

Mae ein gwaith ymchwil wedi'i gydnabod fel gwaith o **safon ragorol yn rhyngwladol**, ac mae'n cael **effaith** uniongyrchol ar bolisi ac ymarfer.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cyfleoedd i ddewis rhai modiwlau a addysgir yn Gymraeg.

I gael gwybod rhagor: **www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

Treuliwch flwyddyn ar **leoliad gwaith proffesiynol**, gan feithrin y sgiliau sydd eu hangen i roi hwb i'ch gyrfa.

Ehangwch eich gorwelion: treuliwch **flwyddyn yn astudio dramor** gydag un o'n prifysgolion partner.

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Troseddeg (BSc)*** | L370 |
| **Addysg (BSc)*** | 8G46 |
| **Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol (BSc)*** | 58H2 |
| **Gwyddorau Cymdeithasol (BSc)*** | L301 |
| **Cymdeithaseg (BSc)*** | 8H46 |
| **Dadansoddeg Gymdeithasol (BSc)*** | J3G5 |

### Anrhydeddau integredig

| | |
|---|---|
| **Y Gyfraith a Throseddeg (LLB)** | M190 |

### Cydanrhydedd

| | |
|---|---|
| **Troseddeg a Chymdeithaseg (BSc)*** | 8F46 |
| **Troseddeg a Pholisi Cymdeithasol (BSc)*** | 8D46 |
| **Cymdeithaseg ac Addysg (BSc)*** | 8J46 |
| **Cymraeg ac Addysg (BA)** | QX53 |
| **Gwleidyddiaeth a Chymdeithaseg (BScEcon)** | LL32 |
| **Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Chymdeithaseg (BA)** | LP35 |
| **Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol (BSc)*** | 8K46 |

* Gall myfyrwyr sy'n astudio'r rhaglenni hyn ddewis ymestyn eu hastudiaethau i bedair blynedd drwy dreulio'r drydedd flwyddyn ar leoliad proffesiynol neu astudio dramor.

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** AAA-BBB

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**TGAU:** Gradd C neu radd 4 mewn Saesneg Iaith.
Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 32-36 pwynt (17-18 pwynt mewn 3 phwnc Lefel Uwch).

**BTEC:** DDD-DDM. Nid oes gofynion pwnc penodol. Graddau a addysgir gydag ysgolion academaidd eraill: ewch i'n gwefan.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 300  **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 1,600

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Cysylltwch â ni os hoffech drafod eich cais gyda thiwtor derbyn myfyrwyr.

Ffôn: **(029) 2087 4208** **+44 (0)29 2087 4208**

Ebost: **socialscienceadmissions@caerdydd.ac.uk**

**cardiffsocsi** **@CUSocSci**

**Adeilad Morgannwg yw ein cartref ysblennydd**, hen neuadd sir Edwardaidd ynghanol y ganolfan ddinesig. Mae Adeilad Morgannwg yn gartref i gyfleusterau dysgu ac addysgu a fydd yn cefnogi eich astudiaethau, gan gynnwys canolfan cefnogi myfyrwyr, ystafelloedd TGCh, darlithfeydd, ystafelloedd tiwtorial a siop goffi.

## Gyrfaoedd

Ymhlith y cyrchfannau gyrfa ar gyfer ein myfyrwyr mae gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau lles a thai, gwaith ieuenctid, addysgu, datblygu cymunedol, gwaith cwnsela ac eiriolaeth, gweinyddiaeth a rheoli adnoddau dynol. Mae llawer o'n graddedigion hefyd yn dod o hyd i waith yn y sector preifat, gan gynnwys cyllid a marchnata, twristiaeth, manwerthu, newyddiaduraeth, hysbysebu, a chysylltiadau cyhoeddus. Mae tua chwarter o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudiaethau ôl-raddedig.

"Y peth rwyf wedi'i fwynhau fwyaf am fy astudiaethau yw natur ryngddisgyblaethol holl raddau'r Ysgol. Yn ogystal â modiwl mewn addysg, rwyf wedi cael y cyfle i astudio seicoleg gymdeithasol a datblygiadol a Chyflwyniad i Gymdeithaseg yn fy mlwyddyn gyntaf. Rwyf hefyd wedi mwynhau'r cyfleoedd i fyfyrwyr roi theori ar waith drwy brosiectau ymchwil. Rwyf wrth fy modd ag angerdd y darlithwyr a'r arweinwyr seminar wrth gyflwyno deunydd. Mae hyn yn bendant wedi tanio fy angerdd am astudio fy ngradd ymhellach.

**Poppy**, BSc Addysg"



## Yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, rydym yn astudio sut mae cymdeithas yn siapio'r ffordd mae pobl yn ymddwyn ac yn profi’r byd, drwy amrywiaeth o raglenni gradd sy'n pwysleisio agweddau gwahanol ar fywyd cymdeithasol a’r sefydliadau y maent yn dibynnu arnynt.

Mae ein haddysgu yn cael ei lywio ac wedi’i seilio ar ymchwil i broblemau a heriau cymdeithas fodern. Mae llawer o'n staff yn gweithredu fel cynghorwyr i sefydliadau rhyngwladol, seneddau San Steffan ac Ewrop a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus a sector preifat. Mae ein myfyrwyr yn dysgu gan ysgolheigion sy'n cyfrannu at ddadleuon polisi ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.

## Y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd

Rydym yn ganolfan gwyddor gymdeithasol fawr, ryngddisgyblaethol, sy’n cynnig arbenigedd ym meysydd cymdeithaseg, dulliau ymchwil, astudiaethau addysgol, polisi cymdeithasol, dadansoddeg gymdeithasol, troseddeg a seicoleg.

## Rhaglenni gradd

Lluniwyd ein rhaglenni i addysgu sylfeini eu disgyblaethau perthnasol ochr yn ochr â’r egwyddorion damcaniaethol a methodolegol sy’n sail ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol.

Rydym yn cynnig rhaglenni gradd anrhydedd sengl mewn troseddeg, addysg, cymdeithaseg, gwyddor gymdeithasol, dadansoddeg gymdeithasol a’r gwyddorau dynol a chymdeithasol. Mae ein rhaglenni gradd cydanrhydedd hyblyg yn caniatáu i chi gyfuno nifer o’r pynciau hyn, ynghyd â pholisi cymdeithasol, â phynciau ategol yn y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol. Mae ein LLB Y Gyfraith a Throseddeg hefyd ar gael i ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn astudio'r gyfraith.

Mae ein rhaglenni yn seiliedig ar gyfres o fodiwlau craidd sy'n cynnwys hyfforddiant methodolegol a phynciau sylweddol. Mae ein modiwlau sgiliau astudio a modiwlau sy'n seiliedig ar ymchwiliadau yn eich galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn ystod eich astudiaethau ac i feithrin sgiliau trosglwyddadwy pwysig.

## Gwella eich gradd

Ehangwch eich gorwelion drwy dreulio amser yn gweithio neu'n astudio dramor. Ar lawer o'n rhaglenni, cewch gyfle i ymestyn eich astudiaethau i bedair blynedd, gan dreulio blwyddyn 3 ar leoliad proffesiynol neu'n astudio dramor. Ymhlith y cyrchfannau poblogaidd ar gyfer astudio dramor mae Gogledd America, Ewrop, Hong Kong, Singapore a Seland Newydd. Mae llawer o'n rhaglenni hefyd yn cynnig cyfle i astudio modiwl lleoliad gwaith, gan roi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau proffesiynol. Mae cyfleoedd i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor hefyd ar gael fel lleoliadau haf.

### BSc Gwyddorau Cymdeithasol

Mae ein gradd yn y Gwyddorau Cymdeithaseg yn fodd i chi astudio ar draws holl faes y gwyddorau cymdeithasol – troseddeg, addysg, seicoleg, cymdeithaseg, polisi cymdeithasol, dadansoddeg gymdeithasol – a meddwl y tu allan i ffiniau confensiynol y disgyblaethau.

Mae trefnu eich astudiaethau mewn modd thematig yn caniatáu i chi astudio’r un pwnc o nifer o safbwyntiau gwahanol a meithrin dealltwriaeth fwy cyfannol o ffenomenâu cymdeithasol cymhleth.

Gallwch ddewis modiwlau a fydd yn eich galluogi i astudio pwnc penodol yn fanwl neu estyn eich astudiaethau ar draws y sbectrwm o fodiwlau a gynigir. Mae'r pynciau yn adlewyrchu’r cryfderau ymchwil presennol, ac wedi cynnwys yn ddiweddar: trosedd a diogelwch, seicoleg gritigol, polisi addysgol, camddefnyddio data yn y cyfryngau, llywodraethu a pholisi Ewropeaidd, hunaniaeth a goddrychedd, rhywedd a rhywioldeb, hil ac ethnigrwydd, iechyd a meddyginiaeth, a gwaith a chyflogaeth.

Cewch y cyfle i astudio modiwl sy’n seiliedig ar leoliad gwaith a/neu ymestyn eich astudiaeth i bedair blynedd drwy dreulio blwyddyn 3 yn astudio dramor neu ar leoliad proffesiynol.

Trwy astudio ar draws disgyblaethau, byddwch yn dod yn wyddonydd cymdeithasol sydd â gwybodaeth am amrywiaeth o safbwyntiau a dealltwriaeth o sut y gallant weithio gyda’i gilydd.

### BSc Troseddeg

Mae troseddeg yn canolbwyntio ar brosesau troseddoli ac erledigaeth, a’r ymatebion i droseddu ac anhrefn. Mae'n ymchwilio i sut y diffinnir ymddygiad fel 'troseddol' neu 'wrth-gymdeithasol', sut mae profiadau dioddefwyr yn effeithio arnyn nhw eu hunain, a sut mae cymdeithasau’n ymdrin â mathau newydd o droseddu. Yn ystod eich gradd byddwch yn dysgu am y gwahanol ddulliau o ymdrin ag ymchwil droseddegol a’r gwahanol agweddau at gyfiawnder troseddol a amlygir ganddynt.

Mae ein rhaglen yn archwilio problemau troseddu, cyfiawnder a rheoli troseddu, gan ddangos sut y gellir cymhwyso ymchwil gwyddorau cymdeithasol i faterion a dadleuon y byd go iawn. Caiff ei haddysgu gan droseddolegwyr sydd â chysylltiadau cryf â gwasanaethau lleol yr heddlu, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder troseddol.

### BSc Addysg

Mae ein gradd mewn addysg yn archwilio ac yn cwestiynu sylfeini cymdeithasol, seicolegol, gwleidyddol ac economaidd addysg, ac yn eich galluogi i ymchwilio i’r sylfaen o dystiolaeth sy’n llywio polisi ac ymarfer ym myd addysg.

Bydd eich astudiaethau wedi’u seilio ar ein hymchwil yn y maes hwn a’r datblygiadau diweddaraf o ran polisi ac ymarfer, gan gwmpasu agweddau ar ddiwylliant a hunaniaeth, plentyndod ac ieuenctid, rhywedd ac ethnigrwydd, a chyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiad.

Byddwch yn canolbwyntio ar gyd-destunau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, byd-eang a chymharol addysg, ac atgyfnerthir hyn gan ein cysylltiadau agos â llunwyr polisi, ysgolion a cholegau lleol, a sefydliadau addysg a hyfforddiant eraill.

Mae’r radd hon yn cynnig sylfaen ragorol ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn hyfforddiant athro ôl-raddedig, yn ogystal â chyflogaeth mewn galwedigaethau eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymuned, llywodraeth leol, arweiniad gyrfaoedd, ac ymchwil addysg a pholisi.

### BSc Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol

Cyfle unigryw i gyfuno seicoleg gyda disgyblaeth gwyddor gymdeithasol arall. Mae’r radd hon yn cael ei chydnabod gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) fel y sail ar gyfer aelodaeth raddedig – y man cychwyn ar gyfer gyrfa mewn seicoleg. Bydd graddedigion a gafodd 2:2 neu uwch, ac sydd wedi llwyddo yn eu traethawd hir, yn gymwys i wneud cais am Sylfaen Raddedig Aelodaeth Siartredig (GBC) o’r BPS.

Mae'r rhaglen hon yn meithrin amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth ar faterion megis newid cymdeithasol, rhywedd, dosbarth ac ethnigrwydd, ochr yn ochr â datblygu dealltwriaeth feirniadol o seicoleg. Yn ogystal â modiwlau mewn seicoleg a dulliau ymchwil gymdeithasol, gallwch ddewis o blith amrywiaeth eang o fodiwlau mewn addysg, polisi cymdeithasol, cymdeithaseg a dadansoddeg gymdeithasol.

Mae hyblygrwydd y rhaglen yn golygu bod modd i chi ddewis ymgysylltu â materion pynciol a dadleuon ar draws y gwyddorau cymdeithasol, neu deilwra eich dewisiadau, gydag opsiynau penodol o ran gyrfa mewn golwg, i ddilyn llwybr penodol.

## BSc Cymdeithaseg

Elfen allweddol o gymdeithaseg yw'r syniad, er bod ei disgwyliadau, ei chyfleoedd a'i phroblemau ei hun ynghlwm wrth bob cymdeithas, a bod pob un ohonom yn ymateb i'r rhain mewn ffyrdd gwahanol, rydym bob amser yn gwneud hynny gan gyfeirio at y perthnasoedd cymdeithasol, y grwpiau a'r sefydliadau sy'n gyfarwydd i ni. Wrth astudio sut mae cymdeithasau'n cael eu hatgynhyrchu a'u newid drwy ymddygiad pobl, mae cymdeithaseg yn rhoi'r adnoddau hanfodol sydd eu hangen i ddeall pob agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, o gymhlethdodau rhyngweithiadau wyneb yn wyneb, sut mae gweithredoedd a chredoau unigol yn ffurfio ac yn cael eu llywio gan y byd o'u cwmpas, a sut mae grymoedd economaidd yn ffurfio ac yn cael eu llywio gan gymdeithas fyd-eang.

Caiff Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Caerdydd ei nodweddu gan ymchwil drwyadl sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dair brif elfen: sylfaen eang mewn damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol craidd; dealltwriaeth gynhwysfawr o'r dulliau ymchwil sydd eu hangen i ddeall cysylltiadau cymdeithasol; ac ystod o fodiwlau arbenigol sy'n mynd i'r afael â phroblemau a materion sydd ar flaen y gad mewn trafodaethau academaidd.

Mae'r modiwlau sy'n cael eu cynnig yn adlewyrchu diddordebau ymchwil y staff ar draws amrywiaeth o ddiddordebau a dulliau gweithredu cymdeithasegol gan gynnwys addysg, gwaith a globaleiddio, bywyd bob dydd a threfol, cyfryngau cymdeithasol, diwylliant a defnyddio, Iechyd, mudo a chysylltiadau ethnig.

## BSc Dadansoddeg Gymdeithasol

Bob dydd yn y papurau newydd, mae ystadegau am bopeth megis Brexit, ymfudwyr, mamau yn eu harddegau ac iechyd rhywiol. Mewn byd llawn data, ffigurau ac ystadegau, mae dadansoddeg gymdeithasol yn canolbwyntio ar wneud synnwyr o'r byd cymdeithasol rydym ni'n byw ynddo trwy werthuso honiadau am wybodaeth.

Mae'r rhaglen yn cynnig cyfle unigryw i ymchwilio i'n cymdeithas trwy ymchwil feintiol amrywiaeth o ddisgyblaethau megis cymdeithaseg, troseddeg, y gwyddorau dynol a chymdeithasol, polisïau cymdeithasol ac addysg. Mae Dadansoddeg Gymdeithasol yn radd ryngddisgyblaethol sy'n addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn themâu ar draws y Gwyddorau Cymdeithasol megis anghydraddoldeb, iechyd, gwyriad, rhywedd ac ethnigrwydd.

Dyluniwyd y cwricwlwm mewn cydweithrediad â chyflogwyr er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn y gweithle modern. Bydd graddedigion Dadansoddeg Gymdeithasol yn deall data ac yn defnyddio gwybodaeth mewn modd beirniadol o ganlyniad i'w sgiliau meddalwedd a dadansoddi sylweddol a'r wybodaeth arbenigol a gynigir gan addysg yn y gwyddorau cymdeithasol.

Mae gan y rhaglen anrhydedd sengl fodiwl lleoliad gorfodol ym mlwyddyn 2, a gellir ei hymestyn i bedair blynedd drwy dreulio blwyddyn 3 yn astudio dramor neu ar leoliad proffesiynol.

## BSc Polisi Cymdeithasol

Mae polisi cymdeithasol yn ymwneud ag astudio lles dynol a sut mae cymdeithasau'n ceisio hybu lles trwy asiantaethau lles y wladwriaeth, y sector preifat, a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o heriau ymateb i angen dynol a rheoli darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol. Ymhlith y dadleuon polisi y mae polisi cymdeithasol yn ymdrin â hwy mae nawdd cymdeithasol, addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol tai a phersonol, yn ogystal â pholisïau i fynd i'r afael â heriau newydd megis cynhesu byd-eang a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol.

**Noder:** Mae'r pwnc hwn ar gael ar raglenni cydanrhydedd yn unig, ac mae'n rhaid ei astudio ochr yn ochr â disgyblaeth arall. Mae modd ymestyn pob un o'n rhaglenni Polisi Cymdeithasol cydanrhydedd i bedair blynedd drwy dreulio blwyddyn 3 ar leoliad proffesiynol.

# Rhagor o wybodaeth

### Dulliau addysgu ac asesu

Addysgir y cwrs fel arfer drwy ddarlithoedd, grwpiau seminar ar ffurf trafodaeth a sesiynau labordy ar gyfrifiadur. Rydym yn ymdrin â damcaniaethau a dadleuon allweddol, yn darparu hyfforddiant mewn dulliau ymchwil, ac yn rhoi sylw i ymchwil a wnaed gan ein staff academaidd.

Mae ein staff addysgu yn cynnwys nifer o arbenigwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n cyfrannu at y cwricwlwm i israddedigion.

Fel arfer, bydd myfyrwyr yn astudio chwe modiwl bob blwyddyn, gan gynnwys cymysgedd o fodiwlau craidd a dewisol, gan ddibynnu ar y rhaglen. Ar ben hynny, ym mlwyddyn 1, byddwch yn cwrdd â'ch tiwtor personol yn rheolaidd mewn grwpiau bach, ac yn dilyn rhaglen lle cewch eich cefnogi wrth i chi ddatblygu eich sgiliau astudio a dysgu sut mae bod yn wyddonydd cymdeithasol.

Byddwch yn cwblhau traethawd hir dan oruchwyliaeth yn eich blwyddyn olaf, a bydd hynny fel arfer yn golygu rhoi cyflwyniad yn ein cynhadledd traethodau hir flynyddol.

> "Mae fy sgiliau dadansoddi wedi gwella llawer ers dechrau fy ngradd. Rwyf nawr yn meddwl yn ddyfnach ynghylch pam mae pethau'n digwydd a beth allai fod wrth wraidd ymddygiad, yn ogystal â gallu gwerthuso'r ffordd orau o wella'r ymddygiad hwnnw."
>
> **Paige**,
> BSc Troseddeg a Pholisi Cymdeithasol

Mae myfyrwyr yn y Brifysgol yn dysgu mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys darlithoedd, seminarau a sesiynau tiwtorial, yn ogystal â goruchwylio prosiectau ac adborth. Mae astudio preifat neu annibynnol yn hollbwysig hefyd i ddyfnhau dealltwriaeth a datblygu sgiliau ymchwil. Mae hyn yn cynnwys darllen cefndirol, paratoi ar gyfer seminarau, gwneud gwaith ymchwil, cwblhau aseiniadau a gwaith adolygu.

Mae ein rhaglenni yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau asesu, gan gynnwys traethodau, arholiadau, gwaith ymarferol, prosiectau unigol a grŵp a chyflwyniadau.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gyfranogiad gweithgar ein myfyrwyr mewn addysgu a dysgu, ac ym mywyd yr Ysgol. Mae ein myfyrwyr yn rhoi adborth ar yr holl gyrsiau ac mae ein panel myfyrwyr-staff yn annog cyfnewid syniadau mewn modd adeiladol. Ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn academaidd, mae'r gymdeithas Gwyddorau Cymdeithasol sydd yng ngofal y myfyrwyr yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd.

### Y drefn derbyn myfyrwyr

Fel arfer rhoddir cynnig o le ar sail canlyniadau Safon Uwch, ond rydym hefyd yn derbyn amrywiaeth eang o gymwysterau eraill. Nid ydym fel rheol yn cynnal cyfweliadau ag ymgeiswyr.

### Gyrfaoedd

Mae ein Rheolwr Cyflogadwyedd a Lleoliadau pwrpasol yn gweithio i wella sgiliau ehangach a phrofiadau myfyrwyr, er mwyn cynyddu eu cyflogadwyedd. Mae hyn yn cynnwys helpu i ddod o hyd i gyfleoedd profiad gwaith a darparu cyngor gyrfaoedd pwrpasol. Rydym hefyd yn cynnig nifer o fodiwlau sy'n cynnwys cyfleoedd ar leoliad sy'n gwella eich cyflogadwyedd drwy gyfuno astudio â phrofiad gwaith uniongyrchol.

### Cyfleoedd i ôl-raddedigion

Rydym yn cynnig amrywiaeth o raddau meistr a addysgir. Rydym hefyd yn cynnig graddau PhD a Doethuriaethau Proffesiynol ac mae gennym ryw 200 o fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer PhD neu MPhil drwy ymchwil.

# Cymraeg



## Pam dewis **y Gymraeg** ym Mhrifysgol Caerdydd?

Rydym yn ymrwymedig i ymchwil sy'n cyflawni newid cymdeithasol a diwylliannol gwirioneddol. Cyflawnwyd y sgôr uchaf bosibl (**100%**) gennym ar gyfer ein heffaith yn REF 2014.

Ymunwch â chymuned **Gymraeg** fywiog sy'n tyfu. Cymerwch ran yn yr ystod enfawr o glybiau, cymdeithasau a gweithgareddau yn yr Ysgol a'r Brifysgol, ac ar draws y ddinas.

Gan gydnabod **pwysigrwydd profiad ymarferol**, mae cyfnod o brofiad gwaith ar gael i bob myfyriwr yn yr ail flwyddyn.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bydd cyfle i fyfyrwyr Ysgol y Gymraeg gael ysgoloriaethau gan y Coleg Cymraeg.

I gael gwybod rhagor:
**www.caerdydd.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol**

**1af yng Nghymru** am Astudiaethau Celtaidd

Ffynhonnell: The Complete University Guide 2022

**2il yn y DU** am Astudiaethau Celtaidd

Ffynhonnell: The Times/Sunday Times Good University Guide 2022

*Cewch fanylion y ffynonellau ystadegol ar dudalen 40.

## Rhaglenni Gradd/ Codau UCAS

### Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| **Cymraeg (BA)** (Cysylltwch â ni'n uniongyrchol ar gyfer y radd ran-amser yn y Gymraeg) | Q560 |
| **Cymraeg a'r Gweithle Proffesiynol (BA)** | Q561 |

### Cydanrhydedd

| | |
|---|---|
| **Rheoli Busnes gyda'r Gymraeg (BSc)** | NQ26 |
| **Cymraeg a Newyddiaduraeth (BA)** | PQ55 |
| **Cymraeg a Gwleidyddiaeth (BA)** | QL52 |
| **Cymraeg a phwnc arall o blith y Dyniaethau** (gweler tudalen 146) | |

### Anrhydedd LLB

| | |
|---|---|
| **Y Gyfraith a'r Gymraeg (LLB)** | MQ15 |

## Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Arweiniad yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:**

**Anrhydedd sengl:**
BBC gan gynnwys gradd B yn y Gymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith).

**Cydanrhydedd:** AAA-BBB

Fel rheol, rhaid i'r rhain gynnwys gradd B o leiaf yn y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith.
I gael manylion y meini prawf o ran cymhwyster ar draws y rhaglenni cydanrhydedd, cysylltwch â ni.

Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi astudio Cymraeg Safon Uwch fod yn gymwys os bydd eu Cymraeg o safon gyfatebol. Cysylltwch â ni i drafod:

**Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru:** Derbynnir Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir uchod) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** 30 pwynt gan gynnwys o leiaf 5 mewn Cymraeg ar Lefel Uwch.

**BTEC:** Anrhydedd sengl: DM yn y Dyniaethau neu'r Gwyddorau Cymdeithasol yn ogystal â gradd B mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu Ail Iaith ar Safon Uwch. Cydanrhydedd: Ewch i'n gwefan.

**Arall:** Bydd croeso i geisiadau gan rai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth/tramor amgen, a'r rhai a all fod â chyfuniadau o gymwysterau neu brofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

**Gofynion eraill**
Nid oes gofynion penodol eraill o ran pynciau, ond rhaid i'r Safon Uwch gynnwys dau bwnc academaidd traddodiadol o leiaf. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.
Ni dderbynnir astudiaethau cyffredinol.

**TGAU:** Cymraeg neu Saesneg gradd C.

Cewch wybodaeth am gymwysterau cyfwerth â TGAU ar dudalen 153.

## Gyrfaoedd

Gan fod galw am sgiliau iaith Gymraeg ac arbenigedd yn y Gymraeg mewn llawer o feysydd yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus (gan gynnwys y cyfryngau, addysg, llywodraeth leol a chenedlaethol), mae gradd yn y Gymraeg neu yn y Gymraeg ynghyd â phwnc arall, yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer swyddi sy'n gofyn am staff dwyieithog. Mae llawer o'n graddedigion wedi mynd ati i ddilyn gyrfaoedd yn y gyfraith, y cyfryngau, y celfyddydau perfformio, gweinyddiaeth, cyfathrebu ac addysgu ar bob lefel.

## Gwybodaeth am geisiadau

**Nifer y lleoedd fel arfer:** 30 **Nifer y ceisiadau fel arfer:** 100

## Rhagor o wybodaeth

**www.caerdydd.ac.uk/cyrsiau**

Lawrlwythwch lawlyfr yr Ysgol: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/ug/prospectus**

Tiwtor derbyn myfyrwyr: **Dr Iwan Wyn Rees**

Ffôn: **(029) 2087 0679 +44 (0)29 2087 0679**

Ebost: **derbyncymraeg@caerdydd.ac.uk**

**ysgolygymraeg** **@ysgolygymraeg** **ysgolygymraegpc**

Rwyf wedi mwynhau'r modiwlau sosioieithyddiaeth sy'n rhoi'r cyfle i chi astudio'r Gymraeg mewn ffordd wahanol i'r ysgol neu'r coleg. Heb os nac oni bai, mae edrych ar y defnydd o'r Gymraeg yn y Gymru fodern wedi bod yn ddiddorol iawn, yn ogystal â dysgu sgiliau cyfieithu a gramadeg safonol, a mwy am feirdd, barddoniaeth, a nofelau nad ydym wedi dod ar eu traws o'r blaen.

Ers symud i Gaerdydd, rydw i wedi cael fy synnu gan nifer y siopau, bwytai a faint o bethau sydd i'w gwneud ledled y ddinas, heb sôn am y pethau sydd ar gael o fewn pellter beicio. Mae'r ddinas wedi ei gwneud hi'n hawdd cymdeithasu â phobl newydd a chael eich traed tanoch yn gyflym.

**Deio**, BA Cymraeg a Gwleidyddiaeth



## Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu iaith, cymdeithas a hunaniaeth Cymru gyfoes drwy addysg ac ymchwil o'r safon uchaf.

Mae tirwedd wleidyddol a chymdeithasol Cymru yn newid: pwerau newydd i'n llywodraeth ddatganoledig; ailenwi'r Cynulliad yn Senedd Cymru; her i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; a mudiad annibyniaeth wedi'i adfywio. Mae'r datblygiadau hyn yn cyflwyno heriau yn ogystal â chyfleoedd. Os yw Cymru ar groesffordd, pa olwg sydd ar y dyfodol? Ac, yn bwysicach, pwy sy'n helpu i'w diffinio hi? ***Chi.***

Beth bynnag sydd o'n blaenau, yr hyn sydd ei angen yw dinasyddiaeth angerddol a hyddysg, wedi'i chyfarparu â'r sgiliau a'r wybodaeth – iaith, diwylliant, treftadaeth – i greu newid cadarnhaol. Mae angen meddylwyr dadansoddol, arbenigwyr iaith, arbenigwyr economaidd a pholisi, ysgolheigion cyfreithiol, cyfryngau beirniadol ac arweinwyr deinamig ym mhob proffesiwn yng Nghymru. Dyma'ch cyfle i lunio dyfodol gwleidyddol, cymdeithasol, cyfreithiol, economaidd a diwylliannol Cymru.

## Canolbwyntio ar y dyfodol

Rydym yn cyfuno astudiaethau iaith, llenyddiaeth a diwylliant, ac yn cynnig modiwlau unigryw sy'n berthnasol yng Nghymru heddiw. Pa bwnc bynnag sydd dan sylw, boed yn llenyddiaeth i blant neu gynllunio ieithyddol, byddwch yn astudio mewn modd arloesol a blaengar.

Mae ein modiwlau yn darparu ystod o sgiliau trosglwyddadwy i chi sy'n addas ar gyfer nifer o wahanol yrfaoedd. Byddwch wedi'ch paratoi i weithio'n greadigol, yn hyderus ac yn broffesiynol trwy gyfrwng Cymraeg, a chydnabod bod eich addysg ddwyieithog a'ch gwybodaeth am ddefnyddio ac addasu iaith mewn sawl cyd-destun yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Mae eich paratoi ar gyfer bywyd y tu allan i'r Brifysgol – i ddylanwadu ar y maes o'ch dewis – hefyd yn elfen bwysig o'n gwaith. Gwyddom fod galw mawr am raddedigion yn y Gymraeg. Er mwyn datblygu ac arbenigo'ch sgiliau proffesiynol ymhellach, rydym yn cynnig nifer o fodiwlau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg yn y gymuned a'r gweithle ochr yn ochr â nifer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn profiad gwaith gydag ystod o sefydliadau.

Rydym yn gwarantu cyfnod o brofiad gwaith i bob myfyriwr trwy ein modiwl craidd – *Yr Iaith ar Waith*. Dyma'ch cyfle i roi eich sgiliau ar brawf mewn lleoliad proffesiynol a dechrau adeiladu eich rhwydwaith proffesiynol. Byddwch yn gwneud cysylltiadau gwerthfawr â gweithleoedd a chyflogwyr ledled Cymru. Yn flaenorol, mae ein myfyrwyr wedi ymgymryd â lleoliadau gyda'r BBC, S4C, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Boom Cymru, yr Urdd, Mentrau Iaith ac ystod o sefydliadau ym meysydd addysg, cyfieithu, y gyfraith a'r cyfryngau/cynhyrchu.

## Cyfunwch eich diddordebau

Rydym yn cynnig dewis eang o raglenni y gallwch eu hastudio ar y cyd neu mewn cyfuniad â phynciau eraill ym meysydd eraill y celfyddydau a'r dyniaethau. Mae hyn yn golygu y gallwch barhau â'ch astudiaeth o'r Gymraeg ond ochr yn ochr â maes arall sydd o ddiddordeb i chi, gan ddarganfod cysylltiadau newydd a chyffrous rhyngddynt. Gallwch ddod o hyd i'r rhaglenni diweddaraf ar ein gwefan. Ar hyn o bryd mae'r opsiynau'n cynnwys Saesneg, Hanes, Ieithoedd Modern, Cerddoriaeth ac Athroniaeth, ond mae'r rhain yn rhai o'n parau mwyaf poblogaidd.

## Ein rhaglenni

Mae ein rhaglenni anrhydedd sengl yn agored i fyfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith fel ei gilydd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae myfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith yn astudio ar wahân yn bennaf (oherwydd gwahaniaethau mewn opsiynau modiwl) cyn dod at ei gilydd o'r ail flwyddyn ymlaen.

### BA Y Gymraeg

Nod y cwrs yw cynhyrchu graddedigion sydd â dealltwriaeth academaidd ac ymarferol drylwyr o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, lefel uchel o sgiliau ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg, a sgiliau cyflogadwyedd a chreadigol datblygedig sy'n berthnasol i'r Gymru fodern. Wrth i ni anelu at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ni fu erioed fwy o alw am raddedigion sydd â'r ddealltwriaeth hon ac sy'n gwybod sut i'w chymhwyso.

### BA Cymraeg a'r Gweithle Proffesiynol

Gan gyfuno'r gorau o'n rhaglen BA Cymraeg â phwyslais mwy ar yrfa a chyflogadwyedd, byddwch yn elwa o ddau gyfnod o brofiad gwaith ar wahân (yn eich ail a'ch trydedd flwyddyn) i ddatblygu eich sgiliau ymarferol a phroffesiynol yn y gweithle, ac yn cwblhau prosiect ymchwil annibynnol yn seiliedig ar y gweithle. Byddwch hefyd yn cael eich paru â mentor proffesiynol allanol a all rannu gwybodaeth a chyngor yn seiliedig ar eu gyrfaoedd hyd yn hyn, yn ogystal â gwybodaeth am eu diwydiant.

### LLB y Gyfraith a'r Gymraeg

Nod y rhaglen hon yw cynhyrchu graddedigion sydd wedi cymhwyso i roi eu gwybodaeth gyfreithiol ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

### BA Cymraeg a Newyddiaduraeth

Lluniwyd y rhaglen mewn ymateb i'r galw mawr am newyddiadurwyr sy'n medru'r Gymraeg ac yn meddu ar sgiliau newyddiadurol. Mae'n cyfuno trylwyredd a dadansoddiad academaidd â'r cyfle i gael profiad gwaith a chyflawni gweithgareddau allgyrsiol ymarferol.

### BA Cymraeg a Gwleidyddiaeth

Mae'n rhoi dealltwriaeth ardderchog o wleidyddiaeth a llywodraeth i chi, gan roi i chi hefyd y sgiliau deallusol a chyfathrebu cysylltiedig a fydd o werth os byddwch yn gweithio i'r llywodraeth neu yn y sectorau preifat neu wirfoddol.

### BSc Rheoli Busnes a Chymraeg

Cynigir y rhaglen hon ar y cyd ag Ysgol Busnes Caerdydd. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth drwyadl o'r byd busnes yng Nghymru (a thu hwnt) yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

## Llwybrau ail iaith

Byddwch yn gweld ein bod ni'n gymuned agos a chefnogol o staff a myfyrwyr, yn awyddus i'ch helpu chi i ddatblygu'ch sgiliau iaith a'ch hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae digon o gefnogaeth a chyfleoedd ychwanegol trwy gydol eich gradd i sicrhau eich bod chi'n cyflawni'ch uchelgeisiau ac yn ymgartrefu'n gyffyrddus ym mywyd Cymru yn yr Ysgol a'r Brifysgol.

"Doeddwn i ddim yn gwybod y gallwn fod mor hyderus wrth siarad Cymraeg! Fe wnaeth fy mlwyddyn gyntaf yn Ysgol y Gymraeg fy helpu i ddatblygu fy sgiliau, mwynhau siarad Cymraeg a chofleidio diwylliant Cymru. . . hyd yn oed gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, a gyflwynodd fandiau ac artistiaid newydd i mi."

**Maia**, Y Gymraeg (BA)



# Rhagor o wybodaeth


| | |
|---|---|
| Rhaglenni gradd cydanrhydedd | 146 |
| Canolfan Astudiaethau Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd | 148 |
| Rhaglenni iaith Saesneg | 149 |
| Rhaglenni blwyddyn ragarweiniol | 150 |
| Ffioedd | 151 |
| Sut i wneud cais | 152 |
| Gwybodaeth gyfreithiol bwysig | 153 |
| Mynegai cyffredinol | 154 |
| Mynegai pynciau gradd | 154 |
| Rhagor o fanylion | 156 |
| Diwrnodau agored | 156 |
| Teithio i Gaerdydd | 156 |


**Sganiwch y côd QR i gael rhagor o wybodaeth.**

**Gallwch ddarganfod rhagor ar-lein:**
**www.caerdydd.ac.uk/undergraduate**

Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth am y canlynol:

- Rhaglenni gradd cydanrhydedd
- Meini prawf derbyn a dethol
- Ymgeisio
- Cyrsiau rhagarweiniol/sylfaen
- Ffioedd a chyllid
- Diwrnodau Agored


THE FUTURE OF 24-HOUR NEWS
New Directions, New Challenges
EDITED BY Stephen Cushion & Richard Sambrook

# Graddau cydanrhydedd ac integredig

## Rydym yn cynnig ystod amrywiol a chyffrous o raddau cydanrhydedd ac integredig.

### Graddau cydanrhydedd (BA/BScEcon) yn y Dyniaethau ac Astudiaethau Cymdeithasol

Mae graddau cydanrhydedd yn golygu astudio dau bwnc yn gyfartal drwy gydol eich cyfnod astudio. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i roi cymaint o ddewis a hyblygrwydd â phosibl i fyfyrwyr. Dewiswch bwnc o'r rhai a amlygwyd ac edrychwch ar y rhestr oddi tano i ddewis pwnc arall y gallwch ei gyfuno gyda'r pwnc cyntaf. Rhestrir y codau UCAS ger y pynciau.

#### Hanes yr Henfyd a:

| | |
|---|---|
| Hanes BA | V117 |

#### Archaeoleg a:

| | |
|---|---|
| Hanes yr Henfyd BA | VVC4 |
| Hanes BA | VV14 |

#### Economeg a:

| | |
|---|---|
| Ffrangeg BA | RL11 |
| Almaeneg BA | RL21 |
| Hanes BA | VL11 |
| Eidaleg BA | RL31 |
| Athroniaeth BA | VL51 |
| Gwleidyddiaeth BScEcon | LL12 |
| Sbaeneg BA | LR14 |

#### Addysg a:

| | |
|---|---|
| Cymraeg* BA | QX53 |

#### Saesneg Iaith a:

| | |
|---|---|
| Ffrangeg BA | QR31 |
| Almaeneg BA | QR32 |
| Eidaleg BA | QR33 |
| Athroniaeth BA | QV35 |
| Sbaeneg BA | QR3K |
| Cymraeg BA | QQ35 |

#### Llenyddiaeth Saesneg a:

| | |
|---|---|
| Ffrangeg BA | RQ13 |
| Almaeneg BA | RQ23 |
| Hanes BA | VQ13 |
| Eidaleg BA | RQ33 |
| Newyddiaduraeth, y Cyfryngau BA | PQ53 |
| Cerddoriaeth BA | WQ33 |
| Athroniaeth BA | VQ53 |
| Sbaeneg BA | QR34 |
| Cymraeg BA | QQ53 |

#### Ffrangeg a:

| | |
|---|---|
| Economeg BA | RL11 |
| Saesneg Iaith BA | QR31 |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | RQ13 |
| Almaeneg BA | RR21 |
| Eidaleg BA | RR31 |
| Japaneeg BSc | TR21 |
| Cerddoriaeth BA | WR31 |
| Athroniaeth BA | VR51 |
| Gwleidyddiaeth BA | LR21 |
| Portiwgaleg BA | P6P9 |
| Sbaeneg BA | RR14 |
| Cymraeg* BA | QR51 |

#### Almaeneg a:

| | |
|---|---|
| Economeg BA | RL21 |
| Saesneg Iaith BA | QR32 |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | RQ23 |
| Ffrangeg BA | RR21 |
| Eidaleg BA | RR32 |
| Japaneeg BSc | TR22 |
| Cerddoriaeth BA | WR32 |
| Gwleidyddiaeth BA | LR22 |
| Portiwgaleg BA | S89P |
| Sbaeneg BA | RR24 |

#### Hanes a:

| | |
|---|---|
| Hanes yr Henfyd BA | V117 |
| Archaeoleg BA | VV14 |
| Economeg BA | VL11 |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | VQ13 |
| Athroniaeth BA | VV15 |
| Cymraeg BA | QV51 |

#### Eidaleg a:

| | |
|---|---|
| Economeg BA | RL31 |
| Saesneg Iaith BA | QR33 |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | RQ33 |
| Ffrangeg BA | RR31 |
| Almaeneg BA | RR32 |
| Japaneeg BSc | TR23 |
| Cerddoriaeth BA | WR33 |
| Athroniaeth BA | VR53 |
| Gwleidyddiaeth BA | LR23 |
| Portiwgaleg BA | 6YR4 |
| Sbaeneg BA | RR34 |
| Cymraeg* BA | QR53 |

#### Japaneeg a:

| | |
|---|---|
| Ffrangeg BA | TR21 |
| Almaeneg BA | TR22 |
| Eidaleg BA | TR23 |
| Sbaeneg BA | TR24 |

#### Newyddiaduraeth a:

| | |
|---|---|
| Cymraeg* BA | PQ55 |

#### Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a:

| | |
|---|---|
| Gwleidyddiaeth BA | J323 |

#### Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a:

| | |
|---|---|
| Llenyddiaeth Saesneg BA | PQ53 |
| Cymdeithaseg BA | LP35 |

#### Hanes Modern a:

| | |
|---|---|
| Gwleidyddiaeth (rhaglen anrhydedd sengl integredig) BScEcon | LV21 |

#### Cerddoriaeth a:

| | |
|---|---|
| Llenyddiaeth Saesneg BA | WQ33 |
| Ffrangeg BA | WR31 |
| Almaeneg BA | WR32 |
| Eidaleg BA | WR33 |
| Athroniaeth BA | VW53 |
| Cymraeg BA | QW53 |

#### Athroniaeth a:

| | |
|---|---|
| Economeg BA | VL51 |
| Saesneg Iaith BA | QV35 |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | VQ53 |
| Ffrangeg BA | VR51 |
| Hanes BA | VV15 |
| Eidaleg BA | VR53 |
| Cerddoriaeth BA | VW53 |
| Gwleidyddiaeth BA | LV25 |
| Astudiaethau Crefyddol BA | VV65 |
| Sbaeneg BA | RV45 |
| Cymraeg* BA | QV55 |

**Gwleidyddiaeth a:**

| | |
|---|---|
| Economeg BScEcon | LL12 |
| Ffrangeg BA | LR21 |
| Almaeneg BA | LR22 |
| Eidaleg BA | LR23 |
| Newyddiaduraeth BA | J323 |
| Hanes Modern† BScEcon | LV21 |
| Athroniaeth BA | LV25 |
| Cymdeithaseg BScEcon | LL32 |
| Sbaeneg BA | LR24 |
| Cymraeg BA | QL52 |

†Rhaglen radd anrhydedd sengl integredig yw Hanes Modern a Gwleidyddiaeth.

**Portiwgaleg a:**

| | |
|---|---|
| Ffrangeg BA | P6P9 |
| Almaeneg BA | S89P |
| Eidaleg BA | 6YR4 |
| Sbaeneg BA | G5Y5 |

**Astudiaethau Crefyddol a:**

| | |
|---|---|
| Athroniaeth BA | VV65 |

**Cymdeithaseg a:**

| | |
|---|---|
| Newyddiaduraeth, y Cyfryngau BA | LP35 |
| Gwleidyddiaeth BScEcon | LL32 |

**Sbaeneg a:**

| | |
|---|---|
| Economeg BA | LR14 |
| Saesneg Iaith BA | QR3K |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | QR34 |
| Ffrangeg BA | RR14 |
| Almaeneg BA | RR24 |
| Eidaleg BA | RR34 |
| Japaneeg BSc | TR24 |
| Athroniaeth BA | RV45 |
| Gwleidyddiaeth BA | LR24 |
| Portiwgaleg BA | G5Y5 |
| Cymraeg* BA | QR54 |

**Cymraeg a:**

| | |
|---|---|
| Addysg BA | QX53 |
| Saesneg Iaith BA | QQ35 |
| Llenyddiaeth Saesneg BA | QQ53 |
| Ffrangeg BA | QR51 |
| Hanes BA | QV51 |
| Eidaleg BA | QR53 |
| Newyddiaduraeth BA | PQ55 |
| Cerddoriaeth BA | QW53 |
| Athroniaeth BA | QV55 |
| Gwleidyddiaeth BA | QL52 |
| Sbaeneg BA | QR54 |

**Mae'r grwpiau hyn yn gywir ar adeg cyhoeddi a gallant newid.**

## Graddau cydanrhydedd ac integredig eraill

Rydym hefyd yn cynnig rhaglenni cydanrhydedd ac integredig yn y meysydd canlynol:

| | |
|---|---|
| Astudiaethau Busnes a Japaneeg BSc | NT12 |
| Troseddeg a Pholisi Cymdeithasol BSc | 8D46 |
| Troseddeg a Chymdeithaseg BSc | 8F46 |
| Economeg ac Astudiaethau Rheoli BScEcon | LN12 |
| Addysg a Chymdeithaseg BScEcon | 8J46 |
| Y Gyfraith a Throseddeg LLB | M190 |
| Y Gyfraith a Ffrangeg LLB | RM11 |
| Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth LLB | ML12 |
| Y Gyfraith a Chymdeithaseg LLB | ML13 |
| Y Gyfraith a'r Gymraeg* LLB | MQ15 |
| Mathemateg a Cherddoriaeth BA | GW13 |
| Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol BSc | 8K46 |





## Astudiaethau rhan-amser

Mae'r rhaglenni a restrir yn y prosbectws hwn yn cael eu haddysgu'n amser-llawn. Er hynny, mae'r rhaglenni canlynol ar gael yn rhan-amser hefyd:

- BA Saesneg Iaith
- BA Saesneg Iaith ac Ieithyddiaeth
- BA Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
- BA Llenyddiaeth Saesneg
- BA Athroniaeth
- BA Cyfieithu
- BTh Llwybr Diwinyddiaeth 1
- BA yn y Gymraeg
- BA Cymraeg a'r Gweithle Proffesiynol

Mae manylion penodol am y rhaglenni hyn (e.e. ymrwymiad amser) ar gael gan diwtor derbyn yr ysgol academaidd berthnasol (ceir manylion cysylltu ar dudalennau'r ysgolion gwahanol yn y prosbectws hwn).

Os ydych chi am astudio'n rhan-amser, dylech wneud cais uniongyrchol i'r Brifysgol (nid i UCAS) ac fe ystyrir eich cais gan y tiwtor derbyn perthnasol.

Gallwch wneud cais ar-lein ar **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying**

Cysylltwch â'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr am ragor o gyngor:
Ffôn: **(029) 2087 9999**
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/contact-us**

**Cyrsiau Rhan-amser**

Mae'r Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau rhan-amser yn ystod y dydd a mis nos. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults**

# Canolfan Astudiaethau Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd

## Mae'r Ganolfan Astudiaethau Rhyngwladol, a gaiff ei chynnal mewn partneriaeth â Study Group, yn cynnig ystod o raglenni sylfaen a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer myfyrwyr sy'n ceisio symud ymlaen i'n cyrsiau.



**Mae cyrsiau yn y Ganolfan yn cynnig ystod o sgiliau astudio ac iaith i fyfyrwyr i baratoi ar gyfer astudio ym Mhrifysgol Caerdydd**

Mae'r Ganolfan yn Undeb y Myfyrwyr ac yn galluogi myfyrwyr i baratoi eu sgiliau academaidd ac astudio, yn ogystal â chynnig yr ystod eang o gyfleusterau cymorth ac academaidd sydd ar gael i'n holl fyfyrwyr.

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Ryngwladol yn cynnig mynediad at bron pob rhaglen israddedig drwy un o bedwar llwybr:

- Y Dyniaethau, y Gyfraith a'r Gwyddorau Cymdeithasol
- Busnes, Economeg, Cyfrifeg a Chyllid
- Peirianneg, Gwyddorau Ffisegol a Phensaernïaeth
- Gwyddorau Iechyd, Meddygol a Bywyd.

> Mae myfyrwyr yn dod o bedwar ban y byd i wella eu Saesneg cyn dechrau astudio yn y Brifysgol.



**Cynrychiolir myfyrwyr o dros 130 o wledydd ar y campws**




## Rhaglenni iaith Saesneg

Mae’r ganolfan addysgu rhaglenni iaith Saesneg yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau. Maent yn amrywio o wyth wythnos i naw mis o hyd ac yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau a galluoedd ieithyddol.

## Saesneg ar gyfer Astudio yn y Brifysgol

Rhaglen Saesneg ar gyfer Astudio yn y Brifysgol: cwrs iaith a sgiliau astudio amser llawn i wella sgiliau Saesneg academaidd. Bydd yn rhoi'r sgiliau astudio academaidd sydd eu hangen arnoch i astudio'n effeithiol yn y DU, a bydd yn cynnwys sgiliau iaith, astudio a phroffesiynol a diwylliant academaidd Prydain.

Mae'r rhaglen yn ddewis doeth os ydych yn bwriadu parhau â'ch astudiaethau addysg uwch ar lefel israddedig neu ôl-raddedig. Bydd angen i chi gymryd prawf i ddangos bod eich Saesneg ar lefel briodol.

Mae’r rhaglen yn rhoi’r sgiliau a’r iaith sydd eu hangen arnoch i symud yn ddiffwdan i astudiaethau academaidd. Y nod yw datblygu myfyrwyr hyderus a llwyddiannus sydd â’r sgiliau priodol i astudio mewn prifysgol yn y DU.

Bydd ein hysgolion academaidd yn derbyn sgoriau Prawf Ymadael Saesneg ar gyfer Astudio yn y Brifysgol yn hytrach nag IELTS dilys. Gellir sefyll profion ymadael ar ddiwedd pob tymor.

Mae modd dechrau’r rhaglen ar dair adeg wahanol: ym misoedd Medi, Ionawr ac Ebrill/Mai.

| **Derbyniad** | **Gofynion mynediad** |
|---|---|
| Medi | IELTS 4.0 |
| Ionawr | IELTS 4.5 |
| Ebrill/Mai | IELTS 5.0 |

Wedi'i gynnwys yn y cwrs:

- dosbarthiadau iaith byw (a hunanastudio)
- arweiniad a chymorth tiwtorial un-i-un
- trawsgrifiad ffurfiol sy’n dangos asesiadau wedi'u cwblhau ac yn nodi lefel eich hyfedredd iaith ar ôl cwblhau'r cwrs.

## Rhaglenni Cyn-sesiynol

Mae'r rhaglen gyn-sesiynol yn cynnig cyfle gwych i fyfyrwyr sydd wedi cael cynigion gan Brifysgol Caerdydd, ar lefel ôl-raddedig neu israddedig, ddilyn cyrsiau byr yn Saesneg at Ddibenion Academaidd.

Mae'r cyrsiau hyn yn rhai hynod ddwys ac maent wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr sydd angen astudio am gyfnod byr yn unig i gyrraedd y safon mynediad Saesneg ofynnol ar gyfer eu cwrs academaidd.

**Opsiynau cyrsiau**

| **IELTS presennol** | **IELTS gofynnol** | **Hyd y cwrs** |
|---|---|---|
| 5.0 | 6.5 | 20 wythnos* |
| 5.5 | 6.5 | 12 wythnos* |
| 6.0 | 6.5 | 8 wythnos |
| 6.5 | 7.0 | 10 wythnos |

* ysgolion sy'n cymryd rhan yn unig

## Cymorth Iaith Saesneg Mewn-sesiynol

Mae llawer o fyfyrwyr rhyngwladol yn teimlo bod angen rhagor o help arnynt o ran eu Saesneg ar ôl dechrau eu cwrs. Os hoffech gael rhywfaint o gymorth Saesneg ychwanegol, gall y tîm mewn-sesiynol eich helpu.

Gall y dosbarthiadau hyn gryfhau eich sgiliau ysgrifennu academaidd, darllen, gwrando, siarad ac ynganu, yn ogystal â gwella eich sgiliau iaith a'ch hyder yn gyffredinol.

Yn ogystal â dosbarthiadau, fel myfyriwr byddwch yn gallu cael gwersi hunanastudio ar ysgrifennu academaidd, gramadeg a geirfa ar Fewnrwyd Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

**Sganiwch y côd QR i gael rhagor o wybodaeth.**

# Rhaglenni blwyddyn ragarweiniol

## Rhaglenni/Codau UCAS

**Cemeg BSc**
(4 blynedd blwyddyn ragarweiniol)
**Cysylltwch â'r Ysgol Cemeg am ragor o wybodaeth.**

**Peirianneg BEng**
(4 blynedd blwyddyn ragarweiniol/blwyddyn sylfaen)
**Cysylltwch â'r Ysgol Peirianneg i gael rhagor o wybodaeth.**

**Optometreg BSc**
(4 blynedd blwyddyn ragarweiniol)
**Cysylltwch â'r Ysgol Optometreg i gael rhagor o wybodaeth.**

**Mae'r cyrsiau uchod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.**







**Mae'r rhaglenni rhagarweiniol/ blwyddyn sylfaen wedi'u creu i'ch paratoi ar gyfer astudio ar lefel gradd yn y pwnc o'ch dewis.**

Er enghraifft, efallai na fyddwch wedi astudio'r pynciau Safon Uwch priodol i allu mynd i mewn yn uniongyrchol i flwyddyn gyntaf y rhaglen radd. Nid yw'r rhaglenni wedi'u creu i gynnig llwybr i fyfyrwyr sydd wedi methu â sicrhau'r graddau angenrheidiol yn eu pynciau Safon Uwch.

Bydd y modiwlau y byddwch chi'n eu hastudio yn dibynnu ar ofynion y rhaglen radd o'ch dewis. Ar gyfer Peirianneg, gall y rhain gynnwys Mathemateg, Ffiseg a TG.

Os byddwch yn cwblhau'r rhaglenni rhagarweiniol/sylfaen hyn yn llwyddiannus, byddwch yn mynd ymlaen yn awtomatig i flwyddyn gyntaf eich dewis o raglen radd.

Os ydych yn cyflwyno cais i wneud rhaglen radd sy'n cynnwys blwyddyn ragarweiniol neu sylfaen, dylech wneud cais drwy UCAS.

Rhaid i chi fodloni'r tiwtor derbyn priodol eich bod yn gymwys i ddilyn rhaglen radd.

Os oes gennych ymholiad ynghylch cael eich derbyn, ac yn benodol am gael cyngor ynghylch eich cymwysterau, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r tiwtor derbyn priodol yn yr Ysgol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen radd sydd o ddiddordeb i chi.



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol berthnasol.


**Ysgol Cemeg**
Ffôn: **(029) 2087 0464**
**+44 (0)29 2087 0464**
Ebost: **chemistry@caerdydd.ac.uk**

**Ysgol Peirianneg**
Ffôn: **(029) 2087 4656**
**+44 (0)29 2087 4656**
Ebost: **engineering-ug@caerdydd.ac.uk**

**Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg**
Ffôn: **(029) 2087 4374**
**+44 (0)29 2087 4374**
Ebost: **optomadmissions@caerdydd.ac.uk**

# Ffioedd

**Bydd y Brifysgol yn codi ffi flynyddol i dalu'r holl ffioedd dysgu, costau hanfodol y cwrs, cofrestru ac arholi ond nid yw'n codi ffi ailsefyll arholiadau gan ymgeiswyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar y pryd. Sylwch fod rhaid talu am lety ym Mhreswylfeydd y Brifysgol ar ben hynny.**

## Ffioedd dysgu

Cyhoeddir y ffioedd dysgu ar ein gwefan: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees**

## Ffioedd y DU

Nodwch y gallai ein ffioedd newid. Bydd y newidiadau hyn yn cyd-fynd â pholisïau'r llywodraeth. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

## Ffioedd myfyrwyr rhyngwladol

Caiff y ffioedd i fyfyrwyr rhyngwladol eu pennu am dair blynedd. Ar gyfer cyrsiau dros dair blynedd o hyd, yn enwedig Meddygaeth a Deintyddiaeth, bydd ffioedd yn cynyddu ar adegau gwahanol. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

## Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

Am ragor o wybodaeth am y gefnogaeth ariannol y mae'r Brifysgol yn ei chynnig, ewch i: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/funding**

## Cymorth i dalu ffioedd dysgu/benthyciadau myfyrwyr

Mae gwybodaeth am opsiynau cyllid myfyrwyr ar gael ar y gwefannau canlynol:

Gwefan Prifysgol Caerdydd: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees**

Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr: **www.slc.co.uk**

Os ydych fel arfer yn byw yng Nghymru: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Os ydych yn byw yn Lloegr fel arfer: **www.direct.gov.uk/studentfinance**

Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer: **www.saas.gov.uk**

Dylai ymgeiswyr o Ogledd Iwerddon gysylltu â'u Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud cais am unrhyw gyllid yr ydych yn gymwys i'w gael cyn i chi ddechrau eich astudiaethau. Bydd y Brifysgol yn eich anfonebu'n uniongyrchol am eich ffioedd os na fyddwch yn gwneud cais ac yn cael cadarnhad o'ch cyllid.

## Pwysig

Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r Brifysgol, ebostiwch: **Fees@caerdydd.ac.uk** i gael gwybod sut bydd hynny'n effeithio ar eich ffioedd dysgu. Efallai y bydd myfyrwyr hefyd am drafod agweddau eraill ar dynnu'n ôl gydag aelod o'r gwasanaeth Cyllid a Chyngor Myfyrwyr,
ffôn: **029 2251 8888**
ebost: **Studentfundingandadvice@caerdydd.ac.uk**

## Talu ffioedd

Pan fyddwch chi, ar ôl gorffen eich cwrs, yn ennill dros £25,000 y flwyddyn caiff yr ad-daliadau eu tynnu o'ch cyflog yn awtomatig os ydych wedi cael benthyciad ffioedd dysgu. Os nad ydych am gymryd benthyciad ffioedd dysgu gallwch wneud taliad i'r Brifysgol gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd neu dalu drwy ddebyd uniongyrchol mewn tri rhandaliad - wrth ymrestru/ym mis Tachwedd, mis Ionawr a mis Ebrill.

Myfyrwyr rhyngwladol - gallwch dalu â cherdyn debyd neu gerdyn credyd mewn tri rhandaliad wrth ymrestru, ym mis Ionawr a mis Ebrill.

## Myfyrwyr sy'n talu eu ffioedd eu hunain

Caniateir i bob myfyriwr sy'n talu ei ffioedd dysgu ei hun wneud hynny mewn tri rhandaliad drwy ddebyd uniongyrchol, ym mis Tachwedd, mis Ionawr a mis Ebrill neu drwy gerdyn credyd neu ddebyd yn SIMS ar-lein wrth gofrestru, ym mis Ionawr neu ym mis Ebrill. Caiff y manylion llawn eu rhoi ar y wefan y cyfeirir myfyrwyr ati yn y llythyr a anfonir atynt ganol Awst.

## Myfyrwyr a noddir

Rhaid i fyfyrwyr sydd â nawdd gan eu Llywodraeth/Llysgenadaethau, neu unrhyw fath arall o nawdd, ddarparu tystiolaeth o hyn drwy ebostio copi o'u gwarant ysgrifenedig i'r swyddfa ffioedd dysgu cyn cael ymrestru ar eu cwrs. Y myfyriwr fydd yn atebol am dalu ei ffioedd dysgu dros ei hun os na fydd noddwr yn talu'r ffioedd hyn pan maent yn ddyledus.

## Ffioedd blwyddyn dramor a/neu leoliad gwaith

Bydd myfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn o hyfforddiant proffesiynol yn talu 20% o'r ffi lawn.

Bydd myfyrwyr ym mlwyddyn dysgu yn y gwaith y rhaglen BSc/MArch Pensaernïaeth yn talu 50% o'r ffi lawn.

## UE/AEE/Y Swistir

Os ydych chi'n wladolyn o'r UE/AEE neu'r Swistir, bydd ffioedd dysgu yn codi o fis Medi 2022 yn unol â'r ffioedd a godir ar fyfyrwyr y tu allan i'r UE, oni bai eich bod yn gymwys i gael statws ffioedd Cartref.

## Ffioedd dysgu tramor

Yn sgîl cyflwyno Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1982, mae gofyn i bob ymgeisydd tramor, ac eithrio trigolion yr Undeb Ewropeaidd, dalu ffioedd yn ôl y gyfradd dramor. Dylech fod yn ymwybodol bod y rheoliadau yn golygu y gall prifysgolion, o dan rai amgylchiadau, godi ffioedd tramor ar fyfyrwyr sy'n derbyn Cyllid Myfyrwyr. Yn yr achosion hynny, chi fydd yn gyfrifol am dalu'r gyfran o'r ffioedd dysgu sy'n weddill ar ôl cael Cyllid Myfyrwyr.

Cysylltwch â'r Swyddfa Gyllid i gael gwybodaeth am ffioedd:

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4399**
Ebost: **studentconnect@caerdydd.ac.uk**

Cysylltwch â'r Tîm Cyngor ac Arian i gael gwybodaeth am gymorth ariannol.

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**
E-bost: **adviceandmoney@caerdydd.ac.uk**
Gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support**

## Yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae'n anochel y bydd rhai newidiadau'n digwydd rhwng cyhoeddi'r Prosbectws hwn a'r flwyddyn academaidd y mae'n ymwneud â hi. Felly, dylech chi fynd i'n gwefan – **www.caerdydd.ac.uk** – i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

## Awgrymiadau ynghylch gwella

Rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y wybodaeth yn y prosbectws hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, os teimlwch fod unrhyw wybodaeth yn y llyfryn yn gamarweiniol, cysylltwch â:
Laura Davies, Cyfarwyddwr Cyfathrebu,
Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd.
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/contact-us**

Golygwyd gan David Roylance/Laura Roberts,
Adran Cyfathrebu a Marchnata, Prifysgol Caerdydd.

visitcardiff.com sydd â'r hawlfraint ar gyfer y delweddau ar dudalennau 2, 4, 6 ac 11

## Defnyddio cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid wrth addysgu israddedigion

O gofio natur y pynciau, mae llawer o'r rhaglenni gradd a gynigir yn Ysgolion y Biowyddorau, Fferylliaeth ac Optometreg a Gwyddorau'r Golwg yn ei gwneud hi'n ofynnol defnyddio organebau gweithredol – heblaw pobl – a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid mewn gwaith ymarferol ac wrth astudio'n wyddonol.

Arferir sensitifrwydd, ac yn yr achos prin iawn lle bydd myfyriwr yn methu â gwneud y gwaith ar organebau heblaw pobl ac ar gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid, gellir chwilio am ddewisiadau eraill os yw hynny'n ymarferol, os yw rheoliadau'r cwrs yn caniatáu hynny, ac os nad oes gwrthdaro â chanlyniadau'r dysgu. Os oes amheuaeth, gall ymgeiswyr gael gwybod rhagor gan diwtoriaid derbyn myfyrwyr.

# Sut i wneud cais



**Dylid cyflwyno ceisiadau i raglenni israddedig amser llawn yng Nghaerdydd trwy UCAS.**

Gwneir ceisiadau ar-lein drwy wefan UCAS: **www.ucas.com/apply**

Yno, cewch wybodaeth am wneud cais, ac eglurhad o'r drefn ymgeisio. Fe'ch cynghorir i ddarllen y wybodaeth honno'n ofalus cyn llenwi'ch cais. Dylid gwneud cais erbyn 25 Ionawr 2023 (neu 15 Hydref 2022 ar gyfer cyrsiau Deintyddiaeth a Meddygaeth). Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y dyddiad hwn os bydd lleoedd ar gael.

**C15 CARDF** yw côd UCAS Prifysgol Caerdydd, a rhestrir codau'r rhaglenni gradd yn y prosbectws hwn.

## Derbyn Myfyrwyr

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir sydd â'r potensial a'r penderfynoldeb i lwyddo ar ein rhaglenni astudio. Gan ddechrau gyda'n harferion derbyn a recriwtio, rydym yn gweithio i ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau gyda'r nod o helpu myfyrwyr i wneud y gorau o fywyd myfyrwyr.

Rydym ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'n harferion a'n gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr.

## Gofynion mynediad

Nodir y gofynion mynediad nodweddiadol a restrir yn y prosbectws hwn o ran Safon Uwch, y Fagloriaeth Ryngwladol, Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch a BTEC, ond rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sy'n cynnig cymwysterau amgen ar lefel gyfatebol, gan gynnwys y rhai sydd â chyfuniadau o gymwysterau a'r rhai sydd â phrofiad bywyd/gwaith perthnasol arall. Yn aml, bydd cynigion nodweddiadol ar gyfer y cymwysterau hyn yn cael eu rhestru ar ein gwefan ynghyd â gwybodaeth am feini prawf derbyn a dethol perthnasol.

Os ydych yn gwneud cais am raglen gydanrhydedd, fe'ch cynghorir i edrych ar ein gwefan i gael gwybodaeth am ofynion mynediad.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses**

Mae ein tiwtoriaid derbyn hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi. Rhestrir y manylion cysylltu yn y prosbectws hwn.

## Polisïau a gweithdrefnau derbyn

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisïau a'n gweithdrefnau derbyn, ewch i: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying** neu cysylltwch â'r tîm derbyn: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/contact-us**
Ffôn: **029 2087 9999**

## Gohirio mynediad

Bydd y rhan fwyaf o'n rhaglenni gradd yn ystyried ceisiadau gan y rhai sy'n dymuno gohirio mynediad am flwyddyn. Gofynnwn i chi nodi hyn yn glir, ynghyd â'ch rhesymau dros ohirio, ar eich ffurflen gais.

## Newidiadau yn y cwricwlwm

Mae newidiadau o bwys wedi cael eu gwneud i gwricwlwm yr ysgolion yng Nghymru a Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffordd yr ydym wedi ymateb i rai o'r newidiadau hyn wedi'u hamlinellu isod, ond cewch wybodaeth fanylach ar ein gwefan yn: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying**

## Gwyddoniaeth ymarferol

Lle y bo'n berthnasol, byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi ymgymryd â'r elfen hon. Ar gyfer nifer o'n rhaglenni (yn bennaf yn y pynciau gwyddonol) lle mae'r cymhwyster yn cynnwys elfen o wyddoniaeth ymarferol, bydd disgwyl i chi lwyddo ynddi er mwyn cael mynediad i'r rhaglen. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

## Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch

Os ydych yn astudio Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch / Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ynghyd â thri phwnc Safon Uwch, bydd unrhyw gynnig a gewch yn un hyblyg ac yn caniatáu i chi fodloni'r graddau NAILL AI o Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch a graddau mewn dau bwnc Safon

Uwch NEU'R gofynion o ran graddau mewn tri phwnc Safon Uwch. Sylwer bod rhaid bodloni unrhyw ofynion penodol o ran pynciau ym mhob cyfuniad o hyd.

Os ydych yn astudio Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ynghyd â thri phwnc Safon Uwch, bydd unrhyw gynnig a gewch yn un hyblyg ac yn caniatáu i chi fodloni'r graddau **NAILL AI** o Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a graddau mewn dau bwnc Safon Uwch **NEU'R** gofynion o ran graddau mewn tri phwnc Safon Uwch.

Sylwer bod rhaid bodloni unrhyw ofynion penodol o ran pynciau ym mhob cyfuniad o hyd.

## Cymhwyster Prosiect Estynedig (EPQ)

Ac eithrio Meddygaeth a Deintyddiaeth, rydym yn cydnabod yr EPQ ar gyfer mynediad i'n holl raglenni gradd.

Os bydd ymgeisydd yn astudio'r EPQ ochr yn ochr â 3 phwnc Safon Uwch (neu gyfwerth), bydd hyn yn cael ei gydnabod mewn cynnig astudio (ac eithrio'r eithriadau a roddir uchod) ar y sail y bydd ennill gradd A yn yr EPQ yn gostwng y gofynion mynediad un radd. Er enghraifft, byddai cynnig AAB mewn Safon Uwch yn cael ei ddiwygio i AAB mewn 3 phwnc Safon Uwch NEU radd A yn yr EPQ ac ABB mewn 3 phwnc Safon Uwch".

## Cymwysterau sy'n gyfwerth â TGAU

Mae gan gymwysterau TGAU yng Nghymru a Lloegr strwythurau graddio gwahanol. Noder y gall ein gofynion mynediad newid felly cadwch lygad ar ein gwefan i weld y cywerthoedd diweddaraf. Ar hyn o bryd, dyma'r cywerthoedd. Lle ceir cywerthedd dwy radd A* a C, bydd angen y radd isaf e.e. 8 ar gyfer gradd A* a 4 ar gyfer gradd C, oni nodir hyn fel arall.

### Graddio TGAU

| Cymru | Lloegr |
|---|---|
| A* | 9 ac 8 |
| A | 7 |
| B | 6 |
| C | 5 a 4 |

## Ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau gofal iechyd

### Archwiliad meddygol

Os ydych yn bwriadu astudio cwrs gofal iechyd, bydd yn rhaid i chi gael archwiliad meddygol cyn dechrau eich cwrs.
Mae'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn goruchwylio'r broses sgrinio hon.

### Gwirio Cofnodion Troseddol

Cewch eich derbyn i gyrsiau gofal iechyd os ydych chi'n bodloni Adran 4(2) Gorchymyn (Eithrio) 1975 y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (1974) a chanllawiau Cylchlythyr HV 88(9) y DHSS ynghylch diogelu plant a gwiriadau gan yr heddlu. Caiff lleoliadau'r rhaglenni hynny hefyd eu diffinio'n sefyllfaoedd wedi'u rheoleiddio o fewn Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Felly, os ydych yn bwriadu gwneud cais, bydd gofyn i chi ddarparu datgeliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel amod eich cofrestru/derbyn.

## Nodiadau i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg

Saesneg yw'r brif iaith addysg ym Mhrifysgol Caerdydd ond mae darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ac yn cael ei datblygu mewn rhai meysydd. Os ydych yn siarad Cymraeg, efallai eich bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â thiwtor personol sy'n siarad Cymraeg. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau eich bod yn cael rhywun sy'n siarad Cymraeg cyn belled â bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn eich maes dewisol. Gallwch hefyd gyflwyno gwaith i'w asesu a sefyll arholiadau yn Gymraeg, waeth beth fo iaith addysgu'r rhaglen. (Efallai na fydd hyn yn bosibl mewn meysydd clinigol penodol.) Mae rhywfaint o'r llety myfyrwyr yn Nhal-y-bont a Llys Senghennydd wedi'u neilltuo ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg sy'n dymuno bod gyda'i gilydd. Os hoffech fanteisio ar hyn nodwch hynny yn eich cais am lety.

Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying**

## Astudiaethau rhan-amser

Gweler tudalen 147.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'n harferion a'n gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr. Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n croesawu a sicrhau cyfle cyfartal i ymgeiswyr o bob oed, ethnigrwydd, anabledd, strwythur teuluol, rhywedd, cenedl, tueddfryd rhywiol, hil, crefydd neu gred arall, a chefndir economaidd-gymdeithasol.

## Dyddiadau ymrestru a'r semestrau

Cewch ragor o wybodaeth am ymrestru a dyddiadau semestrau ar-lein:
**www.cardiff.ac.uk/cy/new-students/online-enrolment**
**www.cardiff.ac.uk/semesterdates**

## Darllenwch yn ofalus – Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y prosbectws hwn yn ymwneud â'r cylch derbyn ar gyfer Mynediad 2023 ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng cyhoeddi'r prosbectws hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno i ni a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais, rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma.

Lle ceir gwahaniaeth rhwng cynnwys y prosbectws hwn a'n gwefan, rhowch flaenoriaeth i gynnwys y wefan, sy'n cynrychioli'r modd yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Bydd unrhyw le a gynigir i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn amodol ar delerau ac amodau sydd i'w gweld ar ein gwefan, **www.caerdydd.ac.uk**. Fe'ch cynghorir i'w darllen cyn gwneud cais. Mae'r telerau a'r amodau yn nodi, er enghraifft, pryd y gallem ni wneud newidiadau i'r cwrs o'ch dewis neu i'r rheoliadau i fyfyrwyr. Felly, mae'n bwysig eich bod yn eu darllen ac yn eu deall.

Os na allwch gael gafael ar wybodaeth ar-lein, cysylltwch â ni: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/contact-us**
Ffôn: **029 2087 4455**

### Eich gradd

Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

# Mynegai cyffredinol


**A**

Anableddau 31
Archwiliadau Meddygol 153
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg 36, 37, 148, 149
Astudiaethau Rhan-amser 147

**B**

Bagloriaeth Cymru 153
Benthyciadau/Grantiau Cynhaliaeth 151
Brifysgol, y 12
Bwrsariaethau 151
Bywyd Cymraeg yng Nghaerdydd 36, 37
Bywyd nos 8, 32

**C**

Caerdydd – Prifddinas 8
Caerdydd – y Brifysgol 12
Canolfan Gofal Dydd 31
Caplaniaethau 31
Ceisiadau 152
Chwaraeon 34
Clinig Llygaid 31
Clybiau a Chymdeithasau 32-34
Cofrestru 153
Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y 36, 148
Cwnsela 31
Cwrs Sylfaen 150
Cyfleoedd Byd-eang 24
Cyfleusterau Cyfrifiadura 30
Cyflogadwyedd 20-23
Cymdeithasau a Chlybiau 32-34
Cyngor ac Arian 31
Cyrsiau Blwyddyn Ragarweiniol 150
Cyswllt Ysgolion 156

**D**

Diwrnodau Agored 156
Dyddiadau Semester 153

**Ff**

Ffioedd Dysgu 151
Ffioedd 151

**G**

Gofynion Mynediad, Cyffredinol 152
Gohirio Mynediad 152
Gwasanaeth Iechyd 31
Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr 30, 31
Gwasanaethau Gwybodaeth 30
Gweithdrefnau Ymgeisio UCAS 152
Gwirio Cofnodion Troseddol/DBS 153
Gyrfaoedd 22

**I**

Ieithoedd i Bawb 24

**Ll**

Lles 31
Llety 26, 27, 28
Llyfrgelloedd 30
Llyfrynnau (Ysgolion Academaidd) 156

**M**

Map 38, 39
Meddygon 31
Myfyrwyr sy'n Blogio 29

**N**

Neuaddau Preswyl 26, 27, 28

**P**

Polisïau Derbyn 152
Preswylfeydd 26, 27, 28

**Rh**

Rhaglenni Gradd Cydanrhydedd 146, 147

**S**

Sut i Wneud Cais 152
Swyddi/Siop Swyddi 32

**T**

Teithio i Gaerdydd 156

**U**

Undeb y Myfyrwyr 32, 33

**Y**

Ymrestru 153
Ymweld â'r Brifysgol 156
Ysgoloriaethau 151


# Mynegai pynciau gradd


**A**

Addysg 84
Addysg a Chymdeithaseg 84
Almaeneg 103
Anatomeg 42
Archaeoleg a Hanes yr Henfyd 99
Archaeoleg a Hanes yr Oesoedd Canol 99
Archaeoleg 99
Astroffiseg 77
Astudiaethau Busnes a Japaneeg 49
Astudiaethau Crefyddol 99
Astudiaethau Pensaernïol 129
Athroniaeth 132

**B**

Bancio a Chyllid 49
Bancio a Chyllid gydag Iaith Ewropeaidd 49
Biocemeg 42
Bioleg 42
Biowyddorau 42
Bydwreigiaeth 88

**C**

Cadwraeth 99
Cemeg 54
Cemeg gyda Blwyddyn Dramor 54
Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant 54
Cerddoriaeth 57
Cydanrhydedd 146
Cyfieithu 103
Cyfrifeg 49
Cyfrifeg a Chyllid 49
Cyfrifeg gydag Iaith Ewropeaidd 49

| | |
|---|---|
| Cyfrifiadureg | 60 |
| Cyfrifiadureg gyda Diogelwch a Fforenseg | 60 |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant, y | 118 |
| Cymdeithasaeg | 84 |
| Cymraeg | 63 |
| Cynllunio a Datblygu Trefol | 66 |
| Cynllunio Trefol | 66 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | 81 |
| **D** | |
| Dadansoddeg Gymdeithasol | 84 |
| Daeareg | 94 |
| Daeareg Fforio ac Adnoddau | 94 |
| Daearyddiaeth Amgylcheddol | 94 |
| Daearyddiaeth (Ddynol) | 66 |
| Daearyddiaeth (Ddynol) a Chynllunio | 66 |
| Daearyddiaeth y Môr | 94 |
| Deintyddiaeth | 70 |
| Diwinyddiaeth | 99 |
| **E** | |
| Economeg | 49 |
| Economeg a Chyllid | 49 |
| Economeg a Gwleidyddiaeth | 49, 81 |
| Economeg ac Astudiaethau Rheoli | 49 |
| Economeg Busnes | 49 |
| Economeg Busnes gydag Iaith Ewropeaidd | 49 |
| Economeg gydag Iaith Ewropeaidd | 49 |
| Eidaleg | 103 |
| **F** | |
| Ffarmacoleg Feddygol | 117 |
| Fferylliaeth | 74 |
| Ffiseg | 77 |
| Ffiseg Ddamcaniaethol a Chyfrifiadurol | 77 |
| Ffiseg gyda Ffiseg Feddygol | 77 |
| Ffiseg gyda Lleoliad Proffesiynol | 77 |
| Ffiseg gyda Seryddiaeth | 77 |
| Ffiseg gyda Seryddiaeth gyda Lleoliad Proffesiynol | 77 |
| Ffisiotherapi | 88 |
| Ffrangeg | 103 |
| **G** | |
| Geneteg | 42 |
| Geowyddorau Amgylcheddol | 94 |
| Gwleidyddiaeth | 81 |
| Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol | 81 |
| Gwyddorau Anatomeg | 42 |
| Gwyddorau Biofeddygol | 42 |
| Gwyddorau Biolegol | 42 |
| Gwyddorau Cymdeithasol | 84 |
| Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol | 84 |
| Gwyddorau Gofal Iechyd | 88 |
| Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr | 94 |
| Gyfraith a Ffrangeg, y | 140 |
| Gyfraith a Throseddeg/Gwleidyddiaeth/Cymdeithaseg, y | 140 |
| Gyfraith a'r Gymraeg, y | 140 |
| Gyfraith, y | 140 |
| **H** | |
| Hanes | 99 |
| Hanes Cymru | 99 |
| Hanes gyda Hanes Cymru | 99 |
| Hanes Modern a Gwleidyddiaeth | 99 |
| Hanes yr Henfyd | 99 |
| Hanes yr Henfyd a'r Oesoedd Canol | 99 |
| Hanes yr Oesoedd Canol | 99 |
| Hylendid Deintyddol | 70 |
| Hylendid Deintyddol a Therapi Deintyddol | 70 |
| **I** | |
| Iechyd (Gwyddorau Gofal Iechyd) | 88 |
| Ieithoedd Modern | 103 |
| **J** | |
| Japaneeg a(c) Almaeneg/Eidaleg/Ffrangeg/Sbaeneg | 103 |
| **Ll** | |
| Llenyddiaeth Saesneg | 132 |
| **M** | |
| Mathemateg | 108 |
| Mathemateg a Cherddoriaeth | 108 |
| Mathemateg a Ffiseg | 77, 108 |
| Mathemateg Ariannol | 108 |
| Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth | 108 |
| Meddygaeth | 112 |
| **N** | |
| Niwrowyddorau | 42 |
| Nyrsio | 88 |
| **O** | |
| Optometreg | 121 |
| **P** | |
| Peirianneg | 124 |
| Peirianneg Bensaernïol | 124 |
| Peirianneg Drydanol ac Electronig | 124 |
| Peirianneg Fecanyddol | 124 |
| Peirianneg Feddygol | 124 |
| Peirianneg Integredig | 124 |
| Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol | 60 |
| Peirianneg Sifil | 124 |
| Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol | 124 |
| Polisïau Cymdeithasol | 84 |
| Polisïau Cymdeithasol a Chymdeithaseg | 84 |
| Portiwgaleg | 103 |
| **R** | |
| Radiograffeg: Radiograffeg a Delweddu Diagnostig | 88 |
| Radiotherapi ac Oncoleg | 88 |
| Rhaglenni Rhagarweiniol/Rhaglenni Sylfaen | 150 |
| Rheoli | 49 |
| Rheoli Busnes | 49 |
| Rheoli Busnes (Adnoddau Dynol) | 49 |
| Rheoli Busnes (Logisteg a Gweithrediadau) | 49 |
| Rheoli Busnes (Marchnata) | 49 |
| Rheoli Busnes (Rheoli Rhyngwladol) | 49 |
| Rheoli Busnes gyda'r Gymraeg | 52 |
| Rheoli Busnes gydag Iaith Ewropeaidd | 49 |
| **S** | |
| Saesneg Iaith | 132 |
| Saesneg Iaith a Llenyddiaeth | 132 |
| Sbaeneg | 103 |
| Seicoleg | 137 |
| Seicoleg gyda Lleoliad Proffesiynol | 137 |
| Seryddiaeth | 77 |
| Sŵoleg | 42 |
| **T** | |
| Troseddeg | 84 |
| Tsieinëeg | 103 |
| Therapi Galwedigaethol | 88 |
| **Y** | |
| Ysgrifennu Creadigol | 132 |


Mae'r prosbectws hwn ar gael mewn fformatau gwahanol.

Mae ar gael ar ein gwefan hefyd: **www.caerdydd.ac.uk/prosbectws-israddedig**

I ofyn amdano mewn fformat arall, cysylltwch â Swyddfa'r Prosbectws:

**www.caerdydd.ac.uk/questions**
Ebost: **ymholiad@caerdydd.ac.uk**

# Dysgu mwy ...



**www.caerdydd.ac.uk**

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf a manylaf am y Brifysgol a'i gweithgareddau ar ein gwefan.

## Cyhoeddiadau

Gallwch lawrlwytho copïau o lyfrynnau ein Hysgolion a'r Prosbectws i Israddedigion (yn Gymraeg a Saesneg) yn: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/prospectus**

Fel arall, mae copïau ar gael yn Swyddfa'r Prosbectws:
Ffôn: **(029) 2087 4455**
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/contact-us**

## Gwasanaeth cyswllt ag ysgolion a cholegau

Mae'r tîm cyswllt ag ysgolion a cholegau yn cynnig cyngor i ddarpar fyfyrwyr a'u hathrawon ar bob agwedd ar addysg uwch. Nod y staff cyswllt yw helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau deallus am eu dewisiadau yn addysg uwch. Mae'r gwasanaeth a gynigir i ysgolion a cholegau yn cynnwys rhaglen o gyflwyniadau i fyfyrwyr a rhieni. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r swyddfa cyswllt ag ysgolion:
Ffôn: **(029) 2087 4455**
Ebost: **schools@caerdydd.ac.uk**
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/teachers-and-careers-advisers**

## Confensiynau AU UCAS

Mae'r staff cyswllt ag ysgolion yn mynd i lawer o gonfensiynau Addysg Uwch UCAS hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.ucas.com/exhibitions**

## Rhifau ffôn defnyddiol

| | |
|---|---|
| Prifysgol Caerdydd: | (029) 2087 4000 |
| Swyddog Cyswllt ag Ysgolion: | (029) 2087 4455 |
| Y Swyddfa Ryngwladol: | (029) 2087 4432 |
| Swyddfa Preswylfeydd: | (029) 2087 4849 |
| Undeb y Myfyrwyr: | (029) 2078 1400 |

**Cyfeiriad**: Prifysgol Caerdydd, Prif Adeilad, Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AT

## Diwrnodau Agored

Yn ogystal â'n digwyddiadau ar y campws, bydd ein Diwrnodau Agored Rhithwir yn rhoi rhagflas digidol i chi ar fywyd yng Nghaerdydd. Mae'r digwyddiadau ar-lein hyn yn cynnwys gweminarau a chyflwyniadau byw, yn ogystal â chynnwys fideo wedi'i recordio ymlaen llaw sy'n cwmpasu ein cyrsiau, bywyd myfyrwyr a Chaerdydd ei hun. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys hwn ar gael drwy gydol y flwyddyn i chi gael mynediad ato ar alw.

## Teithio i Gaerdydd

**Cyfarwyddiadau o ddrws i ddrws ar y ffyrdd:**
**https://www.cardiff.ac.uk/cy/visit/directions**

**Llywio â lloeren:**
Os ydych chi'n defnyddio teclyn llywio â lloeren, dyma'r codau post:
Campws Parc Cathays: **CF10 3AT**
Campws Parc y Mynydd Bychan: **CF14 4XN**

**Sganiwch y côd QR i gael rhagor o wybodaeth.**



## Taith rithwir o amgylch y campws

Cewch ddysgu rhagor am y Brifysgol a dinas Caerdydd drwy fynd ar ein taith ryngweithiol ar-lein: **virtualtour.cardiff.ac.uk**



CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

## Diwrnodau Agored 2022

Mwy o wybodaeth ar gael:
**www.caerdydd.ac.uk/diwrnodagored**

Ffôn:
**029 2087 4455**

Ebost:
**ymholiad@caerdydd.ac.uk**

## Cysylltu**Caerdydd**

**www.caerdydd.ac.uk**

@prifysgolCdydd

facebook.com/israddedigioncaerdydd

instagram.com/prifysgolcdydd

youtube.com/user/cardiffuni

## Cysylltwch â ni

I fyfyrwyr o'r DU:
Ffôn: **029 2087 4455**
Ebost: **ymholiad@caerdydd.ac.uk**

I fyfyrwyr o weddill y byd:
Ffôn: **+44 (0)29 2087 4432**
Ebost: **international@caerdydd.ac.uk**